Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

Gorffennaf 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPlant@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddPlant**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

Gorffennaf 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru



**Cefin Campbell AS**
Plaid Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Gareth Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jack Sargeant AS**
Llafur Cymru

## Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Cyn-Gadeirydd y Pwyllgor:**
**Jayne Bryant AS**
Llafur Cymru



**Laura Anne-Jones AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Ken Skates AS**
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

## Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **7**

**Argymhellion** .......... **9**

**1. Ein defnydd o dermau ac iaith** .......... **15**

**2. Pam y gwnaethom ymgymryd â'r gwaith hwn a beth wnaethom ni?** .......... **17**

Beth wnaethom ni? .......... 18

**3. Ein canfyddiadau allweddol** .......... **23**

**4. A oes mynediad cyfartal at ofal plant?** .......... **26**

Gofal Plant yng Nghymru: y cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi .......... 26

Darpariaeth blynyddoedd cynnar a chyn-ysgol .......... 29

Capasiti cyfyngedig o fewn y sector i ddarparu gofal cynhwysol .......... 29

Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGPau) .......... 33

Cyllid .......... 35

Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant .......... 37

Staffio a hyfforddiant .......... 42

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg .......... 44

Effaith y Ddeddf a'r Cod ADY .......... 45

Clybiau cyn ac ar ôl ysgol a darpariaeth dros y gwyliau .......... 49

Profiadau cadarnhaol ac arferion da .......... 56

Profiadau o wahanol fathau o angen .......... 58

Darpariaeth i blant byddar / plant â cholled clyw .......... 58

Defnyddwyr cadeiriau olwyn .......... 59

Awtistiaeth .......... 59

Ein barn ni: Mynediad at ofal plant .......... 60

Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant .......... 61

Cyllid ... 62
Staffio a hyfforddiant ... 63
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ... 64
Effaith y Ddeddf a'r Cod ADY ... 64
Darpariaeth ar ôl ysgol a thros y gwyliau ... 65

**5. A oes mynediad cyfartal i ysgolion? ... 67**

Y fframwaith statudol ... 67
Beth sy'n digwydd ledled Cymru? ... 71
Ysgolion arbennig neu addysg brif ffrwd ... 78
Mynediad at bob rhan o fywyd yr ysgol ... 90
Mynediad at addysg / amserlennu ... 94
Dyheadau academaidd ... 94
Absenoldebau, amserlenni â llai o oriau a gwaharddiadau ... 97
Gweithredu'r Ddeddf a'r Cod ADY ... 104
Bwlio ... 116
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ... 120
Adnoddau ysgol ... 123
Cyllid ... 124
Recriwtio a chadw staff ... 127
Hyfforddiant i staff ysgol a'u gwybodaeth ... 129
Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ... 129
Datblygiad proffesiynol a hyfforddiant parhaus ... 132
Ystadau ysgolion ... 137
Effaith y pandemig ... 141
Cludiant i ddysgwyr ... 143
Pa newidiadau y mae pobl am eu gweld? ... 148

Ein barn ni ....... 150

Ysgolion arbennig neu addysg brif ffrwd ....... 151

Mynediad at addysg ac amserlennu ....... 154

Gweithredu'r Ddeddf a'r Cod ADY ....... 155

Bwlio ....... 156

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ....... 157

Adnoddau ysgol ....... 158

Hyfforddiant i staff ysgol a'u gwybodaeth ....... 161

Ystadau ysgolion ....... 163

Teithio gan Ddysgwyr ....... 164

**6. Beth yw'r effeithiau ar iechyd meddwl, llesiant a deilliannau addysgol? ....... 167**

Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant ....... 167

Plant a phobl ifanc ....... 167

Rhieni a gofalwyr ....... 172

Yr effaith ar ddeilliannau addysgol ....... 176

Yr effaith ar gyflogaeth rhieni ac incwm aelwydydd ....... 180

Yr effaith ar y teulu ehangach ....... 182

Ein barn ni ....... 184

**7. Beth yw'r rhwystrau i gynnig darpariaeth gynhwysol? ....... 186**

Cymorth gan awdurdodau lleol ....... 186

Cymorth ehangach gan broffesiynau eraill ....... 192

Amseroedd aros am asesiadau a chymorth ....... 199

Ein barn ni ....... 204

Cymorth gan awdurdodau lleol ....... 204

Cymorth ehangach gan weithwyr proffesiynol eraill ....... 204

Amseroedd aros am asesiadau a chymorth ....... 206

**8. A oes gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fynediad at yr wybodaeth gywir ac a wrandewir arnynt? ..... 208**

Mynediad at wybodaeth ..... 208

Gwrando ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ..... 217

Ein barn ni ..... 222

**9. A oes gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ddewisiadau o ran eu hopsiynau gofal plant ac addysg? ..... 225**

Ein barn ni ..... 229

**10. Pa fath o ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer gwahanol fathau o anabledd? ..... 231**

Awtistiaeth ..... 231

Anableddau synhwyraidd ..... 232

Plant a phobl ifanc byddar ..... 232

Plant dall a rhannol ddall ..... 233

Diabetes ..... 235

Ein barn ni ..... 238

**Atodiad 1: Rhestr o weithgareddau ymgysylltu ..... 239**

Cynhaliodd y Pwyllgor weithgareddau ymgysylltu. Gellir gweld crynodeb o ganfyddiadau'r gweithgareddau ar wefan y Pwyllgor. ..... 239

Ymweliadau ag ysgolion ..... 239

Digwyddiadau ymgysylltu eraill ..... 239

**Atodiad 2: Rhestr o fynychwyr yn y digwyddiad rhanddeiliaid ..... 240**

**Atodiad 3: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ..... 241**

**Annex 4: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig ..... 244**

Gwybodaeth ychwanegol ..... 247

# Rhagair y Cadeirydd

Mae gofal plant da yn y blynyddoedd cynnar, ac yna addysg dda, yn hanfodol er mwyn i bob plentyn a pherson ifanc allu ddatblygu i fod yn oedolion a'r math o oedolion y dymunant fod. Ac eto, mae gormod o blant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol nad ydynt yn cael y cyfleoedd hyn. Credaf fod yr adroddiad hwn yn foment bwysig i lunwyr polisïau gydnabod hyn, a dechrau gwneud y newidiadau i ddarparu gofal plant ac addysg sy'n fwy cynhwysol.

Penderfynwyd ymgymryd â'r gwaith hwn oherwydd ein bod yn gwybod o'n gwaith achos ni ein hunain fel Aelodau unigol bod y plant a'r bobl ifanc hyn a'u teuluoedd yn wynebu rhwystrau sylweddol. Ond nid oeddem yn llwyr ddeall pa mor fawr oedd y broblem. Erbyn hyn, mae gennym syniad llawer cliriach, ac nid yw'n braf ei ddarllen.

Rydym wedi siarad â theuluoedd o bob rhan o Gymru, yn ogystal ag ymarferwyr, a sefydliadau cynrychioliadol. Roedd yr hyn a glywsom yn ddifrifol ac yn destun pryder. Bydd llawer o'r straeon gan unigolion yn aros gyda mi am byth. Clywsom sut y mae teuluoedd yn gorfod brwydro am gymorth syml a sylfaenol hyd yn oed. Mae'r anghydraddoldebau hyn yn cael effaith sylweddol ledled Cymru, nid yn unig ar y plant neu'r bobl ifanc unigol, ond ar eu teuluoedd, y gymuned ehangach ac ar Gymru yn ehangach.

Gwelwyd ambell lygedyn o oleuni ymysg y duwch. Rydym wedi clywed am enghreifftiau ysbrydoledig o sut y mae plant a phobl ifanc wedi ffynnu gyda'r cymorth cywir sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae arferion da i'w gweld ledled Cymru, ond yn anffodus, mae gormod o anghysondebau. Yn aml, mae'r arferion da hyn i'w priodoli i ddyfalbarhad llond llaw o unigolion, sy'n weithwyr proffesiynol neu deuluoedd, yn hytrach na dull gweithredu systematig a chyson.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys pum casgliad allweddol, ac yna 32 o argymhellion manwl. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu'n ystyrlon â'r rhain, a meddwl o ddifrif am y newidiadau a all ddechrau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac ystyrlon ar unwaith.

Rydym yn ymwybodol o'r heriau y mae Llywodraeth Cymru, ysgolion, darparwyr gofal plant, awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac eraill sy'n ymwneud â'r meysydd hyn eisoes yn eu hwynebu. Yn benodol, yr heriau ariannol sy'n wynebu pawb. Ond mae hyn yn rhy bwysig i'w anwybyddu. Mae arnom ddyled i'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd ledled Cymru sy'n cael cam ar hyn o bryd, ac sy'n talu pris mawr am y

methiannau hyn. Gydag ewyllys a phenderfyniad a thrwy ganolbwyntio o ddifrif ar y grwpiau hyn o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, credwn y gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Edrychwn ymlaen at weld ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad, ac at y ddadl ddilynol yn y Senedd. Ond nid dyna fydd diwedd y gân. Byddwn yn cadw llygad barcud ar y camau a gymerir a sut y maent yn gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad am weddill tymor y Senedd.

**Buffy Williams AS**
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei barn ynghylch ein casgliadau allweddol, ac wrth ymateb i'r argymhellion dylai nodi'r camau penodol y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion pellgyrhaeddol yr ydym wedi'u nodi yn y casgliadau.......... Tudalen 25

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mwy o ymchwil a data ar gael ar y bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant, a all helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu darpariaeth gynhwysol. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn casglu data pan fydd plant a phobl ifanc yn gadael neu'n symud rhwng darpariaethau gofal plant ac addysg a'r rhesymau dros hynny. Dylid defnyddio'r data hyn wedyn fel sail i adolygiadau, hyfforddiant ac asesiadau yn y dyfodol ar gyfer darparwyr gofal plant ac addysg. .......... Tudalen 61

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei hymateb i'r argymhellion a wneir yn yr Ymchwil i Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant gyda ni. Wrth ddarparu hyn, dylai Llywodraeth Cymru fanylu ar sut y mae'n sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith a sut y mae'r broses weithredu'n cael ei monitro.
.......... Tudalen 62

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y dylid llenwi bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant ar gyfer gofal plant cynhwysol a hygyrch a nodir mewn ADGPau. Dylai hyn gynnwys amlinellu sut y gall Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio a chefnogi ei gilydd i sicrhau bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i ddarparu gofal plant cynaliadwy a chynhwysol ym mhob rhan o Gymru. .......... Tudalen 62

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y gall geisio symleiddio'r amrywiol ffrydiau ariannu sydd ar gael i ddarparwyr gofal plant er mwyn sicrhau ei bod yn haws i ddarparwyr gofal plant wybod pa gymorth y gallant ei gael a'r ffordd orau o gael gafael arno. .......... Tudalen 63

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cymorth ariannol ar gyfer gofal plant yn seiliedig ar anghenion y plentyn a'r lleoliad ac nid ar gymhwystra'r rhieni. Yn unol ag , dylai Llywodraeth Cymru ystyried clustnodi cyllid er mwyn sicrhau bod cyllid sydd wedi'i anelu at gefnogi darpariaeth gynhwysol yn cael ei ddefnyddio at y diben penodol hwn. .......... Tudalen 63

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau cwmpas yr adolygiad o'r Ddeddf a'r Cod ADY, ac amlinellu'r amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiad hwn, a

ph'un a fydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu cyhoeddi ai peidio. ........................................................................................................................................ Tudalen 65

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb datblygu pecyn o hyfforddiant, canllawiau ac adnoddau ar y Ddeddf a'r Cod ADY ar gyfer lleoliadau gofal plant. Fel rhan o'r gwaith dichonoldeb, dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth benodol i sut y byddai darparwyr gofal plant yn gallu cael mynediad at hyfforddiant o'r fath a'i ariannu. ........................................................................ Tudalen 65

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i'r holl ddarparwyr gofal plant ynghylch yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud i gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf a'r Cod ADY. Dylai'r canllawiau hyn roi enghreifftiau pendant o'r hyn y disgwylir i ddarparwyr ei wneud. Dylid diweddaru'r canllawiau hyn yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol, yn berthnasol ac yn ddefnyddiol. .......................................... Tudalen 65

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried adolygu strategaethau a chynlluniau hygyrchedd ledled Cymru, gyda'r bwriad o roi cyfarwyddiadau i unrhyw awdurdod lleol neu ysgol sy'n methu â chyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. ........................................................................................ Tudalen 151

**Argymhelliad 11.** Gan weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau ymarferol i ysgolion er mwyn eu helpu i ddeall y model cymdeithasol o anabledd a sut i fabwysiadu'r dull hwn ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Dylai'r canllawiau hyn fod mor ymarferol â phosibl, a dylid eu datblygu ar y cyd â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â sefydliadau anabledd. Dylid diweddaru'r canllawiau'n rheolaidd er mwyn ystyried datblygiadau. Dylai Estyn ymgymryd â gwaith monitro a gwerthuso rheolaidd i weld sut y mae ysgolion yn rhoi'r canllawiau hyn ar waith, a'r effeithiau a gânt ar brofiadau plant a phobl ifanc................................................................... Tudalen 153

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd orau y gall staff nad ydynt yn staff addysgu mewn ysgolion ac awdurdodau lleol gefnogi darpariaeth gynhwysol ledled Cymru. Dylai hyn gynnwys nodi enghreifftiau o arferion gorau o bob rhan o Gymru. Dylai gwaith o'r fath hefyd ystyried y goblygiadau cyllido sy'n gysylltiedig ag arferion gorau, a'r ffordd orau o gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gyflawni hyn. ........................................ Tudalen 154

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i'r defnydd o amserlenni â llai o oriau, sy'n cynnwys hyd yr amser y mae plant a phobl ifanc yn eu dilyn, y rhesymau dros eu defnyddio, a'r camau a gymerir i ddychwelyd plant a

phobl ifanc i amserlen lawn. Dylai'r ymchwil hwn hefyd adolygu'r mecanweithiau a ddefnyddir pan na fydd y canllawiau'n cael eu dilyn, er mwyn sicrhau mai dim ond pan fo hynny'n briodol y defnyddir amserlenni â llai o oriau, a bod dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cael ei fabwysiadu wrth wneud penderfyniadau ar sut i'w defnyddio............ Tudalen 155

**Argymhelliad 14.** Wrth ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad o gyllid ysgolion, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n gyhoeddus sut y bydd yn bwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion neu gamau gweithredu sy'n deillio ohono, a nodi amserlen glir ar gyfer cyflawni'r camau hyn. Yn benodol, dylai amlinellu sut y bydd gwell cysondeb yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt mewn ysgolion............ Tudalen 159

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r cyflyrau mwyaf cyffredin, megis dyslecsia, a fyddai'n elwa o ddatblygu darpariaeth gyffredinol a chymorth a'u darparu i bob ysgol. Dylid gwneud hyn drwy ymgynghori â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â gweithwyr addysg proffesiynol, awdurdodau lleol, a gweithwyr iechyd proffesiynol. Ar ôl i'r gwaith hwn gael ei wneud, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen glir ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth gyffredinol hon. Dylai'r ddarpariaeth hon fod ar gael am ddim i bob ysgol. ............Tudalen 160

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'n glir gyfrifoldebau a dyletswyddau awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau eu bod yn darparu'r cymorth angenrheidiol fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu manteisio ar ei hawl i addysg. Dylai hefyd ystyried a fyddai clustnodi cyllid yn ffordd effeithiol a phriodol o sicrhau bod arian y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio i gefnogi'r grwpiau hyn o blant a phobl ifanc yn cael ei wario yn y ffordd honno. ............Tudalen 161

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r meini prawf ar gyfer AGA i gryfhau'r gofynion ynghylch anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol. Dylai hyn sicrhau bod gan bob athro, ar ddiwedd ei AGA, lefel sylfaenol o sgiliau a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag anabledd ac ADY a bod ganddo'r hyder i gefnogi'r holl blant a phobl ifanc y mae'n eu haddysgu. Dylid hefyd sicrhau bod AGA yn cynnwys y wybodaeth glinigol ddiweddaraf fel bod gan athrawon sydd newydd gymhwyso y wybodaeth ddiweddaraf i fod yn sail i'w hymarfer. ............Tudalen 162

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar ei gwaith ar ddarpariaeth AGA ar gyfer y sector ysgolion arbennig............Tudalen 162

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu modiwl hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth o anabledd i holl staff ysgolion. Dylai hyn gynnwys y model cymdeithasol o anabledd, a sicrhau bod gan bob aelod o staff yr ysgol lefel sylfaenol o ymwybyddiaeth, yn ogystal â'u cyfeirio at adnoddau eraill os ydynt am ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd. Dylai hefyd gyd-fynd â'r ymchwil a'r wybodaeth glinigol ddiweddaraf, a chael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau dilynol. ........................................................................ Tudalen 163

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod adeiladau newydd, neu newidiadau i ystadau ysgolion presennol, yn seiliedig ar brofiadau a thystiolaeth plant, pobl ifanc, teuluoedd a staff sydd â phrofiad bywyd o anabledd. Dylai'r gwaith ymgysylltu hwn hefyd sicrhau bod anghenion y dyfodol yn cael eu hystyried fel bod adeiladau'n gwbl hygyrch i bawb a allai eu defnyddio yn y dyfodol. ........ Tudalen 164

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhagor o fecanweithiau i sicrhau bod mwy o gyfleoedd i rannu a lledaenu arferion da ac arloesol mewn perthynas â theithio gan ddysgwyr. Gallai hyn gynnwys uwchgynhadledd flynyddol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet neu'r Gweinidog perthnasol .......... Tudalen 165

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu'r gwaith o adolygu a chyhoeddi'r pecyn o ganllawiau teithio statudol i ddysgwyr. Wrth ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen glir ar gyfer dolygu'r canllawiau a dyddiad cyhoeddi pendant, gan nodi pryd y daw'r canllawiau diwygiedig i rym. Dylai hefyd nodi sut y bydd yn sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso'n gyson ledled Cymru. ........................................................................ Tudalen 165

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ffyrdd o sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi priodol ar gael i gwmnïau cludiant a'u staff er mwyn meithrin hyder a sgiliau wrth gefnogi plant a phobl ifanc. Fel rhan o hyn, dylid ystyried datblygu achrediad ar gyfer staff. ........................................................................ Tudalen 166

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu symleiddio er mwyn mabwysiadu dull dim drws anghywir yn llawn ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus, ond gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhyngweithio rhwng gwasanaethau iechyd ac addysg. Dylai'r gwaith hwn nodi'r rhwystrau i gydgysylltu gwasanaethau'n effeithiol, yn ogystal â nodi arferion gorau, a mecanweithiau ar gyfer rhannu'r arferion gorau hyn ........................................................................ Tudalen 204

**Argymhelliad 25.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwasanaethau'n cysoni ac yn addasu eu hamserlenni wrth weithio ar draws gwahanol wasanaethau a phroffesiynau er mwyn sicrhau cymorth cyfannol sy'n cefnogi mynediad at ofal plant ac addysg yn y ffordd orau. ........ Tudalen 205

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r niferoedd presennol o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd allweddol, nodi ble mae'r bylchau ar hyn o bryd, sut y bwriedir llenwi'r bylchau hyn a'r niferoedd sydd eu hangen i gefnogi lefel debygol yr angen yn y dyfodol, gan gynnwys nifer y lleoedd hyfforddi sydd eu hangen. Dylai hyn wedyn gael ei ategu gan gynllun cyflawni clir. ........ Tudalen 205

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru edrych yn fanylach ar yr arfer da yng Nghastell-nedd Port Talbot ble mae ysgolion yn gallu cael cymorth gan Therapyddion Galwedigaethol a ariennir gan yr awdurdod lleol, ac ystyried a fyddai'n elwa o dreialu dulliau o'r fath mewn rhannau eraill o Gymru. Yna dylid gwerthuso cynllun peilot o'r fath yn llawn, ac os bydd yn llwyddiannus, dylid ystyried cyflwyno'r model hwn ledled Cymru. ........ Tudalen 206

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru annog pob awdurdod lleol i wneud cytundebau partneriaeth i gefnogi prynu ac ailgylchu cyfarpar arbenigol ac addasiadau a all helpu plant a phobl ifanc i gael mynediad at ofal plant ac addysg. ........ Tudalen 206

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob awdurdod lleol yn datblygu llwybrau clir sydd ar gael yn eang sy'n amlinellu pa gymorth sydd ar gael, a phwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r cymorth hwn. Dylid diweddaru llwybrau o'r fath yn rheolaidd fel bod y wybodaeth yn parhau i fod yn amserol ac yn berthnasol. Dylai'r rhain fod ar gael yn hawdd ar wefannau awdurdodau lleol a dylent hefyd fod ar gael yn rhagweithiol i deuluoedd pan fyddant yn cysylltu â'r awdurdod lleol i ofyn am gymorth. ........ Tudalen 223

**Argymhelliad 30.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol yn nodi egwyddorion craidd ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am ofal plant. Dylai'r canllawiau hyn nodi y dylai gwybodaeth gael ei chydgynhyrchu gyda theuluoedd, y dylai fod ar gael yn hawdd ac yn gyfleus, mewn sawl fformat, y dylid ei diweddaru, ac y dylid darparu lefel sylfaenol o gysondeb ledled Cymru. Wrth lunio'r canllawiau hyn, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys teuluoedd o bob rhan o Gymru sydd â phrofiadau perthnasol er mwyn sicrhau mai anghenion teuluoedd sydd wrth wraidd y canllawiau........ Tudalen 224

**Argymhelliad 31.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am hawliau mewn addysg, gan sicrhau ei bod ar gael yn eang, mewn amrywiaeth o fformatau, ac yn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddeall beth yw eu hawliau, a sut i geisio unioni cam os bydd eu hawliau wedi cael eu torri......................................................................Tudalen 224

**Argymhelliad 32.** Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun cyflawni clir ar gyfer mynd i'r afael â bylchau mewn swyddi addysgu arbenigol, ar gyfer Athrawon Plant Byddar, ac Athrawon Plant ag Amhariad ar eu Golwg, er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at y cymorth hwn pan fydd ei angen arnynt. Dylai'r cynllun cyflawni hwn gynnwys targedau, amcanion ac amserlenni clir fel y gellir ei fonitro a chraffu arno...............................................Tudalen 238

# 1. Ein defnydd o dermau ac iaith

**1.** Drwy ein holl waith rydym wedi bod yn ystyriol o'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddiwn. Rydym wedi clywed yn uniongyrchol pa mor bwysig a phwerus yw geiriau o ran y modd y mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn teimlo (neu ddim yn teimlo) eu bod yn cael eu cynnwys a'u trin â pharch.

**2.** Caiff ein holl waith ei wneud drwy brism Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("CCUHP"). Ar gyfer yr ymchwiliad hwn, rydym hefyd wedi bod yn ystyriol iawn o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Rydym hefyd wedi defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd i strwythuro ein gwaith, model a ddatblygwyd gan bobl anabl sy'n dweud mai rhwystrau cymdeithasol yw prif achos y problemau. Gall y rhain gynnwys agweddau pobl tuag at anabledd a rhwystrau ffisegol a sefydliadol. Noda mai'r rhwystrau yw'r ffaith bod cymdeithas yn anablu pobl yn hytrach na'r gwahaniaethau rhwng pobl.

**3.** Rydym yn ymwybodol iawn bod ystod o eiriau gwahanol y gellir eu defnyddio i ddisgrifio gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc. Yn ystod yr ymchwiliad, rydym wedi cael adborth am y derminoleg a ddefnyddiwyd gennym, ac rydym wedi ceisio ymateb i hyn ac addasu'r geiriau yr ydym wedi bod yn eu defnyddio.

**4.** Ffocws yr adroddiad hwn yw profiadau plant a phobl ifanc anabl a niwroamrywiol, ac unrhyw blant sy'n dod o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Pan fyddwn yn cyfeirio at "blant a phobl ifanc" yn yr adroddiad hwn, rydym yn golygu'r grwpiau hyn. Lle mae angen inni wahaniaethu rhwng eu profiadau nhw a phrofiadau grwpiau eraill o blant a phobl ifanc, byddwn yn gwneud hynny drwy ddefnyddio'r termau "plant a phobl ifanc nad ydynt yn anabl" a "phlant a phobl ifanc niwronodweddiadol". Yn yr achosion hynny lle yr ydym yn sôn am gyflyrau penodol, byddwn yn defnyddio'r termau perthnasol.

**5.** Byddwn yn cyfeirio at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 fel "Deddf ADY" ac at God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 fel y "Cod ADY".

Pan welwch y term plant a phobl ifanc yn yr adroddiad, mae'n golygu plant a phobl ifanc sydd o fewn cwmpas yr ymchwiliad.

**6.** Pan ddefnyddiwn y term “anabl”, mae hyn yn cwmpasu anableddau corfforol, anableddau synhwyraidd ac anableddau dysgu. Mae Anabledd Cymru wedi diffinio anabledd fel “colli neu gyfyngu ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn cymdeithas ar lefel gyfartal ag eraill oherwydd rhwystrau cymdeithasol ac amgylcheddol.” [1]

**7.** Rydym yn cydnabod y gall defnyddio termau cyffredinol i gwmpasu ystod mor eang o brofiadau olygu efallai na fyddwn yn defnyddio termau y byddai pawb am eu defnyddio i ddisgrifio eu hunain. Lle bynnag y bo’n bosibl, byddwn yn ceisio bod yn benodol. Fodd bynnag, gan fod llawer o’r dystiolaeth yr ydym wedi’i choladu a’r safbwyntiau yr ydym wedi’u clywed yn rhai cyffredinol, bydd yn rhaid inni ddefnyddio termau cyffredinol drwy’r adroddiad cyfan.

[1] Anabledd Cymru, tudalen we Model Cymdeithasol [fel ar Mai 2024]

## 2. Pam y gwnaethom ymgymryd â'r gwaith hwn a beth wnaethom ni?

Drwy ein gwaith achos fel Aelodau o'r Senedd, roeddem yn ymwybodol iawn o'r heriau a wynebir gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn perthynas â gofal plant ac ysgolion. Roedd yn amlwg bod angen edrych ar yr hyn a oedd yn digwydd ledled Cymru, a'r hyn y mae angen iddo newid. Clywsom gan lawer o sefydliadau, yn ogystal â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

**8.** Fel Aelodau unigol, rhan bwysig o'n gwaith yw helpu etholwyr gyda'r problemau sydd ganddynt. Rydym oll yn dra chyfarwydd â'r heriau y mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at ofal plant ac addysg. Er ein bod yn ymwybodol o nifer o achosion yn ein hetholaethau a'n rhanbarthau ein hunain, wrth gael trafodaethau fel Pwyllgor, daeth yn amlwg bod angen edrych ar y materion hyn yn ehangach.

**9.** Hyd y gwyddom, nid oedd ymchwiliad mor eang â hyn yn cwmpasu darpariaeth gofal plant cyn ysgol ac ysgol, ac anableddau corfforol, anableddau synhwyraidd, anableddau dysgu ac anghenion dysgu ychwanegol wedi'i gynnal yn ddiweddar. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r newidiadau ar draws y sector addysg a gofal plant, yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru, ac – yn arbennig o berthnasol i'r ymchwiliad hwn – yn sgil cyflwyno'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol ("ADY") newydd. Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu ar gyfer yr ymchwiliad hwn hefyd wedi bod yn sail i'n gwaith parhaus sy'n edrych ar weithredu'r ddau ddarn allweddol hyn o ddiwygiadau addysg, ac i'r gwrthwyneb.

**10.** Cytunwyd i ymgymryd â'r gwaith hwn ym mis Ionawr 2023. Ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom gytuno ar ein cylch gorchwyl a'n dull o gyflawni'r gwaith hwn. Yn yr un modd â'n holl waith arfaethedig, fe wnaethom brofi'r cwmpas a'n dull arfaethedig yn erbyn ein Cynllun Strategol. Yn arbennig o berthnasol i'r gwaith hwn roedd ein hymrwymiad i:

> *"... ystyried hawliau plant; a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc yn ein holl ymchwiliadau unigol."*[2]

**11.** Mae'r ymchwiliad hwn hefyd yn bodloni amcanion eraill y Strategaeth gan gynnwys:

> *"... sicrhau bod hawliau plant yn greiddiol i bopeth a wnawn.*
>
> *canolbwyntio ar effaith negyddol amddifadedd ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc, a'r anghydraddoldeb sy'n deillio o hynny*
>
> *rhoi lleisiau plant a phobl ifanc wrth galon popeth a wnawn, ac ymdrechu i roi cyfle i'r plant a'r bobl ifanc hynny nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed ddweud eu dweud;*
>
> *chwilio am gyfleoedd i weithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd, Senedd Ieuenctid Cymru a grwpiau trawsbleidiol mewn meysydd o ddiddordeb a rennir a lle y bydd hyn yn gwella ein gwaith craffu."*[3]

**12.** Un o elfennau allweddol ein gwaith fu ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i glywed yn uniongyrchol am eu profiadau, a'r hyn yr hoffent ei weld yn cael ei newid a'i wella.

## Beth wnaethom ni?

**13.** Cytunwyd ar y cylch gorchwyl, a fyddai'n darparu'r fframwaith ar gyfer casglu tystiolaeth a thrywydd ein cwestiynau.

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i fynediad plant a phobl ifanc anabl at ofal plant ac addysg ac i ba raddau y mae darparwyr gofal plant, ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn yr ymchwiliad hwn, hoffai'r Pwyllgor ddeall sut y gall plant a phobl ifanc sy'n niwrowahanol, neu sydd ag anableddau corfforol, anableddau synhwyraidd neu anableddau dysgu gael mynediad at bob agwedd ar addysg a gofal plant.

Yn benodol:

[2] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Strategaeth Fanwl y Chweched Senedd, 2021
[3] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Strategaeth Fanwl y Chweched Senedd, 2021

I ba raddau y mae plant a dysgwyr yn gallu cael mynediad at bob rhan o ddarpariaeth gofal plant ac addysg ar hyn o bryd, gan gynnwys y ffordd y caiff y cwricwlwm ei addysgu yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol.

I ba raddau y mae plant a phobl ifanc wedi'u heithrio o agweddau ar addysg neu ofal plant oherwydd eu hanabledd neu niwrowahaniaeth.

I ba raddau y mae teuluoedd a phlant yn teimlo bod gwahaniaethu uniongyrchol, gwahaniaethu anuniongyrchol neu wahaniaethu yn seiliedig ar anabledd wedi effeithio arnynt.

Effaith unrhyw ddiffyg mynediad neu fynediad cyfyngedig ar iechyd meddwl a llesiant plentyn neu berson ifanc, yn ogystal ag ar ganlyniadau addysgol.

Y rhwystrau sy'n atal ysgolion a darparwyr gofal plant rhag cynnig darpariaeth hygyrch.

I ba raddau yr ymgynghorir â phlant anabl a phlant niwrowahanol a'u teuluoedd am y dewisiadau addysg neu ofal plant sydd ar gael iddynt, ac i ba raddau y maent yn cael eu hysbysu ynghylch y dewisiadau hynny.

A yw rhieni plant anabl a phlant niwrowahanol, a'r plant eu hunain, yn cael gwybodaeth a chymorth effeithiol gan awdurdodau lleol ac ysgolion.

A oes gan blant anabl a niwrowahanol, a rhieni'r plant hyn, yr un lefel o ddewis â phlant a rhieni eraill, a pha faterion sy'n effeithio ar y dewis sydd ar gael o ran ysgolion neu ofal plant.

I ba raddau y mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant sydd â gwahanol fathau o anableddau yn ddigonol.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

**14.** Roedd cwmpas ein hymchwiliad yn fwriadol eang ac yn cwmpasu'r sbectrwm llawn o anableddau ac anghenion, a phlant o bob oed, o enedigaeth hyd ddiwedd addysg statudol. Gwnaethom hyn oherwydd, yn aml, mae natur gwahanol fathau o gyflyrau yn gydgysylltiedig, yn ogystal ag i adlewyrchu'r daith o ddarpariaeth cyn-ysgol i ddarpariaeth ysgol statudol.

**15.** Er mwyn sicrhau bod y cwmpas yn hylaw, penderfynwyd peidio â'i ymestyn i ddewisiadau addysg ôl-16. Mae dadl glir y byddai ymchwiliad tebyg a fyddai'n

edrych ar y materion hyn yn fanwl yn ddefnyddiol a byddwn yn sicr yn ystyried hyn fel rhan o'n rhaglen waith yn y dyfodol.

**16.** Lansiwyd ymgynghoriad ysgrifenedig ar 11 Mai 2023 a ddaeth i ben ar 29 Medi 2023. Roedd hwn yn agored i unrhyw un. Pan wnaethom ei lansio fe wnaethom nodi'n glir, os nad oedd pobl yn dymuno anfon eu barn atom yn ysgrifenedig, y gallem gynnig ffyrdd eraill i bobl gyfrannu. Gallai hyn fod wedi cynnwys fformatau eraill megis tystiolaeth fideo, neu gyfarfod â'n Clercod a allai wedyn ysgrifennu nodyn o'r materion a godwyd. Manteisiodd nifer o bobl ar y cyfle hwn, a chyflwynwyd y nodiadau o'u trafodaethau fel rhan o'r dystiolaeth ysgrifenedig. Wrth lansio'r ymgynghoriad, gwnaed fideo, a chyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o'r wybodaeth am yr ymgynghoriad. Mae rhestr lawn o'r rhai a ymatebodd ar gael yn Atodiad 2.

**17.** Cynhaliwyd tair ar ddeg o sesiynau tystiolaeth lafar rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2023, gan gloi gyda sesiwn gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru; Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd; y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd. Yn dilyn ad-drefnu'r Cabinet ym mis Ebrill 2024, fe wnaethom ysgrifennu at eu holynwyr; Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar gan roi'r cyfle iddynt roi unrhyw ddiweddariadau perthnasol inni ers y sesiwn dystiolaeth derfynol.[4] Fe wnaethant ymateb ar 23 Mai 2024 gan nodi eu bod yn fodlon ar y dystiolaeth a ddarparwyd yn flaenorol, a ategwyd gan y dystiolaeth fwy diweddar a gawsom gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar gyfer ein gwaith ar ddiwygio addysg.[5]

**18.** Ochr yn ochr â'r dystiolaeth ffurfiol hon, cynhaliodd ein tîm Ymgysylltu â Dinasyddion dros 40 o gyfweliadau teuluol gyda rhieni, gofalwyr ac weithiau plant a phobl ifanc o bob cwr o Gymru, a chanddynt ystod eang o brofiadau gwahanol. Cyhoeddwyd nodyn cryno a fersiwn hawdd ei deall o'r cyfweliadau hyn gennym. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru a gweithwyr proffesiynol eraill yn cymryd yr amser i ddarllen y profiadau uniongyrchol hyn, sy'n dystiolaeth rymus o'r problemau y mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu hwynebu.

[4] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar, 22 Ebrill 2024
[5] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog dros Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mai 2023

**19.** Fe wnaethom hefyd sefydlu Panel Cynghori Ar-lein gyda thros 15 o rieni, gofalwyr a phobl ifanc i lywio ein gwaith craffu. Fe wnaethant ddefnyddio eu profiadau personol i gyfrannu at:

- Drywydd ein cwestiynau i Weinidogion Llywodraeth Cymru;
- Ein trafodaethau ar y materion allweddol ac argymhellion posibl;
- Ein hadroddiad drafft.

**20.** Fe wnaethom hefyd ymweld â phum ysgol wahanol. Yn ystod pob un o'r ymweliadau hyn roedd modd inni siarad â staff, myfyrwyr a theuluoedd. Fe wnaethom hefyd ymweld ag ASD Rainbows, meithrinfa sy'n arbenigo mewn darparu gofal plant i blant ag awtistiaeth, anawsterau cyfathrebu neu ymddygiad sy'n gysylltiedig â gorbryder yn Aberpennar. Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda'r rhieni sy'n rhedeg Oakhill ASD Childcare yng Nghasnewydd. Yn olaf, trefnodd Sparkle grŵp ffocws yng Nghanolfan Blant Serennu yng Nghasnewydd, a fynychwyd gan y Cadeirydd ar y pryd. Mae nodiadau o'r holl gyfarfodydd hyn ar gael ar ein gwefan.[6]

**21.** Hoffem dynnu sylw at y ffaith fod aelodaeth y Pwyllgor adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn yn wahanol i'r aelodaeth pan gymerwyd y dystiolaeth, a dim ond un Aelod, sef ein Cadeirydd, a oedd ar y Pwyllgor yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth. Nid yw hyn yn effeithio ar y farn na'r argymhellion sydd yn yr adroddiad, ond credwn ei bod yn bwysig nodi hynny. Mae manylion llawn pawb a fu'n ymwneud â'r gwaith hwn ar gael ar ddechrau'r adroddiad.

**22.** Hoffem ddiolch o galon i bawb sydd wedi cymryd rhan yn ein gwaith, ond yn arbennig i'r teuluoedd hynny sydd wedi rhannu eu profiadau, a oedd yn aml yn brofiadau anodd, gyda'r nod o wella pethau nid yn unig i'w plant eu hunain, ond i'r rhai a fydd yn dilyn ôl eu traed. Mae eu hangerdd a'u dyfalbarhad yn ysbrydoliaeth, a gobeithiwn y bydd ein hadroddiad yn helpu i roi amlygrwydd i'w profiadau, gan eu cyflwyno i gynulleidfa ehangach ac arwain at newid cadarnhaol sy'n cael effaith wirioneddol ar fywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ledled Cymru.

**23.** Mae'r gwaith hwn hefyd wedi'i lywio gan ein gwaith ar weithredu'r diwygiadau addysg sydd wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol y Senedd hon, ac yn benodol ein gwaith craffu ar y diwygiadau ADY. Rydym wedi defnyddio tystiolaeth a gasglwyd yn yr ymchwiliad hwn i lywio'r gwaith hwnnw, ac i'r

[6] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? Tudalen yr ymchwiliad [fel ym mis Mai 2024]

gwrthwyneb. Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau interim ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**24.** Yn olaf, rydym yn cydnabod bod yr adroddiad hwn yn hirfaith ac yn fanwl. Cawsom lawer iawn o dystiolaeth o ansawdd uchel, ac roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig bod yr adroddiad hwn yn cofnodi hynny'n llawn. Credwn hefyd ei bod yn hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i'r naratif ochr yn ochr â'n casgliadau a'n hargymhellion. Er bod yr adroddiad hwn yn hirfaith, rydym yn cynhyrchu crynodebau byr o'r adroddiad, ochr yn ochr â fersiynau hawdd eu deall.

# 3. Ein canfyddiadau allweddol

Mae nifer sylweddol o blant a phobl ifanc yn cael eu hamddifadu o'u hawl i addysg ledled Cymru. Mae hyn yn cael effaith ar eu cyrhaeddiad addysgol, eu cyfleoedd a'u llesiant emosiynol a meddyliol. Mae'r effeithiau'n ymestyn i'r teulu ehangach. Rydym wedi gweld enghreifftiau o blant a phobl ifanc yn ffynnu gyda'r cymorth cywir. Fodd bynnag, mae darpariaeth o ansawdd da yn rhy anghyson ac yn dibynnu ar unigolion ymroddedig.

**25.** Rydym yn gwneud nifer fawr o argymhellion yn yr adroddiad hwn. Nid ydym yn ymddiheuro am wneud hynny. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gall llawer o argymhellion wanhau pŵer un neges gyffredinol weithiau. Felly ochr yn ochr â'n hargymhellion manwl, rydym wedi llunio'r casgliadau clir hyn.

**Casgliad 1.** Mae nifer sylweddol o hawliau plant a phobl ifanc i addysg fel y'u nodir yn Erthyglau 28 a 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael eu torri yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn yn cael cam mawr.

**Casgliad 2.** Gall amddifadu plant a phobl ifanc o'u hawliau i addysg gael effaith fawr ar eu llesiant emosiynol a meddyliol, yn ogystal â'u hiechyd corfforol. Gall effeithio ar eu cyrhaeddiad addysgol, a'u cyfleoedd, a thrwy hynny greu rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud y dewisiadau sy'n gweddu orau i'w huchelgeisiau wrth iddynt dyfu'n oedolion. Mae'r effeithiau hyn yn aml yn rhai gydol oes a phellgyrhaeddol.

**Casgliad 3.** Gall amddifadu plant a phobl ifanc o'u hawliau gael effaith ddirfawr ar eu teuluoedd, yn enwedig ar rieni, gofalwyr a brodyr a chwiorydd, ond rydym yn cydnabod ei fod yn ymestyn i'r teulu ehangach a'r gymuned. Mae teuluoedd yn aml ar eu gliniau yn gorfod brwydro dros hawliau sylfaenol, y mae teuluoedd plant a phobl ifanc nad ydynt yn anabl a / neu sy'n niwronodweddiadol, yn gwbl briodol, yn eu cymryd yn ganiataol. Mae hyn yn cael effaith ar eu hiechyd a'u llesiant

emosiynol, meddyliol a chorfforol eu hunain, ac yn aml yn cael effaith ar eu gallu i weithio hefyd, ac felly ar incwm yr aelwyd.

**Casgliad 4.** Er bod rhywfaint o ddarpariaeth gynhwysol sy'n diwallu anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, mae'r ddarpariaeth hon yn afreolaidd ac yn anghyson ledled Cymru. Mae heriau ychwanegol yn wynebu'r rhai sy'n cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'n amlwg bod loteri cod post ar waith ar gyfer yr holl ddarpariaeth. Mae llawer o rwystrau i ddarpariaeth gynhwysol. Nid yw darparwyr gofal plant ac addysg yn cael y gefnogaeth orau i ddarparu gofal plant ac addysg gynhwysol. Mae darpariaeth dda yn aml i'w phriodoli i ddyfalbarhad unigolion, yn hytrach na dull strwythurol sy'n cefnogi darpariaeth gynhwysol sy'n diwallu anghenion yr holl blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu hardal. Rydym am ddatgan yn glir nad yw hyn yn feirniadaeth ar staff gofal plant neu addysg, sy'n aml yn gweithio'n galed iawn i geisio cynnig darpariaeth gynhwysol.

**Casgliad 5.** Mae'r rhwystrau i ddarparu gofal plant ac addysg gynhwysol yn gymhleth ac yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae rhai ohonynt yn eang iawn ac yn ymwneud â dulliau cymdeithasol o ymdrin ag anabledd a gwahaniaeth tra bod eraill yn eithaf ymarferol.

**26.** Prif ddiben yr adroddiad yw amlinellu'r dystiolaeth a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, credwn hefyd ei bod yn bwysig cofnodi'r heriau y mae llawer gormod o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu hwynebu bob dydd er mwyn i deuluoedd eraill sy'n wynebu heriau tebyg wybod nad ydynt ar eu pen eu hunain. Rydym wedi cael ein taro gan nifer y bobl sydd wedi dweud wrthym eu bod, ar y cychwyn, yn meddwl bod y pethau hyn ond yn digwydd iddyn nhw.

**27.** Mae llawer o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw wedi ffurfio eu rhwydweithiau eu hunain, neu wedi ymuno â rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli, a sefydlwyd gan deuluoedd mewn sefyllfaoedd tebyg. Er bod cefnogaeth gan gyfoedion sydd wedi cael profiadau tebyg yn gallu bod yn hynod bwerus, mae hefyd yn golygu bod yn rhaid i'r baich emosiynol sy'n mynd law yn llaw â hynny gael ei ysgwyddo gan bobl sydd yn aml yn agos at gael eu llorio gan y frwydr ddyddiol i gael cymorth a ddylai fod ar gael yn rhwydd heb orfod wynebu unrhyw frwydr. Gobeithiwn y gall ein hadroddiad ddechrau trafodaeth gyhoeddus ehangach am y cymorth sydd ar gael.

**28.** Hoffem hefyd ganmol yr holl blant, pobl ifanc a theuluoedd a rannodd eu profiadau personol, a oedd yn aml yn brofiadau dirdynnol. Er bod y trafodaethau hyn yn aml yn canolbwyntio ar yr agweddau mwy negyddol ar eu bywydau, gwelwyd llawer o lawenydd a chariad hefyd. Er bod y system yn amlwg yn methu

â diwallu eu hanghenion, roedd eu dyfalbarhad i droedio'r llwybr anodd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y ddarpariaeth orau bosibl yn ysbrydoliaeth.

**29.** Wrth ymateb i'r adroddiad, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ymateb i bob un o'n casgliadau, gan nodi'n benodol a yw'n derbyn y casgliadau hyn.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei barn ynghylch ein casgliadau allweddol, ac wrth ymateb i'r argymhellion dylai nodi'r camau penodol y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion pellgyrhaeddol yr ydym wedi'u nodi yn y casgliadau.

# 4. A oes mynediad cyfartal at ofal plant?

Mae darpariaeth gofal plant gynhwysol a hygyrch yn anghyson, yn amrywiol, ac nid yw'n bodoli mewn rhai ardaloedd. Ar unwaith, mae hyn yn rhoi rhai plant dan anfantais o oedran cynnar. Ar ôl i blant a phobl ifanc ddechrau mynd i'r ysgol, prin yw'r opsiynau ar gyfer gwyliau cynhwysol neu ofal cofleidiol. Gall hyn oll gael effaith fawr ar allu rhieni a gofalwyr i weithio.

## Gofal Plant yng Nghymru: y cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi

**30.** Mae gofal plant ledled Cymru yn cwmpasu ystod o wahanol fathau o ddarpariaeth, sy'n ymgorffori'r sector rheoleiddiedig yn ogystal â'r trefniadau mwy anffurfiol y gall teuluoedd eu gwneud. Mae ein hymchwiliad wedi canolbwyntio ar y ddarpariaeth reoleiddiedig, ffurfiol.

**31.** Mae dau fath o ddarpariaeth gofal plant rheoleiddiedig:

- Gwarchod plant. Pan fydd plant hyd at 12 oed yn derbyn gofal mewn lleoliad domestig nad yw'n gartref i'r plentyn am fwy na dwy awr y dydd, ac y telir am y gofal hwnnw. Bydd y rhan fwyaf o warchodwyr plant wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, ond mae rhai eithriadau fel y nodir yn Rhan 2 o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

- Darpariaeth Gofal Dydd a Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored. Mae'r categori hwn yn cwmpasu ystod o wahanol fathau o ddarpariaeth, gan gynnwys gofal dydd llawn, gofal dydd sesiynol, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, creches, a darpariaeth chwarae mynediad agored. Unwaith eto, bydd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth hon wedi'i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, er bod rhai eithriadau fel y nodir yn Rhan 3 o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

**32.** Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan adran 22 o Ddeddf Gofal Plant 2006 i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod darpariaeth

gofal plant ddigonol ar gael i fodloni gofynion rhieni yn eu hardal i allu gweithio neu fanteisio ar addysg a hyfforddiant allai eu cynorthwyo i gael gwaith. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol asesu'r farchnad gofal plant leol er mwyn datblygu darlun realistig a chadarn o anghenion gofal plant nawr ac yn y dyfodol. Yr hyn sy'n allweddol i hynny yw canfod beth yw anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu o ran cael mynediad at ofal plant. Disgwylir i awdurdodau lleol nodi pa gamau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

**33.** Rhaid i awdurdodau lleol baratoi, cyhoeddi a chyflwyno Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ("ADGPau") i Lywodraeth Cymru bob pum mlynedd. Cynhaliwyd yr asesiadau diweddaraf yn 2022. Nid oes mecanwaith cyfreithiol i fonitro pa gamau y mae awdurdodau lleol yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r bylchau. Disgrifiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLlLC") y rhain fel asesiadau strategol iawn sy'n cael eu llywodraethu gan reoliadau sy'n dweud bod yn rhaid iddynt gynnwys pethau penodol.[7]

**34.** Rhaid bod gan bob awdurdod lleol Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n wasanaeth rhad ac am ddim sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth am wasanaethau lleol i deuluoedd a gofalwyr. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gofal plant, a chymorth gyda chostau gofal plant.

**35.** Mae gan blant 3 a 4 oed pob rhiant hawl i isafswm o 10 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar. I'r rhai sy'n gymwys, mae'r oriau hyn wedi'u cynnwys o fewn Cynnig Gofal Plant Cymru. Mae'r cynnig hwn yn darparu 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar a ariennir gan y Llywodraeth i blant 3 a 4 oed rhieni cymwys. Rhaid i rieni fod yn gyflogedig ac ennill, ar gyfartaledd, "yr hyn sy'n cyfateb i weithio 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol" neu rhaid iddynt fod wedi cofrestru ar gwrs israddedig, ôl-raddedig neu addysg bellach sy'n para am o leiaf 10 wythnos.[8]

**36.** Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd ffrwd ariannu ychwanegol, sef Grant Cymorth Ychwanegol ("yr ASG") Cynnig Gofal Plant Cymru. Cyllid ar gyfer awdurdodau lleol yw hwn, y gellir ei ddefnyddio i helpu plant cymwys ag anghenion ychwanegol i gael mynediad at elfen gofal plant y Cynnig yn yr un modd â phlant nad ydynt yn anabl a phlant niwronodweddiadol. Gellir defnyddio'r cyllid hwn ar gyfer amrywiaeth o bethau gan gynnwys:

[7] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 31
[8] Llywodraeth Cymru, tudalen we Cynnig Gofal Plant Cymru [fel ar 13 Mai 2024]

- Hyfforddiant i ddarparwyr;
- Staff ychwanegol;
- Help llaw (ar gyfer plant y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt gan staff am ran o'u hamser neu'u holl amser gyda darparwr);
- Cyfarpar; ac
- Addasiadau ffisegol i leoliadau.

**37.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod adolygiad annibynnol o'r ASG yn cael ei gynnal, a disgwylir adroddiad erbyn mis Mawrth 2024. Er ei bod yn gwybod bod "llawer o ddarparwyr" yn defnyddio'r ffrwd ariannu hon, roedd y gofynion monitro ac adrodd presennol yn golygu nad yw'n gallu "asesu cwmpas y galw yn llawn."[9]

**38.** Cyhoeddwyd yr adroddiad ar y Grant Cymorth Ychwanegol ym mis Mawrth 2024. Roedd y canfyddiadau'n cyd-fynd â'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn ystod y gwaith hwn. Gwnaed nifer o argymhellion yn yr adroddiad, yn cynnwys:

- Ystyried adolygu'r arweiniad cyfredol fel ei fod yn dangos yn fwy eglur pa bethau y gellir defnyddio'r ASG i'w hariannu;
- Ystyried datblygu ymgyrchoedd cyfathrebu a gwybodaeth wedi'u hanelu at deuluoedd a darparwyr;
- Codi ymwybyddiaeth o'r ASG ymysg lleoliadau bach nas cynhelir a gwarchodwyr plant;
- Awdurdodau lleol yn gweithio gyda darparwyr a theuluoedd i nodi anghenion cymorth ychwanegol ar gamau cynharach. Llywodraeth Cymru i ystyried ffyrdd y gall fod o gymorth i awdurdodau lleol yn hyn o beth, gan gynnwys hyrwyddo cydweithio a gwella trefniadau rhannu gwybodaeth a chynllunio.
- Gwelliannau i brosesau casglu data ar gyllid ASG.[10]

[9] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraff 7.9
[10] Llywodraeth Cymru, Ymchwil am Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant i Gymru: adroddiad terfynol, 21 Mai 2024

**39.** Dechrau'n Deg yw "rhaglen blynyddoedd cynnar flaenllaw" Llywodraeth Cymru.[11] Mae wedi bod ar waith ers 2007 ac yn cael ei darparu gan awdurdodau lleol. Mae gan bob plentyn 2 a 3 oed sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg hawl i gael gofal plant am ddim am 2.5 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn. Rhaid i o leiaf 15 sesiwn o'r ddarpariaeth hon fod ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol.

**40.** Cafwyd ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn 2 oed, "gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg."[12]

**41.** Mae darpariaeth wahanol ledled Cymru ar gyfer gofal cofleidiol a gofal gwyliau, ac mae'r fwyaf o'r ddarpariaeth honno ar gael i blant hyd at 12 oed. Fodd bynnag, fel y byddwn yn ei amlinellu, mae angen darpariaeth ar ôl 12 oed ar rai plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a gall fod yn anodd iawn dod o hyd i hynny.

**42.** Rydym yn ymwybodol y gall plant a phobl ifanc nad ydynt yn anabl ac sy'n niwronodweddiadol a'u teuluoedd ei chael hi'n anodd dod o hyd i ofal plant fforddiadwy sy'n diwallu eu hanghenion yn eu hardal leol. Mae rhai Aelodau o'n Pwyllgor wedi bod yn ymwneud â gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar ofal plant a chyflogaeth rhieni yn 2022, a'r gwaith dilynol mwy diweddar a oedd, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, yn tynnu tua'r terfyn.[13]

## Darpariaeth blynyddoedd cynnar a chyn-ysgol

### Capasiti cyfyngedig o fewn y sector i ddarparu gofal cynhwysol

**43.** Dywedodd Oxfam Cymru fod gofal plant yn seilwaith cymdeithasol hollbwysig i gymdeithas, ac yn ogystal â bod yn gonglfaen datblygiad plentyndod cynnar, ei fod yn cael effaith ar nifer o ddimensiynau. Mae rhai o'r rhain yn ymwneud â chyflogaeth rhieni a chynhwysiant cymdeithasol.[14]

[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77, Llywodraeth Cymru, paragraff 7.4
[12] Llywodraeth Cymru, Y Cytundeb Cydweithio, 2021
[13] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Gofal Plant – ymchwiliad dilynol, tudalen we [fel ar 14 Mai 2024]
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57 Oxfam Cymru, paragraff 2.1.1

**44.** Fodd bynnag, dywedodd y Comisiynydd Plant mai ychydig iawn o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar arbenigol sydd ar gael, a bod y bwlch hwn yn cael ei gydnabod yn eang.[15]

**45.** Clywsom gan deuluoedd a rhanddeiliaid y gall cael gafael ar ofal plant cynhwysol fod yn gymhleth oherwydd dim ond megis dechrau dod i'r amlwg y mae'r anghenion. Efallai mai dim ond ar ôl i blentyn ddechrau cael gofal plant y daw'r anghenion yn amlwg ac yna bydd yn rhaid i deuluoedd ymdrin ag amseroedd aros am asesiadau. (Gweler Pennod 7.)

**46.** Dywedodd PACEY Cymru y gallai fod yn rhaid i leoliadau ymateb yn gyflym iawn i anghenion newydd plant unigol, y mae angen rhagor o gymorth, ymyriadau a chyllid pellach arnynt nad ydynt bob amser ar gael.[16] Disgrifiodd Blynyddoedd Cynnar Cymru y cyllid ar hyn o bryd fel annigonol iawn. Dywedodd hefyd y gall hwn fod yn gyfnod pan fydd angen y cymorth mwyaf ar deuluoedd, yn enwedig os yw'r darparwr wedi nodi anghenion posibl.[17]

[15] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 14
[16] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 30
[17] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 31

***Astudiaeth Achos 1***

*"... having great difficulty accessing early years education for my son, who should be entitled to 12 hours in total but instead gets just 5. I am also unable to access childcare of which he is entitled to 17 hours but instead gets none. ...*

*I have contacted private nursery providers to see if he could do some addional [sic] sessions in the afternoons but none get back to me when I am honest about his needs. ...*

*I am left doing a full time job on 5 hours childcare a week. ... is missing out on the early years foundation phase he's entitled to. He spends large parts of his days underestimated in front of screens as I have no other way of keeping him occupied...".*[18]

***Astudiaeth Achos 2***

*Until he [the individual's child, who has ASD] was nearly 4, the only provision I could find for him was 2 hours a couple of times a week in a toddler childcare group which is the only place he could be safely as there is no childcare available for children like ... Because of his needs I was not able to find any childcare for him at all. ...*

*When he was nearly 4, he got a specialist Nursery communication unit place ... There are only 16 places available ... We were very fortunate. Despite this, he still only had access to 2.5 hours per day and no access to private childcare and the foundation phase as his sister currently enjoys.*[19]

**47.** Dywedodd Sparkle wrthym y gall fod mwy o opsiynau o ran gofal plant anffurfiol i ffurfiol ar gyfer plant nad ydynt yn anabl a phlant niwronodweddiadol. Mae'n bosibl na fydd yr amrywiaeth hwn o opsiynau ar gael i deuluoedd eraill, yn enwedig defnyddio aelodau o'r teulu neu ffrindiau nad ydynt efallai'n gallu ymdrin ag anghenion penodol.[20]

[18] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 04 Unigolyn
[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 31 Unigolyn
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

**48.** Rhannodd un teulu ei brofiadau o'i drefniadau gofal plant yn mynd ar chwâl ar y diwrnod cyn yr oedd y ddarpariaeth i fod i ddechrau, er gwaethaf trafodaeth addawol gyda'r darparwr a hyd yn oed gyfnod ymgartrefu. Roedd y teulu'n anfodlon ar y modd yr oedd y feithrinfa ac Arolygiaeth Gofal Cymru wedi delio â hyn. Galwodd am fwy o atebolrwydd, gan ddweud y byddai sicrhau bod mwy o ddata ar gael i'r cyhoedd i ddangos pryd y mae plant a phobl ifanc yn gadael meithrinfa neu ysgol a'r rhesymau dros hyn yn gwella'r sefyllfa. Roedd y teulu'n teimlo bod trosglwyddiadau'n digwydd yn rheolaidd rhwng lleoliadau oherwydd diffyg cymorth ond nad oedd hyn yn cael ei gydnabod ac felly nid oedd y broblem yn cael sylw.[21]

**49.** Rhannodd Mudiad Meithrin ganfyddiadau ei arolwg o brofiadau rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc a oedd yn defnyddio darpariaeth feithrin. Rhoddodd 50% o'r ymatebwyr y sgôr uchaf, sy'n golygu eu bod yn credu i'w plant gael mynediad at bob agwedd ar y ddarpariaeth. Rhoddodd 33.81% y sgôr isaf, sy'n golygu nad oeddent yn credu eu bod wedi cael mynediad at bob rhan o'r ddarpariaeth.[22] Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod diffyg data ar draws y sector ar faint o blant sydd wedi methu â dod o hyd i ddarpariaeth sy'n diwallu eu hanghenion.[23] Galwodd y mudiad am fwy o ddata ac ymchwil i ddeall y bylchau yn y ddarpariaeth, a all wedyn wella cynhwysiant a phrofiadau teuluoedd.[24]

**50.** Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd fod angen i'r man cychwyn ar gyfer gwell mynediad ddechrau gyda Llywodraeth Cymru:

> *"… we all need to be doing together, but it needs to start from the funding and the clear messages and guidance that need to come from the Welsh Government so that then local authorities are able to cascade those clear messages. All childcare providers want to be able to support their settings to be able to offer this care and to ultimately support the children and families, because that's their main aim."*[25]

[21] Pwyllgor CYPE, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraffau 48-49
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[23] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 8
[24] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 54
[25] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 109

**51.** Yn ôl PACEY Cymru, rhan o'r heriau sy'n gysylltiedig â mynediad cynhwysol oedd gorfod gweithio gyda system sydd wedi datblygu dros amser:

> *"… I think we're working with a system and trying to slot developments into an existing system that's been there historically and has grown and developed over time. I'm sure we'd all agree that if we were starting with a blank piece of paper and redesigning the approach and the service and everything else that goes around that, it would look very, very different, and maybe we do need to be brave and make some strong decisions there."*[26]

**52.** Dywedodd Whizz Kidz fod geiriad y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir yng Nghymru yn gadael gormod yn agored i'w ddehongli gan ddarparwr ac nad yw'n cynnig safonau gofynnol mesuradwy pendant. Noda nad yw'r Safonau yn sôn am hygyrchedd lleoliadau i gadeiriau olwyn.[27]

**53.** Dywedodd CLlLC mai prin yw'r dulliau sydd ar gael i awdurdodau lleol ymyrryd oherwydd bod darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar iawn yn cael ei rhedeg gan fusnesau preifat. O ran y rhai sy'n cynnig y Cynnig Gofal Plant neu gynnig addysgol, mae'n cydnabod y bydd ganddynt Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r awdurdod lleol perthnasol, ond fel arall, ni fydd ganddynt ddim i'w wneud â'r awdurdod lleol.[28]

**54.** Cydnabu'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd yr heriau o ran sicrhau darpariaeth gofal plant. Tynnodd sylw at y ffaith bod y sector gofal plant yn gymharol fach, gan ddweud bod tua 3,000 o ddarparwyr cofrestredig a thua 74,000 o leoedd i blant 0-12 oed ar gael. Roedd tua hanner y ddarpariaeth yn cael ei chynnig gan warchodwyr plant, medda, a gwelwyd lleihad yn eu niferoedd. Dywedodd fod gwaith ar y gweill i geisio annog mwy o bobl i ddod yn warchodwyr plant.[29]

## Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGPau)

**55.** Fel yr amlinellir ym mharagraff 33, mae ADGPau yn arf hanfodol i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dywedodd CLlLC fod y broses o gwblhau ADGP yn eithaf hirfaith ac erbyn iddo gael ei gyhoeddi ei fod wedi dyddio, yn enwedig

[26] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 112
[27] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 35 Whizz Kidz
[28] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 8
[29] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 26

os bydd newidiadau polisi ar lefel Llywodraeth genedlaethol wedi cael eu gwneud yn y cyfamser. Cyfeiriodd at y cylch diweddar o ADGPau a baratowyd cyn y cyhoeddiad ynglŷn ag ehangu Dechrau'n Deg. Serch hynny, dywedodd ei bod yn broses bwysig ond bod yr adolygiad blynyddol fwy na thebyg yn bwysicach.[30]

**56.** Esboniodd CLlLC fod ADGPau yn nodi meysydd o angen heb ei ddiwallu, ond, yn y bôn, na all awdurdodau lleol orfodi darparwyr i sefydlu lleoliad yn sydyn.[31] Gall awdurdodau lleol gynnig grantiau i gefnogi darparwyr i sefydlu darpariaeth mewn ardal benodol neu wasanaeth penodol, ond yn y pen draw, busnesau a darparwyr masnachol ydynt, ac mae'n rhaid iddynt wneud yr hyn sy'n iawn yn ariannol iddyn nhw.[32]

**57.** Cydnabu'r Dirprwy Weinidog ar y pryd mai dim ond un cipolwg ar y sefyllfa a roddir gan ADGPau a bod awdurdodau lleol hefyd yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf a dealltwriaeth o'r ddarpariaeth gofal plant.[33] Er enghraifft, dywedodd y Dirprwy Weinidog ar y pryd wrthym fod y cylch diweddar o ADGPau wedi tynnu sylw at gynnydd yn nifer y plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar ôl y pandemig. Dywedodd fod rhai diffygion y mae angen mynd i awdurdodau lleol fynd i'r afael â nhw.[34]

**58.** Bwlch arall a nodwyd yn yr ADGPau oedd hyder darparwyr wrth gefnogi plant ag ADY. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ar y pryd fod gallu darparwyr gofal plant i ddarparu lleoedd addas a fforddiadwy hefyd wedi'i nodi fel bwlch, ynghyd â'r hyfforddiant, yr adnoddau a'r cyfarpar sydd eu hangen. Bwlch arall yw gofal plant yn ystod y gwyliau, sy'n arbennig o broblematig i blant dan 2 oed a phlant oedran ysgol.[35]

**59.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol drwy elfen Gofal Plant a Chwarae'r Grant Plant a Chymunedau i helpu i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd mewn ADGPau. Dywedodd fod y cyllid hwn wedi'i ddefnyddio i "gefnogi Lleoedd a Gynorthwyir, Dwylo Ychwanegol a chymorth un i un i wella mynediad ar gyfer plant ag ADY."[36]

[30] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 24-27
[31] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 24
[32] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 28
[33] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 22
[34] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 17
[35] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 18
[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraff 8.5

**60.** Fodd bynnag, derbyniodd y Dirprwy Weinidog ar y pryd hefyd, er bod awdurdodau lleol yn ceisio llenwi'r bylchau hyn, ei fod hefyd yn gyfnod arbennig o anodd i awdurdodau lleol. Er iddi ddweud nad oedd y pandemig yn esgus, cydnabu fod yr heriau wedi effeithio ar agweddau ar raglen yr ADGPau. Dywedodd fod awdurdodau lleol yn gwneud eu gorau ond bod bylchau.[37]

**61.** Nododd y Dirprwy Weinidog, ar yr adeg y rhoddodd dystiolaeth, fod adolygiad annibynnol ar y gweill o ADGPau a chynlluniau gweithredu 2022. Roedd hi'n rhagweld y byddai'r adolygiad yn helpu i gefnogi esblygiad y broses ADGPau.[38]

**62.** Cyhoeddwyd yr adolygiad hwn ym mis Mawrth 2024, a chanfuwyd nad yw'r ADGPau presennol "yn addas at y diben ac nad yw'r amser, yr ymdrech a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cynhyrchu yn gyfystyr â gwerth da am arian."[39] Mae'n gwneud nifer o argymhellion gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru "ystyried adolygu rheoliadau a chanllawiau cyfredol ADGP."[40] Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd yn glir beth oedd ymateb Llywodraeth Cymru.

## Cyllid

**63.** Clywsom fod cyllid yn hanfodol i sicrhau darpariaeth gynhwysol. Codwyd y ffaith bod lefel y cyllid yn annigonol. Dywedodd un darparwr nad oes ganddo'r cyllid yn aml i barhau i fodloni'r gofynion cymorth ychwanegol i gynnig darpariaeth dda i blant ag anghenion ychwanegol.[41] Dyma oedd un o'r prif broblemau yn ôl y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd.[42] Yn ôl Sparkle, heb ddatganiad o anghenion, ni all meithrinfeydd gael mynediad at gyllid ychwanegol i ddarparu'r adnoddau staffio ychwanegol hyn.[43]

**64.** Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol fod mynediad annheg at gyllid ar gyfer cymorth staff ychwanegol neu gyfarpar, gan ddweud y bydd rhai ardaloedd yn ariannu cyfarpar/cymorth ond nid eraill.[44] Amlygodd Mudiad Meithrin:

---

[37] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 19
[38] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 23
[39] Llywodraeth Cymru, Ymchwil i Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, 14 Mawrth 2024, paragraff 5.1
[40] Llywodraeth Cymru, Ymchwil i Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, 14 Mawrth 2024, paragraff 5.26
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 43 Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 54 Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 30 Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

> *"Mae cyllid ar gyfer dwylo ychwanegol yn fwy tebygol o fod ar gael ar gyfer plant sy'n gymwys dan y Cynnig Gofal Plant. Y broblem yma yw bod y Cynnig Gofal Plant yn cael ei gynnig ar sail cymhwysedd y rhieni/gofalwyr, nid y plentyn. Bydd hyn yn eithrio plant anabl a niwrowahanol rhag cael mynediad teg i ofal plant ac addysg, pan o bosib mai cyfleon chwarae a rhyngweithio â phobl a phlant yw un o'r ymyraethau fyddai'n gwahaniaeth go iawn i'r plentyn hwnnw."*[45]

**65.** Codwyd cymhlethdod cyffredinol y ffynonellau ariannu amrywiol gan lawer, gan gynnwys Clybiau Plant Cymru Kids Clubs[46]; Blynyddoedd Cynnar Cymru[47]; a'r Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd.[48] Gwaethygir y cymhlethdodau hyn gan y gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan wahanol awdurdodau lleol.

**66.** Dywedodd Mudiad Meithrin fod yr anghysondebau hyn yn anodd i deuluoedd, ond hefyd i sefydliadau cenedlaethol fel nhw, sy'n gorfod "[c]ynghori lleoliadau" ar "22 ffordd wahanol o wneud pethau." Mae'r cymhlethdodau hyn hyd yn oed yn fwy heriol i deuluoedd os oes ganddynt blant ag anghenion ychwanegol.[49] Dywedodd Clybiau Plant Cymru Kids Clubs eu bod wedi ceisio dwyn ynghyd y gwahanol ddulliau gweithredu ar draws gwahanol awdurdodau lleol ar sawl achlysur, ond eu bod yn newid o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar gyllidebau.[50]

**67.** Ymwelodd y Pwyllgor ag ASD Rainbows, elusen gofrestredig, sy'n darparu gofal plant a chymorth i blant ar y sbectrwm awtistig, gan gynnwys darpariaeth cyn ysgol i blant 2-5 oed, a darpariaeth gofleidiol ar ôl ysgol i blant hyd at 16 oed. Dywedwyd wrthym mai ei her fwyaf oedd cyllid. Ar unrhyw adeg benodol gall fod yn ymdrin â phrosesau ar gyfer tua 30 o grantiau gwahanol. Roeddent yn credu bod bwlch yn y grantiau a oedd ar gael ar gyfer eu gwasanaethau. Dywedodd fod cyfyngiadau ar rai grantiau sy'n cyfyngu ar yr hyn y gallant wneud cais amdano.[51]

**68.** Gall y cymhlethdod cyllido fod hyd yn oed yn waeth os oes angen i awdurdodau lleol gydweithio. Dywedodd Blynyddoedd Cynnar Cymru fod rhai awdurdodau lleol yn gweithio'n dda â'i gilydd, ond nad yw eraill yn cydweithio'n

[45] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[46] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 25
[47] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 30
[48] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 64
[49] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 23
[50] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 69
[51] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc a Chyllid, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 7

effeithiol. Roeddent yn cydnabod bod pob awdurdod lleol yn gwneud ei orau glas ond nad yw'r ffrydiau ariannu yn addas ar gyfer hynny, felly os yw'r cyllid yn gysylltiedig â chyfeiriad y plentyn, yna ni fydd yn cael ei drosglwyddo i'r sir. Roedd yn fater cymhleth iawn, meddent.[52] Tynnodd PACEY Cymru sylw at y ffaith y gall timau gofal plant gael eu cyfyngu weithiau gan y gofynion corfforaethol ar gaffael, sydd hefyd yn amrywio ar draws awdurdodau lleol.[53]

**69.** Er bod y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yn croesawu'r cyllid ychwanegol sydd ar gael drwy'r Grant Cymorth Ychwanegol, holodd a oedd £1.5 miliwn y flwyddyn yn ddigonol. Dywedodd ei bod yn ymwybodol o lawer o deuluoedd sy'n dal i orfod talu cannoedd o bunnoedd bob mis ar gyfer meithrinfa breifat, gan nad yw meithrinfeydd prif ffrwd yn gallu diwallu eu hanghenion. Cyfeiriodd at adborth gan riant a ddywedodd:

> *"'If my son wasn't autistic and didn't have the needs that he has, he would have a full-time place and we wouldn't have to pay any fees'."*[54]

**70.** Ar wahân i'r angen posibl i ariannu staff ychwanegol, mae'r mater o gyllid ar gyfer adnoddau a chyfarpar arbenigol hefyd, fel yr amlygwyd gan Mudiad Meithrin.[55]

**71.** Tynnodd y Dirprwy Weinidog ar y pryd sylw at yr ystod o gyllid sydd ar gael, gan gynnwys elfen gofal plant a chwarae'r Grant Plant a Chymunedau, y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio i lenwi'r bylchau a nodwyd yn eu ADGPau. Ochr yn ochr â hyn, dywedodd nad oes terfyn uchaf wedi'i osod ar yr ASG, a'i fod yn grant sy'n cael ei arwain gan y galw. Os aiff uwchlaw'r £2 filiwn a ddyrannwyd, gellir cael mynediad ato o hyd.[56]

### Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant

**72.** Amlygodd Mudiad Meithrin wahaniaethau rhwng y cyllid sydd ar gael i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a'r rhai nad ydynt yn byw yn yr ardaloedd hynny. Cyfeiriodd at enghraifft o blentyn yr oedd gweithwyr proffesiynol yn credu y byddai wedi elwa ar gymorth ychwanegol a fyddai wedi bod ar gael mewn ardal Dechrau'n Deg. Nid oedd y teulu yn gallu talu am le mewn

[52] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 78
[53] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 83
[54] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 227
[55] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 34
[56] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 28

meithrinfa. Roedd y mudiad yn galw am sicrhau bod cymorth ariannol ar gael yn seiliedig ar anghenion y plentyn a gallu'r lleoliad i ddiwallu'r anghenion hynny, yn hytrach nag ar gymhwystra rhieni. Roedd hefyd yn teimlo bod angen gwneud mwy o waith i "hyrwyddo a rhoi statws i'r gwaith mae ymarferwyr gofal plant ac addysg yn ei wneud i hwyluso ymyraethau i gefnogi plant yn gynnar."[57]

**73.** Amlygodd eraill hefyd y ffaith nad yw mynediad at Dechrau'n Deg ar gael i bawb, gan gynnwys Blynyddoedd Cynnar Cymru[58]; y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd[59]; ac Oxfam Cymru.[60] Dywedodd Blynyddoedd Cynnar Cymru, er bod y gwasanaethau'n gallu amrywio o sir i sir, bod ystod enfawr o wasanaethau ychwanegol sydd ond ar gael o fewn darpariaeth Dechrau'n Deg, gan gynnwys:

- Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd estynedig;
- Cymorth i Rieni;
- Cymorth ychwanegol; a
- Mynediad hawdd at therapyddion lleferydd ac iaith a seicolegwyr addysg.

Nodwyd hefyd bod darpariaeth y tu allan i Dechrau'n Deg a allai sicrhau darpariaeth dda drwy gynlluniau atgyfeirio a broceriaeth" ond mae hyn yn amrywio rhwng awdurdodau lleol.[61] Galwodd Blynyddoedd Cynnar Cymru, fel Mudiad Meithrin, am sicrhau bod cyllid a chymorth ar gael mewn ffordd llawer mwy cyfartal.[62]

**74.** Mae teuluoedd hefyd yn ymwybodol o'r gwahaniaethau yn y ddarpariaeth a gynigir mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Dywedodd un rhiant y gallai'r dalgylchoedd ar gyfer Dechrau'n Deg wneud synnwyr ar fap, ond nad ydynt yn gwneud synnwyr mewn bywyd go iawn. Roedd un arall yn credu y byddai ei blentyn wedi cael diagnosis lawer yn gynharach pe bai'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg.[63] Dywedodd un rhiant ei bod yn ymddangos bod mwy o hyfforddiant ar gael mewn lleoliadau mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.[64] O ran

[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[58] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53 Blynyddoedd Cynnar Cymru
[59] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 54 Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
[60] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57 Oxfam Cymru, paragraff 4.1
[61] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53 Blynyddoedd Cynnar Cymru
[62] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 31
[63] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 56
[64] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 72 Unigolyn

darpariaeth Dechrau'n Deg, cadarnhaodd PACEY Cymru y gwahaniaethau hyn gan ddweud:

> *"… they'll get in-service training days, they'll get training days, and they'll get funding for their staff to do this. For the private sector or voluntary sector, there aren't backfill payments and there aren't staffing payments for that either. So, it's often very difficult to release staff to do more targeted training when there's simply no funding for them to do it. And you're asking these businesses to take on that cost, and they can't always do that."*[65]

**75.** Roedd PACEY Cymru yn credu y byddai defnyddio Dechrau'n Deg fel y dull o ehangu'r Cynnig Gofal Plant i blant 2 oed yn hytrach na'r Cynnig Gofal Plant yn cael effaith ar y broses gyflwyno. Dywedodd mai'r rheswm am hyn yw oherwydd bod y Cynnig Gofal Plant ar gael i bob lleoliad cofrestredig ei ddarparu ond mai penderfyniad awdurdod lleol yw darparu Dechrau'n Deg. Dywedodd fod rhwystrau'n wynebu pob lleoliad sy'n cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg estynedig, yn enwedig o ran trefniadau caffael, a fydd, ym marn PACEY, yn anodd i leoliadau llai a gwarchodwyr plant.

> *"That then impacts on the continuity of care for children that are using services in the early years, because in theory they're then having to move to follow the funding rather than being able to stay somewhere that supports their needs. It also impacts, obviously, on parental choice of childcare, and also then has a sustainability effect on the childcare settings that aren't able to deliver Flying Start and other funded programmes. Then what we have is displacement of childcare, and an unnecessary move, in our opinion."*[66]

**76.** Roedd Blynyddoedd Cynnar Cymru yn pryderu am rai o'r manylion ynghylch ehangu'r Cynnig Gofal Plant. Roedd y rhain yn cynnwys a yw'r oriau sydd ar gael yn cwmpasu oriau gwaith, pa mor gydgysylltiedig yw'r dull ariannu a'r cyllid ar gyfer cymorth ychwanegol. Tynnodd sylw hefyd at bryderon ynglŷn â phontio:

> *"… it's the movement between different settings to try and get all the funding to match up together and that joined-up thinking*

[65] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 39
[66] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 13

> *and those transitions between settings. If you think a child could be in one setting for nought to two, another setting for two to three, another setting for three to four, and then they could be in after-school club and holiday club, and education, that's an awful lot to take on. So, there needs to be more thought about how a child can stay in one place and the funding would stay with that child for the entirety of their needs, not just for patches."*[67]

**77.** Cododd Clybiau Plant Cymru Kids Clubs y materion hyn hefyd, yn enwedig y pontio o'r blynyddoedd cynnar i ddarpariaeth gofleidiol pan fydd y plentyn yn yr ysgol. Dywedwyd y gall y ffordd y mae cyllid yn dilyn plant fod yn rhwystr eithaf sylweddol. Yn benodol, y ffaith y gallai'r cyllid dwylo ychwanegol hwnnw ddod i ben pan ddaw'r Cynnig Gofal Plant i ben. Bydd rhai awdurdodau lleol yn parhau i ariannu hyn, ond nid eraill. Gall hyn wedyn effeithio ar a all teuluoedd ddychwelyd i'r gweithle.[68]

**78.** Tynnodd PACEY Cymru hefyd sylw at y ffaith na all nanis gofrestru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Dywedodd fod nanis yng Nghymru yn cael eu defnyddio mewn ffordd anhraddodiadol iawn. Fe'u defnyddir yn aml gan bobl sy'n gweithio sifftiau, sydd â nifer o blant neu gan y rhai â phlant ag ADY.[69]

**79.** Dywedodd Oxfam Cymru fod y cyfuniad o gymhwystra ar sail cod post ar gyfer Dechrau'n Deg, a/neu gyflogaeth/hyfforddiant rhieni ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru, yn golygu bod gwahaniaethau ac anghydraddoldebau o ran cymhwystra i lawer o deuluoedd a phlant, sy'n gwbl groes i'r egwyddorion a amlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig.[70] [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.] Galwodd am sicrhau bod y cynnig Gofal Plant fod yn fforddiadwy a hygyrch i rieni pob plentyn o chwe mis oed ymlaen.[71]

**80.** Rhannodd PACEY Cymru bryderon ynghylch yr effeithiau ar y teuluoedd hynny nad ydynt yn gymwys i gael cymorth megis y Cynnig Gofal Plant. Amlygodd hefyd y cymhlethdodau a all godi pan fydd plentyn yn cael mynediad at fwy nag un ddarpariaeth (er enghraifft darpariaeth gofleidiol ar gyfer lle a ariennir gan y Cynnig Gofal Plant). Yn yr achosion hyn, efallai y bydd cyllid ychwanegol ac felly

[67] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 15
[68] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 25-26
[69] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 14
[70] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57 Oxfam Cymru, paragraff 4.1
[71] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57 Oxfam Cymru, paragraff 4.2.1

cymorth ar gael mewn un lleoliad, ond nid y llall, sy'n achosi anghydraddoldebau ac sy'n cael effaith ar ddeilliannau datblygiadol y plant. Dywedodd y gall hyn fod yn wir yn aml lle mae'r rhieni'n talu'n breifat am drefniant gofal plant, lle byddai rhywun yn tybio y byddai rhyw fath o barhad o ran y cymorth.[72]

**81.** Dywedodd PACEY Cymru, o ran y teuluoedd sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, fod rhai elfennau cadarnhaol, a oedd yn cynnwys hyblygrwydd o ran dewis y math o ddarpariaeth, a chymorth ariannol ychwanegol. Fodd bynnag, dywedodd fod problemau o hyd o ran ymwybyddiaeth teuluoedd o'r hyn y maent yn gymwys i'w gael, a sut y gallant gael mynediad ato.[73]

**82.** Cododd nifer o sefydliadau faterion yn ymwneud â chyllid ar gyfer staff ychwanegol i alluogi darparwyr gofal plant i dderbyn plant a phobl ifanc. Amlygodd adroddiad diweddar gan Sparkle nad oedd cyllid bob amser ar gael ar gyfer y cymorth staffio ychwanegol sydd ei angen ar rai plant.[74]

**83.** Dywedodd ASD Rainbows, sydd wedi cofrestru gyda'r Cynnig Gofal Plant, nad yw'r gyfradd o £12.50 y sesiwn prin yn crafu'r wyneb, gan fod eu costau'n £63 y plentyn fesul sesiwn. [75]

**84.** Dywedodd Mudiad Meithrin y gellid cefnogi cynhwysiant drwy "gynnig cyllid Dwylo Ychwanegol yn hytrach na 1-1,…" gan fod hyn yn helpu pan fo angen cymorth ar fwy nag un plentyn, ac y gall "helpu i baratoi'r plentyn ar gyfer mynychu addysg heb ddwylo ychwanegol." Fe ddywedon nhw y gallai fod "tuedd hanesyddol" i leoliadau "droi yn syth i ddweud" bod angen cyllid dwylo ychwanegol cyn ystyried beth yw anghenion penodol y plentyn.[76]

**85.** Amlygodd Llywodraeth Cymru, yn y data diweddaraf sydd ar gael, fod gan "2% o blant ar lwythi achosion ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg nam datganedig." Dywedodd fod y canllawiau yn "datgan bod rhaid i awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer plant ag ADY ac anableddau i'w galluogi i gael darpariaeth i'r graddau y bo hynny'n ymarferol ac er budd gorau'r plentyn."[77]

**86.** Dywedodd Llywodraeth Cymru mai "nod y Cynnig yw ystyried y rhwystrau" y gall rhieni cymwys eu hwynebu "yn enwedig y rhai sydd â phlant ag anghenion cymorth ychwanegol gan gynnwys anableddau dysgu, amhariadau corfforol ac

[72] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 12
[73] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 11
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle
[75] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 8
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraff 7.6

amhariadau ar y synhwyrau." Cyfeiriodd at yr ASG fel dull sy'n sicrhau bod y Cynnig "yn gynhwysol i blant cymwys sydd angen cymorth ychwanegol."[78] (Rydym yn trafod y Grant Cymorth Ychwanegol yn fanylach yn yr adran flaenorol.)

### Staffio a hyfforddiant

**87.** Rhwystr allweddol i ofal plant cynhwysol yw cael niferoedd digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac sydd â'r profiad priodol. Dywedodd Clybiau Plant Cymru Kids Clubs wrthym am eu heriau recriwtio a chadw.[79] Roedd Blynyddoedd Cynnar Cymru yn cytuno, gan ddweud ei bod yn anodd recriwtio staff cymwys a phrofiadol yn enwedig o ystyried y cyflogau isel.[80]

**88.** Dywedodd un rhiant wrthym fod tri o'r darparwyr y cysylltodd â nhw wedi dweud y gallent sicrhau'r cyllid, ond na allent recriwtio'r staff.[81] Yn ôl Mudiad Meithrin, mae recriwtio yn y sector wedi wynebu "[c]yfnod heriol", sydd hyd yn oed yn fwy o her os mai dim ond ychydig oriau y dydd y mae'r cyllid yn eu cwmpasu.[82]

**89.** Nododd rhieni a ymatebodd i arolwg Mudiad Meithrin mai dyma'r prif reswm pam nad oedd plant yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth, ac ategwyd hynny gan ganfyddiadau'r arolwg o staff gofal plant. Dywedodd Mudiad Meithrin y gall fod heriau o ran rheoli'r angen i blant gael cymorth ychwanegol oherwydd yr angen am fwy o adnoddau. Gallai hyn arwain at y lleoliad yn torri'r rheolau o ran y safonau gofynnol ynghylch cymarebau gofal. Dywedodd y gall hyn fod yn "r[h]wystredig iawn" i ddarparwyr oherwydd "heb gefnogaeth ac arweiniad", gall fod pryderon eu bod yn "torri rheolau a pheryglu diogelwch plant eraill."[83] Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd hefyd fod darparwyr eisiau bod yn gynhwysol ond mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn sicr eu bod yn gallu diwallu anghenion plant.[84]

**90.** Ffactor allweddol arall yw cael staff gofal plant sy'n meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad cywir.[85] Dywedodd PACEY Cymru wrthym y bu cynnydd yn nifer yr ymarferwyr gofal plant sydd wedi cael hyfforddiant ychwanegol neu arbenigol i gefnogi plant ag ADY. Mae hyn wedi cynyddu o 50% o'r holl leoliadau yn 2020, i ychydig o dan 60% yn 2023, tra bod cynnydd hefyd wedi bod yn nifer y

---

[78] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraff 7.8
[79] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 43 Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53 Blynyddoedd Cynnar Cymru
[81] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 21 Unigolyn
[82] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[83] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 54 Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
[85] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin

gwarchodwyr plant sy'n cael yr hyfforddiant hwn, o ychydig dros 205 yn 2020 i ychydig o dan 30% yn 2023. Dywedodd y gellid priodoli'r ffigurau is ar gyfer y lleoliadau hyn i'r ffaith bod llai o debygolrwydd y byddant yn gofalu am blentyn ag anghenion ychwanegol neu anableddau.[86]

**91.** Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd fod dealltwriaeth amrywiol o anabledd, niwroamrywiaeth ac ADY ar draws lleoliadau. Cyfeiriodd at adborth gan ei haelodau yng Nghymru, a oedd yn nodi, er bod 80% o leoliadau wedi cefnogi, neu wrthi'n cefnogi, plant ag anghenion gwahanol, roedd llai nag 20% yn teimlo bod eu lleoliad yn gwbl addas ar hyn o bryd a'u bod yn hyderus ac yn barod i groesawu plentyn sy'n niwrowahanol, sydd ag anableddau corfforol, anableddau synhwyraidd neu anableddau dysgu, i'w lleoliad mewn ffordd a fydd yn diwallu ei holl anghenion unigol yn llawn.[87]

**92.** Awgrymodd un ymarferydd fel rhan o ymateb Mudiad Meithrin y dylid datblygu banc o staff sydd â'r sgiliau a'r profiad i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Fodd bynnag, rhybuddiodd Mudiad Meithrin hefyd y gall systemau banc o'r fath fod yn "broblemus" oherwydd bod "staff yn cael cynnig swyddi sydd i bob pwrpas yn barhaol…" cymaint yw'r galw am y staff hyn.[88]

**93.** Amlygodd PACEY Cymru fod ymarferwyr eisiau arweiniad a chefnogaeth arbenigol i helpu i ddiwallu anghenion plant unigol yn hytrach na hyfforddiant mwy cyffredinol. Awgrymwyd cynnwys astudiaethau achos o arferion gorau mewn adnoddau a chanllawiau.[89] Dywedodd Mudiad Meithrin y dylai unrhyw ganllawiau hefyd gynnwys cyngor ynghylch "trefniadau asesu" ar gyfer plentyn a fydd yn helpu lleoliadau i sicrhau "eu bod yn asesu mewn ffordd sy'n addas i'r plentyn."[90] Roedd y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd[91] a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ("CCAC")[92] yn cytuno bod angen hyfforddiant, ond bod angen iddo fod yn benodol. Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd fod bron pob lleoliad yn teimlo y byddai'n elwa o gefnogaeth ychwanegol gan eu hawdurdod lleol / timau amlasiantaeth, ac roedd o blaid cyflwyno sesiynau byr ar strategaethau i gefnogi plant, a fyddai'n fuddiol i gynorthwyo lleoliadau i ddiwallu anghenion unigol plant.

[86] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 40 PACEY Cymru
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 54 Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[89] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 40 PACEY Cymru
[90] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 54 Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
[92] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 98

**94.** Roedd Mudiad Meithrin yn cytuno bod diffyg hyfforddiant yn ffactor allweddol mewn unrhyw brofiadau negyddol gan deuluoedd. Dywedodd darparwyr gofal plant mai anaml yr oedd hyfforddiant addas ar gael a'u bod eisiau "[m]wy o gyngor ac arweiniad gan arbenigwyr wrth geisio cynnig cefnogaeth i blentyn unigol." Cododd rhieni a gofalwyr yr angen am well dealltwriaeth o sut i gefnogi plentyn; a'r gwahaniaethau rhwng gwahanol gyflyrau.[93] Disgrifiodd un rhiant sut y disgrifiwyd eu plentyn, a oedd yn dair oed, fel plentyn "ystrywgar" gan ei athro, oherwydd diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth ar ran yr athro.[94]

**95.** Roedd Mudiad Meithrin hefyd yn pryderu am ddiffyg hyfforddiant cyfrwng Cymraeg sy'n "hanfodol" i staff mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dywedodd y gall rhai mathau o ddarpariaeth deimlo na allant gael mynediad at hyfforddiant a ddarperir gan awdurdodau lleol yn yr un ffordd ag y gall lleoliadau addysg. Dywedodd hefyd nad oedd digon o gyngor arbenigol i helpu darpariaethau i gefnogi plant yn y ffordd orau. Galwodd am sicrhau bod arbenigwyr a oedd yn ymweld â darpariaethau yn rhoi "cyngor, arweiniad, a syniadau am weithgareddau ac adnoddau addas."[95]

**96.** Cododd PACEY Cymru bryderon am faint o arian sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer ADY. Er bod cyllid cyffredinol wedi gwella, dywedodd bod bwlch mawr o hyd yn y gallu i gael gafael ar y cyllid ar gyfer yr hyfforddiant sydd ei angen.[96] Nododd hefyd heriau i rai darparwyr megis gwarchodwyr plant a fydd yn cael trafferth mynychu sawl diwrnod o hyfforddiant. Mae'n rhaid i warchodwyr plant hefyd fynychu hyfforddiant ar faterion perthnasol eraill megis diogelu a chymorth cyntaf, gan nad oes unrhyw staff eraill a all arwain ar elfennau penodol.[97] Galwodd Blynyddoedd Cynnar Cymru hefyd am elfen gryfach o hyfforddiant gorfodol ar ADY, ond gan gydnabod bod yn rhaid ystyried yr elfen ariannu sy'n gysylltiedig â hynny.[98]

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

**97.** Un o'r prif faterion oedd diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg gynhwysol. Codwyd hyn gan deuluoedd a sefydliadau. Gall hyn gael ei waethygu gan ddiffyg darpariaeth chwarae cyfrwng Cymraeg ehangach neu glybiau blynyddoedd cynnar eraill, gan leihau'r cyfleoedd i gymdeithasu â theuluoedd eraill sy'n siarad

93 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
94 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 27
95 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
96 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 40
97 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 44-45
98 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 43

Cymraeg. Galwodd un rhiant am “well cynllunio” er mwyn gallu diwallu anghenion ieithyddol plant.[99]

**98.** Dywedodd Mudiad Meithrin wrthym fod yn rhaid i rai teuluoedd anfon eu plant i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg oherwydd nad oes darpariaeth gynhwysol arbenigol ar gael yn Gymraeg.[100] Dywedodd fod hyn yn arbennig o wir y tu hwnt i’r gogledd-orllewin a’r de-orllewin. Roedd yr amrywiad mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg gynhwysol yn gysylltiedig â “chynllunio’r awdurdod lleol ar gyfer y plentyn, a’r lefel arbenigedd sydd gan y lleoliad a’r cylch meithrin i addasu”. [101] Roedd hwn hefyd yn fater a godwyd mewn perthynas ag ysgolion, ac rydym yn trafod hyn yn y Bennod nesaf.

**99.** Mae diffyg gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwaethygu’r materion hyn, yn ôl Mudiad Meithrin. Roedd prinder staff gofal iechyd sy’n siarad Cymraeg yn un o’r “gwendidau” mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, meddai. Dywedodd fod hyn yn cael “effaith uniongyrchol ar ddewisiadau rhieni a gofalwyr.” Roeddent yn arbennig o bryderus am brinder cymorth iaith a lleferydd cyfrwng Cymraeg.

> *“Credwn fod gwaith i’w wneud o hyd i ddangos i rieni a gofalwyr ynghyd a’r sector iechyd fod plant ag ADY yn gallu ffynnu mewn addysg cyfrwng Cymraeg.”*[102]

## Effaith y Ddeddf a’r Cod ADY

**100.** Mae’r Ddeddf a’r Cod ADY yn cwmpasu pob plentyn a pherson ifanc o 0 hyd at 25 oed. O ganlyniad i gyflwyno’r Ddeddf ADY a’r Cod ADY, ceir dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd yn ymwneud â sector y blynyddoedd cynnar. Un newid allweddol yw bod yn rhaid i bob plentyn y mae’r awdurdod lleol wedi nodi bod ganddo Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gael Cynllun Datblygu Unigol (CDU) statudol. Dylai CDUau gynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y cytunwyd arni gan wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill, gan gynnwys addysg. Rydym hefyd wedi edrych ar effaith y Ddeddf ADY a’r Cod ADY yn ein pennod ar ysgolion. Mae’r adran hon yn canolbwyntio ar y materion hynny sy’n ymwneud yn benodol â’r blynyddoedd cynnar.

[99] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[100] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 53-54
[101] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 17
[102] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin

**101.** Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain ei bod yn cymeradwyo egwyddorion y diwygiadau'n llwyr, ond ei bod yn pryderu nad yw'r broses weithredu wedi cael ei hategu gan adnoddau a chefnogaeth ddigonol. Mae hefyd yn pryderu ynghylch y diffyg eglurder, cysondeb a dealltwriaeth gyffredin o'r iaith a ddefnyddir gan yr holl weithwyr proffesiynol cysylltiedig. Dywedodd nad yw'r Cod a'r llwybrau cysylltiedig yn gweithio i deuluoedd oherwydd nad oes dealltwriaeth gyffredin o hawliau ac anghenion unigolion. Mae hyn yn cael ei waethygu gan y ffaith bod gwasanaethau'n cael eu harwain gan 'wasanaeth' yn hytrach na chanolbwyntio ar yr unigolyn.[103]

**102.** Dywedodd Blynyddoedd Cynnar Cymru fod plant mewn darpariaeth gofal plant yn dueddol o fod ag anghenion sy'n dod i'r amlwg nad ydynt wedi cael unrhyw ymyriadau na chymorth ar eu cyfer. Gall hyn fod oherwydd rhestrau aros, neu oherwydd nad yw eu hanghenion yn gwbl hysbys. Dywedodd nad yw CDUau wedi'u llunio fel arfer pan fo plant yn mynychu lleoliadau gofal plant h.y. nid oes darpariaeth orfodol ar gyfer plant 0-3 oed.[104]

**103.** Roedd PACEY Cymru yn croesawu'r ffaith bod y Ddeddf a'r Cod ADY yn cynnwys plant o'u genedigaeth, gan ddweud ei fod yn welliant ar y system AAA flaenorol gan y gallai cymorth ddechrau ar oedran cynharach gan arwain at ddeilliannau gwell. Roedd yn teimlo y byddai'n cynyddu'r cymorth, yr arweiniad a'r hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer yr holl ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Cafodd ei galonogi gan y ffaith bod gan bob awdurdod lleol Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol dynodedig ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Ond galwodd am ddull mwy cyson o ddarparu cymorth ar draws gwahanol awdurdodau lleol. Roedd yn arbennig o bryderus bod darparwyr gofal plant llai mewn rhai ardaloedd, fel gwarchodwyr plant cofrestredig, yn llai abl i gael cymorth, arweiniad a gwasanaethau, ac yn llai tebygol o gael eu cynnwys mewn prosesau cynllunio a chyfathrebu. [105] Galwodd Mudiad Meithrin ar Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar i "sicrhau" bod arbenigwyr yn rhoi cyngor i leoliadau ar y ffordd orau o gefnogi plant.[106]

**104.** Tynnodd PACEY Cymru sylw at bwysigrwydd cyfathrebu da rhwng pawb sy'n ymwneud â chefnogi teulu. Er mwyn i hyn ddigwydd, dywedodd fod yn rhaid i Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar fabwysiadu dull cynhwysol o weithio gyda phob math o ddarparwyr gofal plant,

[103] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain
[104] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53 Blynyddoedd Cynnar Cymru
[105] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 40 PACEY Cymru
[106] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin

yn ogystal â sicrhau bod y rhai sy'n gofalu am blant oedran ysgol yn cael cydnabyddiaeth a chymorth tebyg pan fydd y cyfrifoldeb am ADY yn trosglwyddo i leoliadau addysg a gynhelir.[107] Trafodir pwysigrwydd gwaith amlddisgyblaethol ym Mhennod 7.

**105.** Dywedodd CCAC fod gan bob darparwr fynediad am ddim at y Swyddog Arweiniol Anghenion Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar statudol. Mae'r rôl hon yn un rhagddyfalus ac adweithiol, a gall darparwyr gael mynediad at hyfforddiant yn ôl yr angen. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn rôl bwysig o ran helpu i ddatblygu capasiti ymysg darparwyr, yn ogystal â gallu darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer anghenion unigol.[108]

**106.** Dywedodd CLlLC fod sefydlu'r swyddi statudol hyn ynghyd â'u hymwneud â phaneli blynyddoedd cynnar a fforwm cenedlaethol, yn helpu i ddatblygu cysondeb o ran ymarfer a dysgu o arferion da.[109]

**107.** Tynnodd PACEY Cymru sylw at y ffaith bod ymwybyddiaeth o'r Cod a'r Ddeddf ADY yn cynyddu ymhlith darparwyr cofrestredig, gan nodi ei fod bellach bron yn 87% ymhlith yr holl leoliadau a 73% ymhlith gwarchodwyr plant. Nododd fod canran y lleoliadau sydd â pherson ADY dynodedig wedi cynyddu ar draws yr holl leoliadau o 60% yn 2020 i 73% yn 2023. Ond galwodd am ymgysylltu pellach wedi'i dargedu i sicrhau bod pob darparwr gofal plant cofrestredig yn gwybod am y system newydd. [110]

**108.** Galwodd PACEY Cymru hefyd am ddull cenedlaethol cyson o ymdrin â hyfforddiant, canllawiau ac adnoddau ar gyfer pob lleoliad gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae gan ddweud bod hyn yn bwysig o ran cefnogi gweithredu'r Cod a'r Ddeddf yn effeithiol. Cyfeiriodd at y gwahanol ddulliau a fabwysiadwyd mewn awdurdodau lleol, rhai ohonynt yn arbennig o feichus, ac eraill yn anhygyrch. Dywedodd y dylai'r blaenoriaethau ar gyfer hyfforddiant fod fel a ganlyn:

> *"… focus on their role, such as helping settings to be aware of the system, where to go for guidance and support, how to discuss concerns with parents/carers, how to make a referral, and ways to communicate and share information, rather than*

[107] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 40 PACEY Cymru
[108] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 32-33
[109] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 99
[110] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 40 PACEY Cymru

*aspects that the statutory roles within the ALN Code should be leading on."*[111]

**109.** Tynnodd y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd sylw at y gwahaniaethau o ran gweithredu'r Ddeddf a'r Cod ADY ar draws gwahanol awdurdodau lleol. Mae effaith y Ddeddf a'r Cod ADY yn ddibynnol iawn ar y ffordd y maent yn cael eu cyflawni. Roeddent yn ymwybodol o rywfaint o waith da iawn, a chymorth i ddarparwyr gofal plant ond nid yw hyn yn gyson ledled Cymru. Dywedodd fod llawer o ddryswch. Hefyd, nid oedd gan rai darparwyr ddigon o adnoddau, cyllid neu gefnogaeth i gynnig cymorth. Dywedodd y gall fod yn ddibynnol ar ble maen nhw'n byw a sut y mae'r awdurdod lleol yn edrych ar y fframwaith hwnnw.[112] Galwodd am eglurder ynghylch yr hyn sy'n ddisgwyliedig o ddarparwr gofal plant, fel bod darparwyr yn deall yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol.[113]

**110.** Codwyd y diffyg eglurder hwn gan randdeiliaid eraill. Cododd Mudiad Meithrin bryderon am y wybodaeth sy'n cael ei darparu i rai lleoliadau gofal plant mewn perthynas â'u dyletswyddau o dan y Cod. Dywedodd fod "nifer o awdurdodau lleol yn camarwain lleoliadau meithrin gyda negeseuon sy'n groes i'r Cod" Yn ôl y mudiad, er y bu "ymgais" i fynd i'r afael â'r negeseuon hyn drwy flog ar wefan Cwlwm, nid oedd hyn bellach yn ddigonol, a galwodd ar y Llywodraeth i roi "enghreifftiau pendant o'r hyn y disgwylir i ddarparwyr ei wneud" o dan y dyletswyddau.[114]

**111.** Roedd y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd yn cytuno bod angen rhagor o eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch y gofynion, y disgwyliadau, a rôl y darparwyr nas cynhelir wrth gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Os nad yw darparwyr yn cael y cymorth cywir, meddai, efallai na fyddant yn gallu diwallu anghenion unigol y plant.[115]

**112.** Amlygodd Mudiad Meithrin fod y ddyletswydd, yn y Ddeddf ADY, ar leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir i gefnogi awdurdodau lleol i nodi a chynnal CDU ar gyfer plant ag ADY yn dod i rym ar yr un pryd â "c[h]yfnod o gyni ariannol sy'n parhau, ac yn debygol o waethygu". Dywed fod y toriadau ariannol "wedi cael

[111] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 40 PACEY Cymru
[112] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 64
[113] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 104
[114] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[115] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 54 Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd

effaith uniongyrchol ar hawliau plant anabl a niwrowahanol ledled Cymru, ac yn benodol eu mynediad at ofal plant ac addysg."[116]

**113.** Cododd y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd hefyd y mater o gyllid i gefnogi plant ag ADY. Dywedodd ei bod yn amlwg bod amrywiaeth rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Dywedodd yr awdurdod lleol wrth un darparwr nad oedd ganddo ragor o gyllid, ac na allai darparwyr barhau i gynnig cymorth un-i-un. Fodd bynnag, newidiodd yr awdurdod lleol ei feddwl wedyn gan ddweud y gallai cymorth barhau i blant presennol ond na fyddai rhagor o arian ar gyfer plant newydd yn y dyfodol. Dywedodd hefyd nad oes gan rai awdurdodau lleol ddull gweithredu cyffredinol ar y gorwel ar gyfer cyllid.[117]

**114.** Rhannodd Cadeirydd elusen Sparkle adroddiadau diweddar gan ei sefydliad a oedd yn amlinellu rhai o brofiadau'r teuluoedd y mae'n eu cefnogi. Amlygwyd y bu effaith ar gyllid ar gyfer meithrinfeydd i'w galluogi i ddarparu cymorth ers cyflwyno CDUau.[118]

**115.** Dywedodd Mudiad Meithrin ei bod yn ymddangos bod "cynnydd sylweddol yn y nifer o blant ag ADY mewn lleoliadau gofal plant pob oed". Roedd hyn, meddai, yn cyd-fynd â "chanfyddiad ymarferwyr" ond roedd yn "aneglur" a ellir priodoli'r cynnydd i'r diwygiadau i ADY. Galwodd am "well dealltwriaeth" o'r data, ynghyd â "gwell gwybodaeth" i helpu lleoliadau nas cynhelir i gynnig mynediad cyfartal.[119]

**116.** Dywedodd Llywodraeth Cymru, er bod y dull a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i nodi a rheoli atgyfeiriadau ADY yn wahanol, mae gan y "rhan fwyaf... dimau/pobl ymroddedig i reoli darpariaeth ADY i sicrhau cynhwysiant a mynediad".[120]

## Clybiau cyn ac ar ôl ysgol a darpariaeth dros y gwyliau

**117.** Clywsom sut y mae'r cynnig darpariaeth gofal plant cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau yn amrywio'n sylweddol rhwng plant a phobl ifanc a'u cyfoedion nad ydynt yn anabl neu sy'n niwronodweddiadol. Mae hyn yn debyg iawn i'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ac ysgol yn fwy cyffredinol. Roedd hwn yn fater a godwyd droeon, gan gynnwys gan y teuluoedd y gwnaethom

[116] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[117] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 54 Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
[118] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle
[119] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[120] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77, Llywodraeth Cymru, paragraff 8.3

siarad â nhw[121]; a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[122]. Clywsom am hyn yng nghyd-destun clybiau gwyliau a chlybiau ar ôl ysgol yn brwydro i oroesi, a'r her o ran recriwtio staff cymwys.[123]

**118.** Dywedodd Clybiau Plant Cymru Kids Clubs fod diffyg darpariaeth gynhwysol i'w briodoli i rwystrau cymdeithasol yn hytrach na gwahaniaethu. Fe wnaethant ddisgrifio profiadau un lleoliad:

> *"It is incredibly difficult to run a childcare service for children with additional needs due to the high level of staffing, training, qualification and facilities needed. It requires substantially more preparation for each child/young person such as visiting them in school, at home and in other settings in order to have the full picture of the individuals needs, behaviours, likes and dislikes. … The expense of running our setting is way beyond what it is reasonable to charge parents in fees, so we are constantly fundraising to open the setting."*[124]

**119.** Dywedodd un rhiant wrthym fod hyn yn golygu bod yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer ei phlant yn wahanol iawn i rai eu cyd-ddisgyblion nad ydynt yn anabl a chyd-ddisgyblion niwronodweddiadol. Mae'r anghysondeb hwn yn ymestyn i ddarpariaeth gwyliau:

> *"… the Council's holiday childcare/activity offerings are only available to a small cohort of disabled children. Sports camps … targeted as disabled children, have a minimum entry criteria (being able to feed and toilet themselves) that not all disabled childcare can meet."*

Ychwanegodd fod rhywfaint o ddarpariaeth yn ei hawdurdod lleol a oedd ond ar gael i blant mewn unedau canolfan adnoddau arbennig penodol, felly ni all plentyn ag anghenion tebyg yn yr un awdurdod lleol ond sy'n mynychu canolfan adnoddau wahanol fynychu.[125] Mae hyn yn dangos yn amlwg y loteri cod post y

[121] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[122] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 98
[123] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 19 a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 12
[124] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 43 Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
[125] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 28 Unigolyn

clywsom amdano ledled Cymru. Mae'n bodoli o fewn yr un ardal awdurdod lleol, yn ogystal â rhwng gwahanol awdurdodau lleol.

**120.** Dywedodd rhiant arall sydd â dau blentyn dieiriau awtistig ag anghenion cymhleth wrthym:

> *"Does DIM darpariaeth o ran cyfleusterau gofal plant !!!!! Does gen i DDIM dewis!!!! Dyw'r nifer cyfyngedig o leoedd dros yr haf ddim hyd yn oed yn ddewis, loteri yw e […] Hyd yn oed pe bawn i'n gyfoethog does dim cyfleuster yn ardal fy awdurdod lleol y gallaf, o'm dewis fy hun, anfon fy mhlant iddo i gael lefel y gofal plant sydd ei angen arnyn nhw."*[126]

**121.** Cyfeiriodd Oxfam Cymru at brofiad rhiant mewn ardal drefol, a ddywedodd mai dim ond am chwe diwrnod o'r chwe wythnos o wyliau y mae gofal plant ar gael, a dywedodd rhiant arall wrtho nad oes darpariaeth briodol ar gyfer ei blentyn awtistig dieiriau.[127] Roedd rhiant arall yn teimlo bod llais ei deulu yn un coll a oedd wedi cael ei anghofio.[128]

**122.** Dywedodd un rhiant y gall diffyg darpariaeth gofleidiol effeithio ar benderfyniad teulu ynghylch pa fath o ysgol y bydd plant yn mynd iddi:

> *"Most units/special schools don't offer breakfast club and after school club which is essential for working parents. It's also provides social development and peer friendship opportunities. Parents have to choose mainstream for this which can compromise a child's education as there is a lack of specialist training relating for ALN for mainstream teaching staff."*[129]

**123.** Mewn un ysgol, clywsom sut yr oedd rhieni wedi sefydlu eu darpariaeth gwyliau gynhwysol eu hunain. Mae'r cynllun yn boblogaidd, ac mae rhestr aros, ond nid yw'n gallu ehangu oherwydd heriau'n ymwneud â recriwtio staff.[130] Mae'r her sy'n gysylltiedig â natur fyrhoedlog y gwaith ynghyd â'r angen am gymwysterau neu brofiad penodol, yn eu gwneud yn rolau anodd eu llenwi.[131]

[126] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[127] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57 Oxfam Cymru, paragraff 4.1
[128] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57 Oxfam Cymru, paragraff 3.2.10
[129] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 55 Fforwm Rhieni-Ofalwyr Abertawe
[130] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraffau 28-30
[131] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraffau 7-8

Dywedodd y rhieni eu bod yn credu bod hwn yn wasanaeth y dylai'r awdurdod lleol fod yn ei redeg.[132] Roedd hon yn farn a rannwyd gan deuluoedd eraill, a oedd yn galw am dargedu canran o'r holl gyllid ar gyfer chwarae, chwaraeon a diwylliant at blant a phobl ifanc, a gweithredu cosbau os na fydd hynny'n digwydd.[133]

**124.** Yr heriau'n ymwneud â chael gofal plant yn ystod y gwyliau oedd un o'r rhesymau pam y newidiodd Oakhill ASD Childcare o ddarparu darpariaeth gofleidiol i ofal dros y gwyliau. Dywedodd hefyd fod y ddarpariaeth yn wynebu heriau o ran sicrhau cyllid ar gyfer y gwasanaeth, ac felly wedi canolbwyntio ar ddarpariaeth dros wyliau'r haf gan mai dyma'r ddarpariaeth sydd ei hangen fwyaf.[134] Er bod y ddarpariaeth yn llwyddiannus a bod rhestr aros, mae heriau gwirioneddol o ran sicrhau ei bod yn ariannol hyfyw, a bod y ddarpariaeth yn derbyn grantiau gan nifer o sefydliadau ac yn codi ffioedd, nid yw'r ffioedd yn talu costau'r lefel ddwys o gymorth sydd ei angen. (Mae'r ddarpariaeth yn cael ei rhedeg fel elusen.)[135]

**125.** Cododd rhieni yr her o gael mynediad at ddarpariaeth gofleidiol. Hyd yn oed os yw ysgol yn cynnig darpariaeth gynhwysol, yn aml mae cyfyngiadau ar gludiant i ddysgwyr yn golygu na all plant a phobl ifanc fynychu. Codwyd hyn droeon gan rieni; [136] yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion[137] a chan eraill gan gynnwys Estyn[138]. Gall methu â chael mynediad at y math hwn o ddarpariaeth arwain at ynysu cymdeithasol. [139] Gall yr heriau hyn fod hyd yn oed yn fwy i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.[140] Rydym yn edrych ar faterion teithio gan ddysgwyr yn fanylach yn y Bennod nesaf.

**126.** Awgrymodd un o'r ysgolion arbennig y bu i ni ymweld â hi ateb i'r heriau hyn. Awgrymwyd y dylid caniatáu i gynorthwywyr addysgu gymryd cyfrifoldeb am y gofal cofleidiol, yn ogystal ag am gludiant uniongyrchol i'r ysgol ac yn ôl pe bai cyllid ar gael. Byddai hyn, meddai, yn helpu gyda chyflog cynorthwywyr addysgu gan y gallent ddod yn weithwyr cyswllt amser llawn. Fodd bynnag, nododd hefyd

[132] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraffau 28-30
[133] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 58
[134] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraffau 4-5
[135] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraffau 12-13
[136] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 55 Fforwm Rhieni-Ofalwyr Abertawe
[137] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 18
[138] AEC 48 Estyn
[139] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 46
[140] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 67 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

y gallai treulio amser ychwanegol yn yr ysgol fod yn heriol i rai dysgwyr, sy'n aml yn flinedig iawn ar ddiwedd y diwrnod ysgol.[141] Awgrymodd rhieni yn Oakhill ASD Childcare hefyd y gellid cyflogi cynorthwywyr addysgu mewn darpariaeth gofal gwyliau, a allai fod yn ffrwd ychwanegol o incwm defnyddiol i staff nad ydynt yn cael eu talu dros y gwyliau.[142]

**127.** Cymharodd rhieni a gofalwyr brofiadau eu plant gyda phrofiadau brodyr a chwiorydd nad ydynt yn anabl a/neu sy'n niwronodweddiadol. Ni all un plentyn gael mynediad at ddim, ond mae gan y llall ddewis eang o weithgareddau allgyrsiol gan gynnwys gwersi nofio, gymnasteg, bale a gofal plant bum bore'r wythnos.[143] Fel rhan o'r ymateb gan y Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol, dywedodd un rhiant na allai ei fab fynd i glybiau ieuenctid neu ddarpariaeth arall debyg fel y sgowtiaid, a'i fod, ynghyd â cholli cyfle i gael ymdeimlad o normalrwydd, hefyd yn teimlo ei fod yn gaeth i'r tŷ. [144]

**128.** Dywedwyd wrthym y gall gwyliau ysgol fod yn arbennig o hir a heriol oherwydd diffyg darpariaeth gynhwysol.[145] Soniodd yr ysgolion[146] a'r teuluoedd am effaith diffyg trefn arferol dros wyliau'r haf. Nododd rhieni y byddai parhad o ran y ddarpariaeth drwy gydol y flwyddyn yn ddefnyddiol. Dywedwyd bod unrhyw fath o egwyl yn amharu ar y drefn.[147]

**129.** Dywedodd Chwarae Cymru fod llawer o awdurdodau lleol a darparwyr gwirfoddol yn cynnig "lleoedd â chymorth ar gyfer plant anabl", a bod y rhan fwyaf o'r rhieni yn ystod gwyliau'r haf. Fodd bynnag, nodwyd bod y lleoedd sydd ar gael yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys lefel y cymorth sydd ei angen (gan dynnu sylw at y ffaith bod cymorth un-i-un yn "heriol"); sgiliau staff; a hygyrchedd adeiladau. Pan fydd cyfleoedd ar gael, meddai, gallant fod yn gyfyngedig o ran hyd a nifer y sesiynau a gynigir. [148]

**130.** Soniodd rhieni am gyfyngiadau ar ddewis a hyblygrwydd o ran dyddiadau pan fo clybiau gwyliau cynhwysol ar gael. Dywedodd un rhiant mai dim ond 4 sesiwn 3 awr y cafodd eu cynnig ar gyfer yr haf cyfan, a dim ond ar 17 Gorffennaf y

[141] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 4, 29 Mehefin 2023, paragraffau 13-16
[142] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 24
[143] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 31 Unigolyn
[144] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 52 Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol
[145] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 31 Unigolyn
[146] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 19
[147] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[148] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 37 Chwarae Cymru, paragraffau 1.9 ac 1.11

cynigiwyd y dyddiadau hyn. Pan gwestiynodd y dyddiadau, yr ymateb oedd "hen dro, nid gofal seibiant yw hwn, chwarae yw hyn, nid gofal plant". Cymharwyd hyn â phrofiadau teuluoedd â phlant nad ydynt yn anabl a phlant niwronodweddiadol sy'n gallu dewis pryd i ddefnyddio gofal plant dros yr haf, ond roeddent hwy'n cael cynnig dyddiadau cyfyngedig ac yn gorfod derbyn yr hyn a gynigir iddynt.[149]

**131.** Dywedodd Mudiad Meithrin fod problem benodol yn ymwneud â chyllid ar gyfer darpariaeth gwyliau cynhwysol. Cyfeiriodd at enghraifft o riant sengl y cwtogwyd ei gyllid ar gyfer gofal plant gan orfod "wynebu wythnosau heb doriad o ofalu" am ei blentyn a chanddo "anghenion dwys". Cafodd hyn effaith andwyol ar iechyd meddwl y rhiant. Dywedodd hefyd fod gan rieni a gofalwyr "pryder gwirioneddol" y bydd gwasanaethau a chefnogaeth yn ystod gwyliau ysgol yn cael eu cwtogi ymhellach. Galwodd ar awdurdodau lleol i glustnodi arian i gefnogi mynediad teg i ofal gwyliau a gofal cofleidiol.[150] (Rydym yn trafod effaith diffyg darpariaeth gynhwysol ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ym Mhennod 6.)

**132.** Dywedodd Clybiau Plant Cymru Kids Clubs fod 41% o'r rhai a ymatebodd i'w harolwg wedi cael gafael ar gyllid i gefnogi plentyn sy'n mynychu gofal plant. Daeth y cyllid hwn gan amrywiaeth o gyllidwyr gwahanol, gan gynnwys Cynnig Gofal Plant Cymru; awdurdodau lleol yn ogystal â chyllidwyr grant fel y Loteri Genedlaethol, a Phlant mewn Angen. Dywedwyd eu bod ar hyn o bryd yn diweddaru eu gwybodaeth am ffrydiau ariannu ar gyfer y math hwn o gymorth, ond bod arwyddion cynnar bod y cyllid yn gyfyngedig. Hefyd, mae unrhyw gymorth sydd ar gael drwy Gynnig Gofal Plant Cymru yn dod i ben pan fydd plentyn yn cyrraedd oedran ysgol.[151]

**133.** Mae'r angen i sicrhau darpariaeth cyn neu ar ôl ysgol neu yn ystod y gwyliau yn tueddu i fod yn llai o broblem i deuluoedd â phlant nad ydynt yn anabl a phlant niwronodweddiadol wrth iddynt fynd yn hŷn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am lawer o blant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

> *"Children with … disablities [sic] require childcare beyond the age of 12 i.e. to 18, before being eligible for adult care services. Mainstream childcare provision only caters up to age 12. Children without disabilities tend to be independent enough to arrange their own social and leisure interaction from age 13. For*

[149] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 14
[150] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[151] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 43 Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

*children with low functioning ASD and similar the development age is a lot lower. My daughter's speech and social interaction is equivalent to about age 3 for example. She requires ongoing childcare for school holidays and after school up to 18. For 13 to 18 there is no provision at all. This a huge gap in provision."*[152]

**134.** Codwyd y mater hwn hefyd gan rieni a gyfrannodd at adroddiad Sparkle ar ofal plant. Tynnodd y rhieni sylw at y ffaith, wrth i blant nad ydynt yn anabl a phlant niwronodweddiadol fynd yn hŷn, y gallant dreulio amser gartref ar eu pen eu hunain, gan alluogi rhieni a gofalwyr i weithio oriau 9-5 awr mwy nodweddiadol.[153]

**135.** Mae Oakhill ASD Childcare yn darparu lleoedd ar gyfer plant o bob rhwng 3 a 19 oed. Dywedodd fod yr ystod eang hon o oedrannau yn achosi heriau ychwanegol, nid yn unig o ran gwahaniaethau corfforol ond hefyd o ran diddordebau. Er enghraifft, efallai y bydd plant hŷn a phobl ifanc eisiau chwarae gyda Lego, ond mae hyn yn achosi perygl tagu i blant iau. Dywedodd y byddai cael mwy o le yn eu helpu i gynyddu capasiti.[154] Nododd hefyd ei bod yn arbennig o dorcalonnus pan na allant dderbyn plant yn Oakhill sydd eisoes wedi cael eu troi ymaith o leoliadau prif ffrwd.[155]

**136.** Clywsom sut y byddai cael darpariaeth brecwast, ar ôl ysgol a darpariaeth gwyliau yn ysgol y plentyn o gymorth. Mae hyn yn rhannol oherwydd y bydd yn amgylchedd cyfarwydd i'r plentyn a'r teulu, gan roi hyder i'r ddau y bydd y ddarpariaeth yn diwallu ei anghenion.[156] Roedd hon yn farn a ategwyd gan rieni y gwnaethom siarad â nhw o Oakhill ASD Childcare, a oedd am weld cysylltiadau agosach rhwng lleoliadau addysg a gofal plant. Roeddent yn teimlo y gallai adeiladau ysgol sy'n aml yn wag y tu allan i oriau ysgol ddarparu cyfle i gynnig darpariaeth mewn mannau sy'n gyfarwydd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.[157]

[152] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 21 Unigolyn
[153] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle
[154] Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 11
[155] Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 24
[156] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle
[157] Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraffau 18-19

## Profiadau cadarnhaol ac arferion da

**137.** Gall effaith profiad cadarnhaol o ofal plant newid bywyd rhywun. Roedd yn galonogol clywed am rai o'r rhain, yn enwedig mewn perthynas â rhai lleoliadau arbenigol.

> ***Astudiaeth Achos 3***
>
> *Our son attended a mainstream day nursery 3 days a week whilst I worked. When he regressed, I sought support for our son to help him progress. … felt there was very little support available to help our son. … I took a career break so he could attend this setting and in the meantime looked for suitable options closer to home that would enable me to go back to work.*
>
> *my son was able to attend 4 mornings a week. We will be forever grateful to them as straight away they said come up for a chat and could immediately see the concerns I had for my son. For the first time I felt like I wasn't going mad and was being taken seriously. … is a 40-minute drive away from my home and is a 2.5hr session. This meant the only way I could get my son to this provision was to take a career break as there were no other suitable provisions closer to home that could meet his needs. Financially this was very difficult for us as a family as I had to take 18 months off work unpaid, it also meant sitting outside the center in the car everyday as the distance to drive home was too far. However, seeing the progress our son made there and how happy he was there made it all worthwhile. The ladies that work there are incredible, I only wish there was an … in every community.*
>
> *Our son has happily been in his specialist setting since not long after his 3rd birthday. He is … thriving. The support he has had in his first few years of life has been life changing for him but accessing that support took a huge toll on us all as a family. There is also the worry that if he is seen as doing too well that support will be pulled and he could potentially regress again. If all children were able to access support early it could be lifechanging for them and their families.* [158]

[158] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 65 Unigolyn

**138.** Mae enghreifftiau o arfer da yn y sector gofal plant hefyd wedi cael eu rhannu gyda ni. Credwn ei bod yn bwysig rhannu'r rhain gyda chynulleidfa ehangach.

***Enghraifft o arfer da 1***

*One local authority funds a club that is CIW registered to offer, during the summer holidays, 80 children with additional needs—some with severe additional needs—to have play opportunities. It's not childcare, parents don't pay; it's respite. It's two weeks in the summer holidays for 80 children to access play opportunities, and one local authority funds that through the all-Wales play opportunity grant. It's the way that different local authorities look at their funding and the opportunities to provide provisions that are really welcoming, offering holiday childcare or opportunities.* [159]

***Enghraifft o arfer da 2***

*"E-PAtS, or Early Positive Approaches to Support programme, is an eight week group session led by a professional to help support families of children aged five and under with disabilities. The programme seeks to improve parental psychosocial well-being, access to services and support, and positive approaches to behaviours that challenge. … In Neath Port Talbot, a multi-agency playgroup for pre-school aged children focuses on providing meaningful advice that is based on needs at the time and that can lead to meaningful change for families, based on their best hopes. This is a pilot group that is having some positive early feedback from families."*[160]

**139.** Tynnodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith sylw at raglen "Siarad Gyda Fi" Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar leferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar. Dywedodd fod y rhaglen wedi bod yn bwysig iawn ond bod angen i'r gwaith hwn barhau. Dywedodd hefyd fod offeryn gwyliadwriaeth dwyieithog penodol i Gymru yn cael ei ddatblygu, ond bod y

[159] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 49
[160] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain

gwaith hwn yn ei gamau cynnar ac y bydd yn cymryd peth amser cyn y bydd ar waith.[161]

> ***Enghraifft o arfer da 3***
>
> *"In the local authority that I work with, we have a multi-agency playgroup, where OTs, speech and language, educational psychologists and portage are all involved in getting to know families from a really young age—15 months and upwards—and the focus on that is providing support there on what's needed. And, often, families will say that they just want to share that with someone and for someone to reassure them along the way a lot of the time. So, even when there are some more complex needs, or support that might be required later on, a lot of the things that we do that are most helpful are around listening and having that reassuring role as well. I don't think there's enough emphasis placed on that level of support that they find so massively beneficial. And, then, obviously, that information, and that sharing of that communication, has already had a journey far before school for those children."*[162]

## Profiadau o wahanol fathau o angen

**140.** Ar draws y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac oedran ysgol a gofal plant, clywsom gan amrywiaeth o wahanol sefydliadau ac unigolion am y problemau penodol a wynebwyd ganddynt wrth geisio cael mynediad at ddarpariaeth gynhwysol.

### Darpariaeth i blant byddar / plant â cholled clyw

**141.** Ceir diffyg darpariaeth sy'n gyfeillgar i'r byddar yn arbennig. Ceir problemau'n ymwneud â gallu lleoliadau gofal plant i ddefnyddio cymorth technolegol neu feddu ar yr addasiadau cyfathrebu cywir. Gofynnodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru (NDCS Cymru) a yw arweinwyr Dechrau'n Deg yn diwallu anghenion plant byddar.[163]

**142.** Dywedodd Auditory Verbal UK ei bod yn arbennig o bwysig i blant byddar sy'n cael eu geni i deuluoedd sy'n clywed nad oes ganddynt unrhyw brofiad o

[161] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 96
[162] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 145
[163] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector

golled clyw, y dylai cymorth cynnar medrus a sensitif fod ar gael er mwyn i blant allu datblygu'r sgiliau ieithyddol a chyfathrebu fel y gallant ddechrau'r ysgol gyda'u cyfoedion sy'n clywed.[164]

### Defnyddwyr cadeiriau olwyn

**143.** O ran y plant hyn, dywedwyd wrthym bod yn rhaid i ofal plant fodloni nifer o feini prawf gwahanol er mwyn bod yn addas, yn ogystal â sicrhau bod y ddarpariaeth yn hygyrch i ddefnyddiwr cadair olwyn; rhaid i'r ddarpariaeth hefyd ddiwallu anghenion meddygol a chorfforol yn ogystal ag anghenion cymdeithasol. Dywedodd Whizz Kidz fod geiriad y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir yng Nghymru yn gadael gormod yn agored i'w ddehongli gan ddarparwr ac nad yw'n cynnig safonau gofynnol mesuradwy pendant. Noda nad yw'r Safonau yn sôn am hygyrchedd lleoliadau i gadeiriau olwyn. [165]

### Awtistiaeth

**144.** Amlygodd y Comisiynydd Plant waith ASD Rainbows, sy'n darparu gofal plant i blant ar y sbectrwm awtistig, gan nodi mai ychydig iawn o ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer y grŵp penodol hwn o blant.[166] Buom yn ffodus i ymweld ag ASD Rainbows fel rhan o'n hymchwiliad a gweld sut y gall darpariaeth arbenigol o'r fath newid bywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

**145.** Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth ei bod yn bryderus iawn am ddiffyg darpariaeth gynhwysol ledled Cymru. Yn arbennig ar gyfer y plant hynny ag anghenion cymorth uwch. Dywedodd hefyd, lle ceir darpariaeth, y gall y costau fod yn rhwystr sylweddol, sy'n her sy'n cael ei gwaethygu ymhellach gan yr argyfwng costau byw a chyfraddau tlodi ystyfnig o uchel.[167]

**146.** Yn fwy cyffredinol, tynnodd pobl sylw hefyd at y ffaith bod y math o anghenion wedi newid dros y 30 mlynedd diwethaf, ac nad yw'r system a'r gwasanaethau wedi'u rheoli mewn ffordd sy'n ystyried y newidiadau hyn. Dywedwyd wrthym fod newidiadau o ran nodi a mynd i'r afael ag anghenion wedi llywio'r newidiadau hyn yn rhannol. Yn benodol, mae'r ddealltwriaeth well o niwroamrywiaeth wedi arwain at adnabyddiaeth well. Yn flaenorol byddai'r plant

[164] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 59 Auditory Verbal UK
[165] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC35 Whizz Kidz
[166] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 18
[167] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 51

hyn wedi cael trafferth ymdopi, ac yn cael eu hystyried yn anodd ac yn lletchwith.[168]

## Ein barn ni: Mynediad at ofal plant

**147.** Rydym yn ymwybodol iawn bod problemau o ran cael mynediad at ofal plant fforddiadwy a phriodol i deuluoedd plant nad ydynt yn anabl a phlant niwronodweddiadol. Rydym yn edrych ymlaen at weld canfyddiadau gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn y maes hwn. Nid ydym yn tanamcangyfrif yr heriau a wynebir gan deuluoedd a darparwyr gofal plant ledled Cymru.

**148.** Fodd bynnag, i deuluoedd â phlant a phobl ifanc o fewn cwmpas yr ymchwiliad, yn ogystal ag wynebu'r heriau hyn, maent yn wynebu heriau ychwanegol sy'n ei gwneud yn amhosibl, mewn llawer o achosion, i sicrhau gofal plant sy'n diwallu eu hanghenion. Rydym wedi clywed straeon torcalonnus gan deuluoedd ledled Cymru am sut y mae ceisio cael gafael ar ofal plant cynhwysol wedi torri eu hysbryd. Mae'r diffyg mynediad hwn wedi eu hatal rhag gallu gweithio, neu dreulio amser gydag aelodau eraill o'r teulu, neu wneud gwaith tŷ, heb sôn am gael amser i ymlacio. Mae'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd teuluol, ac ni ellir diystyru'r effeithiau hyn. Mae hefyd yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. At hynny, mae hefyd yn cael effaith ar economi Cymru, ac ar gyllid cyhoeddus. Edrychwn ar bob un o'r rhain yn fanylach ym Mhennod 6.

**149.** Gall yr heriau o ran cael mynediad at ddarpariaeth gynhwysol fod yn waeth i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Pan fydd darpariaeth gynhwysol ar gael, gall olygu teithio ymhell yn aml. Clywsom wahanol enghreifftiau o deuluoedd yn gorfod gwneud teithiau hir er mwyn cael mynediad at ddarpariaeth gofal plant a oedd yn diwallu eu hanghenion. Rydym hefyd yn ymwybodol y gall fod heriau ychwanegol i'r rhai sydd eisiau darpariaeth cyfrwng Cymraeg gynhwysol mewn ardaloedd gwledig a threfol, ac edrychwn arnynt yn fanylach isod.

**150.** Un o'r heriau drwy gydol yr ymchwiliad hwn fu dod o hyd i ddata sy'n cefnogi'r straeon unigol a glywsom. Mae'r diffyg data a gwybodaeth hefyd yn effeithio ar deuluoedd fel y rhennir ym mharagraff 48. Mae diffyg data yn edefyn cyffredin ym mron yr holl waith yr ydym wedi'i wneud fel Pwyllgor, ond mae bwlch penodol mewn perthynas â darpariaeth gofal plant. Rydym yn ymdrin â materion yn ymwneud ag Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn yr adran nesaf,

[168] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad Rhanddeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraffau 7-8

ond credwn fod angen clir am fwy o ymchwil a data sydd ar gael ar fylchau yn y ddarpariaeth gofal plant.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mwy o ymchwil a data ar gael ar y bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant, a all helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu darpariaeth gynhwysol. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn casglu data pan fydd plant a phobl ifanc yn gadael neu'n symud rhwng darpariaethau gofal plant ac addysg a'r rhesymau dros hynny. Dylid defnyddio'r data hyn wedyn fel sail i adolygiadau, hyfforddiant ac asesiadau yn y dyfodol ar gyfer darparwyr gofal plant ac addysg.

**151.** Hyd yn oed pan fydd modd cael gafael ar ofal plant cynhwysol, yn aml nid yw'n ddarpariaeth leol, ac mae'n golygu bod angen teithio cryn bellter i'w mynychu. Bydd stori un rhiant a fyddai'n eistedd yn y car, weithiau'n ofidus iawn, yn ystod sesiwn 2.5 awr o ofal plant hygyrch i'w plentyn, oherwydd nad oedd yn gallu fforddio talu costau petrol i yrru adref ac yn ôl eto, yn aros yng nghof y rhai ohonom a'i clywodd. Mae angen i ddarpariaeth gynhwysol fod ar gael yn lleol i bob teulu.

**152.** Mae rhai o'r rhwystrau i gynnig darpariaeth gynhwysol hygyrch yr un fath ar gyfer y ddarpariaeth gofal plant ehangach, ond mae rhai'n ymwneud yn benodol ag anghenion y plant a'r bobl ifanc hyn a'u teuluoedd.

**153.** Nodwn farn nifer o rieni a dynnodd sylw at ddarpariaeth y trydydd sector ac a ddywedodd eu bod yn teimlo mai awdurdodau lleol ddylai ei darparu. Mewn un achos, bu'n rhaid i deuluoedd eu hunain ddechrau cynnig darpariaeth. Rydym yn amau bod achosion eraill o hyn yn digwydd ledled Cymru.

**154.** Creodd peth o'r dystiolaeth a glywsom, yn enwedig y dystiolaeth gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol, rwystredigaeth fawr inni. Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth o'r heriau y mae teuluoedd yn eu hwynebu, na'r effaith sylweddol y mae diffyg gofal plant cynhwysol yn ei chael arnynt. Roeddem yn pryderu nad oedd unrhyw ymdeimlad bod awdurdodau lleol yn cymryd camau i helpu i sicrhau bod bylchau yn y ddarpariaeth yn cael eu llenwi. Gwyddom fod pwysau mawr ar awdurdodau lleol, ond credwn y byddai dull mwy agored o ymdrin â'r dystiolaeth a glywsom, a rhywfaint o barodrwydd i dderbyn y gallant chwarae rhan yn y gwaith o ddatrys yr heriau hyn o gymorth.

## Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant

**155.** Ers i ni orffen casglu tystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hadolygiad o ADGPau. Mae llawer yn yr adolygiad hwn sy'n cyd-fynd â'r

dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed am ADGPau. Byddem yn croesawu gweld Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei hymateb i'r argymhellion yn yr adolygiad hwnnw.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei hymateb i'r argymhellion a wneir yn yr Ymchwil i Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant gyda ni. Wrth ddarparu hyn, dylai Llywodraeth Cymru fanylu ar sut y mae'n sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith a sut y mae'r broses weithredu'n cael ei monitro.

**156.** Rydym yn arbennig o bryderus bod ADGPau wedi datgelu bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Cymru, ac eto ni allwn nodi pa gamau sy'n cael eu cymryd i lenwi'r bylchau hyn. Credwn fod gormod o awdurdodau lleol yn trin ADGPau fel ymarfer ticio blychau yn unig ac nad ydynt yn arwain at fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol fod yn cymryd camau mwy rhagweithiol i lenwi'r bylchau hyn. Credwn y gellir gwneud mwy i gefnogi busnesau i agor neu ddatblygu darpariaeth gofal plant cynhwysol.

**157.** Nid yw'r bylchau hyn yn y ddarpariaeth yn mynd i gael eu llenwi'n organig, mae ymyrraeth yn hanfodol er mwyn helpu i adeiladu a datblygu'r sector.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y dylid llenwi bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant ar gyfer gofal plant cynhwysol a hygyrch a nodir mewn ADGPau. Dylai hyn gynnwys amlinellu sut y gall Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio a chefnogi ei gilydd i sicrhau bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i ddarparu gofal plant cynaliadwy a chynhwysol ym mhob rhan o Gymru.

## Cyllid

**158.** Mae natur hynod gymhleth y cyllid gofal plant yn rhwystr mawr i ddarparu gofal plant cynhwysol. Mae nifer o ffynonellau ariannu gwahanol ar gael, pob un â gofynion a threfniadau monitro gwahanol. Caiff y cymhlethdodau hyn eu dwysáu gan yr amrywiaeth o wahanol ddulliau gweithredu a ddefnyddir gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Clywsom gan sefydliadau cenedlaethol a ddywedodd wrthym eu bod yn cael anhawster i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am y 22 o wahanol ddulliau gweithredu sydd hefyd yn gallu newid yn rheolaidd. Mae hyn wedyn yn ei gwneud yn anoddach i ddarparwyr sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at yr holl gyllid posibl i'w helpu i gefnogi darpariaeth gynhwysol.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y gall geisio symleiddio'r amrywiol ffrydiau ariannu sydd ar gael i ddarparwyr gofal plant er mwyn sicrhau ei bod yn haws i ddarparwyr gofal plant wybod pa gymorth y gallant ei gael a'r ffordd orau o gael gafael arno.

**159.** Fel y nodir ym mharagraffau 72-80, mae pryderon bod rhai teuluoedd yn wynebu rhwystrau ychwanegol i ddarpariaeth gynhwysol oherwydd nad ydynt yn byw mewn ardal darpariaeth Dechrau'n Deg neu oherwydd eu bod yn anghymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Gall hyn hefyd effeithio ar allu darpariaeth gofal plant i gael mynediad at gyllid hefyd, er enghraifft yr ASG. Rydym yn rhannu'r pryderon hyn ac yn credu y dylai cyllid fod ar gael i helpu i gefnogi plant i gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant gynhwysol ble bynnag y bônt yn byw, neu p'un a yw eu rhieni mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Mae hyn yn berthnasol i'r cyllid sydd ar gael i deuluoedd a lleoliadau fel ei gilydd.

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cymorth ariannol ar gyfer gofal plant yn seiliedig ar anghenion y plentyn a'r lleoliad ac nid ar gymhwystra'r rhieni. Yn unol ag Argymhelliad 16, dylai Llywodraeth Cymru ystyried clustnodi cyllid er mwyn sicrhau bod cyllid sydd wedi'i anelu at gefnogi darpariaeth gynhwysol yn cael ei ddefnyddio at y diben penodol hwn.

### Staffio a hyfforddiant

**160.** Mae cael digon o staff sy'n cael eu talu'n briodol ac sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn hanfodol er mwyn darparu gofal plant cynhwysol. Gwyddom fod problemau gyda recriwtio a chadw staff gofal plant yn fwy cyffredinol. Ond, fel gyda bron pob agwedd ar y gwaith hwn, mae'r problemau hyn yn fwy dwys mewn perthynas â gofal plant cynhwysol.

**161.** Mae hyfforddiant yn hanfodol i sicrhau bod gan staff yr hyder, a'r sgiliau i gefnogi plant a phobl ifanc. Clywsom nad oes digon o gymorth i ddatblygu'r sgiliau hyn. Mae angen hyfforddiant a gwaith codi ymwybyddiaeth cyffredinol, ynghyd â hyfforddiant mwy penodol wedi'i deilwra sy'n sicrhau y gall staff gefnogi anghenion unigol plant yn eu lleoliadau yn y ffordd orau bosibl. Mae angen darparu hyfforddiant mewn ffyrdd sy'n cefnogi darparwyr a'u staff i allu cael mynediad ato'n hawdd. Mae hyn yn golygu bod angen i gyfleoedd hyfforddi fod ar gael ledled Cymru, ac mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol. Mae angen rhoi ystyriaeth benodol i sicrhau bod hyfforddiant ac adnoddau ar gael yn Gymraeg, fel bod lleoliadau Cymraeg neu ddwyieithog yn gallu cael mynediad atynt ac yna gefnogi plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

**162.** Yn yr adran isod ar y Ddeddf a'r Cod ADY, rydym yn gwneud dau argymhelliad ynghylch hyfforddiant a chanllawiau i gefnogi darparwyr i ddarparu cymorth ADY.

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

**163.** Mae strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, yn gosod uchelgais glir o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Fel y dywed y strategaeth, mae addysg yn "ganolog" i'r weledigaeth hon. Mae'r strategaeth yn nodi pwysigrwydd darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a all wedyn "hwyluso dilyniant" i addysg cyfrwng Cymraeg.[169] Rydym wedi ystyried materion yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyd-destun hwn.

**164.** Er bod rhai teuluoedd yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth gynhwysol yn eu dewis iaith, mae'n amlwg nad oes modd i lawer wneud hynny. Gall hyn arwain at ddewisiadau anodd i deuluoedd, a gall greu rhwystrau wedyn o ran dilyniant i addysg cyfrwng Cymraeg. Mewn rhai achosion efallai y bydd yn rhaid i deuluoedd newid iaith y cartref. Yn ogystal â bod yn ddewis na ddylai unrhyw deulu unigol ei wneud, mae hefyd yn cael effaith ehangach ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned a ledled Cymru. Mae hyn yn wrthgyferbyniad uniongyrchol ag uchelgeisiau'r strategaeth Cymraeg 2050.

**165.** Rydym yn ymwybodol, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, y disgwylir i'r Bil y Gymraeg ac Addysg gael ei gyflwyno i'r Senedd cyn toriad yr haf. Erbyn i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, efallai y bydd y Bil hwn wedi cael ei gyflwyno, ond ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod y manylion. Fodd bynnag, os caiff y Bil ei gyfeirio atom i graffu arno, byddwn yn myfyrio ar y dystiolaeth mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar ac addysg statudol, fel rhan o'n gwaith craffu ar y Bil hwnnw.

## Effaith y Ddeddf a'r Cod ADY

**166.** Yn ystod sesiwn graffu ddiweddar gyda ni, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y gwaith y mae wedi'i gychwyn yn edrych ar weithredu'r Ddeddf a'r Cod ADY. Roedd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar weithredu'r Ddeddf a'r Cod ADY mewn ysgolion, ond dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r gwaith hwn yn golygu cwrdd ag arweinwyr y blynyddoedd cynnar.[170] Rydym felly'n cymryd yn ganiatáol y bydd yr adolygiad yn cwmpasu pob agwedd ar y Ddeddf a'r Cod ADY, gan ddechrau o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth ôl-16.

[169] Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr, 10 Gorffennaf 2017
[170] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 19

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau cwmpas yr adolygiad o'r Ddeddf a'r Cod ADY, ac amlinellu'r amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiad hwn, a ph'un a fydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu cyhoeddi ai peidio.

**167.** Rydym yn cefnogi'r galwadau am ddull cyson a chenedlaethol o ymdrin â hyfforddiant, canllawiau ac adnoddau ar gyfer lleoliadau gofal plant yn y Ddeddf a'r Cod ADY. Fodd bynnnag, rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau o ran cyllid i gefnogi staff a lleoliadau i gael mynediad at yr hyfforddiant hwn. Rydym felly am weld mwy o waith yn cael ei wneud i ddeall yn well gostau ac ymarferoldeb datblygu hyfforddiant ac adnoddau, gan ganolbwyntio'n benodol ar y costau a wynebir gan ddarparwyr.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb datblygu pecyn o hyfforddiant, canllawiau ac adnoddau ar y Ddeddf a'r Cod ADY ar gyfer lleoliadau gofal plant. Fel rhan o'r gwaith dichonoldeb, dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth benodol i sut y byddai darparwyr gofal plant yn gallu cael mynediad at hyfforddiant o'r fath a'i ariannu.

**168.** Clywsom am anghysondebau ledled Cymru o ran y cymorth y mae awdurdodau lleol yn ei gynnig i ddarparwyr gofal plant wrth roi'r Ddeddf a'r Cod ADY ar waith. Clywsom fod rhai awdurdodau lleol wedi darparu gwybodaeth anghywir weithiau (gweler paragraffau 109-111). Mae'n amlwg bod angen mwy o eglurder i ddarparwyr gofal plant ynghylch eu dyletswyddau. Y gobaith yw y bydd gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gan ddarparwyr gofal plant o'r disgwyliadau a osodir arnynt yn gwella cynwysoldeb darpariaeth gofal plant. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth ledled Cymru.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i'r holl ddarparwyr gofal plant ynghylch yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud i gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf a'r Cod ADY. Dylai'r canllawiau hyn roi enghreifftiau pendant o'r hyn y disgwylir i ddarparwyr ei wneud. Dylid diweddaru'r canllawiau hyn yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol, yn berthnasol ac yn ddefnyddiol.

### Darpariaeth ar ôl ysgol a thros y gwyliau

**169.** Er ei bod yn anodd sicrhau darpariaeth blynyddoedd cynnar gynhwysol, dywedodd rhai o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw, y gall fod yn anoddach fyth cael mynediad at glybiau cynhwysol cyn ac ar ôl ysgol a darpariaeth dros y gwyliau. Daw hyn hyd yn oed yn fwy anos wrth i blant a phobl ifanc fynd yn hŷn. Mae amrywiaeth o resymau am hyn, ond yn aml, nid oes unrhyw ddarpariaeth

gofal plant pan fydd plant yn nesáu at eu harddegau cynnar. Er nad yw hyn yn broblem i blant a phobl ifanc nad ydynt yn anabl a'r rhai sy'n niwronodweddiadol a'u teuluoedd, nid yw hyn yn wir yn achos y teuluoedd hyn.

**170.** Rydym wedi clywed am achosion lle mae teuluoedd wedi sefydlu eu darpariaeth eu hunain yn y pen draw, fel Oakhill ASD Childcare. Teimlai llawer mai dyma'r math o ddarpariaeth y dylai awdurdodau lleol ei rhedeg, ac na ddylid ei gadael i elusennau lleol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd grwpiau cymunedol a lleol, sy'n aml yn cael eu rhedeg gan y rhai sydd â gwybodaeth a phrofiad helaeth, yn ogystal ag angerdd. Yn aml gallant fod yn fwy hyblyg ac maent yn gallu addasu i anghenion eu cymunedau lleol. Gallant hefyd helpu gyda chydlyniant cymunedol. Ond, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i sicrhau bod rhagor o deuluoedd yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth gynhwysol cyn ac ar ôl ysgol, ac yn ystod y gwyliau. Rydym yn trafod gofal seibiant ym Mhennod 7.

# 5. A oes mynediad cyfartal i ysgolion?

Ledled Cymru mae'r ddarpariaeth gynhwysol yn afreolaidd ac yn anghyson. Mae ysgolion yn cael trafferth sicrhau digon o gyllid, staff ac arbenigedd i ddarparu addysg gynhwysol. Mae anghenion yn cynyddu o ran eu cymhlethdod ar yr un pryd ag y mae cyllidebau ysgolion dan bwysau.

## Y fframwaith statudol

**171.** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf Cydraddoldeb") yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n berthnasol i bob ysgol ni waeth sut y cânt eu hariannu neu eu rheoli. Mae gan awdurdodau lleol rwymedigaethau hefyd o dan y darpariaethau i ysgolion os mai nhw yw'r corff sy'n gyfrifol am ysgol, er enghraifft os mai nhw yw'r awdurdod derbyniadau ar gyfer ysgol.

**172.** Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio gwahaniaethu anghyfreithlon fel:

- Gwahaniaethu uniongyrchol (gan gynnwys gwahaniaethu ar sail canfyddiad neu gysylltiad);
- Gwahaniaethu anuniongyrchol;
- Gwahaniaethu yn deillio o anabledd;
- Methiant i wneud addasiadau rhesymol (ar gyfer pobl anabl).

**173.** Gall gwahaniaethu anghyfreithlon fod yn berthnasol i bob agwedd ar fywyd ysgol, ac felly mae'n cwmpasu holl weithgareddau'r ysgol, megis gweithgareddau allgyrsiol, cyfleusterau'r ysgol, gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**174.** Bydd gwahaniaethu sy'n ymwneud ag anabledd yn digwydd os bydd y tri amod a ganlyn yn cael eu bodloni:

- Mae ysgol yn trin dysgwr anabl yn anffafriol, sy'n ei roi dan anfantais, hyd yn oed os nad dyna oedd y bwriad; a

- Mae'r driniaeth hon oherwydd rhywbeth sy'n gysylltiedig ag anabledd y dysgwr anabl (a allai fod yn ganlyniad neu effaith eu hanabledd, neu a allai ddeillio o'u hanabledd) megis anallu i gerdded heb gymorth neu ymddygiad sy'n gysylltiedig ag anabledd; ac
- Ni all yr ysgol gyfiawnhau'r driniaeth drwy ddangos ei bod yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon.

**175.** Mae dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, er mai dyletswydd o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 oedd hon yn wreiddiol. Mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg gymryd camau rhesymol i osgoi anfantais sylweddol pan fo darpariaeth, maen prawf neu arfer yn rhoi dysgwyr anabl dan anfantais sylweddol. Mae'r ddyletswydd hon yn un rhagddyfalus a pharhaus y mae darparwr addysg yn gyfrifol am ei darparu i ddysgwyr anabl yn gyffredinol, ni waeth a ydynt yn gwybod bod disgybl yn anabl neu p'un a yw unrhyw un o'u dysgwyr yn anabl. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i ddysgwyr presennol, ymgeiswyr am leoedd, ac mewn amgylchiadau cyfyngedig i gyn-ddysgwyr mewn perthynas â:

- Phenderfynu i bwy y cynigir lle;
- Darparu addysg;
- Mynediad at unrhyw fudd-dal, gwasanaeth neu gyfleuster.

**176.** Nid yw'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol wneud addasiadau rhesymol i osgoi'r anfantais a achosir gan nodweddion ffisegol gan fod hyn wedi'i gwmpasu gan ddyletswyddau cynllunio (gweler yr adran isod ar ystadau ysgolion).

**177.** Sefydlodd y Ddeddf Cydraddoldeb Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus hefyd. Rhaid i'r rhai sy'n destun y Ddyletswydd Cydraddoldeb, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sydd â nodwedd warchodedig a'r rhai nad oes ganddynt nodwedd warchodedig.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl â nodwedd warchodedig a'r rhai nad oes ganddynt nodwedd warchodedig.

**178.** Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn egluro bod rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- Dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill;
- Annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

**179.** Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi bod diwallu anghenion gwahanol yn golygu cymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl. Mae'n disgrifio meithrin cysylltiadau da fel mynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth rhwng pobl o wahanol grwpiau. Noda y gall cydymffurfio â'r ddyletswydd olygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill.

**180.** Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol, "Cynllunio ar gyfer cynyddu mynediad at ysgolion i ddisgyblion ag anableddau". Dywed fod gwella mynediad at addysg yn golygu ystyried:

- Y cwricwlwm a sut y caiff ei addysgu;
- Hygyrchedd adeiladau ysgol a'u hamgylchedd, gweithgareddau ysgol gan gynnwys teithiau ysgol a chludiant; a
- Gwybodaeth a gweithgareddau a ddarperir gan ysgolion a pha mor hawdd yw hi i ddisgyblion anabl a/neu eu rhieni anabl eu deall.[171]

**181.** Rhaid i awdurdodau lleol baratoi, gweithredu a diweddaru strategaethau hygyrchedd ar gyfer pob ysgol y maent yn gorff cyfrifol iddi. Rhaid i gorff cyfrifol unrhyw ysgol yng Nghymru baratoi, gweithredu a diweddaru cynlluniau hygyrchedd. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn cwmpasu meithrinfeydd cyn-ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

**182.** Rhaid i'r strategaethau a'r cynlluniau hygyrchedd gael eu paratoi, eu gweithredu, eu gwerthuso, eu hadolygu a'u hailgyhoeddi bob tair blynedd a rhaid iddynt ystyried pob agwedd ar addysg a gwasanaethau cysylltiedig a ddarperir

[171] Llywodraeth Cymru, Cynllunio ar gyfer cynyddu mynediad at ysgolion i ddisgyblion ag anableddau, Mawrth 2018

gan ysgolion. Rhaid ymgynghori'n llawn ac yn effeithiol wrth baratoi'r strategaethau a'r cynlluniau hyn. Fel arfer, mae'n rhaid i'r ymgynghoriad hwn sicrhau bod barn plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ogystal â gweithwyr proffesiynol priodol yn cael eu hystyried.

**183.** Tynnodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sylw at ymchwil desg a wnaed ganddo yn 2022 ar Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion. Dywedodd mai dim ond tua chwarter yr ysgolion oedd â chynlluniau ar eu gwefan ar yr adeg y cynhaliwyd yr ymchwil. O blith y rhain, roedd ychydig dros eu hanner wedi dyddio, wedi dod i ben a heb gael eu hadolygu o dymor yr hydref 2021 ymlaen. Roedd hyn, meddai, yn golygu bod gan 33 o ysgolion, sef 12.4% o'r cyfanswm, Gynllun Strategol cyfredol ar eu gwefan.[172]

**184.** Roedd hyn yn bryder mawr a galwodd am ddiweddaru'r cynlluniau. Cyhoeddodd y Comisiwn ganllawiau i ysgolion ym mis Mawrth 2023 i'w cefnogi i ddatblygu a diweddaru eu cynlluniau. Nodwyd hefyd fod gan Weinidogion Cymru bwerau i roi cyfarwyddiadau i awdurdodau lleol ac ysgolion os ydynt yn teimlo nad yw eu rhwymedigaethau'n cael eu cyflawni.[173] Awgrymodd y Comisiwn hefyd efallai y dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar eu canllawiau ar gyfer 2018 i helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i ddeall yn well bod y strategaethau a'r cynlluniau hygyrchedd yn arf pwysig i helpu i wneud penderfyniadau gwell, ac yn helpu i gyfeirio adnoddau prin i'r mannau cywir.[174]

**185.** Yn ôl CCAC, mae'n anodd gwybod beth yw ansawdd strategaethau hygyrchedd a chynlluniau cydraddoldeb, heb gasglu tystiolaeth uniongyrchol. Dywedodd fod rheidrwydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod ysgolion a chyrff llywodraethu yn dra hysbys o'u hawliau statudol a sut y dylent fod yn eu cyflawni. Dywed ei bod wedi:

> *"… issued model policies to schools and governing bodies around what should be in accessibility plans and strategic equality plans, and governing bodies as well need to be very clear about what their responsibilities are in ensuring that that information is in place, and that it's made accessible to key stakeholders as well."*

[172] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 02 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
[173] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 161-163
[174] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 168

Dywedodd wrthym hefyd ei bod ar fin dechrau hyfforddiant diweddaru i ysgolion ar y Ddyletswydd Cydraddoldeb.[175]

**186.** Dywedodd y Comisiynydd Plant ei bod yn ymwybodol nad yw'r gofyniad statudol i ysgolion ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar y cynlluniau hygyrchedd bob amser yn digwydd.[176] Amlygodd Whizz Kidz nad yw awdurdodau fel arfer lleol yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu'r strategaethau hygyrchedd. Dywedodd mai dim ond un awdurdod lleol ledled Cymru oedd wedi ymgysylltu â phobl ifanc wrth ddatblygu ei strategaeth.[177] Galwodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ysgolion ac awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.[178]

**187.** Nododd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd fod canllawiau i ysgolion ar ddatblygu a chyflawni cynlluniau hygyrchedd wedi cael eu diwygio a'u cryfhau.[179]

**188.** Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd wrthym fod yn rhaid cael dull ysgol gyfan o gofleidio cydraddoldeb a'i holl ddimensiynau, oherwydd ei fod yn fater croestoriadol. Credai fod y Tasglu Hawliau Anabledd yn gyfle mawr. Y peth pwysicaf y gallai ysgolion ei wneud, meddai, oedd:

> *"… embrace and understand the social model of disability. That's about the responsibility to break down the barriers. These are not children's impairments or needs; it's about us breaking down the barriers and understanding them."*[180]

## Beth sy'n digwydd ledled Cymru?

**189.** Clywsom neges gyson gan blant, pobl ifanc, teuluoedd, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau cynrychioliadol, fod yr hawl i addysg a nodir yn CCUHP yn cael ei thorri.

**190.** Mae gwahaniaethu, boed yn wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol, yn rhemp. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym bod gwahaniaethu yn aml yn anfwriadol, neu efallai nad yw ysgolion yn sylweddoli eu bod yn gwahaniaethu.

[175] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 53 a 61
[176] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 01 Comisiynydd Plant Cymru
[177] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 35 Whizz Kidz
[178] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 165
[179] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 46
[180] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 62-63

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod hynny'n aml yn dod i ben pan ddarperir cymorth priodol i'r ysgol.[181]

**191.** Yn ôl y Comisiynydd Plant, mae gwahaniaeth clir yn y modd y mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad at addysg o gymharu â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl a'u cyfoedion niwronodweddiadol. Mae hyn wedi'i gysylltu â diffyg ymwybyddiaeth, meddai.[182] Dywedodd fod yna sbectrwm, yn amrywio o wahaniaethu uniongyrchol i wahaniaeth anuniongyrchol ond mai'r realiti yw nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn gyfartal a'u bod yn cael eu gwneud i deimlo'n wahanol, a bod hynny'n effeithio ar eu profiad addysgol.

**192.** Er ei bod yn amlwg bod rhywfaint o arfer da a rhywfaint o gymorth rhagorol yn cael ei ddarparu, mae'n afreolaidd, yn anghyson ac yn rhy aml mae'n dibynnu ar ymrwymiad teuluoedd unigol a gweithwyr proffesiynol. Dywedodd un rhiant fod profiad eu mab mewn lleoliad prif ffrwd, fel dysgwr ag anableddau dysgu a chorfforol difrifol wedi dibynnu ar staff ymroddedig iawn sy'n meddwl mewn ffordd gadarnhaol. Nid yw'n systematig, meddai.[183]

**193.** Roedd Anabledd Cymru yn cytuno bod cynwysoldeb yn dibynnu gormod ar ysgolion unigol. Mae hyn yn golygu, o ran plant, pobl ifanc a'u teuluoedd:

> *"… you don't have that consistency of, 'I'm a disabled child, this is how I'm going to be treated in this school,' or the consistency of how schools approach disabled students and attitudes within."*[184]

**194.** Dywedodd CCAC fod gan awdurdodau lleol ran i'w chwarae i sicrhau cysondeb fel nad oes unrhyw blentyn dan anfantais.[185] Yn ôl CLlLC, y rheswm am yr amrywiad ar draws Cymru yw bod yn rhaid i bob lleoliad ymateb i anghenion penodol ac unigol yr ysgol, athrawon a phlant a phobl ifanc.[186] Fodd bynnag, dywedodd UCAC nad yw lefel yr anghysondebau rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol yn ddigon da.[187]

---

[181] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad Rhanddeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraff 31
[182] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 6
[183] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 66 Joining the Dots Parents and Carers
[184] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 51
[185] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 41
[186] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 46
[187] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 235

**195.** Galwodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Model Cymdeithasol o Anabledd a sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori ar draws yr holl bolisïau, gan gynnwys iechyd ac addysg.[188] Galwodd Triniaeth Deg i Fenywod Cymru hefyd ar bawb, gan gynnwys ni ein hunain, i ddefnyddio iaith y model cymdeithasol a chadw at ei egwyddorion pryd bynnag y bo modd.[189]

**196.** Dywedodd teuluoedd wrthym eu bod yn teimlo nad yw'n syndod bod eu plant yn methu bob dydd gan nad yw ysgolion yn fodlon gwneud addasiadau rhesymol.[190] Dywedodd teuluoedd eraill wrthym, hyd yn oed pan fo plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at addysg, bod eu profiadau a'u cyfleoedd yn llawer mwy cyfyngedig na rhai eu cyfoedion nad ydynt yn anabl ac sy'n niwronodweddiadol.[191] Disgrifiodd un rhiant y system bresennol fel un sy'n "gwbl drychinebus… nid yw'r system bresennol yn gweithio."[192]

**197.** Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fod y mynediad anghyfartal at bob elfen o fywyd ysgol yn destun pryder a rhwystredigaeth i rieni ac nad yw cyfleoedd i weithio'n adeiladol gydag ysgolion i fynd i'r afael â hyn bob amser yn hawdd eu hadnabod. Ychwanegodd, pan fydd addasiadau'n cael eu rhoi ar waith, eu bod yn aml yn canolbwyntio ar sicrhau cyfranogiad yn unig ac nad ydynt yn sicrhau mai dyma'r addasiadau gorau posibl, neu addasiadau sy'n cynnig cyfleoedd cyfartal i'r hyn a ddarperir i'w cyfoedion nad ydynt yn anabl ac sy'n niwronodweddiadol.[193]

***Astudiaeth Achos 4***

*"Mom tells us that when the young adult was in high school, at times when staff could not cope with the young person's needs, they would leave them without support, even to physically move around the school, or would ask other pupils to support the young adult travel from one place to another. Mom also reported that the school would leave the young autistic adult alone when they were having an intense response to an overwhelming situation … Approximately a year later (2020), the young adult was diagnosed with cancer which started a two-year journey to fight, and thankfully overcome the*

[188] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 49, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
[189] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 50 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
[190] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[191] Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 6
[192] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 20
[193] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

> *cancer. This fight has unfortunately aggravated the cerebral palsy symptoms and the developed anxiety has caused further complications with their autism. … As of the end of 2022, the young adult was at home because the catchment school is not suitable for their needs and the local council will not pay for them to travel to the new school until they have been through the statementing process which is being refused by the Local Authority."*[194]

**198.** Clywsom brofiadau mynych o deuluoedd yn gorfod newid ysgol cyn dod o hyd i'r cymorth cywir.[195] Dywedodd rhieni wrthym fod cymorth bob amser yn dechrau gyda'r swm lleiaf posibl, sy'n achosi trawma i'w plant. Roeddent yn pryderu mai dim ond pan fydd plant yn methu y mae trafodaethau am gymorth yn dechrau yn hytrach na bod hyn yn cael ei roi ar waith o'r cychwyn cyntaf i atal hynny rhag digwydd.[196]

**199.** Dywedodd teuluoedd wrthym fod cynwysoldeb yn yr ysgol yn fwy dibynnol ar y staff, yn hytrach na'r systemau sy'n sail i'r system ysgolion. Yn wir, roedd llawer yn teimlo nad oedd syndod bod plant a phobl ifanc yn methu o ystyried y system sydd ar waith. Dywedodd pobl ifanc a rannodd eu profiadau gyda Platfform hefyd fod unrhyw gymorth a roddwyd ar waith yn llawer rhy ddibynnol ar ysgolion unigol neu aelodau unigol o staff ac nad yw'n gyson ar draws y system.[197]

**200.** Clywsom hefyd y bydd adroddiadau'n cael eu cynhyrchu yn nodi pa gymorth a ddarperir, ond nid ydynt yn cael eu gweithredu'n llawn, neu os ydynt, pan fydd y plentyn yn dechrau ffynnu bydd yr ysgol yn cael gwared ar y cymorth gan gredu bod y gwaith wedi'i gwblhau. Eto i gyd, mae angen i'r cymorth aros yn ei le er mwyn parhau â hynny. Dywedwyd wrthym hefyd nad yw teuluoedd bob amser yn cael gwybod pan fydd cymorth yn cael ei newid, ac mewn un achos dim ond pan ddechreuodd y plentyn gymryd cam yn ôl y gwnaeth y rhieni sylweddoli.[198] Clywsom straeon tebyg drwy gydol ein trafodaethau â theuluoedd, gan gynnwys un teulu a ddaeth ond i wybod drwy dribiwnlys nad oedd ei blentyn wedi gweld

[194] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
[195] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[196] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 28
[197] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 39 Platfform
[198] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Adysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 29

therapydd galwedigaethol ers 19 mis, er bod cynlluniau'n nodi y byddai'n cael ei weld yn wythnosol.[199].

**201.** Dywedodd un rhiant mai un o'r heriau yw bod plentyn yn cael ei labelu, a bod y ffocws ar y cyflwr, yn hytrach na chanolbwyntio ar sut i reoli'r cyflwr. Soniodd am sut y mae ei blentyn yn gweld ei gyflwr fel pŵer arbennig ac oherwydd bod hyn yn cael ei gefnogi gan yr ysgol mae wedi gallu mynychu ei holl ddosbarthiadau a chymdeithasu. Mae'r plentyn yn ffynnu o ganlyniad, mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'i brofiadau yn ei ysgol flaenorol. Dywedodd y rhiant ei fod fel person gwahanol erbyn hyn.[200]

**202.** Stori reolaidd arall a glywsom oedd am y plant a'r bobl ifanc hynny a allai gael eu categoreiddio fel rhai â lefel ganolradd o angen, neu a allai fod yn gwneud yn iawn yn academaidd ond y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, nad ydynt yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Codwyd hyn gan nifer o randdeiliaid gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.[201]

**203.** Disgrifiodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant y plant a'r bobl ifanc hyn fel 'y Canol Coll' a galwodd arnom i ystyried sut y gall addysg ac iechyd gefnogi eu hanghenion yn well.[202] Roedd rhai rhieni am weld mynediad ehangach i ddarpariaeth addysg anogol lai ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn. Dywedwyd bod rhai teuluoedd yn gorfod teithio ymhell i gael mynediad at y math hwn o ddarpariaeth, a bod angen mwy o arian i ehangu darpariaeth fel Canolfan Carnegie yng Nghaerdydd.[203]

**204.** Nododd Triniaeth Deg i Fenywod Cymru ei bod yn hanfodol bod ysgolion yn sicrhau eu bod yn dod yn fannau ataliol a chefnogol yn hytrach na gwaethygu trawma a chaniatáu i anfantais fwrw gwreiddiau.[204]

**205.** Clywsom fwy nag unwaith am deuluoedd yn cael gwybod gan ysgolion bod yn rhaid iddynt flaenoriaethu cymorth i eraill yn yr ysgol.[205] Mewn un ysgol arbennig dywedwyd wrthym fod angen rhywbeth rhwng lleoliadau prif ffrwd a lleoliadau arbennig, am y rhesymau hyn. Dywedwyd fod enghreifftiau o ddysgwyr nad ydynt wedi gallu cael y cymwysterau y dylent fod wedi'u cael oherwydd nad

---

[199] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifacn ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraffau 3-4
[200] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 66 Joining the Dots Parents and Carers
[201] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[202] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 49, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
[203] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 52 Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol
[204] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 50 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
[205] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 33 Unigolyn

oeddent yn yr amgylchedd iawn i'w galluogi i ddysgu.[206] Dywedodd un rhiant fod yna "blant sydd rhwng dwy stôl sy'n ei chael hi'n anodd iawn" ac nad oes unrhyw ddarpariaeth addas ar gael iddynt.[207]

**206.** Yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion a thrafodaethau â theuluoedd, codwyd y ffaith nad yw dysgwyr, yn enwedig y rhai mewn ysgolion prif ffrwd, yn cael y lefel gywir o gymorth. Disgrifiwyd y plant a'r bobl ifanc hyn fel rhai sy'n "cwympo rhwng y bylchau." Mae'r rhain yn aml yn blant a phobl ifanc nad oes angen iddynt fod mewn ysgol arbennig ond nad yw ysgolion prif ffrwd yn addas iddynt ychwaith. Roedd pryderon bod lleoliadau prif ffrwd yn ceisio ffitio pob plentyn yn yr un blwch. Dywedwyd wrthym mai un o'r rhwystrau i hyn yw diffyg hyfforddiant[208] ac edrychwn ar hyn yn yr adran isod ar hyfforddiant a gwybodaeth staff ysgol. Dywedwyd wrthym hefyd am y "bwlch mawr" yn y meini prawf rhwng lleoliadau prif ffrwd a lleoliadau arbennig.[209]

**207.** Yn ôl un rhiant, mae rhagfarn anymwybodol yn gysylltiedig ag achosion o anabledd anweledig yn enwedig o'i gyfuno â gallu academaidd da."[210]

**208.** Ymysg cymaint o brofiadau personol heriol, mae wedi bod yn galonogol clywed am achosion lle mae'r system yn gweithio'n effeithiol, ond fel y nodwn yng nghasgliad pedwar, mae hyn yn dibynnu'n rhy aml ar ymroddiad aelodau unigol o staff a theuluoedd:

> ***Astudiaeth Achos 5***
>
> *"My child is currently in the last year at this primary and has been there since nursery. The headmaster, Deputy, both ALNCO's and receptionist are outstanding. If we have an issue, we meet and discuss it and resolve it we them move on. We have built an outstanding relationship and work together to ensure our child needs are met. The school has recently had funding to install a fabulous adventure play which all children love. They all have their certain days apart from our ALN children have constant access to it regardless of who day it is."*[211]

[206] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 4, 28 Medi 2023, paragraffau 7-8
[207] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[208] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 2
[209] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 10
[210] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 66 Joining the Dots Parents and Carers
[211] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 14 Unigolyn

***Astudiaeth Achos 6***

*"Rwy'n meddwl bod yr ysgol wedi bod yn wych, maen nhw wedi newid pethau i'w helpu. Er enghraifft, i'w helpu'n weledol, maen nhw wedi paentio grisiau, wedi newid yr arwyddion wedi'u lamineiddio i fod yn rhai di-sglein, maen nhw wir wedi ceisio helpu. Os oes unrhyw broblemau, rwy'n teimlo y gallaf bo amser godi'r ffôn a siarad â nhw."*[212]

***Astudiaeth Achos 7***

*"Two of my four children have ALN. Honestly, both of them have had extremely positive experiences. One was mainstream and the other is in a special school. I genuinely cannot fault either establishment and the support they provided to both children. I don't know whether we've been lucky, or whether a small few have been unlucky. We've had excellent relationships with staff and very positive collaboration."*[213]

**209.** Fe wnaeth pobl ifanc a siaradodd â Platfform hefyd rannu rhai o'u profiadau cadarnhaol, gan gynnwys staff yn gwneud addasiadau i'w helpu i gymryd rhan mewn gwersi, fel ychwanegu clychau at beli hoci, neu ddysgu pobl ifanc sut i symud o gwmpas ystâd yr ysgol. Buont hefyd yn canmol gwaith y gwasanaeth cymorth SenCom yng Ngwent, sy'n cefnogi'r rhai ag amhariad ar eu golwg. Roedd consensws cyffredinol hefyd bod y cymorth yn well nag y bu yn y gorffennol.[214]

**210.** Roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd yn derbyn bod heriau sy'n wynebu plant, pobl ifanc a staff addysg, yn enwedig ar ôl y pandemig. Fodd bynnag, ychwanegodd:

> *"But I just want to say that every day in our schools in Wales, there are teachers going into work and teaching assistants going into work doing incredible work to meet the needs of our young learners—often increasingly complex needs—against quite a challenging context in terms of budgets and broader*

[212] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[213] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 55 Fforwm Rhieni-Ofalwyr Abertawe
[214] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 39 Platfform

*social pressures, and I'm sure we would all want to thank them for the incredible work that they do."*[215]

## Ysgolion arbennig neu addysg brif ffrwd

**211.** Cadarnhaodd y DU Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn 2009. Drwy gadarnhau'r confensiwn, mae'r DU yn cytuno i ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol pobl ag anableddau, gan gynnwys Erthygl 24 sy'n sicrhau system addysg gynhwysol. Wrth gadarnhau'r confensiwn, dywedodd y Comisiwn fod Llywodraeth y DU wedi gosod cyfyngiadau ar ei rhwymedigaethau, ac mae dau ohonynt yn ymwneud ag Erthygl 24.

> *"The first changes the UK's definition of a 'general education system' to include segregated education. The second reserves the UK's right to send disabled children to special schools outside their local area. The UK is one of only two signatories to retain a reservation and an interpretive declaration to Article 24. "*[216]

**212.** Amlinellodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod yr adolygiad diweddaraf o gynnydd y DU yn erbyn y confensiwn yn 2017, wedi codi'r amheuon hyn. Argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r DU ddileu ei chymalau cadw ar gyfer yrr Erthygl hon, ac y dylai ddatblygu cyfreithiau a pholisïau i gefnogi addysg gynhwysol. Galwodd hefyd am wneud mwy i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail anabledd ac aflonyddwch, ac i:

> *"... put in place a fully-funded strategy with concrete timelines and measurable goals, to make education more inclusive. This strategy should cover implementation of laws and policies, teacher training, awareness-raising amongst parents of disabled children, and data collection about where disabled children go to school."*[217]

[215] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 127
[216] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 02 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
[217] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 02 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

**213.** Yng Nghymru, mae'r Ddeddf ADY yn cynnwys dyletswydd i ffafrio darparu addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir, er bod eithriadau os oes unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- Mae addysgu'r plentyn mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill.
- Mae addysgu'r plentyn mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol er lles pennaf y plentyn ac yn gydnaws â darparu addysg effeithlon i blant eraill.
- Mae rhiant y plentyn yn dymuno i'r plentyn gael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir.

**214.** Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol nad oes gan Gymru system gwbl gynhwysol, a bod niferoedd y plant mewn darpariaeth arbenigol yn cynyddu'n sylweddol. Mae hyn yn golygu nad yw Cymru yn symud i'r cyfeiriad y byddai'r Cenhedloedd Unedig yn ei argymell. Mae'r amodau y mae Llywodraeth y DU wedi'u gosod ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wedi cael eu beirniadu'n hallt gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ac mae argymhellion wedi'u gwneud ar gyfer eu newid. Dywedodd y byddai'r Cenhedloedd Unedig yn dweud mai'r peth priodol i'w wneud yw sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg gynhwysol mewn ysgol brif ffrwd, sydd â chefnogaeth briodol ac wedi'i hariannu'n briodol.[218]

**215.** Fodd bynnag, cydnabu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn bragmataidd, y gallai darpariaeth arbenigol fod yn fwy priodol ar gyfer rhai plant a phobl ifanc. Roeddent yn pwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar y plentyn wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys gwrando ar farn y teulu hefyd.[219]

**216.** Dywedodd Anabledd Dysgu Cymru fod amrywiol fersiynau o addysg gynhwysol, a holodd a oedd dealltwriaeth lawn o'r hyn y mae'n ei olygu yng Nghymru. Rhestrodd y gwahanol fathau o addysg sydd ar gael yng Nghymru, gan nodi nad ydynt yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc ar hyn o bryd:

> *"We have special schools, we have mainstream schools, we have special units, we have pupil referral units, we have young people going through the criminal justice system, and many of those young people going through the criminal justice system*

[218] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 116 a 118
[219] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 120

> *and in pupil referral units don't have access to appropriate education that is based on their need. And that's really important—that we're not offering a state of education that is based on young people's needs; we're basing it on what resources we have and how we can equally distribute those resources to the young people."*[220]

Mae'n credu mewn system gwbl gynhwysol ond yn cydnabod nad yw hynny'n gyraeddadwy eto, ac yn annhebygol o fod yn gyraeddadwy oni fydd diwygiadau radical i addysg yng Nghymru.[221]

**217.** Galwodd am sicrhau mai Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yw'r man cychwyn ar gyfer addysg:

> *"… You take your guidance from the UN convention on the rights of disabled people and you put that in the sat nav, so you know what direction you're heading. At the moment, it's not in the sat nav. It is going to take a long time, … but if you haven't got the right direction in mind, you're not going to go that way. The dual education system causes the problem. Nobody questions about money that's spent battling parents. Nobody questions the money that's spent in tribunals. But they will question whether you're allowed to have a few more hours of speech and language therapy a year."*[222]

**218.** Yn ôl Anabledd Cymru, er y byddai'n cymryd cryn dipyn o waith a newid sylweddol i'r diwylliant yn y byd addysg, nid oedd yn credu bod bodloni'r confensiwn yn afrealistig. Dywedodd y dylai hyn fod yn llinell sylfaen o ran yr hyn y dylid ei gyflawni, ond roedd yn pryderu bod maint y gwaith y bydd angen ei wneud yn rhywbeth nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y polisi presennol."[223]

**219.** Yn ôl CCAC, er mwyn bod yn wirioneddol gynhwysol, mae angen croesawu gwahaniaethau a dysgu ohonynt. Dywedodd fod cynhwysiant yn broses barhaus a'i bod yn bwysig i arweinwyr sganio'r gorwel yn barhaus oherwydd nid oes yr un garfan yn aros yr un fath, ac y dylent edrych ar eu darpariaeth yn flynyddol.

---

[220] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 102
[221] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 152
[222] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 167
[223] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 31

Dywedodd y dylai anghenion gael eu hystyried cyn i blant a phobl ifanc gyrraedd yr ysgol.[224]

**220.** Rhoddodd yr Athro Jonty Rix drosolwg o addysg gynhwysol ar draws y byd. Dywedodd fod plant bron yn bendifaddau ym mhob gwlad, ym mhob system, yn cael eu gwthio i'r cyrion a'u hallgáu am amrywiaeth enfawr o resymau, ac mae un o'r rheini'n ymwneud â chysyniadau o allu neu anabledd. Dywedodd fod llu o newidynnau:

> *"It really depends where you are, who you are, who your class teacher is, who your headteacher is, who your parents are, what your local authority is, who the other kids are in the class."*[225]

**221.** Dywedodd rhai rhieni wrthym fod addysg yn gaeedig iawn a bod cynhwysiant ar gael dim ond os yw rhywun yn ffitio i flwch penodol. Dywedodd un arall wrthym fod cynhwysiant yn wych fel delfryd ond nad yw'n briodol i rai plant.[226]

**222.** Tynnwyd sylw at y gwahanol ymatebion i blant a phobl ifanc ag anableddau cudd neu lai gweladwy. Dywedodd un rhiant ei fod yn gweld y gwahaniaeth yn y ffordd y mae ei ddau blentyn yn cael eu trin, gydag un yn cael ei dderbyn oherwydd bod ei anghenion yn weladwy iawn, ac anghenion y plentyn arall ddim yn cael eu derbyn oherwydd ei fod yn eu masgio. [227] Roedd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu yn cytuno. [228] Dywedodd y Comisiynydd Plant hefyd mai hygyrchedd ac agweddau tuag at anableddau cudd yw'r maes ble mae angen gwneud cynnydd yn gynt o lawer nawr.[229]

**223.** Yn ôl y Comisiynydd Plant, mae plant ag anableddau cudd neu lai gweladwy yn teimlo eu bod yn wynebu mwy o ddiffyg ymwybyddiaeth, sydd weithiau'n gallu troi'n elyniaethus. Gall hyn arwain at blant a phobl ifanc yn cael eu disgyblu am ymddygiad sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r anabledd ond sy'n cael ei ystyried yn ddrwg ac yn heriol. Dywedodd fod angen newid y ffocws o ymddygiad heriol i sôn am ymddygiad sy'n herio a gofynnodd pam bod hynny'n digwydd, ai oherwydd y gallu i ymateb, diffyg ymwybyddiaeth neu ddiffyg amser neu le.[230]

[224] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 42
[225] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 117-119
[226] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 66 Joining the Dots Parents and Carers
[227] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 43
[228] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 275
[229] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 39
[230] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 9-10

**224.** Dywedodd un rhiant fod system gwbl gynhwysol heb leoliadau arbennig yn hynod wrthun oherwydd bod lleoliadau arbenigol yn rhoi'r cyfle i gynifer o blant ddysgu, tyfu a ffynnu a bod y ffaith bod yr unedau a'r ysgolion arbennig hyn yn bodoli yn fendith. Ac eto, dywedodd eraill y byddai system gwbl gynhwysol gyda'r staff cywir, yr adnoddau cywir, yr addasiadau cywir, sy'n sicrhau cynhwysiant a bod y plant yn cael eu derbyn yn ddymunol iawn ond bod hynny'n teimlo fel breuddwyd gwrach.[231]

**225.** Yn ôl Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu:

> *"Across Wales there are 40 specialist schools, with 5,500 children attending these schools (under 10% of disabled children In Wales have a place in a specialist school).*
>
> …
>
> … *Three schools provide education through the medium of Welsh. There are no special schools in Ceredigion or Monmouthshire."*[232]

**226.** Roedd y rhan fwyaf o'r lleoliadau arbennig y gwnaethom ymweld â nhw wedi'u gordanysgrifio, ond roedd y rhan fwyaf yn bwriadu ehangu neu wedi ehangu'n ddiweddar. Mae un ysgol yn ystyried ehangu ar hyn o bryd, ond dywedodd, er ei bod yn gallu cynnig lleoedd i saith dysgwr ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, ei bod wedi nodi 20 o ddysgwyr a fyddai wedi elwa o ymuno â'r ysgol.[233] Dywedodd un arall, er gwaetha'r ffaith iddi symud i adeilad newydd a fyddai'n helpu i gynyddu capasiti, y byddai gormod o geisiadau o hyd oherwydd maint y rhestr aros.[234]

**227.** Yn ôl y Comisiynydd Plant, nid yw capasiti ysgolion arbennig yn ddigonol ar hyn o bryd.[235] Dywedodd Anabledd Dysgu Cymru y gellid priodoli'r cynnydd i nifer o ffactorau, ond yn anecdotaidd, bod rhieni'n teimlo'n rhy nerfus i anfon eu plant i ysgolion prif ffrwd heb gefnogaeth ddigonol.[236]

**228.** Yn ôl Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, mae'r datblygiadau mewn meddygaeth a thechnoleg yn golygu bod pobl yn byw'n hirach, yn aml

[231] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 66 Joining the Dots Parents and Carers
[232] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 76 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
[233] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 1
[234] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 3, 29 Mehefin 2023, paragraff 3
[235] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 76
[236] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 152

gydag anghenion mwy cymhleth. Dywedodd fod hyn yn golygu mwy o gymhlethdod a mwy o amrywiaeth. Pan fydd ysgolion arbennig newydd yn cael eu hadeiladu nid yw darpariaeth o safbwynt iechyd o reidrwydd yn cael ei hystyried yn y gwaith cynllunio hwnnw.[237]

**229.** Dywedodd un o'r ysgolion wrthym fod angen sicrhau cydbwysedd wrth ehangu, o ran diwallu anghenion mwy o blant, ond nid ar draul y dysgwyr presennol. Dywedodd fod maint dosbarthiadau'n amrywio yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr unigol, felly nid yw mor syml â chynyddu maint pob dosbarth.[238]

**230.** Gyda'r galw am ysgolion arbennig yn fwy na'r cyflenwad, mae plant a phobl ifanc a allai fod wedi mynychu'r lleoliadau hyn yn flaenorol bellach mewn lleoliadau prif ffrwd. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith fod hyn yn cyd-daro â phwysau cynyddol ar staff addysgu a llai o staff cymorth. Mae hyn yn golygu y bydd gan ysgolion lai o gapasiti i gael cymorth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae hyn yn creu cylch dieflig lle mae ysgolion yn teimlo na allant gefnogi rhai plant a all wedyn arwain at gamau gweithredu fel amserlenni â llai o oriau a phwysau cynyddol ar awdurdodau lleol i gynnig lleoliadau mwy arbenigol.[239]

**231.** Clywsom gan nifer o deuluoedd gwahanol nad oeddent yn gallu cael lle i'w plant mewn ysgol arbennig, gydag un yn dweud bod ei blentyn yn cael ei orfodi i fynd i leoliad prif ffrwd nad oedd yn diwallu ei anghenion. Dywedodd rhiant arall wrthym fod angen i'w blentyn fod mewn lleoliad arbennig ond nad oedd neb yn gwrando arno. Soniodd rhiant arall am orfod aros am flwyddyn academaidd arall cyn y byddai lle ar gael mewn ysgol arbennig, gan olygu y byddai ei blant yn colli hyd yn oed fwy o addysg cyn y gallant gael lle a fydd yn diwallu eu hanghenion.[240]

**232.** Roedd profiadau mewn ysgolion prif ffrwd, o gymharu â'r rhai mewn ysgolion arbennig, yn fater y buom yn ei drafod yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion. Ymwelwyd â phedair ysgol arbennig, ac un Ganolfan Adnoddau Arbennig mewn lleoliad prif ffrwd. Buom hefyd yn myfyrio ar y profiadau o'n hymweliadau ag ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig yn ein gwaith arall fel Aelodau'r Senedd, yn ogystal ag ymweliadau ar gyfer gwaith arall y pwyllgor.

---

[237] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 7
[238] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 7
[239] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 45 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, paragraff 9
[240] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkel, 15 Medi 2023, paragraff 12

**233.** Roedd rhai dysgwyr wedi cael profiadau mewn ysgolion prif ffrwd yn ogystal ag ysgolion arbennig. Clywsom fod rhai yn gresynu nad oeddent wedi mynd i ysgol arbennig yn gynharach, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u deall yn yr ysgol arbennig. Roeddent hefyd yn teimlo bod mwy o hyblygrwydd a dealltwriaeth ynghylch materion fel yr angen am apwyntiadau meddygol.[241]

**234.** Clywsom gan rai rhieni, oherwydd lleoliadau aflwyddiannus blaenorol, fod angen "gwaith adferol" a oedd yn cynnwys therapi i "ddad-wneud" yr hyn a ddigwyddodd yn flaenorol.[242]

**235.** Clywsom dystiolaeth bwerus gan Georgia Miggins, a oedd ar y pryd yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, a gymharodd ei phrofiadau mewn ysgolion cynradd prif ffrwd ac mewn ysgol uwchradd arbenigol.

> *"… When I was a young autistic girl in primary school, it was hard for me. I didn't have the right support and my needs couldn't be met. I struggled with social and sensory challenges, and I never felt like I belonged. I was bullied for my disabilities from such a young age, which resulted in me developing very severe anxiety, which I still have today, unfortunately. All this stopped me from attending school for one year, when I was nine and 10 years old. Those memories have stuck with me ever since. When I was 11, it was time for me to go to secondary school. It would have been hard for me to go to a mainstream secondary school as my emotional needs wouldn't have been able to have been met, and social needs, and I wouldn't have had the right support that I needed. I'm lucky to have an amazing mum and dad who supported me and fought for me to go to a special school where they knew I'd get the right support. I am now lucky and fortunate to be able to attend a special school, where I've had amazing opportunities and experiences. My confidence has soared, and my mental health and well-being have improved greatly. I'm able to be myself with friends and teaching staff, who understand and accept and support me. I won't be judged for being who I am, and I can use my fidget toys that help me whenever I want."*[243]

[241] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 1
[242] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 43
[243] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 109

**236.** Yn ystod ein hymweliad â Chanolfan Adnoddau Arbennig, dywedodd y staff eu bod yn teimlo bod y model yn fwy cynhwysol nag ysgolion arbennig.[244] Mewn ysgol arbennig clywsom y gall addysg gynhwysol fod o fudd i blant a phobl ifanc nad ydynt yn anabl ac sy'n niwronodweddiadol, gan roi cyfle iddynt gymysgu â chyfoedion mwy amrywiol, ond efallai nad dyma fyddai orau bob amser i blant a phobl ifanc o fewn cwmpas yr ymchwiliad. Teimlai rhai o'r rhieni mai "dogma" oedd addysg gynhwysol ac nad oedd o reidrwydd er lles gorau'r plentyn.[245]

**237.** Mewn ysgol arbennig arall, dywedwyd wrthym mai darpariaeth brif ffrwd yw'r opsiwn gorau i rai dysgwyr, ond mae hyn yn dibynnu ar yr ysgol ac anghenion pob dysgwr unigol. Mae'n cynnig canran uchel o drefniadau lleoli ar y cyd, lle mae'r dysgwr yn rhannu ei amser rhwng lleoliad prif ffrwd a'i leoliad ei hun.

> *"Trefniadau lleoli ar y cyd…maent yn gweithio i rai ohonyn nhw, maen nhw'n dod i adnabod eu cyfoedion yn eu cymuned eu hunain, ac mae hynny'n dda iddyn nhw. Ond i eraill, mae'r rhan fwyaf o'u haddysg tra maen nhw yn y brif ffrwd naill ai yn y coridor neu mewn ystafell ochr neu yn y neuadd… Nid yw'n rhywbeth ystyrlon."*[246]

**238.** Yn ôl Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, o ran plant a phobl ifanc sy'n gallu sicrhau lle mewn lleoliad arbenigol, mae rhieni a gofalwyr yn gweld newid cadarnhaol sylweddol yn eu hymddygiad oherwydd eu bod mewn lleoliad sy'n cydnabod ac yn diwallu eu hanghenion yn iawn. Mae hyn wedyn yn helpu i wella eu gallu i gael mynediad llawn at y cwricwlwm a ffynnu mewn lleoliad ysgol.[247] Dywedodd y Comisiynydd Plant y gall profiadau plant a phobl ifanc mewn lleoliadau arbenigol o'u cymharu â'r rhai mewn lleoliadau prif ffrwd fod yn wahanol iawn gyda'r rhai mewn lleoliadau prif ffrwd yn wynebu heriau gwahanol iawn.[248]

**239.** Clywsom hefyd gan ymgyrchydd addysg gynhwysol a rannodd ei phrofiad o wthio i'w phlentyn gael mynychu addysg brif ffrwd ac aros yno. O ganlyniad, roedd ei phlentyn yn sefyll nifer o arholiadau TGAU. Dywedodd fod y cynorthwyydd addysgu wedi bod yn allweddol. Cydnabu

[244] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 5, 4 Rhagfyr 2023, paragraff 12
[245] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 3, 29 Mehefin 2023, paragraffau 7-9
[246] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 4, 28 Medi 2023, paragraffau 1-3
[247] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[248] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 6

> *"… because I insisted on taking him to school, I've had access to the TA every morning and every night—it's nearly killed me, that journey. But we were able to actually talk things out and there's a lot of unconscious bias with the staff …"*[249]

**240.** Teimlai rhai rhieni y buom yn siarad â nhw y gallai normaleiddio gwahanu plant a phobl ifanc oddi wrth eu cyfoedion nad ydynt yn anabl ac sy'n niwronodweddiadol arwain at barhau â'r gwahanu hwn yn ddiweddarach mewn bywyd. Dywedodd un rhiant pe na bai ei fab mewn ysgol brif ffrwd, "fyddai ei gyfoedion sydd ddim yn anabl ddim yn gwybod ei fod yn bodoli."[250] Dywedodd Triniaeth Deg i Fenywod Cymru mai dim ond gwaethygu'r canfyddiadau o 'wahaniaeth' a pharhau ag abledd mewnol a chymdeithasol y bydd y gwahanu hwn yn ei wneud.[251] Yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae addysg gynhwysol o fudd i'r gymuned gyfan ac i gymuned gyfan yr ysgol. Pan fydd rhywun yn mynd i ysgolion ag adnoddau llawn, meddai, lle mae plant wedi'u hintegreiddio'n llawn, mae'r manteision i'r holl ddisgyblion, y plant a'u teuluoedd, yn enfawr.[252] Dywedodd Anabledd Dysgu Cymru fod angen llawer mwy o gymorth i blant nad ydynt yn anabl er mwyn deall sut i gefnogi eu cyfoedion.[253]

**241.** Nid oes ysgolion arbennig ar gael ym mhob ardal. Yn Nhrefynwy, er enghraifft, nid oes unrhyw ysgol arbennig, felly mae pob plentyn y mae angen darpariaeth fwy arbenigol arno yn mynd i Ganolfan Adnoddau Arbennig. Fe wnaethom ymweld ag un ohonynt, a dywedodd y staff y gall fod yn brofiad cadarnhaol oherwydd bod plant a phobl ifanc yn mynychu'r ysgol ochr yn ochr â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl a chyfoedion niwronodweddiadol ond eu bod yn dal i gael y cymorth arbenigol sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, gall roi pwysau ar gyllidebau ysgolion a gofynion hyfforddi.

**242.** Yn y Ganolfan Adnoddau Arbennig hon, mae darpariaeth gyfartal i bob plentyn, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft, ni fydd taith yn cael ei chynnig oni bai bod cludiant hygyrch ar gael. Dywedodd fod yn rhaid iddi gyllidebu ar gyfer y costau ychwanegol, a bod cryn dipyn o ewyllys da ar ran staff.[254] Dywedodd rhieni yn yr ysgol hon fod integreiddio eu plant yn llawn yn bwysig iawn o fewn yr ysgol, ac roeddent yn teimlo bod hynny o fudd i bawb yn yr

---

[249] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 142
[250] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[251] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 50 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
[252] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 140
[253] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 172
[254] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 5, 4 Rhagfyr 2023, paragraffau 3-5

ysgol. Roeddent hefyd yn croesawu'r ffaith y gallai plant a phobl ifanc gael mynediad at gymwysterau nad ydynt efallai ar gael mewn ysgol arbennig.[255]

**243.** Cododd nifer o randdeiliaid y gwahaniaethau o ran y cymorth a'r addysg a dderbynnir mewn ysgol arbennig o'i gymharu ag ysgolion prif ffrwd. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fod y rhai ag anghenion amlwg yn aml yn cael cymorth gwych mewn ysgolion arbennig, (ond nododd y gall fod yn ddibynnol ar yr ysgol), tra bod y rhai mewn lleoliadau prif ffrwd yn aml yn cael llai o gymorth. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith, pan fydd cymorth ar gael mewn ysgolion prif ffrwd, efallai na fydd rhai eisiau manteisio arno rhag ofn i'w cyfoedion eu hystyried yn arbennig/gwahanol. [256]

**244.** Galwodd un ysgol arbennig am weithio'n fwy cydgysylltiedig. Dywedodd fod llawer o amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol o ran y cymorth a oedd ar gael. Roedd am weld mwy o allgymorth mewn ysgolion, gan gynnwys allgymorth cyfoedion i gyfoedion, a staff ysgolion arbennig yn mynd allan i'r gymuned ac i ysgolion prif ffrwd, a chynorthwywyr addysgu o fewn clystyrau yn dod at ei gilydd i ddod o hyd i atebion ac i uwchsgilio staff.[257] Clywsom gan ysgol arbennig arall sut y mae rhai o'u cynorthwywyr addysgu uwch yn mynd i ysgolion prif ffrwd i helpu i uwchsgilio'r staff.[258]

***Enghraifft o arfer da 4***

*Mewn un ysgol arbennig clywsom sut yr oeddent wedi blaenoriaethu sefydlu swydd Swyddog Cyswllt â Theuluoedd. Mae'r rôl hon yn darparu cymorth dwys a soffistigedig i deuluoedd. Yn flaenorol, roedd y cyfrifoldeb hwn yn nwylo'r Dirprwy Bennaeth ond oherwydd diffyg capasiti, dim ond pan oedd teuluoedd yn wynebu argyfwng y rhoddwyd ymyriadau ar waith. Wrth i'r ysgol dyfu, fe wnaethant nodi bwlch ar gyfer cymorth rhagweithiol. Credai'r staff fod hwn yn fodel da y dylai ysgolion eraill ddysgu ohono. Dywedodd hefyd ei fod yn lleihau'r pwysau ar weddill staff yr ysgol, yn ogystal ag ar y gwasanaethau cymdeithasol.[259] Roedd y rhieni y buom yn siarad â nhw yn yr ysgol hon i gyd yn cytuno y dylai'r swydd hon gael ei hefelychu ar draws ysgolion eraill. Roeddent yn gwerthfawrogi*

[255] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 5, 4 Rhagfyr 2023, paragraffau 29-30
[256] Tystiolaeth ysgrifenedig, AE24 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
[257] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 10
[258] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 23
[259] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 20

> *agwedd y teulu cyfan at y cymorth a gynigiwyd. Clywsom enghreifftiau pwerus o sut yr oedd y cymorth hwn wedi gwneud gwahaniaeth i deuluoedd unigol.*[260]

**245.** Gall mathau eraill o addysg fod ar gael, a all fod yn briodol i rai plant a phobl ifanc. Soniodd nifer o deuluoedd am effaith osgoi mynd i'r ysgol ar sail emosiynol. Dywedodd un rhiant y dywedwyd wrtho am "dynnu enw ei blentyn oddi ar y gofrestr" ond gwnaed hyn i gyd ar lafar felly nid oedd trywydd papur. Teimlai y byddai ei blentyn yn elwa o gael darpariaeth "Anogol", ond dywedodd nad oedd y ddarpariaeth hon ar gael i'r plant hynny nad yw eu hymddygiad yn heriol. Nid yw'r plentyn wedi mynd i'r ysgol ers dwy flynedd. Nodwyd bod hyn wedi arbed llawer o arian i'r awdurdod lleol, ac nad yw'r awdurdod lleol yn bodloni ei ofyniad cyfreithiol i ddarparu addysg.[261]

**246.** Dywedwyd wrthym y gall Addysg Heblaw yn yr Ysgol ("AHY") yn aml fod yn llwybr cywir ar gyfer y grwpiau hyn o blant a phobl ifanc. Ond roedd pryderon ynghylch diffyg llwybr clir a chyson i AHY. Dywedodd un rhiant wrthym fod yn rhaid iddo gyflwyno cais Rhyddid Gwybodaeth er mwyn gweld polisi AHY yr awdurdod lleol.[262] Dywedodd rhanddeiliad wrthym nad oedd awdurdodau lleol yn "rhagweithiol" o ran darpariaeth AHY.[263] Dywedodd rhiant arall mai'r panel AHY oedd y "brocer pŵer go iawn" ond ni chaniateir i'r plentyn neu'r person ifanc, y teulu na'r ysgol gynrychioli eu hunain ar y panel.[264] (Trafodir y materion sy'n ymwneud â phaneli gwneud penderfyniadau ym mharagraffau 623-632).

**247.** Cododd Estyn bryderon nad yw rhai plant a phobl ifanc sy'n cael AHY yn cael mynediad at addysg amser llawn, sy'n golygu nad ydynt yn cael "mynediad at gwricwlwm priodol."[265]

**248.** Dywedwyd wrthym y bu cynnydd yn nifer y plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, er nad yw data cenedlaethol yn cael eu casglu ar hyn o bryd, mae tystiolaeth sy'n awgrymu y gallai rhai grwpiau o blant a phobl ifanc fod wedi'u gorgynrychioli gan gynnwys plant a phobl ifanc ag ADY. Er bod addysg ddewisol yn y cartref yn ddewis cadarnhaol i lawer, dywedodd y gallai eraill deimlo eu bod yn cael eu gorfodi i

[260] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 37
[261] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 16
[262] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 11
[263] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraff 32
[264] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 14
[265] AEC 48 Estyn

ddewis y math hwnnw o addysg oherwydd nad yw plant a phobl ifanc yn cael cymorth digonol mewn ysgolion.[266] Mae hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth a glywsom fel rhan o'n gwaith ar absenoldeb disgyblion.

**249.** Codwyd hyn hefyd gan deuluoedd, a ddywedodd eu bod wedi gorfod addysgu eu plant gartref oherwydd diffyg darpariaeth hygyrch.

> *"I've always had to homeschool my child. The schools around where we live wouldn't take them and the nearest school was so far away logistically it wouldn't make sense, we would have spent all day travelling back and forth and with my child's disabilities, that wouldn't be possible."*[267]

**250.** Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd ei fod am sicrhau bod anghenion unigol pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu diwallu. Roedd y Llywodraeth eisiau i gymaint o hynny â phosibl ddigwydd yn y brif ffrwd, a lle nad yw hynny'n bosibl, dylid gwneud yn siŵr bod darpariaeth arbenigol ar gael i gefnogi'r rhai sydd ei hangen.[268]

**251.** Dywedodd mai'r egwyddor sylfaenol y tu ôl i'r Cwricwlwm newydd yw sicrhau bod y system addysg mor gynhwysol â phosibl. Bydd y Cwricwlwm newydd yn sicrhau bod darpariaeth prif ffrwd yn gallu cyflwyno'r addysgu pwrpasol hwnnw sy'n adlewyrchu anghenion y garfan benodol o ddysgwyr o flaen athro.[269]

**252.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw hefyd at waith y Tasglu Hawliau Anabledd sydd â'r nod o gael gwared ar anghydraddoldebau a gwahaniaethu y mae pobl anabl yn eu hwynebu'n feunyddiol, ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae'n cynnwys pobl â phrofiad bywyd, sefydliadau rhanddeiliaid a swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'n gweithio o fewn y Model Cymdeithasol o Anabledd, ond mae ond yn canolbwyntio ar feysydd sydd wedi'u datganoli yn unig. Mae ganddo Weithgor Plant a Phobl Ifanc. Bydd gwaith yr amrywiol weithgorau yn helpu i lywio datblygiad Cynllun Gweithredu Hawliau Anabledd.[270]

[266] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 02 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
[267] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
[268] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 125
[269] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 124
[270] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77, Llywodraeth Cymru, paragraffau 5.1 a 5.3

## Mynediad at bob rhan o fywyd yr ysgol

**253.** Yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae mynediad at bob agwedd ar yr ysgol yn anghyson ac mae'n amrywio nid yn unig rhwng awdurdodau lleol, ond hefyd rhwng ysgolion yn yr un awdurdod lleol. Mae addysg gynhwysol yn hawl o dan y CCUHP, meddai, ond eto nid yw plant a phobl ifanc yn cael mynediad ato. [271] Dywedodd fod ymdeimlad bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn wahanol, a bod hynny fwy na thebyg yn gyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol neu anfwriadol. Yn ogystal â chanlyniadau anfwriadol mae hefyd angen ystyried rhai o'r rhwystrau strwythurol a chraffu arnynt.[272]

**254.** Gofynnodd Heledd Fychan AS i deuluoedd a oeddent yn teimlo bod eu plant yn cael eu heithrio o rai agweddau ar addysg neu ofal plant oherwydd eu hanabledd neu niwroamrywiaeth. Dywedodd 64.6% eu bod yn cael eu heithrio yn gyfan gwbl; gyda 21.2% yn dweud eu bod yn cael eu heithrio ar adegau a 14.2% yn dweud nad ydynt yn cael eu heithrio o gwbl.[273]

**255.** Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau fod plant eu hunain yn defnyddio'r gair "annheg" pan fyddant yn cael eu heithrio o weithgareddau.[274]

**256.** Mewn un ysgol, buom yn siarad â'r Cyngor Ysgol. Cawsom gyflwyniad gwych gan yr aelodau a ddywedodd wrthym am eu profiadau:

> *"We feel our school lacks the resources and space that you get in mainstream school in order to take part in DT lessons. We do not have proper big power tools such as drills and saws that everyone in mainstream gets to use. We don't even have enough hand tools … None of us have had the opportunity to use bunsen burners and burn magnesium, or hold fire like we feel they get to do in mainstream school or experiment with chemicals … In mainstream we feel pupils would be offered rugby lessons and would benefit from facilities such as running tracks. Why can't we access these facilities? It is not fair that most pupils get to benefit from high quality facilities but that*

[271] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 98
[272] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 103-104
[273] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
[274] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 203

*we miss out … Some pupils in our school are capable of getting GCSE's but these are not offered in school. We feel this isn't fair. We get opportunities to complete qualifications in school but when we move onto college, courses are limited at an accessible level."*[275]

**257.** Ymddengys fod mynediad at gyfleoedd chwaraeon yn fwy cyfyngedig. Dywedodd dysgwyr yn un o'r ysgolion yr ymwelwyd â hi eu bod am gael mwy o gyfleoedd, gan gynnwys addysg gorfforol yn wythnosol, a'u bod am gael mynediad at ystod ehangach o chwaraeon.[276] Dywedodd RNIB Cymru fod rhagdybiaethau'n cael eu gwneud yn aml am yr hyn y gall plant a phobl ifanc ag amhariad ar eu golwg ei wneud, gan nodi diffyg mynediad at addysg gorfforol a chwaraeon, a all gael effeithiau hirdymor ar ddisgyblion.[277] Roedd Triniaeth Deg i Fenywod Cymru hefyd o'r farn nad yw addysg gorfforol yn aml yn darparu ar gyfer anghenion y tu hwnt i'r person diofyn 'heb anabledd', a all arwain at oblygiadau i iechyd a llesiant ymhell i'r dyfodol. Galwodd am fwy o amrywiaeth o ran yr hyn a gynigir mewn ysgolion a all helpu i annog cyfranogiad mewn gweithgareddau y tu hwnt i'r ysgol.[278]

**258.** Fe wnaeth rhieni ein hatgoffa bod addysg gorfforol yn bwysig i lesiant meddyliol. Eto i gyd mae plentyn ag anabledd meddyliol yn cael ei eithrio o hynny i raddau helaeth. Mae'r gyfraith ar gyfer addysg gorfforol mewn ysgolion yn berthnasol i blant nad ydynt yn anabl. Felly mae pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl, sy'n aml â phroblemau gorbryder cysylltiedig, yn fwy tebygol o gael cynnig meddyginiaeth a chael eu heithrio.[279]

**259.** Clywsom farn gymysg gan deuluoedd am blant a phobl ifanc yn cael eu heithrio o ymweliadau a theithiau preswyl. Er bod rhai yn teimlo bod ysgolion wedi gweithio'n galed i sicrhau bod eu plant yn gallu mynychu, gyda chefnogaeth dda, dywedodd eraill wrthym nad oedd eu plant yn gallu gwneud hynny.[280]

**260.** Er enghraifft, clywsom am rai plant a phobl ifanc yn gallu mynd i ganolfannau fel Llangrannog, ond nid felly eraill. Dywedodd rhanddeiliaid fod yr anghysondebau hyn yn aml i'w priodoli i ddiffyg cynllunio, a diffyg asesiadau risg

[275] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 18 Cyngor Ysgol
[276] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 1
[277] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 47 RNIB Cymru
[278] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 50 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
[279] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 55 Fforwm Rhieni-Ofalwyr Abertawe
[280] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023

priodol yn cael eu rhoi ar waith.[281] Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr fod pwysau ar rai rhieni i fynd gyda'u plant ar ymweliadau, ac efallai na fydd yn bosibl i rai wneud hynny.[282]

**261.** Dywedwyd wrthym nad yw'r rhai mewn Canolfannau Adnoddau Arbennig yn cael cynnig teithiau preswyl, ond ni fydd hyd yn oed y rhai mewn lleoliadau prif ffrwd yn gallu mynd ar deithiau a gynigir gan eu hysgol. Clywsom y byddai'r cyfleoedd hyn o fudd i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ymwybodol iawn ohono ar ôl cwblhau gwaith craffu ar y Bil Addysg Breswyl yn yr Awyr Agored (Cymru) yn ddiweddar. Cafwyd galwadau am fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn o gynllunio ymweliadau, ac i arian gael ei neilltuo i sicrhau bod y profiadau hyn yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc.[283]

**262.** Dywedodd un rhiant fod ei blentyn wedi bod yn ei ysgol gynradd ers Blwyddyn 1, ond ni wnaeth yr ysgol drefniadau iddo fynd ar daith breswyl Blwyddyn 6.[284] Dywedodd mwyafrif y teuluoedd a ymatebodd i arolwg Heledd Fychan AS nad oedd eu plant yn gallu cael mynd ar deithiau ysgol. Roedd amrywiaeth o resymau am hyn gan gynnwys cyrchfannau neu gludiant anaddas neu oherwydd diffyg cefnogaeth un i un. Yn aml, yr ateb yw i riant fynd gyda'r plentyn, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl oherwydd ymrwymiadau gwaith.[285]

**263.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fod plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu heithrio o deithiau oherwydd yr ystyrir eu bod yn ymddwyn yn wael.

> *"when they are just fidgety, or have more difficulty with transitions. This really affects their social interactions with their peers and makes them feel outcast and different. This affects their self-esteem and causes them to disengage with education."*[286]

**264.** Dywedwyd wrthym y gall eithrio plant a phobl ifanc o'r profiadau hyn effeithio ar eu haddysg, oherwydd nid yn yr ystafell ddosbarth yn unig y mae

---

[281] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraff 33
[282] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[283] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 19
[284] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 55 Fforwm Rhieni-Ofalwyr Abertawe
[285] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
[286] Tystiolaeth ysgrifenedig, AE 24 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

addysg yn digwydd.[287] Dywedodd Estyn fod yr eithrio hwn yn golygu nad yw plant a phobl ifanc "yn elwa ar yr un profiadau addysgol cyfoethog â'u cyfoedion."[288]

**265.** O ran cyfleoedd chwarae, rydym yn edrych ar gyfyngu ar amseroedd egwyl yn yr adran nesaf. Fodd bynnag, clywsom hefyd am nifer o ddigwyddiadau lle nad oedd plant yn cael y gefnogaeth orau i ymuno â gweithgareddau chwarae plant eraill. Roedd un plentyn yn cael trafferth gyda gêm ar yr iard, a dywedodd staff nad oedd ganddynt amser i'w hesbonio. Pan godwyd hyn gyda'r pennaeth, dywedodd fod yn rhaid i bob plentyn wynebu cywilydd.[289]

**266.** Clywsom hefyd gan deuluoedd am ddulliau disgyblu sy'n "codi cywilydd" ac yn "cosbi". Disgrifiodd rhiant plentyn sydd wedi profi trawma sylweddol a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ddigwyddiad yn ysgol ei blentyn:

> *"Rwy'n cofio yn y feithrinfa eu bod yn arddangos wynebau'r plant i gyd wedi'u lamineiddio, gydag enfys a chwmwl du, ac os oedd y plentyn yn "ddrwg" byddai ei wyneb yn cael ei symud at y cwmwl du. Fyddech chi byth yn arddangos hynny yn yr ystafell athrawon. Byddai hynny'n cael ei ystyried yn fwlio yn y gweithle. Pam maen nhw'n meddwl ei bod yn iawn gwneud hyn i blant?"*[290]

**267.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod gweithredu diwygiadau addysg o ran y Cwricwlwm i Gymru a'r system ADY newydd yn ceisio:

> *"… trawsnewid disgwyliadau, profiadau dysgu a chanlyniadau plant a phobl ifanc. Mae'r ddau yn pwysleisio system addysg gynhwysol sy'n cydbwyso sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad teg at y cwricwlwm a diwallu anghenion dysgwyr unigol."*[291]

---

[287] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraff 14
[288] AEC 48 Estyn
[289] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 41
[290] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[291] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77, Llywodraeth Cymru, paragraff 1.1

## Mynediad at addysg / amserlennu

### Dyheadau academaidd

**268.** Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon am y diffyg dyheadau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn, gan ddweud nad "corlan" yw'r ysgol. Galwyd ar Estyn i sicrhau bod y grwpiau hyn o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael y cyfle i rannu eu profiadau fel rhan o'r broses arolygu. Dywedodd rhai hefyd fod angen mesur cynnydd yn erbyn amgylchiadau pob plentyn unigol.[292]

**269.** Dywedodd Anabledd Cymru wrthym ei fod yn gwybod am achosion niferus o wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol. Gall rhai ohonynt fod yn benodol iawn, a chyfeiriwyd at enghraifft o rywun yn cael gwybod na ddylai drafferthu dilyn cyrsiau addysg oherwydd na fyddai byth yn gallu gweithio beth bynnag.[293] Tynnodd Whizz Kidz sylw hefyd at yr effaith y gall rhagfarn anymwybodol ei chael ar blant a phobl ifanc:

> *"When young wheelchair users have limitations and low expectations imposed upon them by school staff, it can undermine their confidence and self-esteem. Whether the outlook and bias of staff is conscious or unconscious, the impact this can have is great; misconceptions about disability and negative attitudes towards disabled people pose barriers to disabled people living the lives they want."*[294]

**270.** Yn benodol, codwyd mynediad at gymwysterau o fewn ysgolion arbennig. Dywedodd un ysgol arbennig wrthym y bydd TGAU yn cael eu cynnig i'r dysgwyr hynny os oes ganddynt y gallu.[295] Dywedodd Anabledd Cymru y gallai'r Cwricwlwm newydd i Gymru fod yn gyfle i gyflwyno mwy o gyfleoedd i ennill cymwysterau. Os yw athrawon yn addysgu'n gyfannol ac yn unol â galluoedd plant a phobl ifanc, meddai, gallai hynny eu cyflwyno i gymwysterau.[296] Dywedodd yr Athro Jonty Rix hefyd fod y Cwricwlwm newydd yn gam cychwynnol i'r cyfeiriad cywir er iddo ddweud mai un broblem yw bod arholiadau ar y diwedd o hyd.[297]

---

292 Pwyllgor CYPE, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraffau 22-23
293 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 15
294 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 35 Whizz Kidz
295 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 15
296 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 68
297 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 128

**271.** Tynnodd Anabledd Dysgu Cymru sylw at y ffaith bod y pwyslais mewn lleoliadau prif ffrwd ar gyflawniad academaidd yn arbennig o heriol i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu. Dywedodd fod llwyddiant yn cael ei fesur yn erbyn canlyniadau TGAU, ond:

> *"… most children with a learning disability will never take a GCSE or will take at most 1 or 2. They will therefore leave the education system with no marker against their achievements. We are measuring children who have a learning disability on their ability to academically achieve - one of the things they find most challenging. The system will argue that by not entering these children into GCSEs they are not held against that marker. However, they then become insignificant when schools are measured in that way and planning and design focuses solely on those taking GCSEs (or equivalent qualifications)."*[298]

**272.** Rhannodd teuluoedd eu barn ar y dull addysgu a sut y gall effeithio ar eu plant. Yn benodol, clywsom fod angen mwy o gymorth ar gyfer agweddau cymdeithasol ar yr ysgol. Dywedodd un rhiant plentyn sy'n aros am ddiagnosis o awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), a thueddiad patholegol i osgoi gorchmynion (PDA) fod angen mwy o arbenigedd o ran adnabod mathau penodol o ymddygiad yn hytrach na gwaith academaidd. Dywedodd un arall:

> *"Maen nhw bob amser yn canolbwyntio ar "mae angen i ni addasu'r plentyn" nid "mae angen i ni addasu ein hymarfer".*[299]

**273.** Ar ochr arall y geiniog, clywsom hefyd nad oedd rhai plant yn cael eu herio'n ddigonol yn academaidd. Dywedodd rhiant plentyn â pharlys yr ymennydd:

> *"Rwy'n cwestiynu ac yn gofidio bod yr ysgol yn mynd dros yr un pethau sydd ar lefel ysgol feithrin dro ar ôl tro."*

---

298 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 06 Anabledd Dysgu Cymru
299 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023

Dywedodd rhiant plentyn â Syndrom Down:

> *"Fydden nhw ddim fel arfer yn anfon plentyn 10 oed i chwarae gyda phlant 5 oed. Ond dwi'n cymryd eu bod yn gwneud hynny pan fyddan nhw'n brin o staff."*[300]

**274.** Awgrymodd rhieni y gallai'r datgysylltiad hwn fod o ganlyniad i blant a phobl ifanc yn cael eu gwahanu, ac o bosibl yn cael cymorth un-i-un gan staff nad oeddent yn gyfrifol am osod y gwaith. Yn ystod un o'r cyfweliadau â theuluoedd, dywedodd un plentyn nad oedd athrawon yn ymwybodol o alluoedd ei chwaer. Yn ystod y cyfnod clo, roedd ei chwaer, a oedd yn yr ysgol uwchradd yn cael gwaith a oedd yn rhy hawdd o'i gymharu â'i haseiniadau lefel ysgol gynradd hi.[301]

**275.** Roedd llawer o'r teuluoedd a ymatebodd i arolwg Heledd Fychan AS yn Nwyrain De Cymru yn credu mai'r ffactor allweddol o ran a fyddai plant yn gallu cael mynediad at "gwricwlwm ffurfiol llawn" oedd eu bod yn cael "cefnogaeth 1 i 1." Er hynny, cyfeiriodd nifer at ddiffyg cefnogaeth o'r fath, neu i eraill roedd yn rhan-amser / afreolaidd, gyda nifer yn cael amserlen â llai o oriau. Roedd eraill wedi optio allan o'r system ysgolion ffurfiol yn gyfan gwbl.[302]

**276.** Dywedodd rhieni wrthym nad oedd addasiadau'n cael eu gwneud i waith ysgol. Yn ôl un rhiant, drwy roi'r un gwaith cartref i'w blentyn â'i gyfoedion nad ydynt yn anabl ac sy'n niwronodweddiadol, roedd yr ysgol mewn gwirionedd yn ei eithrio er eu bod yn ceisio ei gynnwys, oherwydd roedd yn waith na allai hyd yn oed roi cynnig arno. Y dull mwy cynhwysol fyddai rhoi gwaith cartref penodol iddo a oedd yn ystyried yr hyn y gallai ei wneud.[303]

**277.** Roedd Cymdeithas Seicolegol Prydain yn pryderu am sut y mae canlyniadau, targedau a darpariaethau ar gyfer plant niwrowahanol yn cael eu gosod. Yn aml nid ydynt yn briodol ar gyfer anghenion y plentyn. Os nad yw canlyniadau'n cael eu gosod yng nghyd-destun datblygiad neu sefyllfa seicolegol y plentyn, meddai, yna mae perygl o wneud iddo ymddangos fel pe na bai plant niwrowahanol neu blant anabl yn datblygu neu eu bod yn 'methu'. Roedd y gymdeithas yn credu ei bod yn bwysig nad oedd plant niwrowahanol yn cael eu hannog i ymddwyn fel

---

[300] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[301] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[302] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
[303] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 41

plant eraill ond, yn hytrach, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am fod yn nhw eu hunain.[304]

## Absenoldebau, amserlenni â llai o oriau a gwaharddiadau

**278.** Os nad yw plant yn mynychu'r ysgol neu os na allant fynychu'r ysgol byddant yn colli'r cyfle i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Rydym yn gyfarwydd iawn â'r materion sy'n ymwneud ag absenoldebau o'r ysgol. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar y mater hwn ym mis Tachwedd 2022. Gwnaethom saith argymhelliad, a oedd yn ymdrin â materion yn cynnwys negeseuon ar agweddau cadarnhaol ar yr ysgol; teithio gan ddysgwyr; data a throthwyon ar gyfer ymyrryd.[305] Cafodd yr holl argymhellion eu derbyn, neu eu derbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru.[306] Rydym yn debygol o ailedrych ar y broses o weithredu'r argymhellion hyn cyn diwedd tymor y Senedd.

**279.** Cododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bryder am absenoldebau cyson, gan ddweud bod cyfradd absenoldeb uchel iawn ymhlith plant ag anghenion dysgu ychwanegol.[307] Tynnodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant sylw at y ffaith ei bod yn anodd deall a yw absenoldebau sy'n cael eu categoreiddio fel salwch i'w priodoli i broblem hirdymor ynteu faterion dros dro fel annwyd tymhorol. Nid yw'r ystadegau presennol yn dangos y gwahaniaeth hwn.[308]

**280.** Mewn un stori frawychus, disgrifiodd rhiant sut yr oedd ei blentyn wedi methu chwe blynedd o ysgol gynradd oherwydd diffyg lle hygyrch mewn ysgol. Bu nifer o leoliadau'n aflwyddiannus, a dim ond am chwe wythnos y parhaodd y lleoliad cyntaf; yn yr ail leoliad cadarnhawyd deuddeg pwynt o wahaniaethu ar sail anabledd. Mae'r plentyn mewn ysgol uwchradd ar hyn o bryd, ond mae problemau'n ymwneud â chludiant, mynediad i'r toiled chyfleusterau amser cinio yn golygu bod y plentyn yn cael ei wahanu oddi wrth ei gyfoedion. Dywedodd ei riant nad oedd y cynllun gofal na'r cynllun datblygu unigol yn cael eu dilyn.[309]

**281.** Mae'n bosibl y bydd gan rai plant a phobl ifanc lefelau uwch o absenoldeb oherwydd eu hanghenion a'u cyflyrau, megis apwyntiadau meddygol. Clywsom bryderon am wobrau am bresenoldeb, nad ydynt yn ystyried amgylchiadau

[304] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain
[305] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Absenoldebau Disgyblion, Tachwedd 2022
[306] Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Absenoldebau Disgyblion, Ionawr 2023
[307] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 02 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
[308] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 49, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
[309] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 13

gwahanol plant a phobl ifanc. Dywedodd pobl ifanc wrth Platfform fod hyn yn gwobrwyo pobl am fod yn iach.[310] Tynnodd Prifysgol Caerdydd sylw at hyn, gan rannu profiadau person ifanc â diabetes:

> *"A lot of pressure was on more of attendance because, if you drop below this amount of attendance, you can't go on the end of year trip. But if I had said to my teachers in advance, i've got an appointment on this day at this time, i'll have to miss this lesson. They wouldn't count that as an authorised absence. So, it just looked like I hadn't turned up, but really, I was at an appointment."*[311]

**282.** Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol fod gwobrau presenoldeb yn wahaniaethol. Cyfeiriodd at enghreifftiau lle y gallai dosbarthiadau cyfan golli gwobr os na cheir presenoldeb o 100%, sy'n golygu bod dysgwyr ag anghenion ychwanegol yn cael eu beio'n annheg gan eu cyfoedion am rywbeth na allant ei reoli.[312]

**283.** Un o'r materion a godwyd oedd y defnydd o amserlenni â llai o oriau, a dulliau mwy hyblyg o addysgu. Clywsom ddwy ochr y ddadl. Weithiau gall fod yn ateb sy'n helpu i gefnogi presenoldeb parhaus ac ymgysylltiad â'r ysgol, ond roedd eraill yn pryderu eu bod yn cael eu defnyddio'n rhy aml fel ffordd o osgoi cynnig addysg gynhwysol.

**284.** Dywedodd y Comisiynydd Plant fod teuluoedd yn argymell defnyddio "dysgu hyblyg a chyfunol, ac addasiadau i amserlenni" er mwyn cefnogi'n well y dysgwyr hynny y gallai mynd i'r ysgol yn llawnamser fod yn heriol iddynt.[313] Disgrifiodd un rhiant sut yr oedd amserlen â llai o oriau ar gyfer ei merch awtistig, llai o bynciau ynghyd â chefnogaeth Cynorthwyydd Cymorth Dysgu yn gweithio'n dda, ei bod yn teimlo'n ddiogel ac wedi dechrau cael mwy o wersi. Canlyniad hyn oedd bod y ferch wedi dechrau cysgu'n well, bu gostyngiad yn yr achosion golli rheolaeth, ac er ei bod yn dal yn bryderus dechreuodd wneud cynnydd academaidd.[314]

**285.** Clywsom am gynnydd mewn amserlenni â llai o oriau ar gyfer plant ifanc iawn, yn ogystal â phlant hŷn a phobl ifanc. Dywedodd rhanddeiliaid mai dim ond gyda chytundeb rhieni / gofalwyr y dylid eu defnyddio a phan fo hynny er lles

[310] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 39 Platfform
[311] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 44 WISERD, Prifysgol Caerdydd
[312] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 30 Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
[313] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 01 Comisiynydd Plant Cymru
[314] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 29 Unigolyn

gorau'r plentyn. Yn ogystal â hynny, ychydig o waith monitro a wnaed o'r defnydd ohonynt, a chafwyd enghreifftiau o blant a oedd wedi bod yn eu dilyn am flynyddoedd yn hytrach na thros y tymor byr.[315] Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith fod hwn yn fater a godwyd gan ei aelodau. Yn benodol, plant a phobl ifanc ag awtistiaeth a/neu anawsterau dysgu sydd fwyaf tebygol o fod yn dilyn amserlenni â llai o oriau. Dywedodd fod hyn yn golygu bod plant sydd eisoes yn ei chael hi'n fwy heriol i gymdeithasu yn cael llai fyth o gyfleoedd i ddysgu a chymdeithasu.[316]

**286.** Yn ôl Whizz Kidz dylai'r plant hynny a allai fod yn absennol o'r ysgol yn amlach oherwydd amgylchiadau anochel yn ymwneud â'u cyflyrau gael mynediad at fformatau dysgu amgen fel dysgu ar-lein. Roedd arolwg diweddar a gynhaliwyd ganddynt ar raddfa fach wedi nodi y byddai cyfleoedd o'r fath yn helpu llawer o ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ifanc.[317] Roedd Prifysgol Caerdydd yn cytuno bod rhai newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r pandemig, gan gynnwys rhestru gwaith ysgol ar-lein, yn ei gwneud yn haws i blant a phobl ifanc ddal i fyny â gwersi a gollwyd. Fodd bynnag, roedd yn pryderu nad oedd yr addasiadau hyn ar gael ym mhobman, ac efallai na fyddant yn parhau yn y dyfodol.[318]

**287.** Roedd gan Anabledd Dysgu Cymru bryderon bod plant ag ADY yn anghymesur o debygol o gael eu gwahardd o ysgolion ac 'ysgolion arbennig' sydd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau cyfnod penodol o blith yr holl fathau o ysgolion.[319] Dywedwyd wrthym fod materion yn ymwneud â gwaharddiadau anghyfreithlon lle bydd ysgolion yn gwahardd plant a phobl ifanc yn anffurfiol er mwyn osgoi gorfod cadw at ofynion megis nodi dyddiadau dychwelyd a chofnodi'r rhesymau dros y gwaharddiad. Yn aml, nid yw rhieni'n ymwybodol o'r gofynion ynghylch gwaharddiadau.[320] Dywedodd SNAP Cymru ei bod yn aneglur pa mor aml y mae achosion o waharddiadau anffurfiol heb eu cofnodi yn digwydd yng Nghymru.[321] Dywedodd rhanddeiliaid hefyd fod gwaharddiadau

[315] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad Rhanddeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraff 9
[316] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 45 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, paragraff 9
[317] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 35 Whizz Kidz
[318] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 44 WISERD, Prifysgol Caerdydd
[319] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 06 Anabledd Dysgu Cymru
[320] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraff 34
[321] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 283

oherwydd materion yn ymwneud ag ymddygiad yn digwydd er gwaethaf ystyriaethau o ran a yw'r ysgol wedi cefnogi'r plentyn yn ddigonol ai peidio.[322]

**288.** Cyfeiriodd Cymdeithas Seicolegol Prydain at ddata'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n dweud bod plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o gael eu gwahardd yn barhaol neu dros dro na phlant nad ydynt yn anabl. Roedd yn bryderus bod cyfraddau gwaharddiadau ar gynnydd yng Nghymru. Er bod gwaharddiadau weithiau'n deillio o rwystrau na ellir eu hosgoi, roeddent yn pryderu bod ysgolion yn anwybyddu'r effaith ar blant a phobl ifanc, ac nad oedd llawer o ysgolion yn gwrando ar y plentyn er mwyn dod o hyd i atebion arloesol i sicrhau cynhwysiant a thegwch. Galwodd ar ysgolion i ddarparu atebion effeithiol i fynd i'r afael â gwaharddiadau, ac i ysgolion gael cymorth parhaus fel mai eu hymateb diofyn bob amser yw sut y gallant sicrhau atebion creadigol/cefnogol sy'n canolbwyntio ar y plentyn i gynhwysiant, fel nad yw gwaharddiad byth yn opsiwn.[323]

**289.** Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth fod plant a phobl ifanc awtistig yn arbennig mewn perygl o gael eu gwahardd. Maent yn aml yn cael eu cosbi'n annheg pan fo eu hymddygiad yn arwydd nad yw eu hanghenion cymorth yn cael eu diwallu. Rhannodd y gymdeithas rai ystadegau gwirioneddol syfrdanol:

> *"A quarter of parents of autistic pupils say their child has faced exclusion internally by isolation or through external fixed-term or permanent exclusion. Over half of parents receive no written record of temporary exclusions, and one in four pupils suspended or excluded were aged 10 or under, and I'm personally aware of a little girl who's four-years-old who has been excluded multiple times in one year."*[324]

Dywedodd bod gwaith gydag Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth a Chyngor Swydd Lincoln i ymgorffori arfer gorau wedi arwain at ostyngiad o 80 y cant yn nifer y plant a phobl ifanc awtistig a oedd yn cael eu gwahardd o fewn cyfnod o 3 blynedd. Amlygodd gost gwaharddiad parhaol, sef tua £370,000 o ran addysg gydol oes, budd-daliadau lles, gofal iechyd, costau cyfiawnder troseddol.[325]

---

[322] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i randdeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraff 10
[323] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain
[324] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 285-288
[325] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 285-288

**290.** Yn ôl SNAP Cymru mae arferion gwahardd yn amrywio rhwng ysgolion, gyda rhai byth yn defnyddio gwaharddiadau, ac eraill yn eu defnyddio'n rheolaidd. Dywedodd fod rhai arferion rhagorol lle mae ysgolion wedi ymrwymo i beidio â gwahardd disgyblion drwy gyflwyno gwahanol ffyrdd o reoli rhai o'r heriau a chefnogi'r bobl ifanc hyn. Dywedodd fod rhieni yn awyddus igael canllawiau cryfach, mwy penodol ar waharddiadau fel eu bod yn glir ynglŷn â'u hawliau ac opsiynau. Dywedodd hefyd fod angen cymorth ar ysgolion i allu gwneud addasiadau rhesymol yn gynharach, a all helpu i leihau'r risg o waharddiad.[326]

**291.** Yn ôl y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau mae ysgolion yn gweithio'n galed i leihau gwaharddiadau. Roedd y gymdeithas wedi'i chalonogi bod Llywodraeth Cymru, adeg y sesiwn dystiolaeth, wedi cyhoeddi adolygiad o bolisi a chanllawiau gwaharddiadau yn ddiweddar. Dywedodd hefyd ei fod yn faes lle y gallai mwy o hyfforddiant i staff helpu i leihau nifer y gwaharddiadau.[327] Dywedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol fod diffyg cyllid a hyfforddiant staff yn ffactor yn nifer o waharddiadau, gan ddweud na all ysgolion wneud addasiadau neu gynnig darpariaeth i atal gwaharddiadau bob tro. Ffactor posibl arall, meddai, oedd y gallai plant a phobl ifanc fod mewn darpariaeth prif ffrwd pan nad yw hynny'n addas ar eu cyfer.[328]

**292.** Clywsom gan nifer o deuluoedd a ddywedodd eu bod wedi cael ceisiadau i gadw eu plentyn o'r ysgol, neu y gofynnwyd iddynt ddechrau'n hwyrach neu gael eu casglu'n gynnar. Dywedodd un rhiant wrthym y gofynnwyd iddo gadw ei blentyn gartref yn rheolaidd yn ystod un tymor oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau. Roedd hyn mewn ysgol gynradd brif ffrwd. Nid oedd yr ysgol yn gallu sicrhau cymorth un-i-un dibynadwy gan rywun a oedd wedi'i hyfforddi'n briodol, ac nid oedd yr ysgol am ddefnyddio'r cynorthwyydd addysgu a oedd ar gael i ddarparu'r cymorth hwn.[329] Disgrifiodd un arall sut y bu i'r ysgol roi pwysau arno i gasglu ei blentyn amser cinio, a gwrthododd gan ei fod yn gwybod bod yr ysgol am i'r plentyn fod oddi ar y safle fel nad eu problem nhw ydoedd.[330]

**293.** Dywedodd pobl ifanc a siaradodd â Platfform:

> *"… perhaps schools were looking out for their own needs first instead of their students, which may be why young people tended to be suspended or excluded from school or "dropped*

[326] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 284
[327] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 176-177
[328] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 274
[329] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 28 Unigolyn
[330] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 33 Unigolyn

> *out of some lessons" in order to prioritise students they considered more important, maintain their reputation and make their lives easier."*[331]

**294.** Soniodd teuluoedd am eu profiadau o amserlenni â llai o oriau, gan amlygu bod hyn yn golygu eu bod yn cael llai o oriau o addysg na'u cyfoedion nad ydynt yn anabl a'u cyfoedion niwronodweddiadol. Mae rhieni'n meddwl mai'r ffactorau sy'n ysgogi hyn yn aml yw capasiti cyfyngedig yr ysgol yn hytrach nag anghenion plant a phobl ifanc. Defnyddiwyd y term "eithrio adeiladol" gan rai rhieni.

**295.** Clywsom hefyd am brofiadau lle yr oedd teuluoedd yn cael trafferth cael mynediad at waith addas (os o gwbl) i'w plentyn ei wneud gartref:

> *"Does dim help ar gael. Gofynnais i'r athrawon fy e-bostio i rannu themâu a phynciau – rwy'n gorfod gobeithio'r gorau!"*[332]

**296.** Disgrifiodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru brofiad plentyn nad oedd wedi mynychu'r ysgol ers dwy flynedd, ond bod yr ysgol yn dal heb gynnig unrhyw gymorth, nac wedi rhoi unrhyw gynlluniau ar waith er mwyn i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol.[333]

**297.** Cododd rhai rhieni bryderon diogelu am y diffyg cyswllt o'r ysgol pan fo plant a phobl ifanc yn absennol o'r ysgol. Cyfeiriwyd at eu profiadau eu hunain o beidio â chael unrhyw gyswllt gan yr ysgol yn ystod absenoldeb eu plentyn. Dywedodd un rhiant fod "yr ysgol yn cymryd y cyllid ar ei gyfer, ond bod neb wedi bod mewn cysylltiad."[334] Dywedodd rhiant arall y bu'n rhaid iddo ofyn i'r awdurdod lleol ddod i wneud yn siŵr fod ei blentyn yn iawn pan nad oedd yn mynychu'r ysgol am 9 mis.[335]

**298.** Cododd Chwarae Cymru bryderon penodol bod rhai plant yn colli cyfleoedd chwarae yn ystod amser egwyl, yn aml i ddal i fyny â gwaith neu oherwydd bod athro yn teimlo bod y plentyn wedi camymddwyn. Dywedodd ei fod wedi derbyn ymholiadau "sydd fel pe baent yn awgrymu bod yr arfer hwn yn ymwneud yn aml â phlant anabl a niwrowahanol". Dywedodd y gall "achosi stigma ac mae'n mynd yn groes i hawl plant i chwarae." Yn ogystal â hynny, gall fod yn "wrthgynhyrchiol,

---

[331] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 39 Platfform
[332] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[333] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[334] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 28
[335] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 34

gan ei fod yn aml yn effeithio fwyaf ar blant sy'n ei chael yn anodd canolbwyntio yn y dosbarth ac sydd angen mynd allan a symud." Tynnodd sylw at y ffaith bod Dull Ysgol Gyfan Llywodraeth Cymru o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn nodi'n gwbl glir na ddylid amddifadu plant o amser chwarae yn yr ysgol fel cosb.[336]

**299.** Cododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd bryderon am y materion hyn. Dywedodd fod amddifadu plant o gyfleoedd amser egwyl yn golygu nad yw plant a phobl ifanc yn cael profiad o ddiwrnod ysgol llawn.[337]

**300.** Clywsom hefyd am feysydd penodol o gwricwla ysgolion y gallai plant a phobl ifanc gael eu heithrio ohonynt. Amlygodd nifer o sefydliadau cerddoriaeth a chelfyddydol fod y plant a'r bobl ifanc hyn yn wynebu "nifer o rwystrau i brofiadau cerddorol addysgol cynhwysol." Dywedwyd bod y rhain yn cynnwys diffyg:

- Cwricwla addas a llwybrau dysgu;
- Hyder a chyfleoedd hyfforddi i athrawon;
- Adnoddau;
- Lle yn amserlen yr ysgol.

Dywedwyd bod y cyfleoedd yn lleihau wrth i blant a phobl ifanc fynd yn hŷn, gan ddweud nad oes gan 40% o ysgolion arbennig gwricwlwm cerddoriaeth. Cafwyd galwadau am fwy o weithio mewn partneriaeth rhwng lleoliadau prif ffrwd a "darparwyr arbenigol y tu allan i'r ysgol". Mae gwerthusiadau eu prosiectau wedi dangos bod y grwpiau hyn o blant a phobl ifanc yn cael "profiadau cerddorol trawsnewidiol sy'n rhoi boddhad o ganlyniad i brosiectau partneriaeth … gall y profiadau hyn gael effaith sylweddol ar les pobl ifanc, datblygiad eu sgiliau a hyd yn oed eu llwybrau gyrfa posibl."[338]

**301.** O ran y defnydd o amserlenni â llai o oriau, dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd fod canllawiau clir iawn ar sut y dylid eu defnyddio. Ar hyn o bryd, dywed y canllawiau y dylid eu teilwra a'u dilyn am uchafswm o chwe wythnos, a'u defnyddio'n gyffredinol fel rhan o gynllun dychwelyd i'r ysgol pan fo'r plentyn neu berson ifanc wedi bod yn absennol am gyfnod hir. Nododd yn glir iawn:

---

[336] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 37 Chwarae Cymru, paragraffau 1.12-1.16
[337] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 138
[338] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 46 Sefydliadau Cerddoriaeth a'r Celfyddydau, paragraffau 2.1 a 2.5

> *"It absolutely should not be used as a means of managing challenges in behaviour. And it also has to be done in a way that is documented and understood, by the school but also parents, learners, the local authority, and even beyond that. It should be documented in that way so that it can be, as you were suggesting, monitored and evaluated."*

Roedd y canllawiau hyn, ar yr adeg y siaradodd y Gweinidog â ni, wrthi'n cael eu hadolygu. Dywedodd hefyd y byddai canllawiau mwy pwrpasol ac unigryw yn cael eu cyhoeddi ar waharddiadau.[339]

**302.** Mae'r gwaith i ddiweddaru'r canllawiau yn cael ei wneud mewn dau gam. Mae'r cam cyntaf yn canolbwyntio ar wella'r ffordd y mae rhai pethau'n cael eu mynegi, y naws, yr iaith, gan wneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu'r newid deddfwriaethol sylweddol a wnaed i'r system ysgolion. Byddai'r ail gam yn cynnwys:

> *"… a more fundamental revision, really, and it will be about how we can understand the use of exclusion in particular for learners with protected characteristics and, reflecting the point that you've just made, where some cohorts of learners can be disproportionately more likely to be excluded. It goes to the heart of that as well."*[340]

**303.** Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai cynnydd fod yn fater i bawb gan gynnwys y dysgwr, ac y dylai gydnabod "anghenion dysgu unigol a chefndir yr holl ddysgwyr, ac annog ystyriaeth gyfannol o'u datblygiad."[341]

## Gweithredu'r Ddeddf a'r Cod ADY

**304.** Fel yr amlinellir ym mharagraff 23, rydym wrthi'n ymgymryd â darn hirfaith o waith yn y Senedd sy'n edrych ar weithrediad y Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddf ADY. Mae ein sylwadau yma yn canolbwyntio ar y materion a godwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn.

**305.** Rhoddodd Anabledd Dysgu Cymru drosolwg clir o sut y mae'r system wedi siomi sawl cenhedlaeth o blant a phobl ifanc:

[339] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 53
[340] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 55
[341] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraff 1.6

> *"… I sit here 16 years later to give evidence, having seen two cohorts of children, two generations of children, go through a system that is still not fit for purpose. It's not implemented yet, and many children still have the most awful experiences in our Welsh education system."*[342]

**306.** Roedd nifer o randdeiliaid a sefydliadau'n gefnogol i'r dull gweithredu a amlinellir yn y Ddeddf a'r Cod ADY, ond roedd ganddynt bryderon ynghylch eu gweithrediad. Un mater allweddol oedd anghysondebau o ran eu gweithredu a'u dehongli ledled Cymru.[343]

**307.** Yn ôl Anabledd Dysgu Cymru, er bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wedi'i gynnwys yn y Ddeddf ADY, nid oedd y ddeddfwriaeth yn deall hawliau pobl anabl mewn perthynas ag addysg, felly mae'n gwrth-ddweud ei hun.[344]

**308.** Dywedodd Estyn wrthym:

> *"Mae gwendidau blaenorol a oedd yn bodoli yn flaenorol o fewn y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn ogystal â gweithredu amrywiol o ran y diwygio hwn, yn golygu nad yw pob un o'r plant a'r bobl ifanc anabl yng Nghymru yn cael mynediad teg at addysg a gofal plant."*[345]

**309.** Dywedodd y Comisiynydd Plant Cymru wrthym:

> *"… mae'r oedi yn rhoi'r cod anghenion dysgu ychwanegol ar waith, yr amrywiaeth mewn cynnydd ledled Cymru, a'r dryswch i deuluoedd wrth symud i'r system newydd yn gwaethygu'r rhwystrau rhag mynediad at addysg addas a gwasanaethau cymorth angenrheidiol i blant anabl. Yn rhy aml, nid yw plant niwroamrywiol yn cael cymorth os nad ydynt yn bodloni'r gofynion i gael cymorth ADY."*[346]

**310.** Yn ôl CCAC mae cefnogaeth ddigamsyniol gan weithwyr addysg proffesiynol i'r diwygiadau, oherwydd eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, bydd yn cymryd amser i'w rhoi ar waith yn llawn oherwydd yr angen i ddeall

[342] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 101
[343] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 85
[344] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 166
[345] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 48 Estyn
[346] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 01 Comisiynydd Plant Cymru

anghenion plentyn, y rhwystrau i ddysgu, a sut y gellir goresgyn y rhwystrau.[347] Pwysleisiodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau hefyd yr amser sydd ei angen i sicrhau bod diwygiadau ar raddfa fawr o'r fath yn bwrw gwreiddiau.[348] Fodd bynnag, dywedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol, hyd yn oed ar ôl i'r cam gweithredu cychwynnol ddod i ben, y bydd llawer o'r problemau presennol yn parhau oherwydd y ffordd y mae'r Ddeddf a'r Cod yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb o'r awdurdod lleol i'r ysgol. Dywedodd y bydd llwythi gwaith ychwanegol o hyd i ysgolion a bod ysgolion hefyd yn cael trafferth cael gafael ar adnoddau gan awdurdodau lleol. [349]

**311.** Codwyd capasiti'r staff i gyflawni'r Ddeddf a'r Cod droeon. Dywedodd un rhiant nad oedd yn realistig mewn lleoliad uwchradd i ddisgwyl i athro, a fydd yn addysgu cannoedd o blant a phobl ifanc yr wythnos, i gofio pob angen unigol a bod â'r gallu i ddarparu ar gyfer hynny pan fydd gan tua 20% o'r dosbarth AAA. Nid oedd yn gallu cofio pob manylyn yn natganiad ei mab bob dydd, felly yn sicr ni fyddai'n gallu cofio cannoedd heb sôn am ddarparu gwaith gwahaniaethol i gannoedd. Nid yw'n realistig, meddai.[350] Roedd SNAP Cymru hefyd yn cydnabod y pwysau dyddiol a wynebir gan athrawon:

> *"They have to deliver subject lessons in an all-inclusive way to children with differing needs through adaptive teaching strategies, and there are many challenges encountered to keep all children engaged and on task with minimum disruption to the class."*[351]

**312.** Dywedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol fod ei aelodau wedi tynnu sylw at yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau CDU, hyd at saith awr mewn rhai achosion. Dywedodd fod y gwaith papur beichus yn golygu bod ganddynt lai o amser i'w dreulio ar yr ymyriadau y maent yn y sefyllfa orau i fod yn eu cynnig.[352] Yn ôl Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau, nid oedd y costau ar gyfer diwygiadau ADY yn cael eu hasesu. Gofynnodd sut y byddai modd gwybod a oedd yr arian angenrheidiol wedi'i ddyrannu heb y dadansoddiad hwn. Yn benodol, dywedodd fod nifer yr oriau staff yn hollbwysig.[353]

[347] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 105
[348] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 181
[349] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 284
[350] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 66 Joining the Dots Parents and Carers
[351] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 281
[352] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 204
[353] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 256

**313.** Yn ei adroddiad thematig diweddaraf ar ddiwygio'r system ADY, nododd Estyn fod "diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc anabl trwy eu hiaith gyntaf."[354]

**314.** Cododd UCAC bryderon bod rhai awdurdodau lleol yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi nodi nad oes ganddynt ddigon o staff cyfrwng Cymraeg i gefnogi dysgwyr. Mae'n ymwybodol o blant a phobl ifanc yn gadael lleoliadau cyfrwng Cymraeg oherwydd nad oes digon o adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael. Mae hon hefyd yn farn yr ydym wedi'i chlywed yn uniongyrchol gan deuluoedd. (Gweler ein hadran nesaf ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.) Galwodd UCAC am "[d]dileu" yr "anghyfiawnder sylfaenol" hwn o fewn y system ADY bresennol. Dywedodd ei bod yn "bwysig" bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gallu cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yn y Gymraeg "heb orfod brwydro amdani."[355] Er ei fod yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, dywedodd bod angen mwy o gefnogaeth ar lefel genedlaethol, yn hytrach nag ar lefel awdurdodau lleol.[356]

**315.** Teimlai rhai nad oedd rhieni nac ysgolion yn cael y wybodaeth gywir am y Ddeddf a'r Cod. Nid yw'r ffaith bod awdurdodau lleol i gyd yn ei weithredu mewn ffordd wahanol, er gwaethaf y ffaith bod y diffiniad o ADY yr un fath ag yr oedd o dan y system AAA, o gymorth yn hyn o beth.[357] Dywedodd y NDCS Cymru eu bod yn gweld dulliau anghyson yn cael eu mabwysiadu gan wahanol awdurdodau lleol mewn perthynas ag asesu a datblygu CDU ar gyfer plant byddar.[358] Roedd UCAC o'r farn bod "egwyddor y tu cefn i 'pob cam rhesymol' yn agored i ddehongliad ac yn fater goddrychol iawn."[359]

**316.** Roedd CACC yn derbyn bod y broses o sicrhau cysondeb yn dal i fynd rhagddi. Dywedodd fod materion nas rhagwelwyd wedi codi yn ystod y cyfnod gweithredu, sy'n ychwanegu at y newidynnau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Dywedodd fod fforwm cenedlaethol wedi'i sefydlu sy'n gallu edrych ar ddatblygu a sicrhau cysondeb.[360]

**317.** Yn ôl y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, bydd yr ystod o wahanol sefydliadau a chyrff sy'n ymwneud â gweithredu yn arwain at amrywiad o ran

---

[354] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 48 Estyn
[355] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 67 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
[356] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 208
[357] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i randdeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraffau 33-35
[358] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 42 Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru
[359] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 67 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
[360] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 106

gweithredu'r Ddeddf a'r Cod ADY, yn enwedig lle mae'n rhaid dehongli polisi canolog[361] Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain fod llawer o ddryswch ynghylch terminoleg, a bod angen mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod y bydd amrywiadau yn codi oherwydd bod cymunedau'n wahanol.[362]

**318.** Cododd Mudiad Meithrin bryderon bod y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn dangos "cwymp sydyn yn y nifer a'r ganran o blant sydd wedi eu hadnabod ag ADY mewn ysgolion." Cwestiynodd hyn oherwydd bod y ffigurau wedi bod yn gyson o'r blaen. Ond dywedodd hefyd:

> *"… mae'n dda gweld bod y ganran o blant ag ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn derbyn mwyafrif eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn agos i'r ganran o ddisgyblion ADY sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg, a'r ganran o holl ddisgyblion Cymru sydd ag ADY. Felly yn ôl yr amcangyfrif hwn, fe ymddengys bod mynediad teg i blant ag ADY mewn addysg Gymraeg.*
>
> *Wrth graffu ar y canrannau ar gyfer rhai awdurdodau lleol, sylwir ar fwy o fwlch rhwng y ganran o ddisgyblion ag ADY mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r rheini sydd mewn addysg cyfrwng Saesneg."*[363]

**319.** Roedd y dirywiad hwn yn fater y bu inni fynd ar ei drywydd yn ein hymchwiliad i weithredu diwygiadau addysg. Yn ystod ein hail 'gyfnod monitro', fe wnaethom ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd.[364] Yn ei ymateb, dywedodd ei bod yn "anodd rhagweld beth fydd y trywydd yn y dyfodol o ran niferoedd ADY, wrth roi'n diwygiadau ar waith ac wrth iddynt ymwreiddio." Gan ychwanegu mai'r "pwynt pwysicaf yw bod dysgwyr yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ffynnu" ac y "pob plentyn a pherson ifanc ag ADY gael CDU". [365]

**320.** Nid yw'n syndod bod gweithredu'r Ddeddf a'r Cod ADY newydd, a chymariaethau â'r hen system AAA yn nodwedd o'r dystiolaeth a gasglwyd

[361] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 181
[362] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 136
[363] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[364] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gweithredu diwygiadau addysg: canlyniad ein harolwg gwiriad haf 2023, 17 Gorffennaf 2023
[365] Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Rhoi diwygiadau addysg ar waith, 30 Awst 2023

gennym. Yn benodol, roedd yn fater a amlygwyd yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion a'n trafodaethau gyda theuluoedd. Clywsom farn wrthgyferbyniol.

**321.** Mewn un ysgol dywedwyd wrthym fod y system newydd yn "rhy fiwrocrataidd" ac y gall fod yn anodd i deuluoedd ac athrawon fynd i'r afael â hi.[366] Mewn ysgol arall, cafodd y rhieni y buom yn siarad â nhw brofiadau negyddol iawn o'r system newydd, gan gynnwys un a ddywedodd wrthym yr hoffai "losgi'r Ddeddf ADY newydd." Roeddent yn teimlo ei fod yn ormod o loteri cod post, a'i bod i fyny i deuluoedd i fynd i'r afael â'r system eu hunain. Roeddent hefyd yn pryderu bod awdurdodau lleol yn dehongli'r Ddeddf mewn ffyrdd gwahanol, gan ddweud y gall anghysondebau fod rhwng ysgolion o fewn yr un awdurdod lleol hyd yn oed. Dywedwyd bod CDU yn aml yn amwys, ac nad yw athrawon yn eu darllen.[367]

**322.** Fodd bynnag, dywedodd teuluoedd eraill wrthym eu bod yn teimlo bod y gwaith papur yn welliant ar yr hen system. Dywedwyd eu bod yn teimlo bod y CDU yn "gadarnhaol ar y cyfan, yn fwy cryno ac yn ymwneud mwy â sefyllfa bresennol y plentyn" o gymharu â'r hen ddatganiadau.[368] Roedd rhieni wedi dweud wrth Blynyddoedd Cynnar Cymru ei bod yn well ganddynt y dull newydd gan ei fod yn rhoi'r flaenoriaeth bennaf i'w plentyn."[369]

**323.** Dywedodd rhai teuluoedd ei bod yn anodd cael CDUau oherwydd "dyw ysgolion ddim eisiau eu gwneud nhw." Roedd pryderon hefyd nad oedd CDUau yn cael eu dilyn. Roedd rhieni'n teimlo'n rhwystredig ynglŷn â hyn, oherwydd eu bod yn credu y byddai eu plant yn ffynnu mewn lleoliadau prif ffrwd pe bai'r cynlluniau'n cael eu dilyn. Clywsom fod rhai addasiadau'n fach ond y byddent yn cael effaith fawr.[370] Mae pryder bod cymorth ADY yn cael ei ddehongli yn ôl yr hyn y gall ysgolion ei gynnig.[371] Roedd hwn yn fater a godwyd gan rieni eraill, a fynegodd bryderon ynghylch y ffaith nad oes unrhyw waith monitro'n cael ei wneud i asesu a yw CDUau yn cael eu cyflawni.[372]

**324.** Credai rhai fod y problemau gyda'r system flaenorol yn ymwneud â'i gweithrediad, a bod y rhain yn debygol o barhau gyda'r system newydd. Fodd bynnag, dywedodd eraill wrthym mai'r gwahaniaeth allweddol yw y dylai'r system

[366] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 8
[367] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 5, 4 Rhagfyr 2023, paragraffau 34-36
[368] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 32
[369] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53 Blynyddoedd Cynnar Cymru
[370] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 31
[371] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad Rhanddeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraff 37
[372] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 52 Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol

newydd gael ei harwain gan anghenion yn hytrach na diagnosis. Eto i gyd, ar hyn o bryd roedd teuluoedd yn dal i orfod darparu diagnosis cyn iddynt gael cymorth.[373]

**325.** Clywsom am bwysigrwydd rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), ond cododd teuluoedd bryderon ynghylch gallu neu arbenigedd CADYau. Dywedodd un rhiant y dylai CADY fod yn gwneud y swydd honno yn unig, ac na ddylai gael ei chyfuno â dyletswyddau eraill, megis addysgu neu reoli ysgol.[374] Roedd hwn yn fater a godwyd gan eraill hefyd gan gynnwys yr undebau addysg.[375] Dywedodd Blynyddoedd Cynnar Cymru fod rhieni wedi dweud wrtho eu bod yn teimlo bod CADYau yn fwy parod i gefnogi plant a phobl ifanc a'u bod yn cael mwy o wybodaeth[376].

**326.** Clywsom enghreifftiau o blant nad oeddent wedi cael cymorth oherwydd nad oedd CADY ar gael oherwydd ymrwymiadau addysgu. Roedd galwadau hefyd i sicrhau bod pob CADY yn cael tâl ychwanegol i adlewyrchu'r cyfrifoldeb ychwanegol. [377]

**327.** Dywedodd CCAC y byddai datblygu sgiliau ac arbenigedd CADYau yn helpu i wella cysondeb o ran gweithredu'r Ddeddf. Dywedwyd wrthym am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei wneud, gan gynnwys creu llwybr cenedlaethol ar gyfer CADYau, sef modiwl hyfforddi dwyieithog ar-lein gyda thair lefel wahanol. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod modiwlau ADY bellach yn rhan o'r cwrs Meistr mewn Addysg—Cymru. Mae hyn, meddai, yn golygu bod pecyn cyfan o adnoddau ar gael, o'r dechrau i'r diwedd, i ddatblygu cysondeb ar gyfer CADYau.[378]

**328.** Roedd gan Gymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau bryderon am y ffyrdd y gall CADYau rannu eu barn a'u profiadau. Amlygwyd enghraifft ddiweddar lle y cafodd wahoddiad i siarad yng Ngrŵp Llywio Cenedlaethol ADY Cymru gyfan. Dysgodd lawer yn ystod y cyfarfod hwn, yn enwedig am faterion a oedd yn uniongyrchol berthnasol i CADYau, ac eto nid oedd unrhyw CADY yn rhan o'r cyfarfod. Codwyd pryderon hefyd nad yw'r gwaith cydgysylltu rhwng awdurdodau lleol a Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig

[373] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraffau 44-45
[374] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[375] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 69 Cyd-undebau Llafur
[376] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53 Blynyddoedd Cynnar Cymru
[377] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 27
[378] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 49

Addysg ("SACDAau") yn cynnwys CADYau. Dywedodd fod hyn hefyd yn digwydd ar lefel leol, ac nad yw CADYau yn rhan o gyfarfodydd rhwng awdurdodau lleol a SACDAau.[379]

**329.** Cododd rhieni bryderon ynghylch sut y mae'r diwygiadau wedi effeithio ar y ffrydiau ariannu. Dywedwyd wrthym fod yr hen system yn golygu bod yr arian yn dilyn y plentyn, ond nid yw hyn yn wir bellach. Disgrifiodd un rhiant fod ei blentyn, o dan yr hen system, wedi trosglwyddo o Ganolfan Adnoddau Dysgu yn ôl i ddarpariaeth brif ffrwd, a dilynodd y cyllid ychwanegol yn ddi-dor, gan ganiatáu i'r plentyn droi at gymorth ychwanegol gan y Ganolfan yn ôl yr angen. Dywedodd fod hyn yn helpu i gefnogi'r broses o bontio'n ôl i'r ddarpariaeth prif ffrwd. Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â pha mor hir y byddai cyllid ADY yn cael ei neilltuo.[380]

**330.** Tynnodd un rhiant sylw at yr hyn yr oedd yn ei ystyried yn arfer da yng Nghasnewydd, gan ddweud bod:

> *"MATRIX platform that provides a framework for the ALN Reform, from universal support to need for referral to specialist services. This digital platform supported by the LA advice helpline for schools within Newport Borough should be rolled out across Wales."*[381]

**331.** Cododd SNAP Cymru bryderon am y rhai y nodir bod eu hanghenion yn cael eu diwallu o fewn darpariaeth gyffredinol. Mae rhieni'n dweud wrtho fod darpariaeth gyffredinol yn wahanol iawn ledled Cymru, a bod yr hyn sy'n digwydd mewn ysgol gynradd yng nghanol dinas yn wahanol iawn mewn ysgol sydd â 24 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae rhieni'n pryderu bod gormod yn agored i ddehongliad, ac y gallai plentyn fod â CDU mewn un ysgol, ond nid mewn ysgol arall er bod ganddo anghenion tebyg iawn. Dywedodd fod ysgolion yn defnyddio ystod o dermau gwahanol fel "darpariaeth gyffredinol a mwy" (universal provision plus) sy'n ddryslyd iawn. Dywedwyd hefyd:

> *"… families have described having enhanced one-page profiles with targets on the back, which they perceive, in their eyes, is so that school can avoid writing an IDP. But, fundamentally, we consider this is a children's and young person's rights issue,*

---

[379] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 232-233
[380] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraffau 21, 28 a 30
[381] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 52 Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol

> *because not having an IDP means that they won't be recognised as having additional learning needs."*[382]

**332.** Roedd hwn yn fater y buom yn ei drafod yn fanylach yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gyda Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru fel rhan o'n gwaith yn edrych ar weithredu'r system ADY newydd. Yn ystod y sesiwn honno, dywedodd:

> *"… the law will always top-trump the policy. So, you can have a policy about something, for instance, we're hearing a lot about universal provision, but there's no such thing as universal provision in the law. It's not in the ALN Act, it's not in the regulations, it's not mentioned in the code. But there's a lot of conversation about children not having ALN because there's provision that's provided for them under universal provision. Welsh Government hasn't set out what a universal provision is. It's not there in the law. The legal tests are a child compared with the ordinary developing child, or provision that's provided in mainstream schools across Wales, so it's not specific to a particular local authority area, or a particular school even, and that's causing confusion."*[383]

**333.** Cododd yr undebau addysg bryderon am "anghydbwysedd dyletswyddau o fewn y ddeddfwriaeth, sy'n golygu bod cyrff iechyd yn eu hanfod mewn trefniant gwirfoddol, ac nad oes rhaid iddynt gefnogi ysgolion nac awdurdodau lleol."[384] Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau fod anghysondebau yn y Ddeddf, yn enwedig y rhyngweithio rhwng y dyletswyddau statudol ar addysg ac iechyd. Dywedodd:

> *"… there is a statutory duty on health to work in partnership, there is not a statutory duty on health to fulfil the IDP, and that is an inconsistency within the legislation that also means that the burden keeps falling back on the schools."*[385]

---

[382] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 219 - 221
[383] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Mawrth Mai 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 150
[384] AEC 69 Cyd-undebau Llafur
[385] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 286

**334.** Nododd yr Undeb Addysg Cenedlaethol fod angen i ysgolion gael mynediad at wybodaeth iechyd a gwasanaethau arbenigol, fel therapi lleferydd ac iaith, CAMHS a seicolegwyr addysg er mwyn eu galluogi i gefnogi plant.[386]

**335.** Roedd gan Gymdeithas Seicolegol Prydain bryderon nad oedd y diwygiadau ADY wedi dod law yn llaw â chynnydd yn adnoddau'r gwasanaeth iechyd. Galwyd ar Lywodraeth Cymru i adolygu sut y mae gwasanaethau iechyd ac addysg yn cydweithio.[387]

**336.** Mae'r SACDA yn ofyniad statudol o dan Ddeddf 2018, sy'n gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. Pwysleisiwyd pwysigrwydd y rôl hon wrthym, ond roedd pryderon ynghylch i ba raddau yr oedd Byrddau Iechyd yn cymryd y rôl o ddifrif.[388] Cadarnhawyd hyn hefyd yn ystod ein hymweliadau diweddar ag ysgolion fel rhan o'n gwaith ar weithredu'r diwygiadau addysg. Mewn un ysgol clywsom nad yw'r SACDA yn gwneud atgyfeiriadau am gymorth gofal iechyd yn fwy effeithiol.[389]

**337.** Dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *"Adnabod yn gynnar, ymyrryd ac atal yw un o nodau allweddol y system ADY sy'n newid y fframwaith cyfreithiol a'r arferion i gefnogi plant a phobl ifanc, fel bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn ffordd fwy amserol."*[390]

**338.** Amlinellodd y cyllid y mae wedi'i ddyrannu i gefnogi gweithredu'r ddeddf, gan ddweud ei bod wedi "buddsoddi'n sylweddol". Cyfeiriodd at:

> *"… dros £62 miliwn o gyllid grant refeniw mewn ADY rhwng 2020 a 2023 a chynyddodd y grant gweithredu ADY £5.4m, i £12m, ledled Cymru ar gyfer 2023-24. Bwriad y grant ychwanegol hwn yw cynyddu'r adnoddau i ysgolion weithredu'r system ADY ac arwain strategaethau ysgol gyfan i ymgorffori addysg gynhwysol."*[391]

---

[386] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 71, Undeb Addysg Cenedlaethol
[387] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain
[388] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraff 56
[389] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Gweithredu diwygiadau addysg: 3ydd cyfnod monitro, Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol, Haf 2024
[390] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraff 1.2
[391] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraffau 1.8-1.9

**339.** Roedd Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen gwneud mwy o waith i "sefydlu dull cyson" o weithredu'r cod ledled Cymru. Dywedodd y byddai adolygiad Estyn ar weithredu'r Ddeddf a'r Cod ADY yn "hanfodol" o ran deall lle mae angen gwelliannau. Canfu'r adolygiad hwn, er bod dysgwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, bod gwahaniaethau o ran dehongli a chymhwyso'r ddeddfwriaeth.[392] Bydd Estyn yn cynnal ail adolygiad thematig yn 2024, ochr yn ochr â "gwerthusiad ffurfiannol" o weithrediad y Cod a'r Ddeddf.[393]

**340.** Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd ei fod wedi comisiynu ymchwil yn ddiweddar er mwyn sicrhau dealltwriaeth sy'n seiliedig ar ddata o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Roedd yn derbyn bod amrywiadau o ran y trefniadau gweithredu. Dywedodd ei fod wedi siarad â Llywydd y Tribiwnlys Addysg ynglŷn â hyn a materion eraill ac y byddai gwaith yn cael ei wneud ar:

> *"… the understanding of local authorities, of schools, of parents and learners themselves, of both rights, responsibilities, processes, transparency, rights of appeal, is clearer and more consistent across Wales."*

Pan ddaethpwyd ag awdurdodau lleol ynghyd ym mis Hydref 2023, roedd lefelau'r amrywiad yn syndod, meddai. Byddai hyfforddiant penodol pellach hefyd yn cael ei ddarparu ar sut y dylai'r Ddeddf fod yn gweithio i leihau anghysondebau diangen.[394] Un o'r meysydd y nododd ei fod yn anghyson yw dynodi anghenion dysgu ychwanegol a'r diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.[395]

**341.** Dywedodd hefyd ei fod yn hollol bendant bod y Ddeddf yn glir nad yw'r hawl i gael CDU yn ddibynnol ar ddiagnosis. Dywedodd mai holl bwynt y Ddeddf oedd mynd i'r afael ag anghenion rhywun fel y maent, yn hytrach nag ar sail diagnosis.[396]

**342.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn "effro" i'r pryderon am y pwysau ar CADYau, a'u llwythi gwaith. Roedd y Cod yn nodi'n glir nad yw'r ffaith bod CADY ar gael yn "dileu cyfrifoldebau'r gweithlu ehangach", meddai.

---

[392] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraffau 1.3-2.4
[393] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraf 9.3
[394] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 101-102
[395] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 109
[396] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 107

Dywedodd wrthym fod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i edrych ar gyflog ac amser digyswllt CADYau.[397]

**343.** Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Chwefror 2024, a gwnaeth nifer o argymhellion a oedd yn cynnwys y dylai CADYau:

- Fod yn aelod o'r uwch dîm arwain;
- Cael ei dalu yn unol â'i benodiad i'r uwch dîm arwain.
- Cael cynnig Pecyn Dysgu Proffesiynol a neilltuo amser digyswllt i ymgymryd â hyn.[398]

Mewn ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad hwnnw, dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd fod yr adroddiad wedi'i rannu â Chorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru er mwyn iddo ei ystyried, a bod y Llywodraeth "eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r ystyriaethau pellach a nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen."[399]

**344.** Dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi nodi bod angen ystyried ffordd well o annog cydweithio rhwng gwahanol rannau o'r system. Byddai hyn yn edrych ar sut y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd, y dywedodd y Gweinidog ar y pryd eu bod yn gallu amrywio, ac sy'n aml yn ddibynnol ar lefel y ddarpariaeth ganolog, a'r ddarpariaeth mewn ysgolion mewn gwahanol awdurdodau. Byddai hefyd yn edrych ar sut y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cydweithio. Dywedodd fod SACDAau yn nodi rhai dangosyddion perfformiad allweddol ar hyn bryd, a'u bod yno i gefnogi ac adrodd ar y cydweithio rhwng awdurdodau a byrddau iechyd.[400]

**345.** Fel yr amlinellwyd gennym ym mharagraff 166, amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg sut y mae hi ar hyn o bryd yn edrych ar y Ddeddf a'r Cod ADY ar lefel ronynnol, ac yn cwrdd ag ystod eang o bobl allweddol, gan gynnwys cynnal uwchgynhadledd gyda CADYau. Dywedodd fod angen gwneud yr holl waith hwn yn gyflym mewn perthynas â sut y mae deddfwriaeth yn gweithio. Pan siaradodd â ni, roedd swyddogion wrthi'n trafod opsiynau o ran sut y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud. Byddai'r gwaith hwn yn edrych ar faterion a godwyd gydag Ysgrifennydd y Cabinet am yr anghysondebau, a'r ffaith bod y

[397] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru paragraff 6.5
[398] Grŵp gorchwyl a gorffen CADY: adroddiad i Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 20 Chwefror 2024
[399] Datganiad ysgrifenedig, Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen CADY, 20 Chwefror 2024
[400] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 103

ddeddfwriaeth yn ddeallusol heriol. Dywedodd fod angen iddi fod yn ystyriol iawn o'r ysgolion sy'n gweithredu'r ddeddfwriaeth yn dda iawn ar hyn o bryd, neu'r rhai sy'n ceisio gweithredu hyn yn gyson. I gloi, roedd hi'n cydnabod bod angen gwneud y gwaith cyn gynted ag y bo modd, ond ei wneud yn iawn oherwydd bod chwe mis neu flwyddyn, yn amser hir ym mywyd plentyn.[401]

## Bwlio

**346.** Mae bwlio yn cael effaith sylweddol, gydol oes ar blant a phobl ifanc a gall danseilio hyder plant a phobl ifanc yn ddifrifol.[402]

**347.** Dywedodd y Comisiynydd Plant ei bod yn clywed am lawer o achosion o blant a phobl ifanc yn cael eu bwlio ac achosion o wahaniaethu yn eu herbyn.[403] Rhannodd ganfyddiadau ei harolwg Gobeithion i Gymru, a oedd yn cynnwys dros 10,000 o blant, pobl ifanc, rhieni / gofalwyr a gweithwyr proffesiynol o hydref 2022, a ddangosodd:

> *"Ymhlith y bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed sydd wedi profi bwlio, roedd 90.9% o'r rhai ag anableddau yn cael eu bwlio yn yr ysgol*
>
> *Ymhlith y plant rhwng 7 ac 11 oed, mae plant ag anableddau yn llawer mwy tebygol yn ystadegol o fod wedi cael eu bwlio neu ddioddef camdriniaeth (yn ogystal â merched a'r rhai a oedd yn adrodd y lefel isaf o gyfoeth teuluol) na phlant na wnaeth nodi eu bod yn anabl (a bechgyn a phlant o gartrefi mwy cefnog)*
>
> *Mae 59.1% o bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed a nododd eu bod yn anabl yn adrodd eu bod wedi profi bwlio*
>
> *Adroddwyd amlaf gan y gweithwyr proffesiynol a holwyd mai pobl ifanc anabl oedd fwyaf mewn perygl o gael eu bwlio (43.4%)*
>
> ...
>
> *Mae pobl ifanc rhwng 12 a 18 oed a nododd eu bod yn anabl yn llawer mwy tebygol nag eraill yn ystadegol o gael eu trin yn*

[401] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 19
[402] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 61
[403] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 6

*wahanol yn yr ysgol, coleg neu brifysgol, ar y stryd, neu yn eu tref neu bentref, mewn clybiau ac ar-lein*

*Dywedodd 14.8% o'r bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed a nododd eu bod yn anabl nad oedden nhw byth yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, y coleg, na'r brifysgol*

*Dywedodd 17.4% o'r bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed a nododd eu bod yn anabl nad oedden nhw byth yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, y coleg, na'r brifysgol*

*Gofynnwyd i'r cyfranogwyr fyfyrio ynghylch beth fyddai'n gwneud bywydau plant yn well; cytunodd 31.3% o'r plant a'r bobl ifanc sydd ag ADDLl ei bod yn bwysig bod 'pob plentyn cael eu trin yr un fath ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt'".*[404]

**348.** Dywedodd y Comisiynydd Plant ei bod yn bryderus iawn am sut y mae ysgolion yn ymateb i fwlio, gan ddweud nad yw'r ymateb yn ddigonol. Er y gwnaed cynnydd gyda'r canllawiau statudol ar fwlio, dywedodd fod ffordd bell i fynd o ran cryfhau gweithrediad y canllawiau. Roedd hyn yn ymestyn i bob math o fwlio, meddai, ac nid dim ond bwlio ar sail anabledd. Dywedodd fod plant a phobl ifanc sy'n cael eu bwlio, yn ogystal â'u cyfoedion a'u hathrawon, angen:

*"… more support, more awareness and more clarity, really, on how to manage these situations, what bullying looks like, what the impact of it is, what to do once it's reported, how to support victims and perpetrators, and how to have conversations about the issues that lead to bullying. This is a huge area of practice where I have also heard from teachers that they would like more support and resource too."*[405]

**349.** Yn ôl Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau, nid yw digwyddiadau'n cael eu labelu fel bwlio weithiau, ac felly nid yw strategaethau bwlio yn cael eu dilyn[406]

**350.** Dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu fod 82% o blant ag anabledd dysgu yn y DU yn dweud eu bod yn cael eu bwlio yn yr ysgol. Er bod

[404] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 01 Comisiynydd Plant Cymru
[405] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 54-55
[406] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 239

canfyddiadau'r Gynghrair Gwrth-fwlio yn nodi bod plant ag ADY yn fwy tebygol o adrodd am brofiadau bwlio, gan awgrymu er bod neges glir yn cael ei hanfon ei bod yn annerbyniol bwlio rhywun a allai fod mewn cadair olwyn, er enghraifft, mae'n ymddangos bod plant ag 'anableddau anweledig' fel y'u gelwir, yn dal i gael trin yn wahanol gan eu cyd-ddisgyblion oherwydd eu cyflwr.[407]

**351.** Dywedodd Anabledd Cymru fod bwlio plant a phobl ifanc yn rhemp a'i fod mor endemig nes ei fod bron yn norm. Galwodd am wneud mwy i atal bwlio.[408] Amlygodd Anabledd Dysgu Cymru hefyd y defnydd o dermau penodol a ddefnyddir ar yr iard ond hefyd yn ehangach yn y byd cyhoeddus. Dywedodd fod lefelau mor uchel o ragfarn anymwybodol mewn cymdeithas, fel ei bod hi bron yn dasg na ellir ei herio i ddisgwyl y gall pobl ifanc anabl gael mynediad at addysg a byw bywyd fel y dymunant, fel y gall eu cyfoedion nad ydynt yn anabl.[409]

**352.** Rhannodd Georgia Miggins, a oedd yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru ar y pryd, ei phrofiadau ei hun o gael ei bwlio, a oedd yn bwerus iawn. Dywedodd nad oedd neb yn gwrando arni pan gafodd ei bwlio, a'i bod o ganlyniad wedi datblygu hunan-barch isel a phroblemau iechyd meddwl eraill. Galwodd am fwy o bolisïau gwrth-fwlio, ac am gael gwersi amlach drwy'r holl flynyddoedd ysgol i ddysgu plant a phobl ifanc am fod yn fwy cynhwysol tuag at eu cyfoedion.[410] Roedd hi hefyd yn cytuno fod rhai termau sarhaus yn cael eu normaleiddio mewn ysgolion a bod angen gwaith i sicrhau bod iaith fwy cynhwysol yn cael ei defnyddio.[411]

**353.** Dywedodd Estyn er bod ysgolion yn casglu data ar fwlio:

> *"…nid ydynt yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael iddynt gategoreiddio a dadansoddi achosion o fwlio ac aflonyddu rhwng cyfoedion yn ddigon da neu'n nodi tueddiadau. Mae hyn yn rhwystro ysgolion rhag cael darlun cywir o raddau gwahanol fathau o fwlio ac aflonyddu. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i werthuso'r effaith ar les grwpiau penodol o ddisgyblion, er enghraifft plant anabl."*[412]

**354.** Dywedodd un o'r ysgolion arbennig yr ymwelwyd â hi ei bod yn meddwl bod bwlio yn fwy tebygol o ddigwydd mewn ysgolion prif ffrwd, neu y tu allan i'w

---

[407] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 76 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
[408] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 53
[409] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 131 - 132
[410] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 111 - 112
[411] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 157
[412] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 48 Estyn

hysgolion eu hunain. Er iddi ddweud bod mwy o gydnabyddiaeth o fwlio, a bod llawer o waith yn cael ei wneud mewn ysgolion ar atal bwlio, roedd angen addysgu plant a phobl ifanc i gydnabod na ddylai pobl gael eu trin fel hyn. Cododd bryderon hefyd am y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac a all fod mewn perygl arbennig o deimlo'n ynysig pan na fyddant yn yr ysgol.[413] Dywedodd ysgol arbennig arall fod bwlio ar-lein yn arbennig o heriol i ysgolion ei atal. Er y gallant rannu gwybodaeth a chyngor, dywedodd y gall hyn fod yn gyfyngedig oherwydd anghenion y dysgwyr.[414]

**355.** Un o'r themâu yn yr ymatebion i arolwg Heledd Fychan AS oedd "cryn bryder am y niwed seicolegol sy'n cael ei achosi i blant a phobl ifanc, a'r bwlio y maent yn ei ddioddef." Amlygodd yr adroddiad hwn rai straeon personol sy'n peri gofid:

> *"Ni roddir digon o sylw i integreiddio cymdeithasol o fewn grwpiau yn yr ysgol. Mae (fy mhlentyn) wedi dioddef bwlio dro ar ôl tro gan ddisgyblion niwro-nodweddiadol sy'n ei hystyried yn darged hawdd Yn aml, mae'r atebion i broblemau a hyrwyddir gan yr ysgol yn golygu bod yn rhaid iddi hi ei hun wneud newidiadau i'w harferion a'i hymddygiad yn hytrach na'r bwlis."*
>
> *"Nid oes gan fy mhlentyn ddim ffrindiau a chafodd ei bwlio'n ofnadwy am amser hir. Nid oedd yr ysgol yn ymdrin â'r bwlio. Roedd hi'n casáu'r ysgol ac yn aml yn gwrthod mynd."*[415]

**356.** Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau fod ysgolion yn gwneud llawer o waith i ddelio â bwlio, gan gynnwys ceisio datblygu amgylchedd cynhwysol, ehangu dealltwriaeth plant a phobl ifanc o anableddau ac ADY, a rhoi mwy o bwyslais ar werth a pharch.[416]

**357.** Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd wrthym fod bwlio yn faes blaenoriaeth. Mae'r canllawiau gwrth-fwlio yn nodi bod pob math o fwlio yn hollol annerbyniol. Roedd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu ar yr adeg y rhoddodd dystiolaeth inni. Ond dywedodd ei bod yn bwysig bod digwyddiadau'n

[413] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraffau 22-23
[414] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 4, 28 Medi 2023, paragraff 29
[415] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
[416] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 160

cael eu cofnodi ac yr eir i'r afael â nhw a bod y data hyn wedyn yn cael eu defnyddio gan ysgolion yn rhagweithiol i ddiweddaru eu strategaethau bwlio.[417]

**358.** Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd myfyrio ar brofiadau plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu bwlio, a defnyddio hynny i fyfyrio ar ganllawiau ac ymarfer. [418] Pwysleisiodd ef a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd bwysigrwydd diwylliant i ysgolion, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.[419]

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

**359.** Mae heriau'n gysylltiedig â mynediad plant a phobl ifanc at addysg cyfrwng Cymraeg. Dywedodd y Comisiynydd Plant fod plant ag ADY yn wynebu rhwystrau ychwanegol. Tynnodd sylw at achos lle y dywedwyd wrth blentyn mewn ysgol cyfrwng Cymraeg bod yn rhaid iddo symud i ysgol cyfrwng Saesneg er mwyn sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu.[420] Dywedwyd wrthym bod yr angen am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i dangofnodi.[421]

**360.** Yn ôl Estyn mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn arbennig o gyfyngedig ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol neu sy'n niwrowahanol. Gall hyn olygu bod yn rhaid i'r plant a'r bobl ifanc hyn deithio i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, mae "cyfyngiadau ar asesiadau, adnoddau a staffio cymorth a gwasanaethau arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru."[422]

**361.** Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod ganddo wybodaeth anecdotaidd am achosion lle mae plant wedi gorfod newid o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, oherwydd nad oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu. Ond dywedodd nad oes ganddo dystiolaeth ystadegol bendant i'r perwyl hwnnw.[423]

**362.** Disgrifiodd teuluoedd yr heriau o gael mynediad at ddarpariaeth addas cyfrwng Cymraeg. I rai, mae hynny wedi golygu bod rhaid i deuluoedd newid iaith

[417] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 92
[418] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 96
[419] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 94 a 97
[420] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 01 Comisiynydd Plant Cymru
[421] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraff 30
[422] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 48 Estyn
[423] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 101

yr aelwyd. Fel y dywedodd rhiant dau o blant ag anghenion cymhleth lluosog wrthym:

> *"Dydyn nhw [y plant] ddim yn siarad â fi yn Gymraeg. Fe ges i fy nghynghori i roi'r gorau i'w dysgu. Dywedodd y therapydd iaith a lleferydd wrthyf am ddewis iaith. [..] Roeddwn yn torri fy nghalon, yn galaru. Rwy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, ac fe wnes i lefain am ddyddiau."*[424]

**363.** Dywedodd rhiant i blentyn ag epilepsi cymhleth afreolus nad yw ei blentyn yn cael yr un dewisiadau â phlant eraill, a bod rhai o'r opsiynau sydd ar gael yn yr ysgol uwchradd ar gael yn Saesneg yn unig, ond mai'r Gymraeg yw iaith gyntaf y plentyn.[425] Dywedodd rhiant arall ei fod yn teimlo bod yn rhaid iddo ddewis llesiant ei blentyn dros ei iaith, oherwydd nad oedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gallu diwallu anghenion ei blentyn awtistig.[426]

**364.** Dywedodd Fforwm Cymru Gyfan fod ganddo wybodaeth anecdotaidd am blant a phobl ifanc yn cael eu gwthio i addysg cyfrwng Saesneg. Mae'r broses yn heriol a gall atal teuluoedd rhag gwneud hyn eto ar gyfer ail blentyn. Ond yn yr ychydig achosion lle mae teuluoedd wedi herio hyn ac wedi llwyddo i sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, dywedodd fod y manteision wedi bod yn amlwg o ran eu cynnwys yn eu cymuned, a'r gallu i siarad Cymraeg gyda'u neiniau a theidiau a chyda'r fam.[427]

**365.** Yn ystod ein hymchwiliad, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg a'r Comisiynydd Plant bapur ar y cyd "Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol." Canfu'r papur hwn fod:

> *"…mae ffordd bell i fynd i wireddu'r weledigaeth o system ADY sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae heriau sylweddol, ac rydym yn derbyn nad hawdd fydd eu goresgyn ac ni fydd modd gwneud hynny dros nos."*

[424] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[425] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[426] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 39
[427] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 305

Aethant ymlaen i alw ar Lywodraeth Cymru i "flaenoriaethu ei dyletswydd i gynnal adolygiad" o ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg.[428] Roedd Mudiad Meithrin yn cefnogi'r alwad hon.[429]

**366.** Cododd eraill bryderon am ddiffyg asesiadau a phrofion cyfrwng Cymraeg. Hyd yn oed pan fyddant ar gael (fel yr offeryn sgrinio dyslecsia) nid ydynt yn cael eu defnyddio'n gyson ledled Cymru. Clywsom hefyd ei bod "bron yn amhosib defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, neu Gymraeg arwyddo gyda chefnogaeth mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg".[430] Yn ôl un academydd, nid oes asesiadau safonol sy'n archwilio llythrennedd unigolyn yn y Gymraeg. Mae hyn, meddai, yn golygu:

> *"… practitioners have to work from their own knowledge and understanding of individual need rather than using an standardised tool which can pinpoint areas that require further support. There is a reliance upon practitioners to undertake their own research in the field which can be quite individualistic in nature. As a result, it is difficult to measure individual academic progress in a consistent and effective way."*[431]

**367.** Roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd yn derbyn bod heriau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, sy'n effeithio ar ddewis a bod "angen gwneud llawer mwy." Dywedodd wrthym ei fod wedi cwrdd â'r Comisiynydd Plant a Chomisiynydd y Gymraeg yn dilyn cyhoeddi eu hadroddiad ar y cyd, ac y cytunwyd i "gadw hyn ar ein hagenda".[432]

**368.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y materion a godwyd yn yr adroddiad ar y cyd gan y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd y Gymraeg yn "adleisio llawer o'r pwyntiau a godwyd gyda ni", a bod mynd i'r afael â'r heriau hyn yn "flaenoriaeth." Dywedodd fod grŵp rhanddeiliaid cenedlaethol wedi'i sefydlu i:

> *"… helpu i gydgysylltu a blaenoriaethu datblygiad darpariaeth ddysgu ychwanegol, adnoddau a dysgu proffesiynol cyfrwng Cymraeg ar lefel genedlaethol. Bydd y grŵp yn cael ei gefnogi gan Arweinydd Cenedlaethol y Gymraeg a fydd yn gweithio*

[428] Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru, Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol, 1 Mehefin 2023
[429] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51 Mudiad Meithrin
[430] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad Rhanddeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraff 8
[431] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 32 Dr Rhiannon Packer, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
[432] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 74

*gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddatblygu cynnig cyson ledled Cymru."*

Tynnodd sylw hefyd at greu'r cwmni adnoddau addysgol dwyieithog newydd "Adnodd" a fydd, yn ôl y Llywodraeth, yn "nodi a chomisiynu adnoddau i gefnogi dysgwyr ag ADY yn well."[433]

**369.** Dywedodd y Gweinidog ar y pryd hefyd:

*"… fel rhan o'r cynlluniau strategol ac fel rhan o gyfrifoldebau cynghorau lleol o dan adran 63 o'r Ddeddf, yw bod y ddau beth yna wedi dod at ei gilydd, ac rwy'n gweld cynnydd yn y gwaith sydd yn digwydd ar lawr gwlad er mwyn i gynghorau ddeall yr angen i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael yn y Gymraeg ac i gynllunio yn bwrpasol ar gyfer hynny. Ond i gydnabod hefyd bod rhwystredigaethau sydd y tu allan i'w dwylo nhw sydd yn cyfyngu i raddau ar hynny."*[434]

**370.** Tynnodd sylw at y ffaith nad yw'r darlun yn un cwbl negyddol, a bod arferion da y gellir dysgu ohonynt. [435]

**371.** Roedd yn cydnabod pwysigrwydd cael y gweithlu i gyflwyno darpariaeth ADY yn Gymraeg, a dywedodd fod "elfen benodol" yn y cynllun recriwtio deng mlynedd sy'n edrych ar hynny.[436]

## Adnoddau ysgol

**372.** Nid yw'n syndod bod adnoddau ysgolion yn thema fawr yn yr holl dystiolaeth a gasglwyd gennym a'r sgyrsiau a gawsom nid yn unig gyda staff a gweithwyr proffesiynol ond gyda theuluoedd hefyd. Roedd y ddau brif fater yn ymwneud â chyllid, ac adnoddau staffio. Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain:

*"Schools and communities must be given resources and ongoing support to ensure that they can meet children's needs, rather than looking for alternative provision because they aren't equipped. This is a child's right as set out by the ALN Code of Practice. We would like to see education settings and support*

[433] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraffau 3.4-3,6
[434] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 75
[435] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 75-76
[436] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 79

> *services adopt a needs-led approach for the individual where everyone involved in children's educational attainment agrees on what "inclusion" and "equity" actually mean and more importantly from the child and their family's perspective. Unfortunately, we witness that provision is based on what the services have (or don't have) and work within these confines."*[437]

## Cyllid

**373.** Mae cyllid yn hanfodol i bob ysgol ddarparu addysg sy'n diwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc. Fodd bynnag, mae sicrhau cyllid i gefnogi plant a phobl ifanc yn arbennig o heriol i ysgolion yn yr hinsawdd bresennol, er gwaethaf y ffaith bod cyllid ychwanegol wedi'i ryddhau gan Lywodraeth Cymru.

**374.** Yn ôl UCAC, nid yw ysgolion yn cael digon o gyllid,[438] a dywedodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau fod yna broblemau cyllido anferthol.[439]

**375.** Mae'r heriau a wynebir ym myd addysg yn cael eu dwysáu oherwydd bod gwasanaethau statudol ac anstatudol eraill y mae eu hangen arnynt i helpu i ddarparu cymorth cyfannol hefyd yn wynebu gostyngiadau sylweddol yn eu cyllideb. Dywedodd CLlLC:

> *"So, it is about looking at the level of need, the provision currently offered, and how then—. … the priorities then coming back. What are the priorities? What is front-loaded? Because under the current climate in going forward, there isn't enough money, and that's the bottom line, but that doesn't say we can't deliver good education and cover everybody's needs—it's down to that prioritisation and recognising the resources, and it's about schools collaborating with each other. Maybe that school may not have the expertise or the correct resources within the school, but the school down the road in the cluster may have. So, I think it is about looking at what is available and how best do we go forward with what little funding there is.*

[437] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain
[438] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 261
[439] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 256

> *That's not to say it's not deliverable—it comes with its own challenges—but it is about looking at different ways as well."*[440]

**376.** Yn ôl y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, mae diffyg tryloywder o ran sut y mae cyllid yn cael ei ddyrannu i ysgolion. Galwodd am fwy o dryloywder er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu'n deg ar draws yr holl ysgolion.[441] Tynnodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau sylw hefyd at y ffaith nad yw awdurdodau lleol yn defnyddio'r un fformiwlâu ariannu, a'u bod yn wahanol ar draws Cymru. Dywedodd y byddai'r wybodaeth hon yn helpu i ateb rhai cwestiynau.[442] Disgrifiodd UCAC y sefyllfa fel 'niwl ariannu' gan ddweud bod y sefyllfa'n rhwystredig iawn. Galwodd am fodel ariannu newydd.[443]

**377.** Roedd teuluoedd yn cydymdeimlo'n fawr â'r heriau ariannol sy'n wynebu ysgolion. Dywedwyd wrthym eu bod yn deall y gall ysgolion ond gweithio o fewn y cyllidebau sydd ganddynt. Ond roeddent hefyd yn galw am "ariannu ysgolion yn llawn" er mwyn darparu dull ysgol gyfan.[444] Dywedwyd bod y mater yn aml yn nwylo'r awdurdod lleol:

> *"Mae'r ysgol yn gwneud popeth yn ei gallu. Yr awdurdod lleol sydd ddim eisiau gwneud dim byd i helpu ar hyn o bryd."* [445]

**378.** Dywedodd rhiant arall wrthym y byddai ysgolion yn gallu gwneud mwy pe bai ganddynt gyllidebau mwy.[446] Dywedodd un arall fod ysgolion yn "gweithredu ar gyllideb ceiniog a dimau". Mynegwyd pryderon mai un o'r opsiynau sydd ar gael i ysgolion yw lleihau nifer y cynorthwywyr addysgu, ond eu bod yn hollbwysig i ddarparu cymorth i blant a phobl ifanc.[447]

**379.** Soniodd teuluoedd am effaith adnoddau cyfyngedig, sy'n arwain at ddogni gwasanaethau. Disgrifiodd un rhiant sut y cafodd wybod na fyddai ei blentyn yn cael cymorth oherwydd bod angen yr arian i gefnogi plant hŷn. Dywedodd un arall nad oedd ei blentyn yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer cymorth oherwydd nad oedd ganddo broblemau ymddygiad. Roedd y rhieni hyn yn ymwybodol bod yn

---

[440] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 47
[441] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 165
[442] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 257
[443] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 261
[444] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 21
[445] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[446] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[447] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 22

rhaid i ysgolion wneud penderfyniadau na ddylai fod yn rhaid iddynt eu gwneud, yn eu barn nhw.[448]

**380.** Pan godwyd y profiadau hyn gyda CCAC, dywedodd er bod ysgolion yn wynebu pwysau ariannol, nid yw diwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddewisol a bod hynny'n ofyniad statudol. Mae'n rhaid iddynt roi blaenoriaeth i'r cyfrifoldebau hyn wrth wneud eu penderfyniadau, meddai. Os yw teuluoedd yn cael gwybod nad oes modd darparu cymorth oherwydd cyfyngiadau ariannol, dywedodd y dylid codi hyn gyda'r awdurdod lleol, sydd â chyfrifoldeb clir a dyletswydd glir i weithio mewn partneriaeth â'r ysgolion a'r teuluoedd i sicrhau y gwneir darpariaeth statudol briodol."[449]

**381.** Er ei bod yn bwysig cael digon o gyllid, clywsom gan rai ysgolion nad dyma'r unig ffactor wrth ddarparu addysg gynhwysol. Ffactor hollbwysig arall yw'r ffordd y caiff yr ysgol ei rheoli a'r ethos a gaiff ei greu gan uwch arweinwyr. Dywedwyd wrthym, os caiff ethos cynhwysol ei greu, y bydd plant a phobl ifanc yn ffynnu.[450] Pwysleisiodd CCAC hefyd bwysigrwydd arweinyddiaeth gref, a chreu'r diwylliant a'r amgylchedd cywir o fewn ysgolion.[451]

**382.** Yn un o'r ysgolion arbennig yr ymwelwyd â hi, dywedwyd wrthym fod y cyllid yn wahanol i'r cyllid ar gyfer lleoliadau prif ffrwd. Fodd bynnag, mae cyllid yn parhau i fod yn broblem.[452]

**383.** Cydnabu Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd y pwysau ar gyllidebau ysgolion ac awdurdodau lleol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi symiau mawr o gyllid ychwanegol i lywodraeth leol sy'n uniongyrchol gyfrifol am ariannu ysgolion, ond roedd yn derbyn bod pwysau chwyddiant a chostau byw wedi erydu ei werth. [453]

**384.** Dywedodd hefyd fod diffyg dealltwriaeth a diffyg eglurder ynglŷn â sut y mae cyllid yn llifo drwy'r system. Roedd yn cydnabod y pryderon ynghylch yr amrywioldeb ledled Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar fformiwlâu ariannu ysgolion ledled Cymru i weld lle y gellir sicrhau cysondeb. Ond tynnodd sylw hefyd at y ffaith y bydd amrywiadau o hyd oherwydd bod gwasanaethau wedi'u strwythuro mewn ffyrdd

[448] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 30
[449] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 36
[450] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 11
[451] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 37
[452] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 3, 29 Mehefin 2023, paragraff 11
[453] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 49

gwahanol. Bydd y gwaith hwn yn ceisio deall amrywiadau na chânt eu hesbonio gan hynny.[454]

**385.** Soniodd am sut y mae penderfyniadau cyllidebol wedi'u gwneud yng nghyd-destun y rhaglen ehangach o ddiwygiadau addysg. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud i'r diwygiadau weithio:

> *"… then we want to make sure that every single learner, whatever their circumstances, gets the best start in life, and that is the lens we bring to the budget decisions that we take as a Government, even in these incredibly challenging times."*[455]

## Recriwtio a chadw staff

**386.** Cydnabu CLlLC fod problemau recriwtio a chadw cyffredinol, ond cydnabu fod problemau penodol mewn ardaloedd gwledig, ac o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nodwyd bod cynllun deng mlynedd bellach ar waith ar gyfer gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg.[456]

**387.** Dywedodd ysgol arbennig wrthym mai staffio yw un o'i phroblemau mwyaf. Ar gyfartaledd, roedd 14 o blith 60 aelod o staff yn absennol yn ddyddiol, ac roedd yn priodoli hyn i gynnydd yn nifer yr achosion o Covid-19. Oherwydd lefel y cymorth sydd ei angen, gall lefelau staffio isel arwain at risgiau iechyd a diogelwch nad ydynt yn gyffredin mewn lleoliad prif ffrwd. Ar adegau mae'n rhaid iddynt gau ystafelloedd dosbarth yn rhannol neu amrywio presenoldeb. Mae hyn yn ffocws i'r pennaeth ar draul materion mwy strategol.[457]

### Cynorthwywyr Addysgu

**388.** Roedd y problemau'n ymwneud â recriwtio a chadw cynorthwywyr addysgu yn thema glir yn yr holl wybodaeth a gasglwyd gennym. Dywedodd un ysgol arbennig fod pob ysgol arbennig yn cael anhawster i recriwtio a chadw staff. Un broblem allweddol yw'r cyflog isel o'i gymharu â lefel y cyfrifoldeb, yn enwedig mewn marchnad swyddi gystadleuol, lle ceir swyddi sy'n llai heriol ond sy'n talu mwy. Dywedodd hefyd fod rhai o'r amodau ehangach a oedd yn gysylltiedig â gweithio mewn ysgol a oedd yn gwneud hynny'n fwy deniadol yn crebachu, gan fod cyflogwyr mewn sectorau eraill bellach yn fwy tebygol o gynnig opsiynau

[454] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 50-51
[455] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 57
[456] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 81
[457] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 4, 28 Medi 2023, paragraffau 32-38

gweithio mwy hyblyg.[458] Amlygwyd y materion hyn hefyd gan ysgol arbennig mewn rhan wahanol o Gymru.[459]

**389.** Un o'r problemau a amlygwyd oedd sut y mae rôl cynorthwyydd addysgu yn wahanol mewn ysgol arbennig o gymharu ag ysgol brif ffrwd. Codwyd hyn mewn nifer o'r ysgolion y buom yn ymweld â nhw. Er enghraifft, mewn ysgol arbennig bydd yn rhaid i gynorthwywyr addysgu ddarparu cymorth meddygol yn aml.[460] Dywedodd ysgol arbennig arall fod y tâl yr un fath ag mewn ysgolion prif ffrwd ond bod natur a dwyster y gwaith yn wahanol iawn, a gellid dadlau ei fod yn llawer mwy heriol:

> *"1,200 yw'r tâl y mae cynorthwyydd addysg yn ei gymryd adref … ar ôl dioddef poeri, brathu, tynnu gwallt, cicio, yn ddyddiol. Mae'n rhaid iddyn nhw ofalu am anghenion iechyd … bwydo drwy diwbiau bwydo, gorfod rhoi meddyginiaeth, yn ogystal â gofal personol, mynd i'r toiled, codi i fyny… mae'r holl gyfrifoldeb ar eu hysgwyddau ac mae'r llywodraeth yn disgwyl iddyn nhw gael ail swydd."*[461]

**390.** Mewn ymweliadau mwy diweddar ag ysgolion fel rhan o'n gwaith parhaus ar weithredu diwygiadau addysg, clywsom hefyd sut y mae rôl cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion prif ffrwd sy'n darparu cymorth ADY arbenigol, hefyd yn dod yn rôl wahanol i rôl cynorthwy-ydd addysgu fwy traddodiadol. Clywsom fod angen talu'r staff hyn yn deg.[462]

**391.** Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau fod rhai ysgolion yn cyflogi plant a phobl ifanc a allai fod y tu hwnt i gapasiti'r ysgol yn enwedig y rhai sydd angen dau neu dri o staff cymorth. Ac eto, nid yw'r cyllid bob amser yn dilyn ar gyfer y cymorth ychwanegol hwn, a all arwain at blant yn methu â mynychu'r ysgol.[463]

**392.** Dywedodd rhieni mewn un ysgol fod cymorth i blant ag ADY yn cael ei adael i gynorthwywyr addysgu yn rhy aml. Dywedwyd mai cyfrifoldeb yr athro yw

---

[458] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraffau 24-25
[459] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 4, 28 Medi 2023, paragraff 40
[460] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 11
[461] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 4, 28 Medi 2023, paragraffau 40-43
[462] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Gweithredu diwygiadau addysg: 3ydd cyfnod monitro, Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol, Haf 2024
[463] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 278

addysgu'r dosbarth cyfan, sy'n cynnwys deall a chynllunio ar gyfer pob plentyn yn y dosbarth hwnnw, nid dim ond y rhai sy'n niwronodweddiadol.[464]

**393.** Rydym yn ymwybodol, mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol, fod swyddi cynorthwywyr addysgu mewn perygl mawr o ddioddef toriadau. Cododd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol bryderon am effaith y toriadau hyn, gan amlygu bod yn rhaid i athrawon ganolbwyntio ar addysgu a gofal bugeiliol. Mae cynorthwywyr addysgu yn hollbwysig, ond mae eu swyddi'n cael eu dileu. Mae yna straeon di-rif am sut y mae hynny'n effeithio ar blant. Dadleuodd dros sicrhau staff cymorth sefydlog mewn ysgolion, sydd fwy neu lai yn gweithredu fel rhiant bron yn yr ysgol gyda'r plant hynny, am na all athrawon wneud hynny.[465]

**394.** Roedd Cymdeithas Seicolegol Prydain yn cytuno, gan ddweud mai'r ffactor pwysicaf o ran addysg a deilliannau i blant a phobl ifanc yw perthnasoedd.

> *"When you've got a relationship, you've got that ability to engage with material. … just even on a human basis, a human rights perspective as well, a child's rights perspective, we have to prioritise relationships for learning and well-being for learning, and our incredible support staff in schools that do that. We are also losing a lot of them, because they financially can't manage things at the moment, as well, which is a really significant issue, because they are doing some of the most important relational-and-the-rest work for our children and young people, and that extends to childcare as well."*[466]

## Hyfforddiant i staff ysgol a'u gwybodaeth

**395.** Rydym wedi clywed gan deuluoedd a gweithwyr addysg proffesiynol fod angen mwy o hyfforddiant ar gyfer yr holl staff. Yn benodol, mae pryderon ynghylch cwmpas addysg gychwynnol i athrawon ("AGA") ac nad yw'n ymdrin yn ddigonol â materion yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol ac anabledd.

### Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

**396.** Cyn ennill statws athro cymwysedig ("SAC") rhaid i bobl gwblhau cwrs hyfforddiant athrawon israddedig amser llawn sy'n arwain at SAC; neu ar gyfer y rhai sydd eisoes â gradd, cwblhau Tystysgrif Addysg i Raddedigion ("TAR") gyda

[464] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 5, 4 Rhagfyr 2023, paragraff 39
[465] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 90
[466] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 91

SAC. Mae'r ddau fath o gwrs ar gael mewn partneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon ledled Cymru. Ar hyn o bryd nid oes TAR sy'n canolbwyntio'n benodol ar anghenion dysgu ychwanegol / addysgu mewn ysgol arbennig.

**397.** Codwyd y materion ynghylch AGA droeon yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion, a thrafodaethau â theuluoedd yn fwy cyffredinol. Dywedodd staff, rhieni a llywodraethwyr un ysgol wrthym, wrth i nifer y plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol gynyddu mewn lleoliadau prif ffrwd, fod angen uwchsgilio'r gweithlu addysg.[467]

**398.** Clywsom gan staff am yr angen i gael llwybrau tuag at fod yn athro sy'n canolbwyntio ar leoliadau arbenigol. Clywsom fod TAR mewn addysg arbennig ar gael yn y gorffennol.[468] Dywedwyd wrthym fod diffyg gofynion gorfodol mewn AGA mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol / addysgu mewn lleoliad arbennig yn golygu bod angen hyfforddiant ychwanegol ar athrawon sydd newydd gymhwyso “fel arfer”. Dywedwyd y dylai anghenion ychwanegol ac addysg gynhwysol fod yn “fara menyn” hyfforddiant athrawon. Roedd un athro o'r farn nad oedd ei TAR wedi gwneud dim i'w helpu i symud i leoliad ysgol arbennig.[469]

**399.** Dywedwyd wrthym fod carfan o fyfyrwyr AGA sydd eisiau arbenigo mewn addysgu mewn ysgolion arbennig ond nad oes unrhyw AGA sy'n cael ei gydnabod gan Gyngor y Gweithlu Addysg ar hyn o bryd sy'n cefnogi hynny.[470]

**400.** Dywedodd academydd fod rhaglen bwrpasol ar gyfer y rhai sydd eisiau gweithio mewn lleoliadau arbenigol yn un cam ond nad dyma'r unig ateb. Dywedodd y dylai AGA ymgorffori dull cynhwysol o ymdrin ag addysgeg fel rhywbeth sy'n ganolog i bob agwedd ar hyfforddiant yn hytrach na'i drin fel elfen annibynnol o fewn rhaglenni. Byddai hyn yn golygu y byddai dull gweithredu cynhwysfawr a chyson ar gyfer pob dysgwr.[471]

**401.** Mewn un ysgol, dywedodd staff y byddai'n ddefnyddiol i bob athro gael hyfforddiant ar gyfer ADY lefel is, yn enwedig yng nghyd-destun y Ddeddf ADY. Dywedodd na all athrawon fod yn arbenigwyr ym mhob maes, ond byddai lefel sylfaenol o hyfforddiant yn helpu athrawon i ddeall y ffordd orau o ddiwallu

[467] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 4
[468] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 4
[469] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 21
[470] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 9
[471] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 32 Dr Rhiannon Packer, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

anghenion ADY yn yr ystafell ddosbarth.[472] Galwodd rhieni am sicrhau bod hyfforddiant ADY yn rhan orfodol o hyfforddiant athrawon.[473]

**402.** Dywedodd rhiant (sydd hefyd wedi dechrau deiseb yn galw am hyfforddiant ADY gorfodol i athrawon a chynorthwywyr addysgu) y dylai AGA fynd y tu hwnt i ddealltwriaeth o ADY, ac y dylai fod yn hyfforddiant trylwyr, yn cynnwys profiad a hyfforddiant arbenigol dan arweiniad arbenigwyr ADY ac unigolion gydag ADY eu hunain.[474]

**403.** Dywedodd rhiant, sydd hefyd yn weithiwr proffesiynol perthynol i iechyd, nad yw AGA yn cwmpasu datblygiad plentyn na cherrig milltir datblygiadol. Mae hyn wedyn yn ei gwneud yn fwy heriol i athrawon wrth addysgu plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol, oherwydd na allant roi'r anghenion hyn o fewn yng nghyd-destun ehangach cerrig milltir datblygiadol. Ychwanegwyd nad oes adnoddau gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi ehangu AGA.[475] Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith y byddai'n wych pe gallai AGA gynnwys rhywfaint o wybodaeth am leferydd, iaith a chyfathrebu yn enwedig o ran datblygiad ac anghenion a sut i gefnogi'r anghenion hynny.[476]

**404.** Galwodd Fforwm Cymru Gyfan am gynnwys hyfforddiant awtistiaeth gorfodol fel rhan o AGA. Dywedodd y byddai hyn yn helpu i gynyddu hyder athrawon a phrofiadau plant a phobl ifanc. Mae newidiadau bach iawn yn gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i rai plant, meddai, fel addasu'r golau, neu ganiatáu teganau sy'n lleddfu aflonyddwch. Dywedodd y byddai'r Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth yn hoffi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cyfle datblygiad proffesiynol hwn ar gael ledled y wlad.[477]

**405.** Roedd staff mewn un ysgol yn bryderus ynghylch y Meini Prawf diwygiedig ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru, a oedd yn awgrymu, yn eu barn nhw, na fyddai staff a oedd ond wedi cael hyfforddiant mewn ysgol arbennig yn gallu addysgu mewn lleoliad prif ffrwd.[478]

[472] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 5, 4 Rhagfyr 2023, paragraff 9
[473] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 5, 4 Rhagfyr 2023, paragraff 38 a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 21
[474] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 72 Unigolyn
[475] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 74 Unigolyn
[476] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 103
[477] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 257-258
[478] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 22

**406.** Clywsom hefyd am yr heriau y gall cynorthwywyr addysgu eu hwynebu wrth symud i rolau addysgu oherwydd strwythur AGA. Dywedodd un ysgol fod ganddi nifer o gynorthwywyr addysgu a fyddai'n gwneud athrawon rhagorol, ond y byddai'n rhaid iddynt roi'r gorau i'w rolau presennol er mwyn ymgymryd ag AGA.[479]

**407.** Mewn ysgol arall, roedd aelod o staff hefyd eisiau datblygu ei chymwysterau presennol yn gymhwyster addysgu ffurfiol, ond dywedodd y byddai hyn yn golygu gorfod gadael ei hysgol bresennol neu gymryd absenoldeb di-dâl oherwydd na ellir ymgymryd â lleoliadau hyfforddiant addysgu yn gyfan gwbl mewn ysgol arbennig.[480]

## Datblygiad proffesiynol a hyfforddiant parhaus

**408.** Dywedodd CCAC mai'r gwahaniaeth mwyaf y gellir ei wneud i bob plentyn yw ansawdd yr addysgu a'r dysgu, a sicrhau bod pob athro yn ddieithriad, yn dda bob amser gyda phob plentyn. Felly, mae datblygu'r gweithlu yn hollbwysig. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd gweithgaredd dysgu proffesiynol.[481]

**409.** Y prif ymateb (gan bron i draean o'r ymatebwyr) yn arolwg Heledd Fychan AS pan ofynnwyd i deuluoedd beth fyddai'n flaenoriaeth iddynt pe gallent newid y sefyllfa, oedd hyfforddiant i holl athrawon a staff ysgolion.[482] Dywedodd Estyn fod teuluoedd wedi dweud nad oes gan staff y sgiliau, yr hyfforddiant na'r arbenigedd cywir "i ddiwallu anghenion eu plentyn heb wahaniaethu yn ei erbyn."[483] Dywedodd Whizz Kidz y dylid darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd cynhwysfawr i bob athro a'r holl staff cymorth ac y byddai hynny'n helpu i sicrhau bod gwersi a gweithgareddau mewn ysgolion yn hygyrch ac yn ystyried anghenion plant a phobl ifanc.[484]

**410.** Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe y gall y lefelau amrywiol o wybodaeth a phrofiad o fewn staff ysgol effeithio ar hyder a gallu'r staff i gefnogi cynhwysiant ym mhob gweithgaredd. Tynnodd sylw at y ffaith y gall hyn fod yn broblem benodol i'r rhai ag anghenion anweladwy, ac yn aml iawn nad oes

[479] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 21
[480] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 3, 29 Mehefin 2023, paragraff 3
[481] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 43
[482] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
[483] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 48 Estyn
[484] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 35 Whizz Kidz

dealltwriaeth o'r plant hyn ac nad ydynt yn cael eu cefnogi. Roedd rhai o'r grwpiau o blant a nodwyd ganddo yn cynnwys y rhai ag anawsterau prosesu synhwyraidd, anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD) ac ADHD. Dywedodd y gall y diffyg arbenigedd hwn wedyn effeithio ar gyfranogiad plant ac y gallai arwain at ymddieithrio o'r ysgol oherwydd diffyg cefnogaeth briodol.[485]

**411.** Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fod rhieni a gofalwyr wedi codi hyn hefyd: sef bod y rhai ag anghenion mwy cymhleth yn fwy tebygol o gael cymorth arbenigol na'r rhai ag anableddau anweledig neu'r rhai sydd wedi cael diagnosis aneglur. At hynny, nodwyd bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn aml yn cael eu labelu'n anghywir fel rhai sy'n ymddwyn yn wael, pan fo hynny'n ganlyniad uniongyrchol i anghenion sydd heb eu diwallu.[486] Roedd gan bobl ifanc a rannodd eu profiadau ysgol eu hunain gyda Platfform farn debyg, gan alw am hyfforddiant i staff er mwyn gwella eu dealltwriaeth.

**412.** Soniodd teuluoedd yn rheolaidd am sut y mae diffyg dealltwriaeth yn arwain at labelu plant fel plant drwg, treisgar a rhai y mae angen goruchwyliaeth ychwanegol arnynt. Dywedwyd bod y labelu hwn yn aml yn gwaethygu problemau, ac mewn rhai achosion yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl y plentyn.

> *"Maen nhw bob amser yn dweud ei fod yn ddrwg, ond mae hynny'n fy ypsetio oherwydd dyw e ddim yn ddrwg, mae'n awtistig".*[487]

**413.** Dywedodd Anabledd Dysgu Cymru fod cymorth yn aml yn cael ei drefnu i newid mathau o ymddygiad y gellir eu hystyried yn ddiffygion yng nghymeriad neu bersonoliaeth rhywun pan fyddant mewn gwirionedd yn nodweddion o ddiagnosis plentyn.[488]

**414.** Clywsom hefyd y gall fod rhwystrau i blant a phobl ifanc rhag mynychu'r ysgol oherwydd nad yw staff mewn ysgolion prif ffrwd wedi cael hyfforddiant digonol ar hunanofal ac anghenion toiled. [489]

---

[485] Tystiolaeth ysgrifenedig, AE 24 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
[486] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[487] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[488] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 06 Anabledd Dysgu Cymru
[489] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023

**415.** Soniodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith am raglen hyfforddi achrededig ar gyfer cynorthwywyr addysgu. Dywedodd fod rhai enghreifftiau arbennig o dda o waith yng Ngwent lle mae staff mewn lleoliadau prif ffrwd wedi cael eu hyfforddi mewn anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.[490]

**416.** Dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol wrthym fod rôl i weithwyr proffesiynol rannu sgiliau ac arbenigedd ag eraill. Cyfeiriodd at enghraifft o staff addysg yn cael eu hyfforddi i reoli meddyginiaethau, er mwyn galluogi meddyginiaeth i gael ei chymryd ar amser sy'n gyfleus i'r plentyn, a chael ei rhoi iddo gan y staff sy'n ei adnabod orau, yn hytrach na gorfod aros i weld y nyrs.[491] Adleisiodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol y farn hon gan ddweud y gall therapyddion galwedigaethol gefnogi staff addysg oherwydd mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i reoli llawer o'r problemau, gyda hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori yn cael eu darparu gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.[492]

**417.** Pwysleisiodd rhieni ei bod yn bwysig bod gweithwyr addysg proffesiynol yn gallu addasu i'r gwahanol ffyrdd y bydd gwahanol gyflyrau neu anghenion yn amlygu eu hunain mewn plant a phobl ifanc unigol. Dywedodd un rhiant y bydd rhai aelodau o staff yn cael eu cyflwyno fel arbenigwyr ar anabledd ar ôl cyfarfod ag un plentyn, ond nad ydynt yn sylweddoli bod pob plentyn a phob anabledd yn unigryw.[493]

**418.** Soniodd teuluoedd hefyd nad oedd ysgolion eisiau eu plant yn yr ysgol oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn ddrwg. Soniwyd hefyd am effaith cael adborth negyddol yn gyson am eu plentyn, pan fydd pethau y tu hwnt i reolaeth y plentyn.[494] Dywedodd un rhiant fod angen i ysgolion ddeall y gall gorbryder ddod i'r amlwg fel ymddygiad treisgar yn ogystal â chael dealltwriaeth well o ofal sy'n seiliedig ar drawma".[495] Dywedodd SNAP Cymru fod teuluoedd yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu barnu gan ysgolion:

> *"And parents, unfortunately, perceive, and sadly in some cases they're not wrong, that judgments are made about their parenting ability or home life. Therefore, 'This is not a disability; it's a behaviour issue and a parenting issue.' Managing that situation for us takes enormous time and effort to support*

[490] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 78
[491] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 86
[492] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 110
[493] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 66 Joining the Dots Parents and Carers
[494] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 35
[495] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 61 Unigolyn

> *them, for families to rebuild relationships with schools, and it can be hugely time-consuming…"*[496]

**419.** Codwyd y diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth hwn hefyd gan y teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw.

> *"Gofynnais am gais rhyddid gwybodaeth yn ei hysgol AAA ddiwethaf i gael gwybod faint o athrawon sydd wedi'u hyfforddi mewn PECS [System Gyfathrebu Cyfnewid Darluniau] – nid yn unig cwrs ymwybyddiaeth PECS, ond cymhwyster PECS Pyramid Education, a'r ateb oedd 'dim un' – roedd pobl nad oeddent wedi cael hyfforddiant eu hunain yn dysgu'r system PECS i fy merch. Cefais fy syfrdanu."*[497]

**420.** Galwodd rhai teuluoedd am sicrhau bod gweithwyr addysg proffesiynol yn cael yr amser a'r cyfleoedd i ymchwilio i'w rhagfarnau anymwybodol eu hunain ar anabledd. Roeddent yn credu na fyddai diwylliant ysgolion yn newid oni bai bod hynny'n digwydd.[498] Dywedodd un rhiant fod gan athrawon ragfarnau anymwybodol yn sicr gan ddweud oherwydd na allai ei blentyn siarad na cherdded, eu bod yn tybio na allai ddeall y gwaith. O ganlyniad gadawodd y plentyn yr ysgol uwchradd heb ddim heblaw sgiliau cymdeithasol.[499] Dywedodd rhieni eraill na allant aros i athrawon ddechrau DPP neu fynychu diwrnodau HMS pan fydd effaith eu harferion anghynhwysol yn niweidio'r rhai sydd dan yr anfantais fwyaf, gan ychwanegu:

> *"What motivation do schools currently have to address their short comings? What support do they need? How do they self assess against the gold standard of inclusion? What frameworks do they need to work within that allows their own governance and Government policy to align with the Rights of the Child at the Centre of their focus?"*[500]

**421.** Clywsom am yr angen am well dealltwriaeth o gyflyrau neu anghenion penodol. Er enghraifft, dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth fod ymchwil yn dangos mai dim ond 28% o blant a phobl ifanc awtistig sy'n teimlo

---

496 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 282
497 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
498 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 25
499 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 66 Joining the Dots Parents and Carers
500 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 52 Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol

bod eu hathrawon yn deall awtistiaeth.[501] Dywedodd plentyn awtistig y buom yn siarad ag ef:

> *"Nid yw rhai athrawon am gyfaddef nad ydyn nhw'n gwbl wybodus nac wedi'u hyfforddi'n llawn. […] Dylai athrawon fod yn agored i ddysgu pethau newydd hefyd. […] Os yw athrawon yn gwrthod eu haddysgu eu hunain, sy'n rhywbeth y mae llawer o athrawon yn ei wneud, bydd y disgyblion yn dilyn eu hesiampl ac mae hyn yn golygu bod yr ysgol gyfan yn dod yn amgylchedd tocsig ac felly nid yw'n gynhwysol i bob plentyn."*[502]

**422.** Cododd rhanddeiliaid hefyd y diffyg dealltwriaeth o gyflyrau mwy newydd, fel Covid hir, nad oes gan ysgolion na staff meddygol ddealltwriaeth dda ohonynt.[503]

**423.** Soniodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd am "gryfhau'r gofynion yn yr addysg gychwynnol, cryfhau'r cynnig os hoffwch chi, ac argaeledd y ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar ar ôl cymhwyso a thrwy gydol oes." Cyfeiriodd hefyd at gyfleoedd ar gyfer arbenigo mewn meysydd penodol megis anabledd neu ADY drwy Radd Meistr mewn Addysg. Fodd bynnag, roedd yn derbyn y gellid gwneud mwy bob amser. Dywedodd fod y tîm niwroamrywiaeth cenedlaethol ar hyn o bryd yn edrych i weld a oes angen "rhaglen ychwanegol ar gyfer staff ac ar gyfer y gweithlu'n gyffredinol" i adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar gael.[504]

**424.** Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at ddatblygiad adnoddau hyfforddi i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Ddeddf a'r Cod ADY. Dywedodd fod hyn yn "rhan allweddol" o'r broses weithredu er mwyn sicrhau y gall "athrawon ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY fel y gallant roi addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau eraill wedi'u targedu ar waith" i roi'r gefnogaeth orau i blant a phobl ifanc ddysgu'n effeithiol. Fel rhan o hyn, maent wedi datblygu "llwybr dysgu proffesiynol ADY cenedlaethol ar-lein" sydd ar gael ar Hwb ac sydd wedi'i anelu at athrawon ac "yn enwedig" CADYau. Dywedodd ei bod wedi ymrwymo i barhau i "adolygu dysgu proffesiynol" wrth i'r broses weithredu barhau.[505]

---

[501] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
[502] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[503] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad Rhanddeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraff 13
[504] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 88
[505] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraff 6.1-6.2

**425.** Eglurodd y Gweinidog ar y pryd fod y darlun newidiol o ran anghenion plant a phobl ifanc yn golygu bod angen i ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol fod yn "elfen ganolog" o hyfforddiant addysgu yn awr. O ganlyniad, dywedodd y Llywodraeth ei bod yn:

> *"... cryfhau'r gofynion o bob un partneriaeth addysg gychwynnol i sicrhau dealltwriaeth o sut i ateb galw anghenion dysgu ychwanegol, ond hefyd i gynyddu'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar a thrwy'r cyfnod dysgu'n gyfan gwbl."*[506]

**426.** Soniodd hefyd am yr adolygiad o safonau proffesiynol arfaethedig ar y pryd. Nod hyn, meddai, oedd "amlygu lle mae'r bylchau yn nealltwriaeth a sgiliau'r gweithlu". Byddai hyn yn galluogi athrawon i gael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt. Dywedodd mai un o'r heriau fu canfod pa hyfforddiant sydd ar gael a nodi'r hyn sy'n diwallu anghenion hyfforddi orau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn mae gwaith hefyd yn cael ei wneud i roi sicrwydd i bobl mai dyma beth sy'n addas ar gyfer y galw a'i gwneud yn haws darganfod ble i gael gafael arno.[507]

## Ystadau ysgolion

**427.** Mae rhaglen Llywodraeth Cymru, Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (a elwid gynt yn Ysgolion ac Addysg yr Unfed Ganrif ar Hugain) yn rhaglen hirsefydlog o gyllid cyfalaf i ddatblygu ysgolion a cholegau'n ganolfannau ar gyfer dysgu a lleihau adeiladau sydd mewn cyflwr gwael.

**428.** Rydym yn ymwybodol o'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn, yn enwedig gwaith y Comisiynydd Plant yn 2014 a edrychodd ar hygyrchedd i ddefnyddwyr cadair olwyn mewn ysgolion uwchradd. Ystyriodd yr adroddiad hwn sut yr oedd awdurdodau lleol yn gweithredu eu dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gynllunio ar gyfer hygyrchedd ysgolion i ddisgyblion anabl.[508] Cyhoeddwyd adroddiad dilynol yn 2018, a chanfu fod gorddibyniaeth ar ysgolion unigol i wneud cynlluniau, ac nad oedd digon yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.[509]

---

[506] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 81
[507] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 82
[508] Comisiynydd Plant Cymru, Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal? Adroddiad Sbotolau ar hygyrchedd ysgolion uwchradd yng Nghymru i gadeiriau olwyn, Tachwedd 2014
[509] Comisiynydd Plant Cymru, Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal. Adroddiad dilynol ar hygyrchedd i ddefnyddwyr cadair olwyn mewn ysgolion yng Nghymru, Mawrth 2018

**429.** Dywedodd y Comisiynydd Plant presennol fod ei gwaith achos yn awgrymu bod effeithiolrwydd awdurdodau lleol yn gweithredu eu dyletswyddau hygyrchedd yn parhau i "amrywio".[510] Dywedodd wrthym hefyd fod y cynnydd wedi bod yn rhy araf.[511] Dywedodd Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad ei swyddfa, er bod canllawiau statudol wedi cael eu llunio o ganlyniad i'r gwaith cynharach, byddai craffu ar weithredu'r dyletswyddau hyn yn ddiddorol. Nid oedd ychwaith wedi'i hargyhoeddi bod yr holl strategaethau hygyrchedd wedi'u cyhoeddi a'u bod ar gael ar wefannau awdurdodau lleol.[512] Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod adroddiad 2018 yn peri pryder oherwydd ei fod yn dangos nad oedd y ddyletswydd statudol ar gyfer ymgynghori â phlant a theuluoedd ynglŷn â strategaethau a chynlluniau hygyrchedd yn digwydd fel mater o drefn.[513]

**430.** Tynnodd nifer o aelodau Anabledd Cymru sylw at hygyrchedd ystadau ysgolion. Ymhlith y materion yr oeddent yn ymwybodol ohonynt roedd plentyn a anafodd ei wddf oherwydd mai'r unig le yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer ei gadair olwyn oedd ym mlaen y dosbarth. Roedd materion eraill yn cynnwys diffyg arwyddion hygyrch, neu gefnogaeth i ddysgwyr byddar.[514] Dywedodd hefyd na ddylai fod angen mesurau lliniaru fel symud dosbarthiadau i rannau eraill o ystâd yr ysgol, oherwydd y dylai ysgolion fod wedi eu trefnu fel bod pob rhan o'r amgylchedd adeiledig yn hygyrch. Dylai hyn arwain at blant a phobl ifanc yn cael yr addysg y maen nhw ei heisiau, nid yr addysg sy'n cael ei gorfodi arnyn nhw.[515] Dywedodd Cŵn Tywys Cymru fod atebion ymarferol iawn ar gael na fyddent o reidrwydd yn costio llawer o arian.[516]

**431.** Tynnodd Whizz Kidz sylw at y ffaith bod angen i bob agwedd ar adeiladau ysgolion, nid dim ond ystafelloedd dosbarth, ond yr iard, ystafelloedd ymolchi, cyfleusterau chwaraeon a hamdden, fod yn gwbl hygyrch. Cyfeiriwyd at brofiad un person ifanc y trefnwyd iddo fynychu dosbarthiadau gorfodol mewn ystafell ddosbarth i fyny'r grisiau heb lifft. Pan gododd hyn, dywedodd yr ysgol nad oedd y dosbarth yn orfodol i'r person ifanc. Dywedodd y person ifanc fod hyn yn cyfyngu ar ei gyfle cyfartal i gael addysg.[517] Yn ôl rhiant plentyn â pharlys yr ymennydd, nid

[510] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 01 Comisiynydd Plant Cymru
[511] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 39
[512] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 41 a 43
[513] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 02 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
[514] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 09 Anabledd Dysgu Cymru
[515] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 10
[516] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 253
[517] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 35 Whizz Kidz

yw'r rhan fwyaf o ysgolion awdurdodau lleol yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae diffyg cyfleusterau fel gwely newid.[518]

**432.** Dywedodd Whizz Kidz fod diffyg cyfleusterau chwaraeon cynhwysol yn golygu bod 7,000 o ddysgwyr yn dweud nad ydynt yn gwneud gweithgaredd corfforol yn aml yn yr ysgol. Dywedwyd hefyd fod gan lai na 60% o ysgolion gyfarpar i alluogi pobl ifanc i gyfranogi'n llawn. [519]

**433.** Clywsom hefyd sut y gall ysgolion uwchradd yn arbennig fod yn amgylchedd heriol i rai plant a phobl ifanc. Dywedodd rhiant i blentyn awtistig, wrth i ysgolion ehangu, nad oes darpariaeth sy'n helpu disgyblion fel ei phlentyn hi i ffynnu.[520] Dywedodd rhiant arall na allai ei blentyn awtistig oddef bod yn yr ysgol, sy'n golygu ei fod yn colli gwersi addysg gorfforol, gwasanaeth a sioeau ysgol ac ati a bod yn rhaid iddi eistedd yn y llyfrgell i fwyta ei chinio.[521] Mae agweddau eraill ar addysg a all achosi anawsterau yn cynnwys dosbarthiadau sy'n rhy fawr, goleuadau llachar, byrddau arddangos prysur a mannau gorlawn.[522] Roedd hyn hefyd yn thema yn yr ymatebion i arolwg Heledd Fychan AS o deuluoedd plant a phobl ifanc niwrowahanol yng Nghanol De Cymru.[523] Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth y gall yr amgylcheddau heriol hyn arwain at absenoldeb o'r ysgol.[524]

**434.** Clywsom brofiadau un ysgol a gafodd adeilad newydd drwy'r cynllun Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae'n ysgol brif ffrwd gyda Chanolfan Adnoddau Arbennig. Mae'r Ganolfan Adnoddau Arbennig eisoes yn brin o le, oherwydd pan luniwyd y cynlluniau gyntaf, nid oedd y Ganolfan wedi'i chynnwys fel rhan o'r dyluniad gwreiddiol. Pan gytunwyd y byddai'r ganolfan yn rhan o'r ysgol, roedd yn rhaid ei ffitio i'r gofod a oedd ar gael. Er nad oedd hyn yn ddelfrydol, dywedwyd eu bod wedi gwneud iddi weithio drwy ddefnyddio mannau eraill yn yr ysgol.[525]

**435.** Codwyd acwsteg mewn adeiladau fel rhwystr posibl i addysg gynhwysol. Dywedwyd wrthym fod ysgolion ag acwsteg dda o fudd i bawb yn yr ysgol. Roedd

[518] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[519] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 35 Whizz Kidz
[520] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 29 Unigolyn
[521] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 33 Unigolyn
[522] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[523] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
[524] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
[525] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 5, 4 Rhagfyr 2023, paragraff 2

barn gymysg ynghylch pa mor llwyddiannus y bu Cymunedau Dysgu Cynaliadwy o ran gwella acwsteg.[526] Dywedodd NDCS Cymru nad yw ystafelloedd dosbarth prif ffrwd mawr a mannau dysgu cynllun agored yn hygyrch o ran acwsteg. O ganlyniad, dywedodd nad yw plant byddar yn aml yn clywed pwyntiau addysgu allweddol, cyfarwyddiadau hanfodol, gwybodaeth am ddiogelwch ac yn aml yn methu ag ymuno mewn sgyrsiau anffurfiol.[527]

**436.** Cododd y Coleg Nyrsio Brenhinol bryderon ynghylch diffyg ystafelloedd hylendid mewn lleoliadau prif ffrwd:

> *"... continence, that's a huge issue within schools, because an awful lot of mainstream schools don't have hygiene rooms that can support the child to be changed or if they need catheterising, or something. You need a specialist space to be able to do that, and that can be really detrimental to the child's best interests if they don't have that space where their changing needs can be met."*[528]

**437.** Mae cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn y broses o ddylunio ysgolion yn bwysig. Dywedodd un rhiant wrthym "pan nad yw cynlluniau a dyluniadau'n cael eu cydgynhyrchu, anaml y byddan nhw'n addas at y diben."[529]

**438.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, maer Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi "gwneud cyfraniad pwysig" at wella adeiladau ysgolion ledled Cymru. Dywedodd hefyd, "er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, mae cyfradd ariannu Llywodraeth Cymru yn cynyddu o 65 y cant i 75 y cant o gyfanswm costau'r prosiect." Dywedodd ei bod hefyd wedi darparu "£20 miliwn ychwanegol o gyllid cyfalaf" i awdurdodau lleol gyda'r nod o greu a gwella "mannau a chyfleusterau cynhwysol i helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei addysgu mewn ystafelloedd dosbarth a gofodau gyda'r technolegau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt."[530]

**439.** Roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd yn cydnabod y rhwystrau ymarferol y mae rhai plant a phobl ifanc yn eu hwynebu. Dywedodd fod hwn yn un o'r rhesymau allweddol sy'n sail i'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. At

[526] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad Rhanddeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraff 6
[527] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 42 Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru
[528] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 26
[529] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[530] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraffau 1.10-1.11

hynny, dywedodd y gall adeiladau hŷn nad ydynt yn rhan o'r rhaglen hon gael mynediad at gyllid penodol ar gyfer awdurdodau lleol (yr £20 miliwn y cyfeiriwyd ato yn y paragraff blaenorol). Dywedodd ei fod wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer addasiadau, gwaith adnewyddu ac ystafelloedd dosbarth arbenigol.[531]

**440.** Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r ystâd ysgolion, dywedodd wrthym fod yr arolwg blynyddol o awdurdodau lleol bellach yn cynnwys:

> *"… an analysis of the accessibility requirements across the entire estate and that will feed then into choices that authorities can make and we can make in relation to the capital programme, to make those kinds of changes on a rolling basis."*[532]

**441.** Fe wnaethom holi'r Gweinidog ar y pryd am y dystiolaeth a glywsom am rai adeiladau newydd nad ydynt yn diwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc. Dywedodd y byddai'n siomedig pe na bai'r dewisiadau'n adlewyrchu'r gofynion hygyrchedd. Dywedodd ei bod yn arfer da sicrhau bod arweinwyr ysgol, staff a disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o ddylunio a chynllunio adeiladau ysgol.[533]

**442.** Ers i ni orffen cymryd tystiolaeth, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cyhoeddi £20 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion i wella cyfleusterau ar gyfer dysgwyr ag ADY. Bydd y cyllid hwn yn "helpu i adeiladu a diweddaru ardaloedd synhwyraidd, uwchraddio offer arbenigol, creu ystafelloedd dosbarth a mannau awyr agored arbenigol yn ogystal â gwella'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg."[534]

## Effaith y pandemig

**443.** Er bod y cyfnodau clo a chau ysgolion bellach y tu cefn inni, mae effaith y pandemig yn dal i gael ei theimlo gan blant, pobl ifanc, eu teuluoedd ac ysgolion. Clywsom am rai o'r materion a wynebwyd yn ystod y pandemig yn ogystal ag ar ôl i ysgolion gau, a'r effeithiau hirdymor.

**444.** Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod plant a phobl ifanc ar eu colled yn sgil y pandemig o ran y ddarpariaeth ysgol yr oeddent yn

[531] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 39-41
[532] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 42
[533] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 44
[534] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg, Mwy o gyllid a chysondeb i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, 8 Mai 2024

gymwys i'w chael. Ar ôl i ysgolion ailagor, fe wnaethant golli mwy o amser ysgol, yn enwedig i'r rhai a oedd yn gwarchod eu hunain.[535] Dywedodd Mudiad Meithrin fod gweithwyr proffesiynol wedi sylwi bod cenhedlaeth gyfan o blant wedi colli cyfleoedd oherwydd i'r pandemig ddigwydd ar "gyfnod allweddol" yn natblygiad plentyn. Mae'r cyfleoedd coll hyn "yn gallu bod yn amrywiol ac y ddwys iawn."[536] Tynnodd Blynyddoedd Cynnar Cymru sylw hefyd at effeithiau penodol y pandemig, gan ddweud ei fod wedi effeithio ar leferydd, iaith a chyfathrebu, ymddygiad a llythrennedd emosiynol a chorfforol. Galwyd am gamau ar unwaith i helpu i liniaru dechrau anodd iawn i'w 1,000 o ddiwrnodau cyntaf.[537]

**445.** Rhannodd Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector brofiad rhiant:

> *"The pandemic created a situation where my child went from being in a mainstream school to being isolated in a mainstream school. The staff were encouraging my child to have lunch and break times on their own in a 'special area' rather than being included with other students. I could appreciate the caution, but it's ended up isolating them and also it's difficult to explain to a child why it would be better for them to interact with other children when they have the option to be in a room and access games etc."*[538]

**446.** Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y byddai pobl yn manteisio ar diwtora wyneb yn wyneb i liniaru effaith y pandemig pe bai ar gael. Roedd yn credu y byddai'n mynd i'r afael â rhai o'r pryderon sydd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ynghylch cyrhaeddiad a chynnydd. Rhybuddiodd y dylid gwneud hynny mewn modd sensitif. Roedd yn pryderu bod rhai plant a phobl ifanc dan anfantais ddwbl yn ystod y pandemig, yn enwedig yn ddigidol. Nododd fod plant a phobl ifanc yn pryderu am yr addysg y maent wedi'i cholli. [539]

**447.** Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain fod y pandemig wedi gwaethygu problemau a oedd yn bodoli eisoes. Cyfeiriodd at ymchwil sydd wedi dangos bod y rhai a oedd wedi cael pethau'n anos yn ystod y pandemig, eisoes yn ei chael hi'n

[535] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 149 - 150
[536] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 58
[537] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 61
[538] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
[539] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 151 a 153

anodd cyn y pandemig. Dywedodd fod hyn yn dangos bod yr heriau hynny eisoes yn bodoli.[540]

## Cludiant i ddysgwyr

**448.** Mae cludiant i ddysgwyr yn cael ei lywodraethu gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol: Canllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn 2014 a'r Cod Ymddygiad wrth Deithio Cymru Gyfan 2018.

**449.** Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â theithio gan ddysgwyr, gan gynnwys gofynion i asesu anghenion teithio dysgwyr o dan 19 oed yn eu hardal. Mae'n rhaid iddynt ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys anghenion plant a phobl ifanc, oedran plant a phobl ifanc, a natur y daith i'r darparwr addysg ac oddi yno. Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr o'r cartref i'r ysgol os yw plentyn neu berson ifanc yn byw o fewn pellteroedd penodol i'r ysgol addas agosaf, neu ymhellach na hynny. Mae gan awdurdodau lleol hefyd bwerau yn ôl disgresiwn i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol i rai dysgwyr na fyddent o bosibl yn gymwys fel arall. Dim ond i gludiant o'r cartref i'r ysgol y mae hyn yn berthnasol.

**450.** Yn ôl y Comisiynydd Plant, mae amrywiad enfawr rhwng awdurdodau lleol mewn perthynas â chludiant i ddysgwyr. Dywedodd fod hyn hefyd yn broblem enfawr i blant a phobl ifanc nad ydynt yn anabl ac sy'n niwronodweddiadol, ond ei fod yn rhwystr anodd iawn i blant a phobl ifanc o fewn cwmpas yr ymchwiliad hwn. Amlygwyd mai un o argymhellion diweddaraf y Comisiynydd i Lywodraeth Cymru oedd cynnal adolygiad o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr.[541] Ym mis Mawrth 2024 (naw mis ar ôl ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Comisiynydd Plant) cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar Deithio gan Ddysgwyr yng Nghymru (a dafodir isod).[542]

**451.** Yn y lleoliadau arbenigol yr ymwelwyd â nhw, roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn defnyddio cludiant i ddysgwyr. Clywsom fod rhai plant a phobl ifanc yn mwynhau'r annibyniaeth sy'n gysylltiedig â hyn,[543] ac yn aml y cyfle i dreulio amser gyda'u ffrindiau.[544] Dywedodd ysgol arall, er na fydd rhieni o bosibl yn teimlo'n

[540] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 9
[541] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 45
[542] Llywodraeth Cymru, Teithio gan Ddysgwyr yng Nghymru Dadansoddi a gwerthuso: adroddiad argymhellion, 14 Mawrth 2024
[543] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 3, 29 Mehefin 2023, paragraff 14
[544] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 18

hyderus iawn bod eu plant yn teithio'n annibynnol, y gall fod yn brofiad cadarnhaol iawn i blant a phobl ifanc, a helpu i gefnogi eu hannibyniaeth.[545]

**452.** Mae'n anochel y bydd gan rai dysgwyr deithiau hir i'r ysgol ac oddi yno. Clywsom am un ysgol lle roedd rhai disgyblion yn teithio hyd at awr bob ffordd,[546] tra y nododd un arall mewn ardal fwy gwledig amseroedd teithio o hyd at 1.5 awr bob ffordd.[547] Gall yr amseroedd teithio hir hyn gael effaith ar blant a phobl ifanc. Roedd un ysgol arbennig yn bwriadu treialu system newydd lle y byddai gweithgaredd i helpu gyda llesiant meddyliol yn cael ei gynnal ar ddechrau'r diwrnod, oherwydd nid yw plant a phobl ifanc bob amser yn barod i ddysgu ar ôl teithiau hir.[548]

**453.** Teimlai rhai teuluoedd ei bod yn aneglur pa gludiant i ddysgwyr yr oedd gan eu plant hawl iddo, gan alw am fwy o eglurder.[549] Dywedodd rhai rhanddeiliaid y gallai plentyn fod yn mynychu ysgol y tu allan i'r dalgylch oherwydd bod hynny er lles gorau'r plentyn, ond y gallai'r awdurdod lleol wrthod darparu cludiant i ddysgwyr gan nad yw'n ystyried mai hon yw'r ysgol addas agosaf. Yn yr achosion hyn, dywedwyd na ddylid ei ystyried yn ddewis rhiant oherwydd ei fod yn ymwneud â diwallu anghenion penodol y plant.[550]

**454.** Ni fydd pob plentyn a pherson ifanc yn gymwys i gael cludiant i ddysgwyr. Dywedwyd wrthym fod awdurdodau lleol weithiau'n dweud wrth rieni bod yn rhaid iddynt wneud eu trefniadau eu hunain. Gall hyn fod yn heriol, yn enwedig os oes rhaid i deuluoedd fynd â phlant eraill i leoedd gwahanol.[551]

**455.** Clywsom am rai problemau ymarferol gyda chludiant i ddysgwyr. Amlygodd un ysgol y gall ansawdd y ddarpariaeth fod yn anghyson, a bod peth ohoni'n wael. Dywedodd y gallai fod gan yrwyr neu hebryngwyr wybodaeth gyfyngedig am sut i gefnogi rhai grwpiau o blant a phobl ifanc.[552] Dywedodd rhieni eraill fod diffyg hyfforddiant i yrwyr a hebryngwyr, a bod hyn yn gallu achosi niwed uniongyrchol i blant a phobl ifanc.[553] Disgrifiodd un rhiant gwmni cludiant a ddywedodd wrtho

[545] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 12
[546] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 19
[547] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 4, 28 Medi 2023, paragraff 13
[548] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 1, 29 Mehefin 2023, paragraff 20
[549] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 40
[550] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad Rhanddeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraff 53
[551] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraff 39
[552] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 15
[553] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 66 Joining the Dots Parents and Carers

ei fod "wedi arfer delio â phobl sydd ddim yn normal" a bod hyn wedi peri i'r rhian wrthod y cludiant.[554]

**456.** Mewn ysgol arall, dywedwyd wrthym fod rhai hebryngwyr wedi cael cyfarwyddyd i beidio â churo ar ddrws teulu os nad oedd y plentyn yn barod, gan olygu bod plant yn colli'r ysgol.[555] Dywedodd ysgol wahanol hefyd y gall tacsis fod yn hwyr.[556]

**457.** Hefyd, gall fod problemau o ran sicrhau cludiant i ddysgwyr yn y lle cyntaf oherwydd yr oriau gwaith cyfyngedig sydd ar gael, a'r ffaith bod contractau cludiant ar gyfer ysgolion arbennig yn llai deniadol na chontractau tebyg ar gyfer ysgolion prif ffrwd.[557]

**458.** Un o effeithiau'r ffaith bod plant a phobl ifanc mewn ysgolion arbennig yn fwy tebygol o ddefnyddio cludiant i ddysgwyr yw colli'r cyswllt anffurfiol sydd gan deuluoedd pan fyddant yn casglu a gollwng eu plant, a'r cyfle i ddatblygu rhwydwaith ehangach o rieni. Dywedodd un ysgol arbennig wrthym ei bod yn fwy rhagweithiol wrth ddatblygu'r rhwydweithiau hyn er mwyn lliniaru hynny. Dywedodd fod hyn yn arbennig o bwysig i'r grwpiau hyn o rieni, gan eu bod yn aml yn gallu wynebu heriau ychwanegol o gymharu â rhieni plant a phobl ifanc nad ydynt yn anabl a/neu sy'n niwronodweddiadol. Dywedodd yr ysgol y gall cefnogaeth cyfoedion i gyfoedion fod yn "drawsnewidiol."[558]

**459.** Mae problemau gyda theithio gan ddysgwyr wedi bod yn hirsefydlog. Fel Aelodau unigol o'r Senedd rydym yn gyfarwydd iawn â nhw drwy ein gwaith achos. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith teithio gan ddysgwyr yn ystod ein gwaith blaenorol ar absenoldeb disgyblion. Yn yr adroddiad hwnnw, fe wnaethom argymell:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mai anghenion unigol a phenodol plant a phobl ifanc sy'n sail i benderfyniadau ar deithio gan ddysgwyr. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i fabwysiadu'r dull hwn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o gyllid i sicrhau bod gan yr holl blant a phobl ifanc fynediad at opsiynau trafnidiaeth priodol i*

[554] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[555] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 3, 29 Mehefin 2023, paragraff 15
[556] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 4, 28 Medi 2023, paragraff 10
[557] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 15
[558] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 13

> *gyrraedd yr ysgol yn ddiogel. Dylai'r adolygiad presennol edrych ar flaenoriaethu datrysiad dysgwr yn gyntaf; a dylai fod yn radical wrth chwilio am ddatrysiadau arloesol."*[559]

**460.** Derbyniwyd yr argymhelliad hwn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru. Wrth ymateb, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru yr adolygiad o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr a oedd yn cael ei gynnal ar y pryd, yn ogystal â gwaith ehangach fel annog mwy o deithio llesol.[560]

**461.** Roeddem mor bryderus ynghylch y materion a godwyd yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth nes inni ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar y pryd tua diwedd ein gwaith casglu tystiolaeth. Crynhowyd y dystiolaeth gennym yn ogystal ag amlinellu gwaith yn y maes hwn gan eraill, yn cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, a nifer o ddeisebau. Fe wnaethom hefyd dynnu sylw at benderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud ar yr adeg honno gan fod awdurdodau lleol yn pennu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Er ein bod yn derbyn y pwysau ariannol yr oedd awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu, roeddem yn dal i gredu y dylid mabwysiadu dull sy'n rhoi'r dysgwr yn gyntaf a bod "teithio fforddiadwy a hygyrch gan ddysgwyr yn hanfodol i blant a phobl ifanc allu mynychu'r ysgol, a ffynnu yno."[561]

**462.** Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd ei bod yn cydymdeimlo â'r pryderon a godwyd ac yn cydnabod "pwysigrwydd y mater hwn i rieni, plant a phobl ifanc." Tynnodd sylw at gymhlethdodau teithio gan ddysgwyr, a thynnodd sylw at y ffaith bod yr adolygiad yn ystyried ein gwaith yn ogystal ag:

> *"… anghenion cludiant i ddysgwyr yn gymhleth, yn ogystal â'r rhwydweithiau, yr offer a'r adnoddau sydd eu hangen…".*[562]

**463.** Dywedodd hefyd "er gwaethaf yr heriau hyn" bod "cyfleoedd i ddulliau arloesol gael eu rhoi ar waith", a fyddai'n cael eu nodi yn yr Adroddiad Argymhellion Teithio gan Ddysgwyr, y bwriadwyd ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2024. Byddai'r adroddiad hwn yn amlinellu "llwybr cymedrol i ddatblygu cynnig

---

[559] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Absenoldebau Disgyblion, Tachwedd 2022, argymhelliad tri
[560] Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Absenoldebau Disgyblion, Ionawr 2023
[561] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, Teithio gan Ddysgwyr, 21 Tachwedd 2023
[562] Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 21 Rhagfyr 2023

teithio diogel a chynaliadwy i ddysgwyr sy'n cyd-fynd â pholisïau a dyheadau Llywodraeth Cymru, gan adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol".[563]

**464.** Mewn perthynas â rhai o'r materion penodol a godwyd gennym, megis cludiant i weithgareddau allgyrsiol, dywedodd fod adolygiad 2022 wedi nodi hyd yn oed pe bai'r cyllid ar gael, bod y "gwendid mewn rhwydweithiau a seilwaith presennol yn gwneud gweithredu ac ehangu'r ddarpariaeth yn anodd." Fodd bynnag, mae'r "dyheadau i gyflwyno rhwydwaith bysiau wedi'i fasnachfreinio sy'n cael ei lywio'n lleol, wedi'i ategu gan rwydweithiau trafnidiaeth gymunedol, gobeithio, yn cynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â rhai o'r materion hygyrchedd hyn … drwy fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael".[564]

**465.** O ran y pwysau ariannol a wynebir gan awdurdodau lleol, dywedodd fod darpariaeth awdurdodau lleol yn cael ei monitro'n agos drwy'r Gymdeithas Cydgysylltwyr Trafnidiaeth. Yn ddiweddar, mae wedi adolygu cludiant o'r cartref i'r ysgol a ddarperir gan bob awdurdod lleol. Dywedodd fod hyn wedi nodi "rhai arferion rhagorol" gan gynnwys "y ddarpariaeth hyfforddiant teithio annibynnol buddsoddi i arbed yng Nghaerdydd a Chyngor Sir Fynwy yn adolygu eu darpariaeth o ran trafnidiaeth gymunedol ac yn cydweithio â gweithredwyr bysiau i wneud y gorau o'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad at'w mannau dysgu."[565]

**466.** Cyhoeddwyd yr adroddiad Teithio gan Ddysgwyr yng Nghymru Dadansoddi a gwerthuso: adroddiad argymhellion ym mis Mawrth 2024. Daeth i'r casgliad, oherwydd y diwygiadau arfaethedig i'r diwydiant bysiau a'r pwysau ariannol, "na ddylid mynd ati ar hyn o bryd i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sy'n sail i Deithio gan Ddysgwyr yng Nghymru." Dywedodd fod y pwysau ariannol cynyddol ynghyd â chostau cynyddol yn golygu y "byddai angen buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru na ellir ei fforddio ar hyn o bryd" er mwyn gwneud unrhyw newid. Fodd bynnag, argymhellodd y dylid gwneud newidiadau i nifer o ganllawiau statudol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu cludiant i ddysgwyr, ynghyd â hyrwyddo arfer gorau, ac archwilio opsiynau i ddatblygu rhaglen grant ag arian

[563] Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 21 Rhagfyr 2023
[564] Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 21 Rhagfyr 2023
[565] Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 21 Rhagfyr 2023

cyfatebol i sbarduno hyfforddiant teithio annibynnol; a chynyddu cyfleoedd teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.[566]

## Pa newidiadau y mae pobl am eu gweld?

**467.** Galwodd Georgia Miggins, Aelod Senedd Ieuenctid Cymru ar y pryd, am fwy o waith gyda phlant a theuluoedd cyn iddynt ddechrau mewn ysgol er mwyn iddynt allu disgrifio eu profiadau, fel bod yr adnoddau a'r cymorth ar gael iddynt, er mwyn iddynt allu cyrraedd eu nodau. Roedd hi hefyd yn hyrwyddo'r rhaglen "Thrive" y bu'n ei defnyddio yn yr ysgol, sef rhaglen gwnsela a llesiant sydd wedi'i theilwra ar gyfer yr unigolyn. Dywedodd ei bod yn rhaglen unigryw yn yr ystyr ei bod yn cael ei theilwra ar gyfer yr unigolyn a'i anghenion a'r hyn y mae'n ei fwynhau.[567]

**468.** Yn ystod ein gwaith ymgysylltu â theuluoedd, clywsom am rai o'r newidiadau yr oeddent am eu gweld:

> *"Mae hyfforddiant gwell i athrawon yn hollbwysig.*
>
> *all cydweithio rhwng ysgolion AAA ac ysgolion prif ffrwd wella sgiliau cyfathrebu ymhlith staff.*
>
> *Mae rhoi mwy o gefnogaeth a chyllid i asiantaethau allanol o fudd i rieni, ac yn rhoi ymdeimlad o gymuned.*
>
> *Mae rhieni'n cynnig y gellid estyn absenoldeb statudol ar gyfer gofal plant (hyd at bythefnos y flwyddyn) i'r rhai sydd â phlant anabl.*
>
> *Mae'n hanfodol bod ysgolion yn cyfathrebu'n well, yn enwedig ar gyfer plant dieiriau.*
>
> *Gallai cydlynydd awdurdod lleol canolog symleiddio'r gwasanaethau cymorth i deuluoedd.*
>
> *Dylai pob ysgol gynnwys "mannau tawel" sy'n hygyrch i bawb.*[568]

[566] Llywodraeth Cymru, Teithio gan Ddysgwyr yng Nghymru Dadansoddi a gwerthuso: adroddiad argymhellion, 14 Mawrth 2024
[567] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 110
[568] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023

**469.** Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru mai'r gofyniad mawr gan deuluoedd oedd "ailwampiad mwy dychmygus o addysg yng Nghymru"'. Fel rhan o hyn, galwyd am addysgu mwy am anabledd o fewn ysgolion ac y dylai ddechrau ar oedran iau.[569]

**470.** Galwodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol am sicrhau bod gan bob ysgol fynediad at therapydd galwedigaethol. Dywedodd y byddai hyn yn helpu i ymwreiddio cyfleoedd iechyd corfforol a meddyliol cadarnhaol yn arferion dyddiol plant a phobl ifanc. Cyfeiriodd hefyd at arfer da lle mae rhai awdurdodau lleol fel Castell-nedd Port Talbot wedi ariannu therapyddion galwedigaethol i fynd i mewn i ysgolion, sydd wedi helpu i wella dealltwriaeth a gwybodaeth y staff.[570]

**471.** Rhannodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith hefyd arfer da presennol lle mae gan ysgolion gytundebau lefel gwasanaeth gyda gwasanaethau iechyd ble mae therapyddion lleferydd ac iaith yn cefnogi amgylchedd yr ysgol gyfan, nid dim ond ar gyfer cynnal asesiadau unigol. Mewn rhai ardaloedd mae'r rhain wedi bodoli ers dros ddeng mlynedd ac maent yn gweld y budd, gan ddweud y gall atal llawer o blant rhag cyrraedd y lefel ADY statudol.[571]

**472.** Galwodd Platfform am ddull system gyfan ac am edrych ar y ffactorau dylanwadol o'u cwmpas a dewis y rheini (ac nid disgwyl i'r bobl ifanc eu hunain newid).[572] Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain fod angen newid ffocws y trafodaethau:

> *"There are still too many conversations around, 'Oh, I'm not sure we're going to able to meet the needs because we haven't got the resources and the support', whereas what I think we should also be doing is shifting and changing language, even, because that can be helpful, to say, 'Right, this is what we can do in our school's environment', whatever environment they're in at the moment, 'and this is where we need the support as well'. That change of conversation, even in places like this, here today, around what we need in order to move forward. But at the moment, we're at risk of becoming stuck in terms of, 'We just can't meet the growing need'."*[573]

[569] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 01 Comisiynydd Plant Cymru
[570] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 30 Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
[571] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 104
[572] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 39 Platfform
[573] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 60

**473.** Un o'r materion a godwyd oedd rhannu arferion da yn effeithiol. Dywedodd CLlLC fod nifer o wahanol fforymau lle y gellir rhannu arferion gorau, yn enwedig gweithio drwy gonsortia.[574]

**474.** Dywedodd un ysgol wrthym fod rhannu arferion gorau ar draws eu clwstwr eu hunain yn hynod effeithiol, gyda phroses sicrhau ansawdd glir. Fodd bynnag, roedd rhannu arferion gorau yn ehangach wedi dirywio ers y pandemig, meddai. Yn awdurdod lleol yr ysgol, mae Ymarferydd Arweiniol Trawsnewid ADY wedi'i benodi i helpu i rannu a lledaenu arferion da yn ehangach.[575]

## Ein barn ni

**475.** Mae'r hyn yr ydym wedi'i glywed yn ddifrifol. Rydym wedi clywed am blant, pobl ifanc, teuluoedd ac ysgolion yn brwydro i sicrhau bod addysg yn gynhwysol. Mae nifer y profiadau annerbyniol yn fwy o lawer na'r rhai cadarnhaol. Rydym yn nodi effeithiau'r annhegwch hwn yn y penodau a ganlyn, ond rydym am nodi yma y gallant gael effeithiau gydol oes nid yn unig ar blant a phobl ifanc ond ar eu teuluoedd hefyd.

**476.** Mae'r gwahaniaethu, boed yn wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol, a wynebir gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i'w weld ym mron pob un o'r profiadau a glywsom. Ymddengys fod pobl yn derbyn mai gwahaniaethu yw'r norm. Ni ddylai fod yn norm.

**477.** Yn amlwg, mae rhywfaint o'r materion hyn yn llawer ehangach nag addysg a gofal plant, ac maent yn ymwneud â chymdeithas ehangach, agweddau diwylliannol a normau. Er y bydd angen ymdrech barhaus gan bob rhan o gymdeithas i newid y sefyllfa, nid yw'n fynydd nad oes modd ei ddringo. Rydym eisoes yn gweld rhai newidiadau, yn sgil mwy o amlygrwydd, ac ymwybyddiaeth, er bod ffordd bell i fynd o hyd. Rhaid inni i gyd chwarae ein rhan, ac ni ddylai'r newidiadau hyn gael eu gadael i bobl anabl. Rhaid i bobl nad ydynt yn anabl a phobl niwronodweddiadol hefyd chwarae eu rhan, a bod yn gynghreiriaid ystyrlon.

**478.** Credwn fod angen modelau rôl mwy amlwg, nid dim ond yn y byd addysg ond yn y gymdeithas ehangach hefyd. Yn wahanol i'w cyfoedion nad ydynt yn anabl a'u cyfoedion niwronodweddiadol, nid yw plant a phobl ifanc yn gweld pobl fel nhw yn rheolaidd. Dywedodd Anabledd Cymru, pan fydd yn mynd i ysgolion, efallai mai dyma'r tro cyntaf i blant a phobl ifanc weld oedolyn anabl. O ran ein

[574] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 46
[575] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 5, 4 Rhagfyr 2023, paragraff 20

hargymhellion ynghylch hyfforddiant, credwn fod cyfleoedd i gynnwys pobl â phrofiad bywyd o'r materion hyn wrth ddatblygu a darparu hyfforddiant ar anabledd a niwroamrywiaeth yn bwysig.

**479.** Rydym yn croesawu gwaith y Tasglu Anabledd yn y maes hwn, ac yn edrych ymlaen at weld y Cynllun Gweithredu yn cael ei gyhoeddi. Credwn hefyd, os caiff argymhellion Argymhelliad 11 a Argymhelliad 19 eu gweithredu'n llawn, y bydd hynny'n gam ystyrlon tuag at leihau'r achosion o wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn addysg.

**480.** Er bod fframwaith statudol clir, y dystiolaeth a glywsom yw bod gweithredu hwn, drwy ddatblygu a defnyddio strategaethau a chynlluniau hygyrchedd, yn anghyson. Mae gwaith y Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ill dau wedi dangos bod problemau. Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod canllawiau i ysgolion ar gynlluniau hygyrchedd wedi'u cryfhau, credwn fod digon o bryderon i awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn. Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar hyn yn fanylach, gan ystyried ymhellach a oes angen iddi gyhoeddi cyfarwyddiadau i sicrhau bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn cyflawni eu dyletswyddau.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried adolygu strategaethau a chynlluniau hygyrchedd ledled Cymru, gyda'r bwriad o roi cyfarwyddiadau i unrhyw awdurdod lleol neu ysgol sy'n methu â chyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Ysgolion arbennig neu addysg brif ffrwd

**481.** O ran y cwestiwn sylfaenol ynghylch a ddylai Cymru symud tuag at system gwbl gynhwysol fel yr amlinellir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, rydym yn cytuno mai system addysg gwbl gynhwysol yw'r hyn y dylem fod yn anelu ati, ond rydym ymhell iawn o hynny. Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn credu y dylai'r gwaith ddechrau ar sut y gallwn symud tuag at system gwbl gynhwysol, ond rydym yn cydnabod bod hwnnw'n ddarn enfawr o waith a fydd yn cymryd amser. Yn y cyfamser, mae arnom angen ffocws pendant ar yr hyn y gellir ei wneud i wella'r sefyllfa i blant a phobl ifanc nawr.

**482.** Dylai'r ddwy elfen hon o waith fod yn digwydd ar y cyd, ac er ein bod yn deall y pwysau ar Lywodraeth Cymru, ysgolion, awdurdodau lleol, gwasanaethau statudol a gwasanaethau anstatudol, mae hyn yn fater rhy bwysig i'w anwybyddu ac i feddwl bod y cyfan yn rhy anodd i'w oresgyn.

**483.** Dadl gref dros system gwbl gynhwysol yw ei bod yn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o wahaniaethau yn ystod plentyndod. Byddai hyn yn arwain at fanteision hirdymor sylweddol, ac yn helpu i chwalu rhwystrau yn y gymdeithas ehangach.

**484.** Gan na all lleoliadau prif ffrwd gyflawni darpariaeth gwbl gynhwysol ar hyn o bryd, rydym yn cytuno â'n Panel Cynghori Ar-lein bod angen darpariaeth fwy arbenigol. Yn y system bresennol, mae pwysau cynyddol ar y lleoliadau arbenigol. I rai plant, mae bod mewn lleoliad arbenigol yn rhoi'r cyfle iddynt ffynnu, fel y clywsom yn nhystiolaeth rymus Georgia Miggins, a'r plant a'r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw yn ystod ein hymweliadau. Gwelsom sut y mae'r lleoliadau hyn yn diwallu eu hanghenion a bod hynny wedyn yn caniatáu iddynt gyflawni mewn ffyrdd nad ydynt bob amser yn digwydd mewn lleoliadau prif ffrwd ar hyn o bryd.

**485.** Mae'n amlwg, am nifer o wahanol resymau, bod gormod o leoliadau prif ffrwd nad ydynt yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc, ac yn cael eu trin fel pe na baent yn perthyn, heb wneud unrhyw addasiadau i'w galluogi i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mewn lleoliadau arbenigol rydym wedi gweld llawer o arferion da o ran sut y mae plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi mewn ffyrdd sy'n datgloi eu galluoedd a'u potensial.

**486.** Rydym hefyd wedi gweld y rôl bwysig y gall Canolfannau Adnoddau Arbennig a darpariaeth debyg ei chynnig. Gallant ddarparu cymorth arbenigol yn ogystal â chadw'r opsiwn i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd aros mewn darpariaeth brif ffrwd, os dyna'r dewis cywir iddyn nhw.

**487.** Mae'n amlwg bod ysgolion eisiau cyflwyno darpariaeth hygyrch a chynhwysol, ond nid yw'r system ehangach yn eu cefnogi'n ddigon da. Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau sydd ar ysgolion, o ran eu cyllid, ond hefyd o ran staffio, a'r gwahanol ofynion ar ysgolion.

**488.** Mae angen i leoliadau prif ffrwd gael eu cefnogi'n well a chael yr adnoddau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc unigol yn well. Rydym yn gwneud argymhellion drwy'r adroddiad cyfan ac, os cânt eu rhoi ar waith yn llawn, credwn y byddant yn helpu i alluogi i hyn ddigwydd. Mae'n bwysig iawn bod hyn yn digwydd oherwydd y nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd mewn lleoliadau prif ffrwd, a fyddai wedi bod mewn lleoliadau arbenigol yn y gorffennol.

**489.** Mae'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc o ran gweithgareddau allgyrsiol yn amlwg yn gyfyngedig am amrywiaeth o resymau. Rydym wedi ymdrin â materion yn ymwneud â gofal cofleidiol yn y Bennod flaenorol, ond mae'n amlwg bod hyn

yn ymestyn i fathau eraill o weithgareddau allgyrsiol. Mae hyn yn amddifadu plant a phobl ifanc o'r gweithgareddau cyfoethogi ehangach a'r cyfleoedd i gymdeithasu. Gall hyn wedyn gael effaith ar lesiant corfforol a meddyliol.

**490.** Credwn fod rôl i'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru ill dau i sicrhau bod gan ysgolion ac awdurdodau lleol yr arbenigedd a'r offer cywir i gyflawni eu dyletswyddau statudol, fel y rhai a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ond hefyd i fynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth fel eu bod yn esiamplau o arfer cynhwysol a hygyrch. Mae'r ysgol yn lle hollbwysig lle y caiff gwybodaeth ei dysgu, a lle mae agweddau'n cael eu ffurfio sydd wedyn yn parhau yn ddiweddarach mewn bywyd. Os caiff pethau eu gwneud yn iawn mewn ysgolion, mae cyfle i sicrhau bod y gymdeithas ehangach yn dod yn fwy cynhwysol a hygyrch.

**491.** Rydym yn croesawu'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer ysgolion ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ond dim ond man cychwyn yw hynny. Hoffem weld mwy o gyngor a chanllawiau'n cael eu datblygu i helpu ysgolion i ddeall y model cymdeithasol o anabledd fel eu bod yn defnyddio hwn fel man cychwyn wrth ddatblygu polisïau, ethos, cwricwla a phob agwedd ar fywyd yr ysgol. Credwn y bydd gwaith y Tasglu Hawliau Anabledd yn hynod ddefnyddiol yn hyn o beth, ac y dylai lywio datblygiad y cyngor a'r canllawiau yn uniongyrchol.

**492.** Rydym yn ymwybodol iawn bod gan ysgolion ystod eang o gyfrifoldebau, a bod yn rhaid iddynt gyflawni ystod eang o fentrau a blaenoriaethau, ond credwn fod hyn yn hollbwysig a bod angen iddo fod yn ffocws allweddol. Dylai ysgolion wneud mwy na dim ond ymateb i anghenion pan fyddant yn codi. Yn hytrach dylent fod yn datblygu dull cynhwysol bob amser. Dylai'r canllawiau fod yn ymarferol iawn ac yn ddefnyddiol i ysgolion allu eu haddasu a'u gweithredu mewn ffyrdd sy'n ystyried amgylchiadau penodol pob ysgol. Dylid datblygu'r canllawiau hyn mewn cydweithrediad agos â sefydliadau anabledd a phobl â phrofiad bywyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc. Dylid eu hadolygu'n rheolaidd.

**Argymhelliad 11.** Gan weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau ymarferol i ysgolion er mwyn eu helpu i ddeall y model cymdeithasol o anabledd a sut i fabwysiadu'r dull hwn ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Dylai'r canllawiau hyn fod mor ymarferol â phosibl, a dylid eu datblygu ar y cyd â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â sefydliadau anabledd. Dylid diweddaru'r canllawiau'n rheolaidd er mwyn ystyried datblygiadau. Dylai Estyn ymgymryd â gwaith monitro a gwerthuso

rheolaidd i weld sut y mae ysgolion yn rhoi'r canllawiau hyn ar waith, a'r effeithiau a gânt ar brofiadau plant a phobl ifanc.

**493.** Rydym wedi clywed am fodelau gwahanol ar gyfer staffio a all helpu i gefnogi darpariaeth gynhwysol. Mae'r strwythurau'n amrywio ledled Cymru. Er enghraifft, defnyddio Swyddog Cyswllt â Theuluoedd fel yr amlygwyd yn Enghraifft 4 o Arfer Da. Gwyddom hefyd o'n gwaith ehangach, y gall swyddi fel Swyddogion Cyswllt â Theuluoedd mewn lleoliadau prif ffrwd chwarae rhan hollbwysig o ran sicrhau bod plant a phobl ifanc nad ydynt yn anabl ac sy'n niwronodweddiadol yn gallu mynychu'r ysgol yn rheolaidd a gwneud y gorau o'r cyfleoedd y mae ysgolion yn eu cynnig.

**494.** Yn ein gwaith etholaethol, rydym hefyd yn ymwybodol o fathau eraill o rolau mewn awdurdodau lleol a all helpu i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac ysgolion. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall; ac o un ysgol i'r llall. Rydym yn ymwybodol bod swm y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol ac ysgolion yn elfen hollbwysig o hyn. Credwn fod angen ymchwilio ymhellach i ba fathau o strwythurau a staff a all gefnogi orau y broses o sicrhau darpariaeth gynhwysol.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd orau y gall staff nad ydynt yn staff addysgu mewn ysgolion ac awdurdodau lleol gefnogi darpariaeth gynhwysol ledled Cymru. Dylai hyn gynnwys nodi enghreifftiau o arferion gorau o bob rhan o Gymru. Dylai gwaith o'r fath hefyd ystyried y goblygiadau cyllido sy'n gysylltiedig ag arferion gorau, a'r ffordd orau o gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gyflawni hyn.

**495.** I rai plant a phobl ifanc, AHY neu fathau eraill o addysg fwy hyblyg fydd yr ateb cywir. Soniodd rhai aelodau o'n Grŵp Cynghori Ar-lein am eu profiadau cadarnhaol o hynny. Fodd bynnag, nid yw pawb yn ymwybodol o'r rhain fel opsiynau posibl. Mae hyn yn cysylltu â rhai o'r materion a amlygwn ym Mhennod 9.

### Mynediad at addysg ac amserlennu

**496.** Er i Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd ddweud y dylid defnyddio amserlenni â llai o oriau am gyfnodau cyfyngedig iawn o amser, mae'n amlwg nad dyma sy'n digwydd yn ymarferol. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth nid yn unig gan blant, pobl ifanc a theuluoedd, ond hefyd gan weithwyr proffesiynol addysg a gofal iechyd fod y defnydd o amserlenni â llai o oriau yn rhemp, ac y gallant gael eu defnyddio am gyfnodau maith.

**497.** Mae'n amlwg bod amserlenni â llai o oriau yn cael eu defnyddio mewn llawer o achosion oherwydd prinder adnoddau cywir i gefnogi anghenion plant a phobl ifanc, neu oherwydd bod hynny'n opsiwn haws na rhoi addasiadau ar waith i roi'r cymorth gorau i blentyn neu berson ifanc ffynnu yn eu lleoliad addysgol. Mae hyn yn gwbl annerbyniol, mae plant a phobl ifanc yn colli gormod o addysg na ellir ei hadfer yn hawdd.

**498.** Rydym yn cydnabod yn llwyr nad oes gan lawer o ysgolion yr adnoddau na'r gefnogaeth gywir i ddeall y ffordd orau o gefnogi plant a phobl ifanc. Ond nid yw defnyddio amserlenni â llai o oriau am y rhesymau hyn yn briodol.

**499.** Gwyddom y gall yr amserlenni hyn fod yn ddefnyddiol iawn i rai plant a phobl ifanc. Dim ond pan fydd hynny er lles y plentyn neu'r person ifanc y dylid eu defnyddio, nid i lenwi bylchau mewn ysgol. Rydym yn croesawu'r newyddion am ganllawiau mwy pwrpasol ac unigryw, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024.[576]

**500.** Mae'n bwysig inni gael golwg gliriach ar y graddau y mae amserlenni â llai o oriau yn cael eu defnyddio'n amhriodol, a'r ffactorau sy'n peri iddynt gael eu defnyddio yn y modd hwn. Mae'r canllawiau'n nodi'n glir na ddylid eu defnyddio yn y ffyrdd hyn. Mae bwlch gweithredu rhwng y canllawiau ac ymarfer. Credwn fod angen gwell dealltwriaeth o ba mor eang yw'r bwlch hwn. Gall defnydd amhriodol o amserlenni â llai o oriau gael effaith fawr ar blant a phobl ifanc, a'u teuluoedd. Mae'n hanfodol mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth ddefnyddio amserlenni â llai o oriau.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i'r defnydd o amserlenni â llai o oriau, sy'n cynnwys hyd yr amser y mae plant a phobl ifanc yn eu dilyn, y rhesymau dros eu defnyddio, a'r camau a gymerir i ddychwelyd plant a phobl ifanc i amserlen lawn. Dylai'r ymchwil hwn hefyd adolygu'r mecanweithiau a ddefnyddir pan na fydd y canllawiau'n cael eu dilyn, er mwyn sicrhau mai dim ond pan fo hynny'n briodol y defnyddir amserlenni â llai o oriau, a bod dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cael ei fabwysiadu wrth wneud penderfyniadau ar sut i'w defnyddio.

## Gweithredu'r Ddeddf a'r Cod ADY

**501.** Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym hefyd yn cyhoeddi ein hadroddiad interim ar weithredu diwygiadau addysg. Mae llawer o fanylion y newidiadau y

[576] Llywodraeth Cymru, Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, Ebrill 2024

credwn sydd eu hangen o ran diwygio ADY wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Yn benodol, hoffem dynnu sylw at yr argymhellion canlynol:

- argymhelliad 2 lle rydym yn galw am adolygiad o sut y caiff darpariaeth ADY ei hariannu mewn ysgolion prif ffrwd;
- argymhellion 5, 6 a 7 lle rydym yn galw am ragor o eglurder ynghylch y swydd-ddisgrifiadau a chyflog ac amodau ar gyfer staff addysgu a staff cymorth nad ydynt yn addysgu sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Ddeddf a'r Cod ADY. Yn ogystal â hynny, diweddariad am waith diweddar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyflogau a thelerau ac amodau cynorthwywyr addysgu;

**502.** Fodd bynnag, mae rhai materion a oedd yn rhan mor annatod o'r gwaith hwn fel y dymunwn wneud rhai sylwadau yma.

**503.** Mae'n amlwg bod datgysylltiad sylweddol rhwng yr hyn y mae teuluoedd yn ei brofi ar lawr gwlad, a'r darlun ehangach fel y'i disgrifir gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu dull newydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a ddisgrifiodd yn ystod ei sesiwn tystiolaeth lafar ddiweddar gyda ni, a'i bod yn derbyn bod rhai heriau sylweddol o ran cyflawni'r diwygiadau ADY. Gobeithiwn y bydd y gwaith hwn, ynghyd â'n gwaith arall yn ei helpu i nodi pa newidiadau sydd eu hangen.

**504.** Mae gormod o anghysondeb ar draws Cymru, na ellir ei briodoli i'r angen i ymateb i anghenion lleol gwahanol yn unig. Mae loteri cod post o ran cymorth y mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ei gael. Nid yw hyn yn dderbyniol. Mae angen mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn ar fyrder.

**505.** Un mater yr hoffem dynnu sylw ato hefyd, oherwydd ei fod yn arbennig o berthnasol i gwmpas yr ymchwiliad hwn, oedd y gwahanol ofynion ar awdurdodau lleol o gymharu â Byrddau Iechyd. Rydym yn tynnu sylw at argymhelliad 4 yn ein hadroddiad interim ar weithredu diwygiadau addysg sy'n galw am archwiliad pellach o effaith y Ddeddf ADY a'r Cod ar gydweithio rhwng y meysydd iechyd ac addysg.

## Bwlio

**506.** Mae'n amlwg bod nifer fawr o achosion o fwlio ar sail anabledd yn digwydd ar draws ysgolion yng Nghymru. Roedd rhai o'r ystadegau a glywsom yn frawychus, ynghyd â'r ffaith y derbynnir ei fod bron yn norm. Yn amlwg, bydd y gwaith ar wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anabledd yn helpu i leihau'r

agwedd bod bwlio ar sail anabledd yn cael ei dderbyn yn ddi-hid, ond bydd hynny'n cymryd amser.

**507.** Rydym yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, yn enwedig y canllawiau diwygiedig ar fwlio. Ond rydym yn rhannu pryderon y Comisiynydd Plant mai'r broses o weithredu'r canllawiau hyn sy'n destun pryder. Dywedodd ein Panel Cynghori Ar-lein wrthym fod bwlio yn aml yn rhywbeth nad yw pobl yn sylwi arno, ac weithiau nid yw staff yn sylweddoli pan fydd bwlio'n digwydd. Mae'n bwysig bod yr holl ganllawiau neu bolisïau gwrth-fwlio yn gadarn, ac yn sicrhau bod pawb, boed yn blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a staff ysgol, yn ymwybodol o arwyddion bwlio.

**508.** Awgrymodd ein Panel Cynghori Ar-lein y gallai gofal bugeiliol mewn ysgolion gael ei ategu gan staff nad ydynt yn staff addysgu megis gweithwyr ieuenctid. Rydym yn cydnabod bod gan ofal bugeiliol nad yw'n cael ei ddarparu gan athrawon yn unig rôl bwysig i'w chwarae yn hyn o beth. Credwn fod cyfle i ymchwilio i'r ffordd orau o ddarparu'r math hwn o ofal bugeiliol mewn ysgolion. Credwn fod hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried fel rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig ag Argymhelliad 12.

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

**509.** Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn byw mewn gwlad amlieithog, gyda system addysg a ddylai fod yn rhoi'r dewis i bob plentyn gael ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Ond i lawer gormod o blant a phobl ifanc nid yw'r system yn eu cefnogi i wneud hynny. Yn rhy aml rydym wedi clywed am sut y mae teuluoedd wedi gorfod newid iaith eu cartref er mwyn cefnogi eu plentyn i fynd i ysgol a fydd yn cefnogi ei anghenion. Ni ddylai unrhyw deulu orfod gwneud hynny.

**510.** Er ein bod yn trafod y mater ehangach o ddewis mewn addysg a gofal plant yn ddiweddarach yn yr adroddiad, ar hyn o bryd mae llawer gormod o deuluoedd y mae eu dewis wedi'i gyfyngu, oherwydd na allant gael addysg cyfrwng Cymraeg. Rydym wedi clywed am yr ystod eang o resymau am hyn, gan gynnwys prinder staff Cymraeg (mewn ysgolion ond hefyd gweithwyr proffesiynol allweddol eraill fel therapyddion lleferydd ac iaith) a phrinder adnoddau Cymraeg.

**511.** Mae problemau recriwtio a chadw sylweddol mewn perthynas ag athrawon yn gyffredinol (mater yr ydym yn debygol o edrych arno'n fanylach yn y misoedd nesaf) ond mae hyn yn arbennig o ddifrifol o ran staff cyfrwng Cymraeg, a hyd yn oed yn fwy felly i staff sy'n gallu cefnogi dysgwyr ag ADY. Mae hyn yn rhywbeth y

mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn, ac mae elfen benodol o'i chynllun recriwtio deng mlynedd sy'n edrych ar hyn. Ond ar hyn o bryd mae argyfwng o ran recriwtio a chadw staff addysg cyfrwng Cymraeg.

**512.** Rydym yn croesawu'r penderfyniad i greu Adnodd, a fydd yn canolbwyntio o'r newydd ar sicrhau bod adnoddau addysg dwyieithog yn cael eu creu. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod angen cymryd camau yn awr, oherwydd i blant a phobl ifanc sydd mewn addysg ar hyn o bryd, mae eu cyfleoedd i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn araf lithro oddi wrthynt.

### Adnoddau ysgol

**513.** O ganlyniad i'n holl waith, ond yn arbennig ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru dros flynyddoedd olynol, rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau ar gyllidebau ysgolion. Gwyddom fod yn rhaid i ysgolion wneud penderfyniadau anodd dros ben, a all olygu nad yw plant a phobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Roeddem wedi ein synnu, ac yn teimlo'n rhwystredig a dweud y gwir, gan y dystiolaeth a glywsom gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol a oedd yn awgrymu oherwydd bod gan ysgolion ddyletswydd statudol i ddarparu cymorth ADY y byddai hyn yn arwain at benderfyniadau ynglŷn â chymorth i blant unigol. Oherwydd mae'n amlwg nad yw hyn yn digwydd. Mae'r math hwn o ddatgysylltiad oddi wrth yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad yn achos pryder.

**514.** Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu cyllid i awdurdodau lleol a bod cyllid ar gyfer ysgolion yn cael ei flaenoriaethu. Ond fel y cydnabu Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, mae'r codiadau hyn wedi cael eu llyncu gan chwyddiant a phwysau'n ymwneud â chostau byw. Mae cyllidebau ysgolion yn aros yn eu hunfan ar y gorau, ac mewn rhai mannau maent yn gostwng. Yn syml, nid oes digon o adnoddau ar gyfer ysgolion, ac mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar eu gallu i gyflawni, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth gynhwysol.

**515.** Eto i gyd, ar yr un pryd gofynnir i ysgolion wneud mwy a mwy, yn ogystal â gweithredu diwygiadau addysg pwysig mewn dau faes enfawr. Rydym yn pryderu nad yw'r cyllid, hyd yn oed gyda'r codiadau, yn ddigonol, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cymorth y mae dysgwyr unigol yn ei gael. Nid yw hyd yn oed addasiadau syml, rhad yn cael eu gwneud, er gwaethaf y ffaith bod y rhain yn arbed arian yn yr hirdymor, gan y gall plant a phobl ifanc sy'n cael y cymorth cywir barhau i ffynnu ym myd addysg wedyn.

**516.** Er ein bod yn croesawu adolygiad cyllid Llywodraeth Cymru, mae angen cymryd camau pendant yn gyflym, a fydd yn arwain at ddyraniadau cyllid cliriach a mwy atebol, y gall pawb gael mynediad atynt a'u deall.

**Argymhelliad 14.** Wrth ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad o gyllid ysgolion, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n gyhoeddus sut y bydd yn bwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion neu gamau gweithredu sy'n deillio ohono, a nodi amserlen glir ar gyfer cyflawni'r camau hyn. Yn benodol, dylai amlinellu sut y bydd gwell cysondeb yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt mewn ysgolion.

**517.** Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y darparwyd arian ychwanegol i helpu gyda'r adferiad o'r pandemig. Nodwn fod "babanod y pandemig" bellach yn dechrau addysg blynyddoedd cynnar ac yn dechrau mynd i'r ysgol. Treuliwyd eu dyddiau, eu hwythnosau, eu misoedd a'u blynyddoedd cyntaf mewn cyfnodau clo, ac mae ysgolion yn adrodd am effaith hyn ar eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Mae'n hanfodol bod arian ychwanegol yn parhau i fod ar gael fel y gall ysgolion helpu i gefnogi babanod y pandemig. I'r plant hynny sydd o fewn cwmpas ein hymchwiliad, mae'n bosibl bod yr effeithiau hyn yn fwy sylweddol.

**518.** Drwy gydol yr ymchwiliad, rydym wedi clywed am rôl ganolog cynorthwywyr addysgu wrth gefnogi plant a phobl ifanc i ffynnu a mwynhau addysg. Maent hefyd yn rhan annatod o sicrhau darpariaeth gynhwysol gyson. Maent yn rhan hanfodol o'r gweithlu, ac ni ddylent gael eu hystyried yn "ychwanegiadau". Clywsom enghreifftiau cadarnhaol o sut y gall y cymorth cywir wneud gwahaniaeth gwirioneddol, megis y plentyn a lwyddodd i sefyll nifer o arholiadau TGAU ar ôl i'w deulu frwydro'n galed iddo gael addysg brif ffrwd (gweler paragraff 239). Rydym hefyd wedi gweld yn ystod ein hymweliadau ymroddiad a brwdfrydedd y rhan bwysig hon o'r proffesiwn addysg, ac eto'r rolau hyn yn aml yw'r rhai cyntaf i fod dan fygythiad pan fydd angen gwneud toriadau ariannol mewn ysgol.

**519.** Mae hyn yn creu ansicrwydd parhaus i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Os yw'r cymorth cywir yn ei le, maent yn pryderu y gallai gael ei dynnu oddi arnynt ar fyr rybudd, ac os ydynt yn ceisio cael gafael ar y math hwn o gymorth, maent yn poeni na fyddant byth yn ei gael.

**520.** Ceir hefyd y mater pwysig o barhad gofal oherwydd, fel y dywedwyd wrthym, perthnasoedd yw'r prif ffactor sy'n gysylltiedig â deilliannau addysgol. Ni ellir anghofio hynny. Mae cael gwared ar gynorthwywyr addysgu nid yn unig yn

effeithio ar y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n cael cymorth gan yr aelodau penodol hynny o staff, ond mae hefyd yn effeithio ar yr ystafell ddosbarth ehangach, gan fod yr athro wedyn yn gorfod gwneud mwy gyda llai o gymorth.

**521.** Teimlwn yn gryf fod angen i ysgolion ac awdurdodau lleol gael cyllid digonol i gadw'r gweithlu cynorthwywyr addysgu. Gall hyn olygu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn darparu cyllid ychwanegol. Gwyddom fod cyllideb Llywodraeth Cymru yn hynod o dynn, ac mai cyfyngedig yw ei hopsiynau, ond credwn yn gryf iawn fod cynorthwywyr addysgu mor hanfodol i ddarparu system addysg fwy cynhwysol, fel y dylid eu blaenoriaethu.

**522.** Gwnaeth ein Grŵp Cynghori Ar-lein argymhellion mewn rhai meysydd, argymhellion yr ydym yn cytuno â nhw. Roedd yn galw am ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer cyflyrau cyffredin fel dyslecsia ym mhob ysgol. Byddai hyn yn arbed arian i ysgolion yn yr hirdymor gan nad oes rhaid iddynt brynu cymorth ychwanegol yn flynyddol. Gellir gwneud arbedion eraill hefyd drwy ddatblygu adnoddau ar gyfer Cymru gyfan. Rydym yn cefnogi hyn ac yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith i nodi ystod o gyflyrau cyffredin y byddai hyn yn fwyaf defnyddiol ar eu cyfer, ac i'r adnoddau a'r cymorth hyn gael eu datblygu a'u cyflwyno ledled Cymru. Cyflyrau cyffredin fyddai'r rhai megis dyslecsia sy'n gyffredin ar draws gwahanol garfannau ysgol ond a allai arwain at rwystrau ychwanegol i gael mynediad at addysg, a lle y gallai fod yn rhaid i ysgolion brynu darpariaeth arbenigol i mewn ar hyn o bryd i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn.

**Argymhelliad 15.** Tudalen Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r cyflyrau mwyaf cyffredin, megis dyslecsia, a fyddai'n elwa o ddatblygu darpariaeth gyffredinol a chymorth a'u darparu i bob ysgol. Dylid gwneud hyn drwy ymgynghori â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â gweithwyr addysg proffesiynol, awdurdodau lleol, a gweithwyr iechyd proffesiynol. Ar ôl i'r gwaith hwn gael ei wneud, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen glir ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth gyffredinol hon. Dylai'r ddarpariaeth hon fod ar gael am ddim i bob ysgol.

**523.** Argymhellodd y Panel Cynghori Ar-lein hefyd y dylid clustnodi cyllid ar gyfer cymorth ychwanegol a chyhoeddi canllawiau i roi cyfarwyddyd ysgolion ar yr hyn y dylid ei ddyrannu. Mae hyn oherwydd bod gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu dogni oherwydd diffyg cyllid. Rydym yn deall mai safbwynt Llywodraeth Cymru fu rhoi'r gorau i neilltuo cyllid, ac rydym yn cefnogi hynny i raddau helaeth. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai cyllid a ddylai fod yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r grwpiau hyn o blant a phobl ifanc fynd ar goll ym mlaenoriaethau pwysig eraill ysgolion ac awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'n glir gyfrifoldebau a dyletswyddau awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau eu bod yn darparu'r cymorth angenrheidiol fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu manteisio ar ei hawl i addysg. Dylai hefyd ystyried a fyddai clustnodi cyllid yn ffordd effeithiol a phriodol o sicrhau bod arian y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio i gefnogi'r grwpiau hyn o blant a phobl ifanc yn cael ei wario yn y ffordd honno.

### Hyfforddiant i staff ysgol a'u gwybodaeth

**524.** Mae sicrhau bod holl staff ysgolion yn meddu ar y lefelau cywir o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r ystod lawn o wahanol anableddau ac anghenion yn hanfodol. Clywsom gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd am y gwahaniaeth sylweddol y gall hyn ei wneud, a sut y mae gwahaniaethu'n rhemp heb hynny.

**525.** Rydym hefyd yn hynod ymwybodol o'r pwysau a roddir ar staff ysgolion mewn ystod eang o feysydd. Maent yn gorfod datblygu arbenigedd mewn meysydd ble nad oedd disgwyl iddynt wneud hynny ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae hyn yn wyneb hinsawdd ariannol heriol, lefelau cynyddol o anghenion ac effeithiau hirdymor y pandemig. Rydym yn llwyr werthfawrogi'r heriau hyn.

**526.** Mae gwybodaeth glinigol am rai cyflyrau a gwahanol fathau o anghenion yn datblygu mor gyflym, fel y gall fod yn anodd aros ar flaen y gad, ac yna ymgorffori hynny mewn ymarfer. Gall hyn fod yn her arbennig i ysgolion a staff addysg.

**527.** Mae angen i ddarpariaeth AGA ganolbwyntio mwy ar anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol. Nodwn fod y meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni AGA o fis Medi 2024 yn cynnwys y canlynol:

> *"Dylai athrawon dan hyfforddiant ddeall egwyddorion ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person, y Cod a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, ei ddiben a'i ethos a'r cyfrifoldeb o addysgu ymarferwyr ac ysgolion gan gynnwys rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol."*[577]

**528.** Mae hefyd yn nodi y dylai myfyrwyr fod yn gyfarwydd â Deddf Cydraddoldeb 2010, CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Er ein bod yn croesawu hyn, credwn fod angen iddo fynd ymhellach o lawer. Dylai fod mwy o ffocws mewn AGA ar ddulliau a chamau gweithredu a fydd yn helpu i feithrin hyder a gallu athrawon wrth addysgu plant a phobl ifanc.

[577] Llywodraeth Cymru, Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol addysgu yng Nghymru, Mai 2023

Galwodd ein Panel Cynghori Ar-lein hefyd am fodiwlau gorfodol mewn AGA sy’n canolbwyntio ar sut i addysgu plant a phobl ifanc sydd o fewn cwmpas yr ymchwiliad.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu’r meini prawf ar gyfer AGA i gryfhau’r gofynion ynghylch anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol. Dylai hyn sicrhau bod gan bob athro, ar ddiwedd ei AGA, lefel sylfaenol o sgiliau a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag anabledd ac ADY a bod ganddo’r hyder i gefnogi’r holl blant a phobl ifanc y mae’n eu haddysgu. Dylid hefyd sicrhau bod AGA yn cynnwys y wybodaeth glinigol ddiweddaraf fel bod gan athrawon sydd newydd gymhwyso y wybodaeth ddiweddaraf i fod yn sail i’w hymarfer.

**529.** Nodwn yr adborth a gawsom gan staff ysgol am yr heriau o ran sicrhau bod cynorthwywyr addysgu yn ymgymryd ag AGA. Yn benodol, nodwn yr adborth ynghylch y ffaith nad ydynt yn gallu arbenigo mewn lleoliadau arbennig, yn ystod hyfforddiant i athrawon er nad ydynt yn dymuno gweithio mewn lleoliadau prif ffrwd. Rydym yn ymwybodol iawn bod heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw staff profiadol mewn ysgolion arbennig, sy’n wynebu pwysau cynyddol o ran capasiti. Credwn y byddai ystyried sut y gellir cefnogi hyn yn well yn helpu i annog mwy o bobl i ddod yn athrawon, yn ogystal â gallu parhau i ddatblygu eu sgiliau a’u profiad presennol mewn lleoliad arbenigol.

**530.** Yn y diweddariad diwethaf o feini prawf AGA, nododd Llywodraeth Cymru bryderon ynghylch rhaglenni AGA ar gyfer y sector ysgolion arbennig. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i “archwilio’r pryderon hyn a gwneud argymhellion ynghylch y ffordd orau o fynd i’r afael â’r materion a nodwyd.” Byddai’r gwaith hwn yn cynnwys cael trafodaeth gyda’r gweithlu ac arbenigwyr ynghylch beth yw anghenion y gweithlu a sut y mae AGA presennol yn cefnogi hyn, yn ogystal â chyflwyno rhywfaint o “hyblygrwydd dros dro i’r meini prawf ar gyfer achredu” AGA.[578] Nid yw’n glir adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn beth fu canlyniad y gwaith hwn.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar ei gwaith ar ddarpariaeth AGA ar gyfer y sector ysgolion arbennig.

**531.** Fel y nodwyd gennym yn gynharach, credwn fod angen canllawiau ymarferol cryfach i ysgolion ar y model cymdeithasol o anabledd. Yn gysylltiedig â hyn, mae’r angen i ddarparu hyfforddiant gorfodol ymwybyddiaeth o anabledd ar y model

[578] Llywodraeth Cymru, Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, Mai 2023

cymdeithasol o anabledd i holl staff ysgolion. Roedd hwn hefyd yn argymhelliad a awgrymwyd gan ein Panel Cynghori Ar-lein, ac rydym yn ei gefnogi. Credwn y byddai hwn yn gam hollbwysig i sicrhau bod gan staff yr hyder i ddeall materion sylfaenol yn ymwneud ag anabledd a allai wedyn lywio ymarfer o fewn ysgolion.

**532.** Nid cyfrifoldeb arweinwyr ysgol ac athrawon o fewn yr ysgol yn unig yw hyn. Dylai fod yn orfodol i holl staff yr ysgol. Fel y mae'r adroddiad yn ei amlinellu drwyddo draw, mae gormod o achosion lle nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu trin â pharch oherwydd agweddau hen ffasiwn. Nid ydym yn beirniadu staff ysgolion, ond rydym yn cydnabod, os nad ydynt wedi cael yr hyfforddiant cywir, na fyddant o reidrwydd yn gwybod sut i ymateb i rai sefyllfaoedd. Credwn y dylai hyn fod yn debyg i wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, lle mae'n rhaid i'r holl staff fod wedi dilyn lefel sylfaenol o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth anabledd fel un o ofynion craidd eu rôl. Credwn ei bod yn bwysig fod pobl sydd â phrofiad bywyd yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r hyfforddiant hwn ond hefyd, lle bo modd, yn y broses o gyflwyno'r hyfforddiant.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu modiwl hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth o anabledd i holl staff ysgolion. Dylai hyn gynnwys y model cymdeithasol o anabledd, a sicrhau bod gan bob aelod o staff yr ysgol lefel sylfaenol o ymwybyddiaeth, yn ogystal â'u cyfeirio at adnoddau eraill os ydynt am ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd. Dylai hefyd gyd-fynd â'r ymchwil a'r wybodaeth glinigol ddiweddaraf, a chael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau dilynol.

**533.** Er ei bod yn bwysig sicrhau bod gan bob aelod o staff yr un lefel sylfaenol o ymwybyddiaeth, mae hefyd yn bwysig bod hyfforddiant a chymorth ar gael sy'n diwallu anghenion ysgolion penodol a phlant a phobl ifanc penodol. Dylai ysgolion gael mynediad gwell at hyfforddiant penodol sy'n eu galluogi i gefnogi anghenion unigolion yn well. Gan fod cyllidebau ysgolion mor dynn, rydym yn pryderu nad oes cyfle bob amser i ariannu cyfleoedd hyfforddi o'r fath.

## Ystadau ysgolion

**534.** Mae'n amlwg bod y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi arwain at rai adeiladau ysgol newydd gwych ledled Cymru. Mae rhai o'r ysgolion hyn hefyd wedi rhoi hygyrchedd wrth wraidd y broses gynllunio ac adeiladu. Ond rydym hefyd yn ymwybodol bod rhai ysgolion sydd wedi cael eu hadeiladu o dan y cynllun hwn a chanddynt ardaloedd sy'n anhygyrch i rai plant a phobl ifanc.

**535.** Wrth ddylunio a datblygu'r adeiladau newydd hyn, mae'n hanfodol bod profiad y defnyddiwr yn ganolog i'r broses. Dylai hyn nid yn unig ystyried anghenion plant, pobl ifanc a staff presennol yr ysgol ond hefyd anghenion pobl eraill a allai ddod i'r ysgol yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, rydym am weld canllawiau'n cael eu cyhoeddi i ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau y gwneir gwaith ymgysylltu ystyrlon gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd â phrofiad bywyd er mwyn sicrhau y gall yr ystâd ffisegol ddiwallu anghenion pawb. Ni ddylai unrhyw ysgol newydd fod yn anhygyrch i neb. Credwn fod hwn yn ateb cymharol hawdd a allai arwain at fanteision hirdymor, gan ehangu'r dewis sydd ar gael i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a bydd yn gwneud ystadau ysgol yn fwy croesawgar i bawb, ac yn helpu i gefnogi cyrhaeddiad addysgol.

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod adeiladau newydd, neu newidiadau i ystadau ysgolion presennol, yn seiliedig ar brofiadau a thystiolaeth plant, pobl ifanc, teuluoedd a staff sydd â phrofiad bywyd o anabledd. Dylai'r gwaith ymgysylltu hwn hefyd sicrhau bod anghenion y dyfodol yn cael eu hystyried fel bod adeiladau'n gwbl hygyrch i bawb a allai eu defnyddio yn y dyfodol.

## Teithio gan Ddysgwyr

**536.** Mae teithio gan ddysgwyr yn broblem i blant a phobl ifanc nad ydynt yn anabl a'r rhai sy'n niwronodweddiadol ledled Cymru, ond mae'r heriau hyn hyd yn oed yn fwy i blant a phobl ifanc a gwmpesir gan yr ymchwiliad hwn. Rydym wedi clywed droeon bod eu gallu i ymgysylltu'n llawn â phopeth y gall ysgolion ei gynnig yn cael ei gyfyngu gan gludiant i ddysgwyr. Yn ogystal, gall fod problemau gydag ansawdd y trefniadau teithio sydd ar gael i ddysgwyr.

**537.** Mae gallu cyrraedd a gadael yr ysgol yn ddiogel yn gwbl hanfodol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad i'r ysgol. Os nad yw hyn yn bosibl, mae popeth arall yn methu. Credwn fod angen edrych ar y mater hwn yn fwy cyfannol drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac nid ydym yn credu bod hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Mae gormod o weithio mewn seilos o fewn Llywodraeth Cymru sy'n atal y cyfleoedd i ddod o hyd i atebion arloesol a allai ddatgloi gwelliannau enfawr, nid yn unig i blant a phobl ifanc ond i'w teuluoedd.

**538.** Os nad yw plentyn yn gallu mynd i'r ysgol, nid yw rhiant neu ofalwr yn gallu mynd i'r gwaith, a gall hynny gael effeithiau economaidd hirdymor ac effeithiau ar lesiant meddyliol yn yr hirdymor. Effeithiau y gall fod yn rhaid i'r wladwriaeth eu hysgwyddo. Byddwn yn edrych ar yr effeithiau hyn yn fanylach mewn penodau

diweddarach, ond mae'n bwysig gwneud y cysylltiadau hyn drwy'r adroddiad cyfan.

**539.** Er bod yr adolygiad Teithio gan Ddysgwyr wedi nodi rhai arferion arloesol, rydym am weld mwy yn cael ei wneud i gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau arloesol sy'n helpu i ddatrys rhai o'r problemau yr ydym wedi'u nodi yn yr adroddiad (ac mae Llywodraeth Cymru yn derbyn eu bod yn broblemau). Mae'r angen am fecanweithiau gwell ar gyfer rhannu arferion da ledled Cymru yn hollbwysig.

**Argymhelliad 21.** Tudalen Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhagor o fecanweithiau i sicrhau bod mwy o gyfleoedd i rannu a lledaenu arferion da ac arloesol mewn perthynas â theithio gan ddysgwyr. Gallai hyn gynnwys uwchgynhadledd flynyddol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet neu'r Gweinidog perthnasol.

**540.** Rydym yn siomedig nad oedd yr adolygiad Teithio gan Ddysgwyr yn fwy beiddgar o ran ystyried newid mwy systematig i'r ddeddfwriaeth sy'n sail i deithio gan ddysgwyr. Gan ei fod mor hanfodol er mwyn cael mynediad at addysg, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi achub ar y cyfle. Gwyddom fod yn rhaid i bob llywodraeth flaenoriaethu, ac mae hyn yn arbennig o wir yn yr hinsawdd ariannol bresennol, ond credwn fod hwn yn faes a ddylai gael y flaenoriaeth bennaf.

**541.** Mae gan gludiant gysylltiadau ehangach â llesiant economaidd, corfforol a meddyliol ledled Cymru, ac mae'n cael effaith uniongyrchol o ddydd i ddydd ar gynifer o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ledled Cymru. Wedi dweud hynny, rydym yn croesawu'r adolygiad o'r canllawiau statudol fel y cam gorau ond un. Ond ar ôl gweld yr adolygiad ei hun yn cael ei ohirio, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i ddiweddaru'r gyfres hon o ganllawiau statudol. Rydym yn pryderu ynghylch y ffaith bod gwahanol awdurdodau lleol yn gweithredu'r canllawiau presennol mewn modd anghyson. O'n gwaith achos ein hunain, rydym yn ymwybodol o'r gwahanol ffyrdd y gallant ymateb i wahanol fathau o gyflyrau. Er enghraifft, gwyddom nad yw anableddau neu gyflyrau corfforol bob amser yn cael eu hystyried yn briodol pan wneir penderfyniadau.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu'r gwaith o adolygu a chyhoeddi'r pecyn o ganllawiau teithio statudol i ddysgwyr. Wrth ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen glir ar gyfer adolygu'r canllawiau a dyddiad cyhoeddi pendant, gan nodi pryd y daw'r

canllawiau diwygiedig i rym. Dylai hefyd nodi sut y bydd yn sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso'n gyson ledled Cymru.

**542.** Mae'n amlwg bod heriau sylweddol o ran cynyddu'r opsiynau ar gyfer cludiant hygyrch i ysgolion, gan gynnwys, yn benodol, diffyg cerbydau hygyrch a all fodloni'r cynnydd yn y galw. Roedd problemau eraill a amlygwyd yn cynnwys prinder pobl sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, a natur anneniadol y contractau, sy'n golygu mai prin yw'r cwmnïau cludiant sy'n fodlon neu sy'n gallu ymgymryd â'r contractau.

**543.** Credwn fod angen mwy o gyfleoedd i gwmnïau trafnidiaeth gael mynediad at hyfforddiant sy'n eu helpu i fod yn fwy hyderus wrth ymgymryd â'r mathau hyn o gontractau teithio i ddysgwyr, yn ogystal â rhoi sicrwydd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd y bydd staff cludiant yn gallu eu cefnogi'n ddigonol. Mae'n bosibl y gellid cyflwyno fel hyfforddiant ar-lein. Credwn fod yr awgrymiadau ynghylch sicrhau bod math o achrediad ar gael yn un sy'n werth ymchwilio ymhellach iddo.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ffyrdd o sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi priodol ar gael i gwmnïau cludiant a'u staff er mwyn meithrin hyder a sgiliau wrth gefnogi plant a phobl ifanc. Fel rhan o hyn, dylid ystyried datblygu achrediad ar gyfer staff.

# 6. Beth yw'r effeithiau ar iechyd meddwl, llesiant a deilliannau addysgol?

Mae diffyg mynediad cyfartal at ofal plant ac addysg yn cael effeithiau difrifol ac arwyddocaol ar iechyd meddwl, llesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cael sgil-effaith ar y teulu cyfan, ac effeithiau sylweddol ar lesiant teuluoedd a hyd yn oed incwm aelwydydd.

## Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant

### Plant a phobl ifanc

**544.** Dywedodd Blynyddoedd Cynnar Cymru y gall fod yn anodd mesur effeithiau mynediad anghyfartal ar iechyd meddwl a llesiant plant ifanc iawn. Ond dywedodd y gall diffyg rhyngweithio cymdeithasol gyda'u cyfoedion gael effaith negyddol arnynt yn ddiweddarach mewn bywyd.[579] Yn ôl rhiant a ymatebodd i arolwg Heledd Fychan AS:

> *"Bu'n rhaid i ni wylio ein plentyn 4 mlwydd oed yn ei dagrau oherwydd sut y cafodd ei thrin. Fe wnaethon ni dreulio 10 wythnos gartref yn datblygu ei hyder unwaith eto."*[580]

**545.** Dywedodd y Comisiynydd Plant fod yr holl dystiolaeth y mae hi wedi'i gweld yn dangos bod iechyd meddwl plant ag anableddau yn waeth nag iechyd meddwl eu cyfoedion a'u bod yn llawer mwy tebygol o deimlo'n drist, yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n hapus ac yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel. [581]

[579] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53 Blynyddoedd Cynnar Cymru
[580] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
[581] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 59-60

**546.** Tynnodd Platfform sylw at bwysigrwydd addysg i iechyd meddwl a llesiant. Dywedodd fod ei effaith yn dod yn fwy cymhleth a rhyng-gysylltiedig pan fydd ffactorau eraill fel anabledd a niwroamrywiaeth yn cael eu hystyried.[582] Dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu y gall y gwahaniaethu y mae plant a phobl ifanc yn ei ddioddef waethygu salwch meddwl presennol a/neu gyflwyno heriau newydd.[583]

**547.** Gall profiadau ysgol negyddol gyfrannu at orbryder a phroblemau ymlyniad plentyn. Gall plant deimlo eu bod yn cael eu cau allan, a'u bod wedi'u hynysu'n gymdeithasol. Codwyd hyn gan wahanol randdeiliaid gan gynnwys Platfform.[584] Gall hyn waethygu yn sgil y rhai sydd angen cymorth clinigol yn gorfod aros am amser maith i gael cymorth, hyd yn oed y rhai mewn argyfwng:

> *"Mae wedi dweud wrth staff yr ysgol ei fod wedi meddwl am hunanladdiad ac rydym wedi cael ein rhoi ar restr aros yr ydym wedi bod arni am ddwy flynedd bellach."*[585]

**548.** Ac eto, gall bod mewn ysgol sy'n cefnogi anghenion plentyn yn briodol gael effaith arwyddocaol ar lesiant meddyliol, fel y dywedodd y plentyn hwn wrthym:

> *"Yn fy hen ysgol, roedd diffyg darpariaeth ar gyfer fy anghenion, roeddwn i'n llefain bob dydd, yn sownd yn y cylch diddiwedd yma o fynd i'r ysgol, cael fy mwlio, dod adref, llefain, cysgu a gwneud y cyfan eto. Roedd fy ngwaith ysgol yn dioddef oherwydd bod rhaid i mi ganolbwyntio o hyd ar f'amddiffyn fy hun. Ond yn fy ysgol newydd, mae'r ddarpariaeth yn well o lawer ac mae gen i lawer mwy o gyfeillion sy'n fy neall i erbyn hyn. Mae gennym hyd yn oed rai athrawon niwrowahanol. Mae cael mynediad at gymorth ADY a chymorth llesiant wedi bod yn help aruthrol. Rwy'n tueddu i roi mwy o sylw i lesiant ac rwy'n mynd i'w canolfan ddwywaith y dydd."*[586]

**549.** Rydym wedi clywed drwy gydol ein hymchwiliad y bydd plant yn aml yn 'masgio' - camau neu strategaethau ymdopi y mae pobl yn eu defnyddio i guddio eu meddyliau, eu hemosiynau, neu heriau er mwyn ffitio i mewn - pan fyddant

[582] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 39 Platfform
[583] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 49, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
[584] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 39 Platfform
[585] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[586] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023

mewn lleoliadau gofal plant neu addysg. Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain fod masgio yn arwain at ganlyniadau difrifol i ddatblygiad a chyrhaeddiad plentyn. Mae hyn yn achosi amrywiaeth o broblemau a all effeithio ar lesiant plentyn. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod masgio yn gallu cuddio gwir faint yr heriau y mae plentyn yn eu hwynebu ac y gallai rhai ysgolion wrthod cydnabod bod problem. Rydym wedi tynnu sylw at y mater hwn ym mharagraffau 222 a 666.

**550.** Dywedodd Chwarae Cymru fod diffyg lleoliadau cynhwysol yn ystod gwyliau'r ysgol gwneud i blant a phobl ifanc deimlo eu bod "wedi'u hynysu",[587] a dywedodd UCAC y gall diffyg cyfleoedd effeithio'n arbennig ar "bobl ifanc sydd o oedran ysgol uwchradd" a all deimlo'n "rhwystredig na allant gymdeithasu fel eu cyfoedion." Dywedodd y gall hyn arwain at broblemau ar y cyfryngau cymdeithasol.[588]

**551.** Gall cael eu heithrio o agweddau penodol ar fywyd ysgol effeithio ar lesiant. Disgrifiodd un rhiant yr effaith fawr ar lesiant meddyliol ei phlentyn pan gafodd ei eithrio o deithiau a digwyddiadau:

> *"... which is discrimination and only telling him the day before or asking me to break the news is very unprofessional and needs to be managed better. All of this has resulted in my sons mental health being impacted and self hard and suicidal ideation which have worked so hard to improve."*[589]

**552.** Dywedodd Anabledd Dysgu Cymru y gall dyheadau isel ar gyfer y grwpiau hyn o blant a phobl ifanc hefyd gael effaith sylweddol ar iechyd meddwl. Mae plant a phobl ifanc wedi dweud wrtho na ofynnwyd iddynt erioed beth roeddent eisiau bod pan fyddent yn oedolion.[590]

**553.** Clywsom am yr effaith ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc. Amlygodd Cŵn Tywys Cymru ac RNIB Cymru fod llesiant ac iechyd meddyliol y rhai ag amhariad ar eu golwg yn waeth na llesiant ac iechyd meddyliol eu cyfoedion. [591] Tynnodd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth sylw at ymchwil gan Brifysgol Abertawe a ganfu fod 77% o blant a phobl ifanc awtistig a gyfrannodd at yr astudiaeth yn dweud bod yr ysgol wedi gwneud iddynt deimlo'n ofidus neu'n

[587] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 37 Chwarae Cymru, paragraffau 1.11
[588] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 67 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
[589] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 22 Unigolyn
[590] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 180
[591] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector

bryderus a bod 43% yn anhapus yn yr ysgol.[592] Dywedodd Diabetes UK Cymru fod arolwg o rieni a gofalwyr plant â diabetes math 1 wedi canfod bod 50.73% o'r rhai a ymatebodd yn meddwl bod diabetes wedi cael effaith negyddol ar orbryder ac iechyd meddwl eu plentyn mewn perthynas â'r ysgol.[593]

**554.** Cododd rhieni bryderon am ddiffyg cymorth iechyd meddwl. Dywedwyd wrthym fod plant a phobl ifanc niwrowahanol yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r ysgol neu gael eu gwahardd o'r ysgol gan gyfyngu ar eu gallu i gael mynediad at ddarpariaeth iechyd meddwl yn yr ysgol. Roeddent yn galw am fodel cynaliadwy ar gyfer y trydydd sector i helpu i lenwi'r bylchau yn y cymorth, yn enwedig yn y meysydd hynny lle mae mynediad cyfyngedig i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a gwasanaethau niwroamrywiaeth.[594]

**555.** Cefnogwyd y dull system gyfan gan lawer, ond roedd galwadau i hynny fynd ymhellach:

> *"… a whole system approach where these learners have open access to mental health support but also that their needs as a family are being met so they do not travel down the mental health spectrum in the first place. It should be a mandatory requirement that the whole system supports families within schools 'Team Around the Family' to ensure the most vulnerable are protected and to [not] just provide support to those families who shout the loudest. We have to be more proactive in meeting needs earlier and review support on a graduated response and needs led basis."*[595]

**556.** Dywedodd un teulu wrthym, er gwaethaf sgyrsiau gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol, a'r ffaith bod ei blentyn wedi cael diagnosis, nad oedd unrhyw atebolrwydd gwirioneddol am y blynyddoedd y gadawyd eu plentyn heb gymorth a'r niwed emosiynol a ddioddefodd y plentyn a'r teulu o ganlyniad i hynny. Gofynnodd hefyd pam mai teuluoedd oedd yn gyfrifol am fynd ar drywydd cwynion pan fo tystiolaeth glir nad yw ysgol wedi cydymffurfio â'i dyletswyddau cyfreithiol. Er ei bod yn galonogol clywed bod pethau wedi gwella ers hynny i'r plentyn hwn a'i

[592] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
[593] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 68 Diabetes UK Cymru
[594] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 52 Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol
[595] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 52 Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol

deulu, sydd bellach yn cael y cymorth un-i-un yr oedd ei angen arno, ni ddylai fod wedi cymryd cymaint o amser ac ni ddylai fod wedi achosi cymaint o niwed.[596]

**557.** Soniodd nifer o deuluoedd am yr effaith drawmatig a gafodd yr ysgol ar eu plant, a sut y gall hyn gael effaith hirdymor:

***Astudiaeth Achos 8***

*"... My child was one of the tiny demographic for whom not only was mainstream inaccessible, it was cruel and traumatizing. So traumatizing that it left child unable to even access the wonderful specialist teaching facilities that abound in our area. There is no mental health support whatsoever available for these traumatized kids who are now left dealing with secondary mental health conditions such as anxiety disorders and ptsd on top of the struggles created by their original disability."*[597]

**558.** Codwyd yr effeithiau hirdymor hynny hefyd gan eraill, gan gynnwys Anabledd Cymru. Fe wnaeth ein hatgoffa bod manteision ysgol yn ymestyn y tu hwnt i gymwysterau, a'u bod hefyd yn ymwneud â chymdeithasu, hyder a pharatoi pobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolyn.[598]

**559.** Clywsom hefyd y gall diffyg cymorth priodol olygu nad yw plant a phobl ifanc yn meithrin yr hyder a'r sgiliau i wneud mwy yn annibynnol. Dywedodd RNIB Cymru fod diffyg cymorth galluogi yn golygu nad yw plant a phobl ifanc ag amhariad ar eu golwg yn cael y cyfle i:

> *"... develop the orientation, mobility and independent living skills that they need for both education and in young adulthood. The impact on social inclusion can be significant."*[599]

Edrychwn ar faterion cymorth galluogi yn fanylach ym Mhennod 10.

[596] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 63 Unigolyn
[597] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 66 Joining the Dots Parents and Carers
[598] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 60
[599] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 47 RNIB Cymru

## Rhieni a gofalwyr

**560.** Mae'r effeithiau'n sylweddol ar lesiant meddyliol rhieni a gofalwyr hefyd. Fel y dywedodd un rhiant wrthym, mae diffyg darpariaeth gofal plant ac addysg gynhwysol yn cael:

> *"… knock on effect on the mental well being and careers of everyone around the child including the child. … There simply is no provision for the vast majority and any parent with a child with SEN will tell you the same – if they get 5 minutes to do so because they have no access to childcare either."*[600]

**561.** Dywedwyd wrthym fod Lleisiau Rhieni yng Nghymru wedi adrodd bod yr heriau o ran cael mynediad at gymorth yn cael effaith negyddol ar iechyd a llesiant meddyliol 100% o rieni/gofalwyr. Yn ogystal, mae 76% yn dweud eu bod wedi gorfod mynd i weld eu meddyg teulu ar gyfer eu hiechyd meddwl yn 2019.[601] Yn ôl Blynyddoedd Cynnar Cymru, gall rhieni deimlo eu bod wedi'u hynysu ac nad oes neb yn gwrando arnynt.[602] Dywedodd Ymddiriedolaeth y Gofalwyr y gall yr effeithiau ar rieni a gofalwyr fod yn sylweddol a pharhaus.[603]

**562.** Yn ôl Sparkle, mae diffyg amser hefyd yn lleihau cyfleoedd i deuluoedd orffwys, mynd ar negeseuon neu gwblhau tasgau cartref, ac yn cael effaith ar eu rhyngweithio cymdeithasol eu hunain.[604] Dywedodd SNAP Cymru y gall y dirywiad yn y berthynas ag ysgolion achosi problemau teuluol mawr. Yn ogystal ag effeithio ar iechyd a llesiant meddyliol y teulu, mae hefyd wedi gweld perthnasoedd yn chwalu o ganlyniad.[605]

**563.** Effaith allweddol arall ar deuluoedd oedd gorfod brwydro'n barhaus am bopeth. Defnyddiwyd y gair brwydro ym mron pob sgwrs. Soniodd teuluoedd am "symud o un frwydr i frwydr arall", a'i bod yn "frwydr gyson am bob gwasanaeth." Mae'r brwydro cyson yn ymestyn ymhell y tu hwnt i addysg a gofal plant, ac yn ymwneud â bron bob agwedd ar eu bywydau.[606] Yn ystod ein cyfweliadau ymgysylltu roedd y pwysau eithafol a roddwyd ar deuluoedd yn amlwg, ynghyd â'u hangerdd, eu dyfalbarhad a'u cariad tuag at eu plant. Er bod y teuluoedd y buom yn siarad â nhw wedi cael profiadau tebyg, mae'r brwydrau yn unigryw i

[600] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 31 Unigolyn
[601] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 52 Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol
[602] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53 Blynyddoedd Cynnar Cymru
[603] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[604] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle
[605] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 282
[606] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 39

bob teulu oherwydd bod pob plentyn yn wahanol, gan roi'r rhieni/gofalwyr mewn sefyllfa o ymladd ar ei ben ei hun.[607]

**564.** Dywedodd rhiant plentyn ag epilepsi wrthym:

> *"O tua 18 mis oed, rydw i wedi gorfod brwydro am bopeth, hyd yn oed iddi gael ei gweld, a doedd neb yn gwrando."[608]*

**565.** Dywedodd un rhiant, ar ôl ymladd drwy'r amser, ei fod yn "colli'r ewyllys i frwydro" yn ei frwydr ddiweddaraf i sicrhau cyllid ar gyfer teithio gan ddysgwyr.[609] Dywedodd rhiant plentyn â chyflwr genetig fod rôl rhiant plentyn ag ADY fel "byddin o un".[610] Cawsom dystiolaeth bwerus gan riant arall a ddywedodd fod wedi:

> *"gwneud popeth roedd cymdeithas eisiau i mi ei wneud, ac fe gafodd popeth ei gymryd i ffwrdd. Nid bai fy mhlentyn yw hyn; '[ef/hi] yw cannwyll fy llygad. Mae pawb arall yn ceisio ein chwalu' It's not [their child's fault], [they are] the apple of my eye. Everyone else is trying to screw us over."[611]*

**566.** Dywedodd un rhiant wrthym:

> ***Astudiaeth Achos 9***
>
> *"I can only speak truly for myself, but I have been blamed as a parent for the situation with my children, I have been ignored, threatened and bullied by schools and the Local Authority. My children have been severely let down. I take anti-depressants, have complex PTSD and I too am autistic as well as having other health issues. I dare not disclose any of this to the school though, as I know we will not move forward in getting the support that my children need and it will totally be used against me."[612]*

---

[607] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[608] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[609] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 62
[610] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[611] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 46
[612] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 33 Unigolyn

Rydym yn trafod cymorth gan awdurdodau lleol yn y Bennod nesaf.

**567.** Dywedodd Anabledd Cymru fod y brwydro cyson yn lladdfa. Dywedodd na ddylai addysg fod yn faes lle mae angen brwydro.[613] Soniodd Anabledd Dysgu Cymru am y trawma enfawr a'r gwaith gydol oes i rieni a gofalwyr gefnogi eu plant drwy addysg.[614]

**568.** Defnyddiwyd y term "burnt out" droeon gan deuluoedd. Dywedodd un rhiant wrthym fod y teulu cyfan wedi llwyr ymlâdd ac yn wynebu argyfwng.[615] Dywedodd un arall:

> *"Dw i wedi fy llorio nawr wrth geisio brwydro yn erbyn y system.....Does neb yn gwrando arnoch chi.....Mae'n un frwydr hir, flinedig, sy'n draenio egni rhywun wrth wneud dim mwy na cheisio cael y ddarpariaeth addysgol i'ch plentyn y mae ei hangen arno, ac y mae'n ei haeddu."*[616]

**569.** Dywedodd y Comisiynydd Plant wrthym fod diffyg gofal plant hygyrch yn gallu arwain at ymdeimlad o unigedd i'r teulu ehangach.[617]

**570.** Yn ôl Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu:

> *"Having a disabled child within a family has a significant impact on all of the different individuals within the family, so it's not purely about the child on its own. The child not being able to access education then has an impact on every single person in that family. So, we've got the mum, perhaps, not being able to go to work because of the anxiety and the stress that's at home, and the impact that has on the dad. So, the whole family unit is impacted and that does put workforce pressures on us."*[618]

Ychwanegodd ei fod yn gweld achosion fel hyn ym mhob sesiwn. [619]

[613] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 61
[614] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 177
[615] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 61 Unigolyn
[616] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
[617] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 15
[618] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 188
[619] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 212

**571.** Clywsom droeon am y pwysau y mae hyn i gyd yn ei roi ar y teulu, ac yn enwedig y berthynas rhwng rhieni a gofalwyr. Amlygwyd y risg o chwalfa deuluol droeon. Dywedwyd wrthym hefyd fod pedair o bob pum priodas â phlant sydd o fewn cwmpas yr ymchwiliad yn chwalu.[620] Roedd y rhai a gododd hyn yn cynnwys Sparkle:

> *"When you are pregnant you appreciate that a young child will need your attention, but the expectation is that this will reduce as they get older. At age 8 my son still requires my constant attention which is so draining for me and causes arguments with my husband. I find I walk on eggshells a lot.*
>
> *When I have managed six meltdowns in one day, I do become snappy."*

Dywedodd hefyd fod rhieni / gofalwyr yn disgrifio eu hunain fel llongau yn y nos, bob amser yn colli ei gilydd oherwydd bod un rhiant yn mynd i'r gwaith pan fydd y llall yn cyrraedd adref gan na all y ddau ohonynt weithio ar yr un pryd.[621]

> ***Astudiaeth Achos 10***
>
> *"This meant his father had to give up work to care for him and this eventually helped contribute to the breakdown of our nuclear family as financial pressures were building. The rate of divorce in families with a child with disabilities is far higher than the average population because of the isolation from society and lack of support that other parents can access."*[622]

**572.** Mynegodd teuluoedd eraill bryder am deuluoedd nad oeddent yn gallu ymladd am gymorth, oherwydd roeddent hwy yn brwydro'n galed ac nid oedd eu plant yn cael dim cefnogaeth.[623] Amlygodd eraill y gallai rhai rhieni / gofalwyr ei chael hi'n anodd brwydro am gymorth oherwydd eu hanghenion ychwanegol eu hunain. Roedd galwadau am raglen gymorth a gynhelir waeth beth fo gallu'r teulu i ymladd.[624] Dywedwyd wrthym fod y baich o ddelio â system gymhleth yn

[620] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 41
[621] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle
[622] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 31 Unigolyn
[623] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 14
[624] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraff 5

drymach i rieni nad ydynt yn abl yn gorfforol neu nad ydynt yn niwronodweddiadol.[625]

**573.** Clywsom sut y gall cefnogaeth gan gymheiriaid a sefydliadau cymorth wneud byd o wahaniaeth o ran darparu'r wybodaeth a'r gallu i deuluoedd barhau i frwydro. Dywedodd nifer o rieni fod y gefnogaeth a gawsant gan ASD Rainbows wedi bod yn aruthrol.[626]

**574.** Dywedodd un teulu y dywedwyd wrthynt na fyddai ysgol ei blentyn yn darparu cymorth hyfforddiant toiled, ond gyda chymorth Snap Cymru, dywedwyd wrth yr ysgol fod hyn yn ofyniad cyfreithiol. Roeddent yn pryderu y byddai rhai teuluoedd wedi derbyn safbwynt yr ysgol ac y byddent wedi gorfod mynd i'r ysgol a newid eu plentyn yn ôl yr angen.[627]

**575.** Roedd y straen y mae'r brwydro cyson hwn yn ei roi ar deuluoedd yn glir ac yn amlwg yn y sgyrsiau a gawsom. Clywsom am bobl yn ceisio lladd eu hunain; ac eraill yn gorfod cymryd cyffuriau gwrth-iselder o ganlyniad uniongyrchol i'r straen a'r gorbryder.[628]

**576.** Dywedwyd wrthym hefyd y gall rhieni a gofalwyr golli eu hunaniaeth a'u hymdeimlad o hunaniaeth yn y brwydro cyson. Dywedwyd hefyd eu bod "yn araf yn y pen draw yn anobeithio."[629]

**577.** Clywsom hefyd y gall perthnasoedd â theulu a ffrindiau ehangach gael eu heffeithio, oherwydd diffyg dealltwriaeth neu bobl yn barnu. Dywedodd Sparkle fod rhai rhieni ond yn tueddu i gymysgu â theuluoedd y mae ganddynt hwythau hefyd blant ag anghenion ychwanegol.[630]

## Yr effaith ar ddeilliannau addysgol

**578.** Rhannodd Anabledd Cymru yr ystadegau canlynol ar ddeilliannau addysgol:

> *"In Wales, from June 2020-2021, 37.9% of nondisabled people's highest qualification was a degree or equivalent, compared to 21.5% of disabled people. In the most even statistics, 21.6% of non-disabled people's highest qualification*

---

625 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 52 Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol
626 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 14
627 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 16
628 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraffau 62-63
629 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 17
630 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

*was a A-level or equivalent, compared to 20.7% of disabled people. 18.8% of non-disabled people's highest qualification was GCSE grade C or above or equivalent, compared to 24% of disabled people. 9.4% of non-disabled people's highest qualification was another form of higher education, compared to 7.3% of disabled people. 5.9% of non-disabled people had no qualifications, compared to the significantly higher 16.4% of disabled people."*[631]

**579.** Dywedodd RNIB Cymru fod plant a phobl ifanc ag anabledd rhwng 16 a 18 oed ddwywaith yn fwy tebygol na'u cyfoedion nad ydynt yn anabl o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET). Mae hyn yn cynyddu ar gyfer y grŵp oedran 19-24, gyda phedair gwaith yn fwy o blant a phobl ifanc yn y grŵp oedran hwn yn NEET.[632]

**580.** Amlygodd hefyd y bwlch cyrhaeddiad cyson a sylweddol o ran plant a phobl ifanc ag amhariad ar eu golwg. O ran TGAU, dywedodd fod y blwch cyrhaeddiad ar gyfer plant a phobl ifanc ag amhariad ar eu golwg a oedd yn ennill cyfwerth â 5 TGAU gradd A* i C, gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a mathemateg, yn 26%. Roedd yn galw am fynd i'r afael â'r bwlch hwn. [633]

**581.** Dywedodd NDCS Cymru wrthym fod bwlch cyrhaeddiad o hyd at 20 y cant rhwng plant byddar a'u cyfoedion sy'n clywed. Nid oes angen i'r bwlch yma fodoli, meddai. Gan nad yw'n anabledd dysgu, dylent allu llwyddo ar yr un lefel â'u cyfoedion sy'n clywed.[634]

**582.** Gall effeithiau'r annhegwch hwn bara gydol oes, fel y nododd Whizz Kidz, gan ddweud ei fod yn effeithio ar ragolygon cyflogaeth, incwm a symudedd cymdeithasol.[635] Dywedodd Platfform nad oedd yn syndod bod deilliannau addysgol yn cael eu heffeithio. [636] Tynnodd rhieni sylw hefyd at bryderon ynghylch y llwybr o'r ysgol i'r carchar a bod gan 79% o bobl ifanc sy'n cael dedfryd o garchar AAA.[637]

[631] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 09 Anabledd Dysgu Cymru
[632] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 47 RNIB Cymru
[633] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 47 RNIB Cymru
[634] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 213
[635] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 35 Whizz Kidz
[636] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 39 Platfform
[637] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 52 Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol

**583.** Tynnodd Estyn hefyd sylw at y cysylltiad rhwng llesiant a deilliannau addysgol.[638]

**584.** Rhannodd un rhiant ei brofiadau yn yr ysgol gynradd, a sut y mae hyn yn cael effaith fawr ar allu ei blentyn i ddysgu:

***Astudiaeth Achos 11***

*"[The individual's son] has complex processing issues amongst other things which has made attending main stream school extremely difficult. He is in year … of primary has one to one support for 7.5 hours a week!!!!! There have been horrendous behavioural issues in school to the point stays in school 20-30 mins unsupervised then has to be collected. The only way … remains in school currently is if myself or my … son go in with him, stay with him, supervise him, try to teach him and ultimately take responsibility for him*

*As it is he is segregated from his peers (literally isolated) not allowed to socialise, communicate or interact in the slightest. His educational progression in the last four years has been minimal the gap educationally between and his peers is ever widening. … Upon investigation it appears there is very little (if any) educational provision for children with the complex brain damage my son (and other children) have. It's even harder to find out about any provision let alone access it! …*

*This extremely poor understanding of teaching children with brain injury has created an extremely agitated, frustrated, unhappy, isolated young man who has lost all faith in the educational system and who is being penalised because his brain doesn't work the way other children's do!"*[639]

**585.** Rhannodd NDCS Cymru farn rhieni sy'n dweud eu bod am i'w plant byddar ffynnu, nid dim ond ymdopi.[640]

[638] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 48 Estyn
[639] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 12 Unigolyn
[640] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 42 Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru

**586.** Rhannodd un rhiant brofiadau ei ferch a’r effaith y mae wedi’i chael ar y teulu cyfan:

> ***Astudiaeth Achos 12***
>
> *“The negative impact on mine and my daughters health and well-being has been huge. All useful information that is received or given arrives after it was needed. The process of fighting to have ALN acknowledged, recognised and met is exhausting, frustrating, stressful and unnecessary. It has taken 5 years for school to acknowledge that my daughter has ALN, just a few months before it is time for her to leave the school. They have wasted almost a third of her life by refusing to provide support which she obviously needed and persisting with the route which they chose to take. It took Local Authority involvement to force the school to look for ALN and the need for an IDP. It is too late for her to have support in school and she will have no qualifications from school. This is a pupil who, at one point, was forecast to get several GCSEs at A**. She is leaving with nothing.”*[641]

**587.** Galwodd Anabledd Cymru am newidiadau yn y ffordd y mae ansawdd addysg yn cael ei werthuso. O ran plant a phobl ifanc, dywedodd:

> *“… we see limited data on how [they] feel about the education they received, how did that person feel leaving school—did they feel prepared for adulthood? Did they feel that they got everything they could out of their school environment, even if they may not have as many qualifications as another person, and especially amongst disabled people? So, we would also like to see both of these figures around education outcomes change, but also that we expand what we see as an outcome of school or how we measure the quality of an education received.”*[642]

**588.** Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau os nad yw plant a phobl ifanc yn mynd i’r ysgol bydd hynny’n cael effaith ar eu deilliannau.

[641] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 12 Unigolyn
[642] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 66

## Yr effaith ar gyflogaeth rhieni ac incwm aelwydydd

**589.** Un o'r themâu mwyaf a gadwyd gan yr holl deuluoedd y bu inni siarad â nhw, ac yn y dystiolaeth ehangach a gasglwyd gennym, oedd yr effaith y mae diffyg mynediad at addysg a gofal plant yn ei chael ar allu rhieni neu ofalwyr i weithio. Roedd hyn yn gyffredin o enedigaeth y plentyn hyd at 16 oed a thu hwnt. Clywsom gan lawer gormod o rieni a gofalwyr y bu'n rhaid iddynt roi'r gorau i weithio nid oherwydd eu bod yn dymuno gwneud hynny, ond oherwydd nad oedd ganddynt ddewis. Mae hyn yn cael effaith fawr ar incwm aelwydydd a llesiant meddyliol, ac mae'n arwain at gost sylweddol i gymdeithas (er enghraifft, clywsom enghreifftiau niferus o bobl a fyddai'n cael eu hystyried yn weithwyr allweddol yn gorfod rhoi'r gorau i weithio).

**590.** Dywedodd Oxfam Cymru mai diffyg gofal plant yw un o'r prif resymau pam mae menywod yn economaidd anweithgar. Cyfeiriodd at y gwahaniaethau yn y cyfrannau o fenywod sy'n economaidd anweithgar oherwydd eu bod yn gofalu am deulu, sef 25.5% o gymharu â dim ond 6.8% o ddynion. Rhannodd ystadegau ar gyfer y DU gyfan sy'n dangos bod 492,000 o blant yn byw mewn tlodi mewn teuluoedd â phlentyn anabl sydd â chyfyngiadau o ran gwaith; mae 170,000 o'r rheini yn byw mewn tlodi mawr.[643] Dywedodd Anabledd Cymru fod tua 34 y cant o blant anabl yng Nghymru yn byw mewn tlodi.[644] Cydnabu Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru hefyd y cyfraddau uwch hyn o dlodi a thynnodd sylw at yr effeithiau ehangach y gall hyn eu cael, gan gynnwys yr effeithiau ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.[645]

**591.** Clywsom hefyd fod y disgwyliadau ar rieni a gofalwyr y plant a'r bobl ifanc hyn yn wahanol, gyda meithrinfeydd ac ysgolion yn disgwyl iddynt fod ar gael ar unrhyw adeg ar fyr rybudd.

> *"Roedd fel pe na bai'r ysgol yn meddwl fy mod i'n gyflogedig. Roedden nhw'n disgwyl i mi ofalu am fy mhlentyn pan benderfynon nhw dros nos na allen nhw ei gael yn yr ysgol."*[646]

**592.** Dywedwyd wrthym fod y materion hyn yn effeithio ar ddewis rhieni o gyflogaeth. Amlygodd adroddiad Sparkle fod rhieni yn sôn am ddod o hyd i swyddi sy'n cyd-fynd â'u hamgylchedd teuluol, yn hytrach na swyddi y maent yn

---

[643] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57 Oxfam Cymru, paragraff 2.1.4 a 3.1
[644] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 65
[645] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[646] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023

gymwys i'w gwneud neu y byddent yn eu mwynhau. Dywedodd nad yw rhieni a gofalwyr plant nad ydynt yn anabl a phlant niwronodweddiadol yn wynebu rhai o'r cyfyngiadau hyn.[647]

**593.** Roedd SNAP Cymru yn gwybod am rieni a roddodd y gorau i'w gwaith neu a gafodd eu disgyblu yn y gwaith oherwydd eu bod wedi cael eu galw i fynd i'r ysgol i gasglu eu plentyn droeon.[648] Dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol ei bod yn bwysig meithrin sgiliau mewn ysgolion er mwyn cyflawni rhai tasgau meddygol megis cathetreiddio fel nad oes rhaid i rieni a gofalwyr ddod i'r ysgol i wneud y tasgau hyn, sydd hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y plentyn yn wahanol.[649]

**594.** Dywedodd rhanddeiliad fod gan oedolion hawliau statudol i allu cymryd amser o'r gwaith ar gyfer apwyntiadau, ond mae diffyg hawliau tebyg i blant neu rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag anghenion.[650]

**595.** Clywsom fod angen i ofal plant fod yn ddibynadwy er mwyn cefnogi cyflogaeth. Mynegodd rhieni a gofalwyr bryderon nad yw cynlluniau chwarae, er enghraifft, yn cynnig y math hwnnw o ddibynadwyedd.[651] Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fod diffyg gofal plant ac addysg ddibynadwy yn golygu bod rhieni a gofalwyr yn poeni am yr angen i fod ar gael bob amser i'w plentyn a oedd yn golygu bod cadw lleoedd iddyn nhw eu hunain yn amhosibl.[652]

**596.** Dywedodd un rhiant y gwnaethom siarad ag ef, yn ogystal â cholli cyfleoedd cyflogaeth presennol, fod hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd yn y dyfodol hefyd, gan ddweud ei fod yn newid dyfodol rhywun.[653] Amlygodd eraill ei fod yn cael effaith ar bethau pwysig fel pensiynau. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r wladwriaeth eu cefnogi am gyfnod hwy, a dywedwyd pe bai gofal plant ac addysg gynhwysol ar gael y byddai'n arbed arian i'r wladwriaeth yn y tymor hwy.[654] Dywedodd eraill a oedd yn gallu gweithio eu bod weithiau wedi cymryd swyddi ar lefel is neu wedi dod yn hunangyflogedig oherwydd eu trefniadau gofal plant ac addysg.

---

[647] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle
[648] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 282
[649] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 92
[650] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraff 49
[651] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraff 19
[652] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[653] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 42
[654] Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraffau 36-37

> *"Rwy'n teimlo nad wyf yn cael gyrfa. Dywedodd elusen wrthyf "Ydych chi wedi meddwl am beidio â gweithio?" Fydden nhw'n dweud hynny wrth fy ngŵr?"*[655]

**597.** Soniodd rhieni am orfod rhoi'r gorau i weithio i ofalu am eu plant, ond nad oedd y system ehangach yn cefnogi teuluoedd yn ariannol i wneud hyn. Dywedodd un rhiant wrthym nad oedd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn deall nac yn cefnogi'r angen i weithio'n rhan-amser.[656]

**598.** Tynnodd rhieni a gofalwyr sylw hefyd at fanteision cyflogaeth i'w llesiant meddyliol.[657]

**599.** Cododd ein Cadeirydd blaenorol y materion hyn gyda Gweinidog yr Economi ar y pryd yn ystod datganiad llafar ar y Cynllun Cyflogadwyedd. Aethpwyd ar drywydd hyn wedyn mewn gohebiaeth, lle y gwnaethom rannu crynodeb o'r dystiolaeth berthnasol o'r ymchwiliad hwn a gofyn sut y gallai'r Cynllun Cyflogadwyedd geisio helpu rhieni a gofalwyr i gael swyddi a'u cadw.[658] Yn ei ymateb, nododd Gweinidog yr Economi ar y pryd y gwahanol ffyrdd yr oedd yn ceisio cefnogi rhieni a gofalwyr i gael swyddi.[659] Fodd bynnag, nodwn fod llawer o'r ymateb yn canolbwyntio ar faterion fel y Cynnig Gofal Plant i Gymru, y Grant Cymorth Ychwanegol, Dechrau'n Deg, a'r Ddeddf a'r Cod ADY. Mae pob un ohonynt fel y nodir gennym yn yr adroddiad hwn yn methu â chyrraedd y nod o ddarparu opsiynau gofal plant ac addysg cwbl gynhwysol sy'n cefnogi opsiynau cyflogaeth, a hynny o gryn dipyn.

## Yr effaith ar y teulu ehangach

**600.** Clywsom hefyd am yr effaith ar ddeinameg a llesiant y teulu ehangach. Gall diffyg gofal plant ac addysg gynhwysol gyfyngu ar yr amser y gall rhieni a gofalwyr ei dreulio gyda phlant eraill neu eu teulu ehangach.[660] Clywsom am yr effaith ar frodyr a chwiorydd nad ydynt yn anabl a / neu frodyr a chwiorydd

---

[655] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[656] Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 36
[657] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 65
[658] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Weinidog yr Economi, Cyflogadwyedd, 23 Tachwedd 2023
[659] Llythyr gan Weinidog yr Economi at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cadeirydd, 10 Ionawr 2024
[660] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 17

niwronodweddiadol sy'n aml yn cael eu hanwybyddu. Clywsom hefyd fod y brodyr a'r chwiorydd hyn yn aml yn gorfod ymgymryd â rôl ofalu. [661] Dywedodd Sparkle:

> *"Siblings may not understand why they do not receive the same level of attention, which can lead to difficult behaviours from this child, adding another layer of challenge for parents to manage."*[662]

**601.** Dywedodd un rhiant, oherwydd nad yw un o'u plant yn cysgu, ei fod yn effeithio ar bresenoldeb y brodyr a chwiorydd hŷn gan na allant fynd i'r ysgol. Gwaethygwyd hyn gan y ffordd yr oedd yr ysgol yn delio â hynny. Galwodd am fwy o gefnogaeth i frodyr a chwiorydd.[663] Dywedodd un rhanddeiliad wrthym fod brodyr a chwiorydd bob amser yn anweledig yn y sgyrsiau hyn.[664] Dywedodd un rhiant wrth Ymddiriedolaeth Gofalwyr mai ef yw'r unig un sy'n gallu cefnogi ei mab, a oedd hefyd yn golygu bod ei blant eraill yn dioddef.[665]

**602.** Soniodd teuluoedd am dlodi ehangach na thlodi ariannol yn unig, sef tlodi o ran ansawdd bywyd. Dywedwyd nad oes gan lawer o deuluoedd unrhyw ansawdd bywyd, ac nad ydynt yn cael unrhyw seibiant neu egwyl. Wrth i blant fynd yn hŷn, gall hyn fod yn heriol a dywedodd un rhiant wrthym ei fod fel cael babi, ond babi mawr iawn. Dywedwyd wrthym y gallai eu plant gael eu nodi fel rhai sydd angen cymorth dau-i-un neu hyd yn oed gymorth tri-i-un, ond disgwylir i deuluoedd ddarparu cymorth yn y tŷ ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn arbennig o heriol i deuluoedd un rhiant. Dywedwyd wrthym fwy nag unwaith bod teuluoedd yn cael eu chwalu.[666]

**603.** Er bod seibiant y tu allan i gwmpas yr ymchwiliad, roedd yn fater a godwyd. Dywedwyd wrthym y gall fod yn arbennig o anodd cael seibiant dros nos.[667] Dywedodd un rhiant na all gael mynediad at ofal seibiant er bod ei blentyn yn sgrechian ac yn ceisio niweidio ei hun ugain awr y dydd.[668] Dywedodd rhiant arall

---

[661] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 41
[662] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle
[663] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 40
[664] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraff 55
[665] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[666] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraffau 38-40
[667] Y Pwllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 33
[668] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 08 Unigolyn

sydd â dau o blant ag ystod o gyflyrau ac anghenion gwahanol hefyd na all gael unrhyw seibiant a dywedwyd wrtho bod y rhestr aros yn aruthrol o hir.[669]

## Ein barn ni

**604.** Mae angen mwy o gymorth ar blant a phobl ifanc ledled Cymru. Mae hyn yn cael effeithiau enfawr ar eu llesiant corfforol a meddyliol, a all wedyn arwain at bryder ynghylch mynd i'r ysgol ac osgoi'r ysgol, sy'n gwaethygu anghydraddoldebau addysgol ymhellach ac yn effeithio ar ddeilliannau addysgol. Nid eu bai nhw yw hynny.

**605.** Mae gwir angen i'r system gyfan, Llywodraeth Cymru, ysgolion, awdurdodau lleol a gwasanaethau statudol allweddol eraill fel Byrddau Iechyd gydnabod hyn, a deall yr effaith y mae'n ei chael. Nid yw'n iawn meddwl mai problem rhywun arall yw hon, neu ei bod yn broblem rhy anodd i'w datrys. Mae angen iddynt ddod ynghyd i ddatrys y materion hyn.

**606.** Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn chwarae rhan fach yn y gwaith o roi sylw amlwg i'r materion hyn, ac y bydd yn rhoi ysgytwad i wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru i'r angen i weithredu. Digon yw digon. Rydym am weld camau clir yn cael eu cymryd ar fyrder. Bob diwrnod y byddwn yn caniatáu i hyn barhau, mae plant a phobl ifanc yn cael cam, yn colli addysg na ellir ei hadfer yn hawdd, ac mae teuluoedd yn cael eu chwalu'n araf gan system nad yw'n ymddangos fel pe bai'n malio.

**607.** Ar wahân i'r ymateb trugarog sylfaenol i'r materion hyn, mae'n gwneud synnwyr ariannol i fynd i'r afael â nhw. Os na all rhieni a gofalwyr weithio, ni fyddant yn gallu cyfrannu at eu heconomi leol a gallant fod yn fwy dibynnol ar gymorth y wladwriaeth. Os nad yw plant a phobl ifanc yn cael yr addysg y maent yn ei haeddu gall hynny gael effaith gydol oes ar eu cyflogaeth a'u potensial i ennill cyflog drwy gydol eu hoes.

**608.** Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o adroddiadau fel adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a ddangosodd fod pobl ifanc â heriau cyfathrebu yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol. Mae gan 60% o blant a phobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol anawsterau'n

[669] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 34 Unigolyn

ymwneud â lleferydd, iaith neu gyfathrebu, o gymharu â 10% o blant a phobl ifanc yn gyffredinol.[670]

**609.** Rydym wedi cael ein synnu gan rym a chysondeb y profiadau a rannwyd gan deuluoedd. Er bod eu hamgylchiadau a'u profiadau unigol yn wahanol ac yn unigryw, maent i gyd yn rhannu un neges gyson: bod popeth yn frwydr. Mae hyn yn cael effaith fawr ar lesiant meddyliol. Rydym wedi clywed straeon brawychus o bobl wedi cael eu gwthio i'r eithaf o ganlyniad i'r pwysau.

**610.** Ofnwn mai dim ond megis crafu'r wyneb yw hyn. Gwyddom fod ymgysylltu â gwaith fel ein gwaith ni yn golygu bod angen lle i feddwl. I lawer o deuluoedd, efallai eu bod wedi dymuno cymryd rhan yn y gwaith ond nad oedd modd iddynt wneud hynny oherwydd mai dim ond un peth arall i'w wneud ar ddiwedd rhestr ddyddiol ddi-ben-draw ydoedd. Neu nid oeddent yn dymuno trafod profiadau trawmatig ac anodd.

**611.** Gall gofal seibiant helpu i liniaru rhai o'r effeithiau ar y teulu ehangach, yn ogystal â rhoi cyfle i'r plentyn neu'r person ifanc gael profiadau cadarnhaol y tu allan i'r cartref. Mae'n bwysig i lesiant meddyliol y plentyn a'i deulu ehangach. Ac eto, gall fod yn hynod o anodd i deuluoedd gael mynediad at hyn. Er ei fod y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad hwn, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig codi hwn fel mater sy'n haeddu ystyriaeth bellach.

**612.** Os caiff yr holl argymhellion yn ein hadroddiad eu gweithredu'n llawn, credwn y byddai hynny'n gyfystyr â chymryd camau breision tuag at fynd i'r afael â'r diffyg gofal plant ac addysg gynhwysol sy'n arwain at yr effeithiau sylweddol hyn ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

---

[670] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 60% - Rhoi llais iddyn nhw, Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid, Ebrill 2023

# 7. Beth yw'r rhwystrau i gynnig darpariaeth gynhwysol?

Mae ystod eang o rwystrau i gynnig darpariaeth gynhwysol. Er ein bod wedi nodi rhai o'r rhain yn yr adroddiad drwyddo draw, nid yw materion megis cymorth gan awdurdodau lleol, a gweithwyr proffesiynol eraill yn gweithio cystal ag y gallent ar hyn o bryd.

## Cymorth gan awdurdodau lleol

**614.** Nododd Cymdeithas Seicolegol Prydain fod cymorth gan awdurdodau lleol ac ysgolion yn amrywio ledled Cymru, ond mae'r rhai sy'n fwy llwyddiannus wedi'u hintegreiddio â chymunedau, y trydydd sector a gwasanaethau iechyd.[671] Dywedodd Oxfam Cymru fod dulliau gweithredu gwahanol yn creu clytwaith o wasanaethau a all achosi anghydraddoldebau rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Galwodd am ddull unedig a fyddai'n safoni'r gwasanaethau a ddarperir, gan leihau anghydraddoldebau a sicrhau bod unigolion yn cael mynediad cyson a theg at wasanaethau, ble bynnag y bônt yn byw.[672]

**615.** Dywedodd UCAC:

> *"… mae yna gwestiynau'n codi am y ddarpariaeth sydd yn cael ei chynnig gan yr awdurdodau, ac mae cwestiynau mawr yn codi wedyn o ran cysondeb o ran yr awdurdodau, ac o ran gallu'r awdurdodau, boed hynny'n ddewisol neu beidio, i ddarparu ar gyfer yr holl anghenion ac o ran yr arbenigedd yn ogystal."*[673]

**616.** Soniodd llawer o'r teuluoedd y bu inni siarad yn uniongyrchol â nhw fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu â dinasyddion ond hefyd yn ystod ymweliadau am ddiffyg ymddiriedaeth cyffredinol yn yr awdurdod lleol. Disgrifiodd teuluoedd

---

[671] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain
[672] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57 Oxfam Cymru, paragraff 4.5
[673] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 207

droeon eu bod yn teimlo fel eu bod yn amau eu hunain neu'n cael eu beio. Gofynnodd Heledd Fychan AS i rieni a oeddent yn teimlo eu bod yn cael "gwybodaeth a chymorth effeithiol" gan awdurdodau lleol ac ysgolion. Dywedodd 74.3% "dim o gwbl", dywedodd 23% ar adegau, a dim ond 2.7% a ddywedodd yn gyfan gwbl.[674]

**617.** Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn teimlo weithiau nad oedd eu hawdurdod lleol bob amser yn dweud y gwir. Roedd materion eraill a oedd yn tanseilio'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a theuluoedd yn cynnwys cynnal cyfarfodydd heb ystyried teimladau teuluoedd unigol neu heb ddigon o amser i baratoi. Roedd hyn yn golygu bod teuluoedd yn teimlo eu bod wedi cael eu bwrw oddi ar eu hechel, eu bod yn cael eu rhoi dan bwysau ac weithiau'n cael eu bwlio i gytuno â gweithwyr proffesiynol oherwydd diffyg gwybodaeth am ddewisiadau amgen.[675] Dywedodd un rhiant mai'r rhwystr mwyaf yr oedd ei blentyn yn ei wynebu o ran sicrhau ei addysg oedd yr awdurdod lleol. Roedd yn pryderu nad oedd staff awdurdodau lleol yn ddigon ymwybodol o anableddau.[676]

**618.** Roedd hyn hefyd yn thema yn yr ymatebion a gafodd Heledd Fychan AS, gan ddweud bod pob cyfeiriad at awdurdod lleol yn rhai a wnaed mewn "cyd-destun negyddol". Cyfeiriodd un rhiant at orfod aros o Flwyddyn 1 tan Flwyddyn 6 am "atgyfeiriad priodol at y gwasanaethau niwroddatblygiadol."[677]

**619.** Disgrifiodd un rhiant y system o gael cymorth fel "teimlo eich bod yn chwarae gêm ond does neb yn esbonio'r rheolau wrthych." [678] Dywedodd teulu arall:

> *"The hardest part of this journey without doubt has been the fight to get our son seen by professionals and the support he needs in school. We knew it was very likely our son would need a specialist provision and we applied for a statement which was rejected by the local authority. We then hired a legal advocate to help guide us through the statement process and*

---

674 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
675 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
676 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 36
677 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
678 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023

> *our son was awarded a statement a few months later after a long and stressful process. We had to pay for independent professional reports to identify our sons needs as detailed speech and occupational therapy assessments were not carried out by the local authority as part of the statement process. It is without a doubt the most stressful experience I have been through and I ended up being very poorly as a result from it."*[679]

**620.** Dywedodd rhiant â sawl plentyn ag anghenion amrywiol nad oes ganddo fawr o ymddiriedaeth yn ei awdurdod lleol. Dywedodd fod ei farn yn cael ei diystyru, ac nad oedd gweithwyr proffesiynol yn ystyried anghenion ei blentyn.[680] Galwodd rhieni eraill ar i awdurdodau lleol fod yn fwy agored i adborth.[681] Soniodd un rhiant am "feini prawf dirgel" a ddefnyddir, heb unrhyw sail resymegol glir ar gyfer penderfyniadau a wneir. Roedd pryderon hefyd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb asesiadau llawn na thrafodaethau manwl gyda'r plentyn neu'r person ifanc a'i deulu.[682] Cododd eraill bryderon ynghylch pa mor bell yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau oddi wrth y plentyn a'r teulu, gan adleisio'r ffaith nad yw llais y plentyn yn cael ei glywed yn aml mewn strwythurau gwneud penderfyniadau.[683]

**621.** Cododd un rhiant bryderon mai'r ysgol oedd y llwybr tuag at ddiagnosis. Ac eto, am resymau fel plant a phobl ifanc yn absennol neu'n masgio eu cyflwr pan fyddant yn yr ysgol, nid yw ysgolion yn meddwl bod problem. Dywedwyd nad oedd yn anarferol i ysgolion feddwl mai rhieni a'u gallu i fagu plant yw'r broblem. Mae'r berthynas rhwng rhieni ac ysgolion yn chwalu'n gyson ac yn anodd iawn ei hadfer.[684] Er eglurder, nid yw'r Ddeddf ADY yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd i ystyried ceisiadau am wybodaeth neu gymorth gan ysgolion, dim ond gan awdurdodau lleol. Er y gall ysgolion gyflwyno ceisiadau i Fwrdd Iechyd, a bod y GIG yn dweud ei fod yn ceisio ymateb i'r rhain, nid yw'r Ddeddf ADY ei hun yn darparu unrhyw broses ar gyfer hyn. Rydym yn trafod y Ddeddf a'r Cod ADY ym Mhennod 5.

---

[679] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 65 Unigolyn
[680] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[681] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 34
[682] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 32
[683] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 8
[684] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 52 Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol

**622.** Dywedodd y Comisiynydd Plant y gall fod yn heriol iawn i deuluoedd sy'n anghytuno ag asesiad y gweithwyr proffesiynol o addasrwydd ysgol neu ddarpariaeth. Mae ei swyddfa'n derbyn llawer o waith achos pan fo anghytundeb rhwng teuluoedd ac awdurdodau lleol. Dywedodd nad oes digon o gefnogaeth i deuluoedd yn yr achosion hyn.[685] Yn ôl Anabledd Cymru, pan wrthodwyd cymorth i blentyn, ni chafodd y teulu wybod am y broses apelio.[686] Roedd gan SNAP Cymru bryderon hefyd am ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc a'u teuluoedd o'u hawliau. [687]

**623.** Roedd materion eraill yn cynnwys pryderon bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan ffactorau ariannol yn hytrach nag anghenion y plentyn:

> *"Roeddwn yn meddwl o hyd, wn i ddim a ydych chi'n dweud hyn am mai lles fy merch sydd bwysicaf neu a oes agenda arall."*[688]

**624.** Tynnodd rhai rhieni sylw at faint a chymhlethdod y gwaith papur y mae'n rhaid ei gwblhau'n gyson. Dywedwyd wrthym fod natur y ffurflenni yn aml yn golygu gorfod siarad am eu plant mewn termau negyddol iawn. Disgrifiodd un rhiant sut y mae'r dull diffygiol hwn yn cael effaith seicolegol uchel ar bawb dan sylw.[689] Roedd rhieni am weld gostyngiad mewn biwrocratiaeth a fyddai'n rhyddhau amser i'w dreulio gyda'u plant. Roeddent hefyd am weld gwell cydgysylltu rhwng gwasanaethau.[690]

**625.** Mewn un ysgol arbennig, dywedwyd wrthym mai dim ond 18% o'u teuluoedd sydd â mynediad at weithiwr cymdeithasol. Dywedwyd fod hyn yn golygu y gallant golli cymorth ychwanegol.[691] Wrth siarad â rhieni yn yr un ysgol, dywedwyd wrthym fod cynllun chwarae cynhwysol ar gael yn eu hawdurdod lleol, ond oherwydd bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud fel arfer gan y gwasanaethau cymdeithasol, nid yw'r rhan fwyaf o rieni yn ymwybodol ohono, oherwydd nad oes ganddynt weithiwr cymdeithasol. [692] Mewn ysgol arall, dywedodd rhieni fod y

---

[685] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 75
[686] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 76
[687] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 222
[688] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[689] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 79 Unigolyn
[690] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 34
[691] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 17
[692] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 2, 29 Mehefin 2023, paragraff 31

pennaeth wedi rhoi cyngor ar faterion fel mynediad at weithwyr cymdeithasol a thaliadau uniongyrchol.[693]

**626.** Dywedwyd wrthym fod teuluoedd yn chwalu oherwydd diffyg cefnogaeth, ac yn ôl un rhiant "lwc pur" oedd pwy oedd yn cael cymorth. Dywedodd rhiant arall wrthym, hyd yn oed i'r rhai sy'n cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, y gall hynny fod yn anghyson, gan ddweud wrthym fod gweithiwr cymdeithasol wedi dweud wrtho ei fod "yn anablu ei blentyn" drwy honni bod angen cymorth gan weithiwr cymdeithasol.[694]

**627.** Clywsom hefyd, pan fydd cymorth ar gael, nad oes unrhyw sicrwydd y bydd yn parhau. Disgrifiodd un fam sut y cynyddwyd y cymorth yn dilyn marwolaeth sydyn ei gŵr, ond eto, o fewn chwe mis roedd yr awdurdod lleol eisiau ei dynnu'n ôl. Treuliodd 18 mis yn ymladd i gadw'r pecyn gofal. Yn fuan ar ôl dod i'r awdurdod lleol gytuno i gadw'r pecyn gofal, dywedwyd wrthi y byddai'r pecyn gofal yn cael ei adolygu eto.[695]

**628.** Codwyd materion yn ymwneud â defnyddio proses y tribiwnlys. Disgrifiodd un rhiant hyn fel profiad mwyaf dirdynnol ei fywyd.[696] Tynnodd eraill sylw at y ffaith y gallai'r swm o arian sy'n cael ei wario ar dribiwnlysoedd gan awdurdodau lleol gael ei ailgyfeirio a'i wario ar gymorth i blant a phobl ifanc. Tynnwyd sylw at y ffaith bod 70% o dribiwnlysoedd yn llwyddiannus.[697]

**629.** Dywedodd CCAC fod Tribiwnlys Addysg Cymru wedi tynnu sylw at gynnydd mewn achosion o wahaniaethu ar sail anabledd. Mae'r rhain yn ymwneud â materion fel amserlenni â llai o oriau, a gwaharddiadau.[698]

**630.** Disgrifiodd un teulu sut y bu i awdurdod lleol wrthod derbyn diagnosis preifat a gafodd y teulu oherwydd rhestrau aros hir y GIG. Aeth yr achos i dribiwnlys, gan gostio £17,000 i'r teulu a ariannwyd ganddynt drwy ailforgeisio eu tŷ. Bu'r tribiwnlys yn llwyddiannus, ond roedd y teulu'n cwestiynu pam y bu'n rhaid iddo fynd i dribiwnlys yn y lle cyntaf. Dywedodd mai'r un meddyg a oedd

[693] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 3, 29 Mehefin 2023, paragraff 13
[694] Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 31
[695] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 79 Unigolyn
[696] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[697] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraffau 35 a 37
[698] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 102

wedi gwneud yr asesiad preifat oedd yr un meddyg a fyddai wedi gwneud asesiad y GIG.[699]

**631.** Disgrifiodd un rhiant ei brofiad ei hun o lwyddo i gael mynediad da at addysg, ond dim ond ar ôl mynd drwy broses y tribiwnlys a gorfod rhoi trefn ar bethau ei hun:

> *"… … the approach from the LA was to have him well supported in nursery but did not place the equivalent support as he entered full time school - he had to fail first. We were caught in the middle of a bun fight between the school who felt the [sic] couldn't resource his needs and the LA who insisted that they should from their delegated budget. We withdrew him and after tribunal sourced our own education at home whilst keeping a close daily relationship with the school. It was hard hard work and stopped me from returning to work … I've had to work hard to maintain relationships with the school and LA. It's been exhausting. We are now in the secondary phase of his education and the home programme was no longer sustainable and we opted for a specialist out of count [sic] setting, finally agreeing this with the LA after many many months. The current system is not resourced for children with complex ALN and ultimately we are displaced from our communities in order to get an accessible education."*[700]

**632.** Codwyd yr heriau o geisio cael gafael ar y cymorth hwn ar yr un pryd â magu teulu:

> *"Mae'r cwestiynau ar asesiadau addysgol yn agored iawn a phan fyddwch yn delio â'r straen o ddydd i ddydd o gynorthwyo dau blentyn anabl, yn enwedig un â salwch sy'n peryglu bywyd ac un arall sy'n gallu bod yn anwadal iawn, does gennych chi ddim lle yn eich pen i feddwl yn arloesol. Ac rydych chi'n clywed bygythiadau fel "os nad yw e yn y papur yma fydd e ddim yn cael sylw""*[701]

699 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraffau 35 a 37
700 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 55 Fforwm Rhieni-Ofalwyr Abertawe
701 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023

**633.** Tynnodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol hefyd sylw at yr heriau'n gysylltiedig â defnyddio'r system dribiwnlysoedd, ar yr un pryd â gorfod ymdopi â'r pwysau ychwanegol sy'n dod o gefnogi plant a phobl ifanc. Dywedodd ei bod yn system eithaf gwrthwynebol sy'n gofyn am ymdrech ac egni ychwanegol.[702]

**634.** Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud, bod yn rhaid i awdurdodau lleol fod yn dryloyw a'u cyfathrebu'n amserol a chynnwys gwybodaeth am lwybrau apelio. Roedd ymchwil diweddar wedi dangos bod hyn yn anghyson, a bod diffyg dealltwriaeth ynglŷn â'r angen i hyn gael ei wneud mewn ffordd glir, hygyrch ac amserol, meddai. [703]

## Cymorth ehangach gan broffesiynau eraill

**635.** Nododd Triniaeth Deg i Fenywod Cymru y bydd rhai grwpiau o blant a phobl ifanc yn wynebu rhwystrau penodol o ran cael mynediad at gymorth, a all arwain at oedi, yn ogystal â gwaethygu trawma ac anabledd pellach. Tynnodd sylw at y ffaith mai'r grwpiau a oedd yn arbennig o debygol o wynebu rhwystrau ychwanegol oedd merched a menywod du neu o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, sy'n anabl, ac sydd â phrofiad o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, ynghyd â'r rhai a oedd wedi cael diagnosis o awtistiaeth neu ADHD.[704]

**636.** Clywsom am heriau'n ymwneud ag ysgolion yn cael cymorth gan gyrff allanol. Tynnodd Estyn sylw at hyn[705] a chodwyd hyn hefyd yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion. Dywedodd un ysgol arbennig wrthym nad oes ganddynt therapydd lleferydd ac iaith, ac mai anaml y daw therapyddion galwedigaethol yno. Dywedodd mai un o'r heriau yw diffyg arbenigwyr, a bod hyn yn wir yn achos arbenigwyr Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Her arbennig yw'r diffyg arbenigwyr ar anhwylderau prosesu synhwyraidd hyfforddedig yn eu hardal, er gwaethaf cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sydd â'r mathau hyn o anhwylderau. Mae wedi gorfod prynu'r cymorth arbenigol hwn o Loegr.[706] Cododd UCAC bryderon am ddiffyg cymorth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd fel therapi lleferydd ac iaith, a seicoleg addysg.[707]

[702] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 231
[703] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 115
[704] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 50 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
[705] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 48 Estyn
[706] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 4, 28 Medi 2023, paragraffau 46-49
[707] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 235

**637.** Tynnodd ysgol arall sylw at hyn, gan alw am fwy o gydgysylltu rhwng y meysydd addysg ac iechyd. Roedd am allu cael mynediad at ymyriadau therapiwtig yn fwy rheolaidd, fel cerddoriaeth a therapi galwedigaethol. Nid oedd yn gallu cael mynediad at Therapi Galwedigaethol drwy'r awdurdod lleol, felly mae wedi ariannu Therapydd Galwedigaethol annibynnol. Dywedodd mai anaml y mae atgyfeiriadau yn bodloni meini prawf y Bwrdd Iechyd er gwaethaf lefel yr anghenion cymhleth.[708]

**638.** Galwodd gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd sydd hefyd yn rhiant i blentyn anabl am well cydgysylltu hefyd. Dywedodd y byddai gwell cydgysylltu rhwng Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion, Therapyddion Iaith a Lleferydd a Seicolegwyr yn yr ysgol yn helpu i wella mynediad at addysg.[709] Tynnodd academydd hefyd sylw at wasanaethau datgysylltiedig.[710] Ond clywsom hefyd am arferion da:

> ***Enghraifft o arfer da 5***
>
> *"… in Neath Port Talbot … they've got this fantastic consultancy service where OTs and other professionals are almost giving, like, supervision to teachers. So, a teacher might come and they might have got a child who is neurodiverse or has got sensory issues, and the OT and other professionals then will support the teacher, and the teacher in the school can support that."*[711]
>
> ***Enghraifft o arfer da 6***
>
> *"In the local authority that I work with, we have a multi-agency playgroup, where OTs, speech and language, educational psychologists and portage are all involved in getting to know families from a really young age—15 months and upwards—and the focus on that is providing support there on what's needed. And, often, families will say that they just want to share that with someone and for someone to reassure them along the way a lot of the time. So, even when there are some more complex needs, or support that might be required later on, a lot of the things that we do that are most helpful are around listening and having that reassuring role as well. I don't*

[708] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 5, 4 Rhagfyr 2023, paragraff 15
[709] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 74 Unigolyn
[710] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 25 Amy Griffiths
[711] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 57

*think there's enough emphasis placed on that level of support that they find so massively beneficial. And, then, obviously, that information, and that sharing of that communication, has already had a journey far before school for those children."*

***Enghraifft o arfer da 7***

*"… The Communication Intervention Team (ComIT) is a long-established service within the Sensory and Communication Support Service set up for children with SLCN in the 5 local authorities in Gwent. ComIT aims to meet the additional needs of children and young people with a non-clinical diagnosis and primary need of Speech, Language and Communication when that need is severely impacting on the child's learning. … team can work individually or with groups of children."*[712]

***Enghraifft o arfer da 8***

*"… Cardiff and Vale University Health Board have recently restarted their joint referral process with Cardiff Local Authority Speech, Language and Communication team. Under the new system, Cardiff mainstream schools will make a referral which will be jointly triaged by speech and language therapy and SLCN leads in the local authorities who will then decide which team is best placed to provide the support that is needed."*[713]

**639.** Teimlai Cymdeithas Seicolegol Prydain, gyda'r math cywir o gydweithio a theilwra gwasanaethau, y gellid rhyddhau rhywfaint o gymorth a chapasiti.

> *"… We've got some children that are being referred for support across a number of different professionals, all at the same time, which takes up quite a lot of resources. It might not be that they need all of those people at the same time either. So, it's really trying to think around what is right at the right time.*
>
> *And we've got wonderful things in Wales like the NEST framework, which really tries to embrace and to share that. I think one of the biggest barriers at the moment is, actually, our*

[712] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 45 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, paragraff 17
[713] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 45 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, paragraff 17

> *thinking around it when we're thinking more around what individual support means. If we, maybe, aren't feeling that systemic, shared support is the way to go, then that's going to impact on things as well. So, we all need to be working with the same vision and the same goals and collaborating in that way, rather than having separate goals as well."*[714]

**640.** Fodd bynnag, codwyd diffyg cydgysylltu rhwng gwasanaethau droeon. Gwaethygir hyn gan wahaniaethau mewn meini prawf rhwng awdurdodau lleol, ysgolion, cyrff statudol eraill ac elusennau, ynghyd â ffrydiau ariannu dryslyd. Dywedwyd wrthym hefyd fod teuluoedd yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu pasio o un sefydliad i'r llall, sy'n ei gwneud yn anodd deall pwy sy'n gyfrifol.[715] Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain fod angen dybryd am fwy o gydgysylltu rhwng addysg, iechyd, cymunedau a gofal cymdeithasol er mwyn gwella mynediad. Bydd hyn, meddai, yn golygu bod gwasanaethau gwahanol yn defnyddio'r un iaith a'r un derminoleg ac yn gweld pethau yn yr un goleuni.

> *"Fragmentation between or within organisations weakens the opportunities to build capacity and creativity to support children and families."*[716]

**641.** O ran rhannu gwybodaeth, dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol fod hyn yn gweithio'n effeithiol o fewn lleoliadau arbenigol, ond ei bod yn anoddach mewn lleoliadau prif ffrwd lle nad yw perthnasoedd gwaith mor glos a lle ceir llai o gysylltiadau. Gall pontio'r bwlch hwn yn y lleoliadau hyn fod yn fwy o her.[717]

**642.** Amlygwyd yr angen am ddull 'Dim Drws Anghywir' gan y Comisiynydd Plant mewn dau adroddiad, un a gyhoeddwyd yn 2020[718], ac adroddiad dilynol a gyhoeddwyd yn 2022.[719]

**643.** Clywsom hefyd nad yw'r amserlenni rhwng gwahanol wasanaethau cymorth yn gyson â'i gilydd. Disgrifiodd un rhiant sut yr oedd angen i seicolegydd addysg gyfrannu at y CDU, ond na allai'r asesiad hwn ddigwydd tan fis Mehefin cyn i'r

---

[714] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 61-62
[715] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 8
[716] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain
[717] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 52
[718] Comisiynydd Plant Cymru, Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant, Mehefin 2020
[719] Comisiynydd Plant Cymru, Gwneud Cymru'n Genedl Dim Drws Anghywir – i ba raddau rydyn ni'n llwyddo? Chwefror 2022

plentyn ddechrau'r ysgol ym mis Medi. Roedd hyn yn golygu bod gan yr ysgol 45 diwrnod i greu'r CDU, ond mae'r "cloc yn stopio yn ystod gwyliau'r haf". Oni bai i'r rhian weithio gyda'r ysgol dros y flwyddyn flaenorol, ni fyddai ei blentyn wedi gallu dechrau tan fis Hydref, meddai. Er ei fod yn cydnabod bod datblygiad plant yn newid yn gyflym, roedd yn teimlo bod angen edrych ar y mathau hyn o gysoni.[720] Cododd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith hefyd bryderon tebyg, gan ddweud y gall unrhyw oedi arwain at blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn darganfod yn hwyr iawn yn y dydd i ble maent yn mynd, a all effeithio ar y paratoadau ar gyfer pontio.[721]

**644.** Dywedodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant fod llawer o dagfeydd yn y system, sy'n cael eu gwaethygu gan ddiffyg un pwynt mynediad sy'n arwain pobl i'r lle iawn. Mae hyn, meddai yn rhywbeth y mae'n ceisio ei ddatrys. Tynnodd sylw at arfer da ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan lle mae gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol yn cael eu symleiddio gyda llawer o ryng-gysylltiadau gwahanol sy'n blaenoriaethu anghenion yn unol â'r hyn y mae'r rhiant a'r claf yn gallu ymgysylltu ag ef. Tynnodd sylw hefyd at arfer yng Ngogledd Cymru:

> *"… in-reach teacher who might be based in a hospital who understands the relationships then with schools who would then identify what the problem is, be able to communicate the health needs then to the school in a way that it is possible to engage."*

Fodd bynnag, roedd yn cydnabod y byddai'r model hwnnw'n debygol o weithio orau mewn mannau ble ceir dwysedd poblogaeth is, yn hytrach na lleoliadau mwy trefol.[722]

**645.** Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith fod eu haelodau'n bryderus nad yw'r cynnydd yn y galw gan ysgolion arbennig a lleoliadau arbenigol wedi esgor ar gynnydd yn yr amser iechyd a neilltuir i gefnogi hyn.[723]

**646.** Galwodd Cymdeithas Seicolegol Prydain am adolygiad i'r nifer presennol o seicolegwyr addysg sy'n cael eu hyfforddi a'u cyflogi yng Nghymru. Dywedodd fod angen cynnydd yn y niferoedd sy'n cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol i alluogi

[720] Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 53
[721] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 45 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, paragraff 19
[722] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 219
[723] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 45 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, paragraff 2

newid systemig drwy ymwneud a chydweithio â llawer o weithwyr proffesiynol, ar gyfer ystod eang o blant.[724] Tynnodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru sylw at achos lle roedd angen asesiad seicolegydd addysg ar blentyn, ond:

> *"… the school had used up its total number of "slots" with the educational psychologist that year based on the service level agreement in place. Other children with more significant or obvious needs had been prioritised. No budget was available for an additional number of consultations for the school with an educational psychologist."*[725]

**647.** Nododd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru fod Llywodraeth Cymru, yn 2018, wedi cydnabod bod prinder nyrsys anableddau dysgu mewn ysgolion arbennig, ac nad oedd gan ysgolion prif ffrwd fynediad at nyrsys o'r fath. Dywedodd hefyd fod y mater hwn wedi parhau yn 2023 a galwodd am lenwi mwy o swyddi nyrsys ysgol gyda nyrsys anableddau dysgu. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y nyrsys anableddau dysgu sy'n cael eu hyfforddi'n flynyddol.[726]

**648.** Dywedodd teuluoedd wrthym y byddai mynediad at therapyddion lleferydd ac iaith a therapyddion galwedigaethol yn helpu i wella hygyrchedd a chynhwysiant addysg. Clywsom am brinder arbenigwyr ledled Cymru. Dywedodd un rhiant wrthym:

> *"Rwy'n teimlo bod y ddarpariaeth iaith a lleferydd yn ddiffygiol a bod addysg ac iechyd yn taflu'r mater yn ôl a blaen o ran pwy sy'n gyfrifol amdano."*[727]

Roedd pryder cyson wedi'u codi gyda Choleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd ynghylch cynllunio'r gweithlu therapyddion lleferydd ac iaith. Roedd llai o Therapyddion Lleferydd ac Iaith y pen o'r boblogaeth yng Nghymru nag yn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, meddai. Galwodd am gynnydd parhaus yn y niferoedd a gomisiynir.[728]

**649.** Rhannodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol ganfyddiadau arolwg o 34 o therapyddion galwedigaethol, a ddywedodd fod 59% yn teimlo nad

---

[724] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain
[725] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[726] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 73, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
[727] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[728] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 45 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, paragraff 16

oeddent yn gallu darparu'r lefel a'r math o therapi galwedigaethol sydd eu hangen ar blant i'w helpu i gael mynediad at addysg.[729]

**650.** Soniodd nifer o randdeiliaid wrthym am y rôl bwysig y gall ymwelwyr iechyd ei chwarae. Yn ôl Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant:

> *"But it speaks also to the fact that if we had more health visitors, if we had better preschool support, then we would be starting to create those plans and that communication would naturally follow on. So, I think there's an opportunity there, for sure."*[730]

**651.** Clywsom hefyd enghreifftiau niferus o deuluoedd yn teimlo bod y cymorth yr oeddent yn ei gael yn annigonol. Roedd hynny oherwydd bod yr ymyriadau a ddarparwyd yn anniogel neu nad oeddent yn bodloni anghenion y plentyn yn llawn, neu oherwydd bod asesiadau'n cael eu gwneud, ond heb atgyfeiriadau neu gyfarpar perthnasol i ategu hynny.[731]

**652.** Mater hollbwysig arall yw sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at gyfarpar arbenigol a all eu cefnogi mewn gofal plant ac addysg. Mae pryderon am yr oedi cyn cael y cyfarpar neu'r addasiadau cywir. Gall rhwystrau gynnwys diffyg cyllid neu adnoddau; neu brosesau gweinyddol, caffael neu gomisiynu cymhleth. Clywsom, pan fydd gan blentyn gyfarpar arbenigol mewn lleoliad blynyddoedd cynnar, na fydd yn dilyn y plentyn yn awtomatig i leoliad gwahanol nac i'r ysgol. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, mewn rhai ardaloedd:

> *"... partnership agreements across health and education are in place for the purchase and recycling of equipment to help children and young people access nurseries and schools. This isn't consistent across Wales."*[732]

**653.** Tynnodd Whizz Kidz sylw at y ffaith nad oes gan lawer o ddefnyddwyr cadair olwyn ifanc gyfarpar symudedd y GIG sy'n diwallu eu hanghenion neu sy'n cefnogi

---

[729] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 30 Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
[730] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 278
[731] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[732] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 30 Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

annibyniaeth. Y rheswm am hyn, meddai, oedd bod y meini prawf yn llym ac yn anhyblyg.[733]

**654.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi darparu £2.6 miliwn rhwng 2022 a 2025 i hyfforddi seicolegwyr addysg newydd. Rhaid i'r rhai sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant hwn dreulio dwy flynedd gyntaf eu gyrfa yn gweithio i awdurdodau lleol yng Nghymru.[734]

## Amseroedd aros am asesiadau a chymorth

**655.** Roedd yr amseroedd aros ar gyfer asesiad, diagnosis a chymorth yn broblem a godwyd droeon gan bawb. Clywsom fod cynnydd wedi bod yn y galw am wasanaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain fod hyn yn rhannol oherwydd y pandemig a/neu oherwydd anghenion cynyddol cymdeithas a chymunedau. Roedd wedi cael ei frawychu'n arbennig gan y cynnydd yn nifer y plant ifanc iawn ag 'ymddygiad heriol' cymhleth. Dywedodd nad yw ysgolion mewn sefyllfa i ymdopi â'r cynnydd hwn.[735]

**656.** Yn ôl Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant:

> *"… Obtaining a diagnosis can be a complex and time-consuming process which is often delayed. This is in part due to professional capacity, lack of resources and guidance and more recently the Covid-19 impact. Even getting onto a waiting list can prove challenging in itself. So what support and protection is provided for a child or young person in the interim."*[736]

**657.** Dywedwyd wrthym fod amseroedd aros ar gyfer asesiadau niwroddatblygiadol cychwynnol yn methu â chyrraedd y targed aros a osodwyd gan y llywodraeth o 26 wythnos, a hynny'n gyson. Gall yr amseroedd aros hyn fod hyd at bedwar mis ar hugain.[737] Yn ôl y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, gall amseroedd aros ar gyfer asesiadau awtistiaeth ac ADHD amrywio o 47 wythnos i 166 wythnos ledled Cymru.[738]

[733] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 35 Whizz Kidz
[734] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraff 6.3
[735] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain
[736] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 49, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
[737] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 25 Amy Griffiths
[738] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 49, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

**658.** Dywedodd llawer o deuluoedd wrthym eu bod wedi gorfod aros yn hir i gael cymorth gan y GIG, a bod rhai wedi mynd yn breifat er mwyn cael cymorth yn gyflymach. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn ddrud, ac nid yw o fewn cyrraedd pob teulu. Dywedodd un teulu y byddai wedi bod yn argyfwng arno pe bai wedi aros y 18 mis am driniaeth gan y GIG, a disgrifiodd un arall sut y bu'n rhaid iddo dalu £650 am asesiad dyslecsia a gymerodd lawer o amser i gynilo ar ei gyfer.[739] Dywedodd un arall wrthym y bu'n rhaid iddo drefnu benthyciadau i gael triniaeth i'w blentyn ar gyfer clustiau cywasgedig a oedd yn achosi poen difrifol.[740]

**659.** Roedd cymorth preifat hefyd yn aml yn golygu cael mynediad at amrywiaeth o gyngor proffesiynol, sy'n cynyddu'r gost. Dywedodd rhiant wrthym y byddai hyn yn debygol o gostio cyfanswm o £6,000 er mwyn cael diagnosis.[741]

**660.** Roedd rhai rhieni'n teimlo, oherwydd eu bod wedi cael diagnosis cyn-geni, eu bod wedi cael mynediad mwy parod at gymorth ar ôl i'r plentyn gael ei eni, ond nid oedd mynediad drwy gydol taith addysgol plentyn bob amser yn rhywbeth y gellid ei gymryd yn ganiatáol.[742] Yn ôl Cymdeithas Seicolegol Prydain, gall teuluoedd ddarganfod nad yw diagnosis yn ateb i bob problem oherwydd bod diagnosis yn cadarnhau'r hyn y maent yn ei wybod yn barod, ac nid yw'n darparu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen.[743]

**661.** Disgrifiodd un rhiant effaith gorfod aros am asesiadau:

> ***Astudiaeth Achos 13***
>
> *"... if we are being told that early intervention is crucial to our children, then why are we not getting it? 30-36 months wait to see Neuro Development, that's bad yes, but don't forget that getting that referral is also long and hard, doing all the Soggs, nursery nurse, talk and play etc, that's at least 9-12months, all the time knowing you are years away from that diagnosis, that takes its toll. It's like a heavy bag that you carry around all the time, and in that bag there's a whole weight of worry, that your child isn't getting that vital correct, child centred*

[739] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[740] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 31 Unigolyn
[741] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 33
[742] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[743] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain

> *support and early intervention that they need and should be getting at that point you are highlighting concern, not 4years later."*[744]

**662.** Dywedodd y Comisiynydd Plant fod teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu gadael yn nhir neb wrth aros am ddiagnosis, ac y gallai plant mor ifanc â chwe mis oed, sy'n cael ymyriad, orfod aros tan eu bod yn saith i gael darn o bapur i gadarnhau eu cyflwr.[745] Yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n aros am asesiadau yn blant sydd mewn lleoliadau prif ffrwd ac nid yw eu hanghenion yn cael eu diwallu nes bod yr asesiad hwnnw wedi'i wneud.[746] Codwyd y mater hwn gan eraill, gan gynnwys Cymdeithas Seicolegol Prydain.[747]

**663.** Disgrifiodd un teulu na all gael gafael ar gymorth gofal iechyd arall tra roedd yn aros am asesiad:

> ***Astudiaeth Achos 14***
>
> *"Despite my g.p repeatedly writing to CAHMS asking them to take my daughter as she suffers with anxiety/depression (mostly due to her struggles navigating school) and her behaviour is very violent at home and threatens to hurt herself and saying she does not want to live anymore CAHMS will not accept her as she is on the waiting list for assessment. The g.p also wrote to CAHMS to request they prescribe my daughter melatonin as g.ps cannot prescribe it as she does not sleep well and it is affecting her school but this also got refused as she is on the waiting list for assessment."*[748]

**664.** Dywedodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant pan fydd plant a phobl ifanc yn aros am asesiadau ei bod yn hollbwysig bod ymyriadau a chymorth yn seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu rhoi ar waith. Dylai'r cymorth hwn rymuso plant a phobl ifanc i fod yn annibynnol ac i gymryd rheolaeth gan sicrhau bod yr unigolyn a'i deuluoedd a'i ofalwyr yn deall eu hopsiynau a sut i ddefnyddio gwasanaethau priodol.[749]

---

[744] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 70 Unigolyn
[745] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 63 - 65
[746] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 136
[747] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain
[748] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 10 Unigolyn
[749] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 49, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

**665.** Yn ôl Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol:

> *"There's still this linear process within our services that say, 'You've got to go there and you've got to end up there', and when you get your assessment you get, 'No, it's needs based. It's what matters to the child; needs based.' And you can't wait to intervene with a child, you can't wait for them to be on a waiting list for a long time, so that needs-based approach is paramount."*[750]

**666.** Galwodd Cymdeithas Seicolegol Prydain am sicrhau bod cyngor a chymorth cynharach ar gael heb fod angen atgyfeiriad na label. Dywedodd fod yn rhaid i gymorth iechyd meddwl gael ei arwain gan y plentyn a'i anghenion, nid gan ddiagnosis, a'i deilwra i anghenion unigol y plentyn.[751]

**667.** Er i rai rhieni ddweud wrthym fod ysgolion yn ystyriol neu'n darparu cymorth cyn i'r plentyn gael diagnosis, clywsom fod cyfyngiadau i'r cymorth y gellid ei gynnig heb ddiagnosis ffurfiol. Serch hynny, i'r rhan fwyaf o deuluoedd, roedd diffyg diagnosis yn golygu na ddarparwyd cymorth iddynt. Dywedodd un rhiant na allai ei blentyn gael mynediad at gymorth un-i-un cyn cael diagnosis er bod angen wedi'i nodi.[752]

**668.** Gall y ffaith bod angen i'r ysgol weithiau gychwyn y broses ar gyfer cael diagnosis gymhlethu hyn, a dywedodd rhai rhieni fod eu plant yn masgio eu cyflwr yn yr ysgol. Roedd teuluoedd yn ymwybodol iawn o'r effaith yr oedd yr oedi hir hwn yn ei gael ar addysg eu plant:

> *"Rydyn ni wedi gorfod aros mor hir am y cymorth mae e nawr yn ei gael ac mae wedi colli cymaint o gyfleoedd, mae wedi cael cyfnodau anodd ac mae hynny wedi gwneud addysg yn beth negyddol iddo. Mae'n dweud nad yw e eisiau bod yn fyw mwyach, a phan fyddwch chi'n clywed eich mab deg oed yn dweud hynny mae'n torri eich calon."*[753]

**669.** Roedd rhai o'r amseroedd aros y clywsom amdanynt yn frawychus. Yn arolwg Heledd Fychan AS, cyfeiriwyd at amseroedd aros o rhwng dwy a phedair

[750] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 126
[751] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain
[752] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 63 Unigolyn
[753] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023

blynedd.[754] Dywedodd un teulu wrthym y bydd eu plentyn wedi gadael yr ysgol cyn iddo gael diagnosis. [755] Disgrifiodd un arall arhosiad o saith mlynedd i gael diagnosis ASD, a thair blynedd ar gyfer plentyn arall.[756] Aeth un arall yn breifat oherwydd bod yr amser aros am therapi lleferydd ac iaith ar gyfer eu plentyn nad oedd yn siarad yn ddwy flynedd.[757]

**670.** Galwodd Cymdeithas Seicolegol Prydain am sicrhau bod mwy o waith yn cael ei wneud tra bod teuluoedd yn aros am ddiagnosis neu gymorth:

> *"For those children and families waiting for an ALN diagnosis or support, communities should be set up to provide activities such as playgroups, to help build stronger networks and build a child's confidence. There should be better signposting to existing support networks provided by community groups and local and national charities. We would also like to see best practice in early detection and intervention being adopted in schools and communities more widely across Wales, and to encourage multi-agency working and wider collaboration."*[758]

**671.** Cododd Triniaeth Deg i Fenywod Cymru bryderon am yr annhegwch mewn perthynas â diagnosis ar gyfer merched niwrowahanol, a bod modelau diagnostig ac ymyriadau yn seiliedig ar y model gwrywaidd nodweddiadol. Gall hyn arwain at oedi o ran cael diagnosis ac yna wneud trefniadau i ddarparu cymorth. Dywedodd eu bod yn aml yn cael camddiagnosis o gyflyrau iechyd meddwl / anhwylderau seiciatrig, gan arwain at ofal annigonol a dirywiad yn eu llesiant.[759]

**672.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd na ddylai cymorth fod yn ddibynnol ar ddiagnosis. Dywedodd fod ganddi grŵp cynghori gweinidogol ar niwroamrywiaeth, yn cael ei arwain gan bobl niwrowahanol, sy'n awyddus i helpu i greu rhaglen ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd yn derbyn bod hyn yn broblem gynyddol, a bod yn rhaid symud oddi wrth ddiagnosis.[760]

---

[754] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
[755] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[756] Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 55
[757] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 31 Unigolyn
[758] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 58 Cymdeithas Seicolegol Prydain
[759] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 50 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
[760] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 111

## Ein barn ni

### Cymorth gan awdurdodau lleol

**673.** Roeddem yn hynod o siomedig clywed gan gynifer o deuluoedd nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan awdurdodau lleol. Yn wir, i lawer, maent yn teimlo bod yr awdurdod lleol eu hatal rhag cael cymorth. Fodd bynnag, o fyfyrio ar y dystiolaeth a gawsom gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol, gwelsom fod datgysylltiad syfrdanol rhwng y darlun a ddisgrifiwyd ganddynt a'r profiadau a glywsom yn uniongyrchol gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill.

**674.** Mae pwysigrwydd gwrando ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac ymgysylltu'n ystyrlon â nhw yn hanfodol o ran creu perthynas adeiladol rhyngddyn nhw a'r ysgol a'r awdurdod lleol. Rydym yn edrych ar y mater hwn yn fanylach yn y Bennod nesaf.

**675.** Credwn y bydd gweithredu Argymhelliad 14, Argymhelliad 15 ac Argymhelliad 16 yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion yr ydym wedi'u codi mewn perthynas â chymorth gan awdurdodau lleol.

### Cymorth ehangach gan weithwyr proffesiynol eraill

**676.** Er bod cyllid ac adnoddau yn amlwg yn cael effaith ar sut y gall gweithwyr iechyd proffesiynol gefnogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at ofal plant ac addysg, yn amlwg nid dyna'r unig ffactorau. Dywedwyd yn glir wrthym fod cyfleoedd i leihau'r fiwrocratiaeth a gwella systemau er mwyn sicrhau system fwy ymatebol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Ceir enghreifftiau o arferion da eisoes, ac mae angen gwneud mwy i sicrhau bod y rhain yn cael eu hefelychu'n ehangach. Rydym hefyd wedi gweld rhywfaint o gynnydd mewn perthynas â rhoi dull Dim Drws Anghywir ar waith, fel yr argymhellwyd gan y Comisiynydd Plant, ond mae ffordd bell i fynd o hyd i'w roi ar waith yn llawn.

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu symleiddio er mwyn mabwysiadu dull dim drws anghywir yn llawn ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus, ond gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhyngweithio rhwng gwasanaethau iechyd ac addysg. Dylai'r gwaith hwn nodi'r rhwystrau i gydgysylltu gwasanaethau'n effeithiol, yn ogystal â nodi arferion gorau, a mecanweithiau ar gyfer rhannu'r arferion gorau hyn.

**677.** Gall yr amserlenni gwahanol y mae gwasanaethau gwahanol yn eu dilyn greu rhwystrau i blant a phobl ifanc rhag cael mynediad at ddarpariaeth gynhwysol. Rydym wedi clywed enghreifftiau go iawn o sut y gall hyn achosi oedi o ran trefnu cymorth. Mae angen gwneud gwaith i leihau effeithiau'r gwahanol ddulliau sy'n cael eu defnyddion gan wahanol wasanaethau. Bydd hyn hefyd yn cysylltu â'r gwaith yr ydym yn galw amdano yn Argymhelliad 24.

**Argymhelliad 25.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwasanaethau'n cysoni ac yn addasu eu hamserlenni wrth weithio ar draws gwahanol wasanaethau a phroffesiynau er mwyn sicrhau cymorth cyfannol sy'n cefnogi mynediad at ofal plant ac addysg yn y ffordd orau.

**678.** Fel y clywsom mewn tystiolaeth bwerus, mae gennym fwy o wybodaeth nag erioed am lawer o gyflyrau, ac eto mewn gwirionedd rydym yn gwneud llai nag erioed i gefnogi plant a phobl ifanc gyda'r cyflyrau hyn.

**679.** Rydym wedi clywed gan wahanol broffesiynau perthynol i iechyd am bryderon yn ymwneud â chapasiti, wrth i nifer y plant a phobl ifanc y mae angen cymorth arnynt barhau i gynyddu. Yn benodol, rydym wedi clywed am nifer y bobl sy'n hyfforddi i fod yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'n amlwg bod darparu gofal plant cynhwysol ac addysg yn dibynnu ar arbenigedd proffesiynol y gwahanol grwpiau hyn o weithwyr proffesiynol. Gall capasiti annigonol yn y gweithlu hefyd effeithio ar amseroedd aros (a drafodir yn yr adran nesaf). Credwn ei bod yn hollbwysig meithriin dealltwriaeth fanylach o anghenion y gweithlu a'r gallu i helpu i gefnogi addysg gynhwysol.

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r niferoedd presennol o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd allweddol, nodi ble mae'r bylchau ar hyn o bryd, sut y bwriedir llenwi'r bylchau hyn a'r niferoedd sydd eu hangen i gefnogi lefel debygol yr angen yn y dyfodol, gan gynnwys nifer y lleoedd hyfforddi sydd eu hangen. Dylai hyn wedyn gael ei ategu gan gynllun cyflawni clir.

**680.** Mae gennym ddiddordeb mawr yn yr arfer da yng Nghastell-nedd Port Talbot ble mae'r awdurdod lleol wedi ariannu therapyddion galwedigaethol mewn ysgolion a lleoliadau. (Gweler paragraffau 470 a 638.) Clywsom hefyd yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion am rai o'r heriau penodol y mae rhai ysgolion yn eu hwynebu wrth geisio cael cymorth Therapi Galwedigaethol[761], ac eto gall y mewnbwn hwn fod yn amhrisiadwy i ddarparu addysg gynhwysol. Credwn ei bod

[761] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 5, 4 Rhagfyr 2023, paragraff 15

yn werth edrych ymhellach ar y model arfer da a ph'un a fyddai hyn yn rhywbeth y gellid ei gyflwyno ledled Cymru.

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru edrych yn fanylach ar yr arfer da yng Nghastell-nedd Port Talbot ble mae ysgolion yn gallu cael cymorth gan Therapyddion Galwedigaethol a ariennir gan yr awdurdod lleol, ac ystyried a fyddai'n elwa o dreialu dulliau o'r fath mewn rhannau eraill o Gymru. Yna dylid gwerthuso cynllun peilot o'r fath yn llawn, ac os bydd yn llwyddiannus, dylid ystyried cyflwyno'r model hwn ledled Cymru.

**681.** Clywsom am yr heriau y gall lleoliadau gofal plant ac addysg eu hwynebu o ran cael mynediad at gyfarpar arbenigol neu addasiadau (gweler paragraff 652). Ac eto, mae gan rai awdurdodau lleol gytundebau partneriaeth i helpu i brynu ac ailgylchu cyfarpar ac addasiadau, ond nid yw hyn yn gyson ledled Cymru. Mae sicrhau bod gan bob awdurdod lleol y cytundebau partneriaeth hyn ar waith yn ymddangos yn ffordd synhwyrol a gweddol syml o geisio sicrhau mynediad haws at gyfarpar ac addasiadau angenrheidiol.

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru annog pob awdurdod lleol i wneud cytundebau partneriaeth i gefnogi prynu ac ailgylchu cyfarpar arbenigol ac addasiadau a all helpu plant a phobl ifanc i gael mynediad at ofal plant ac addysg.

### Amseroedd aros am asesiadau a chymorth

**682.** Gwyddom fod y GIG o dan bwysau mawr. Mae'r amseroedd aros yn hirfaith am ystod eang o resymau ar draws pob adran o'r GIG. Er nad dyma oedd ffocws ein gwaith, mae'n amlwg bod amseroedd aros am asesiadau a chymorth yn rhwystr difrifol i blant a phobl ifanc o ran cael mynediad at ofal plant ac addysg.

**683.** Gwyddom fod y diwygiadau ADY i fod i gael eu harwain gan anghenion, yn hytrach na chan ddiagnosis. Roedd hon yn neges a ailadroddwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, ond mae'n amlwg nad yw hyn yn digwydd yn ymarferol. Felly mae'r cyfuniad o amseroedd aros hir a chymorth nad yw'n cael ei roi ar waith nes bod plentyn wedi cael diagnosis clir yn cael effaith fawr. Credwn y gallai rhai o'r argymhellion yr ydym wedi'u gwneud yn yr adroddiad hwn ac yn yr adroddiad ar weithredu diwygiadau addysg helpu i sicrhau bod bwriad y diwygiadau'n cael eu cyflawni.

**684.** Credwn fod rôl y SACDA yn hollbwysig, ac rydym yn pryderu nad oes SACDA ym mhob Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd. Yn ein hadroddiad interim ar ddiwygiadau addysg, rydym wedi gwneud argymhelliad, sef argymhelliad 3 sy'n galw ar

Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd unigol yn penodi SACDA cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**685.** Credwn fod angen gwneud mwy i sicrhau bod cymorth ar gael tra bod plant a phobl ifanc yn aros am gymorth. Byddai hyn wedyn yn helpu i liniaru effaith yr oedi cyn cael diagnosis.

# 8. A oes gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fynediad at yr wybodaeth gywir ac a wrandewir arnynt?

Gall gwybodaeth fod yn dameidiog ac yn anodd i blant, pobl ifanc a theuluoedd gael mynediad ati'n rhwydd. Gall fod yn anodd cael gafael arni, ac mae'n amrywio ledled Cymru. Nid yw plant, pobl ifanc a theuluoedd yn teimlo bod neb yn gwrando arnynt yn ystyrlon pan ofynnir am eu barn.

**686.** Mae gan bob awdurdod lleol Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, sy'n bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyngor a gwybodaeth am wasanaethau lleol i deuluoedd a gofalwyr. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim ac yn ddiduedd, a gall ddarparu cymorth, cefnogaeth a chyngor ar amrywiaeth o faterion teuluol, gan gynnwys gofal plant a help gyda chostau, ac addysg. Gall hefyd gyfeirio teuluoedd at ffynonellau eraill o wybodaeth a chymorth.

## Mynediad at wybodaeth

**687.** Dywedwyd wrthym nad oedd gwybodaeth ar gael yn gyfleus nac yn cael ei chynnig yn rhagweithiol i deuluoedd.[762] Yn ôl rhieni, gall gwybodaeth fod yn anodd iawn i gael gafael arni, a thynnwyd sylw at nifer o wasanaethau a chymorth sydd bellach wedi dod i ben, gan gynnwys Ymwelwyr Iechyd Anghenion Arbennig.[763] Pan ddarperir gwybodaeth, yn aml gall fod wedi dyddio.[764] Disgrifiodd rhiant arall gael ei "gwthio rhwng gwasanaethau."[765]

**688.** Roedd rhieni wedi dweud wrth y Coleg Nyrsio Brenhinol bod cyfathrebu yn un o'r pethau allweddol y mae arnynt ei eisiau gan wasanaethau, ond ar hyn o

[762] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 3, 29 Mehefin 2023, paragraff 12
[763] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn Ysgol 5, 4 Rhagfyr 2023, paragraffau 39-40
[764] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i Randdeiliaid (Wyneb yn wyneb), 27 Medi 2023, paragraff 51
[765] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru

bryd y gall pethau fod yn ddryslyd iawn i rieni. Mae hyn yn ychwanegu at y straen y mae rhieni a gofalwyr yn ei wynebu.[766]

**689.** Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain fod darparu gwybodaeth hygyrch a pherthnasol yn dibynnu ar bob gwasanaeth yn cydweithio:

> *"… because there are instances, perhaps, where there are recruitment issues from even health visiting, and they might have not yet seen the family, and if they haven't accessed anything in the community—which is different in areas—then it's going to be a different amount of information. So, we've still got work to do around how we get to know families very early on, and not just from a specialist level, but how we get to know our communities and get out into the communities to understand and for people to be able to access that information freely available, really, rather than waiting for a certain point."*[767]

**690.** Roedd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu yn cytuno â hynny, a nododd hefyd y bu newidiadau dros y 12 mlynedd diwethaf, yn enwedig mewn perthynas â mewnbwn y blynyddoedd cynnar a chysylltiadau ag ymwelwyr iechyd. Soniodd hefyd am effaith llai o ymweliadau cartref gan feddygon teulu. Dywedodd y byddai cynyddu nifer yr ymwelwyr iechyd a chyfathrebu'n well ag ymwelwyr iechyd yn helpu.[768]

**691.** Tynnodd Blynyddoedd Cynnar Cymru sylw at yr amrywiaeth mewn gwefannau awdurdodau lleol, a pha mor hawdd yw dod o hyd i wybodaeth.

> *"You could pick four or five different authorities, and just putting yourself in the place of a parent with a child and trying to find the information that you need, and you can count how many clicks it's going to take before you actually get to anything remotely like what you think you need, and it can be up to 10 clicks, which I think is excessive, to try and get to even the family information website. I don't think that putting in the right words necessarily, because they might put in 'childcare', but it won't*

[766] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 82
[767] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 154
[768] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 285

*bring up 'family information service' if you put in 'childcare'. And that's across the board on all local authority websites."*[769]

Gall y problemau hyn waethygu pan fydd teuluoedd yn delio ag anghenion sy'n dod i'r amlwg a phan fyddant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar heb bwynt cyswllt fel y byddai ar gael pe bai eu plentyn yn yr ysgol.[770]

**692.** Roedd Mudiad Meithrin yn credu y dylai Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar sicrhau bod teuluoedd yn cael y wybodaeth gywir, oherwydd nhw yw'r bobl sydd â "throsolwg strategol dros y blynyddoedd cynnar .... Maen nhw mewn lle da wedyn i fod yn cynghori teuluoedd ar yr opsiynau sydd ar gael iddyn nhw." Fodd bynnag, dywedodd yn y lle cyntaf, fod angen i deuluoedd fod yn ymwybodol bod y swydd honno'n bodoli a ble i edrych, a all fod yn "arbennig o heriol" er gwaethaf y ffaith bod DEWIS a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gael.[771]

**693.** Dywedodd rhieni yn adroddiad Sparkle y gall Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ledled Cymru fod yn anghyson a bod pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth yn dibynnu ar y Cyngor unigol.[772] Gofynnodd Heledd Fychan AS i rieni a gofalwyr a yw eu "plentyn yn cael gwybodaeth glir am ei opsiynau ac am unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ar ei gyfer?" Dywedodd 59.3% 'dim o gwbl', dim ond 8% a nododd 'yn gyfan gwbl', a dywedodd 32.7% 'ar adegau'.[773] Soniodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol hefyd am yr amrywiadau rhwng gwahanol feysydd, gan nodi bod llawer o feysydd lle nad yw teuluoedd yn cael y wybodaeth gywir, ond bod arfer da hefyd y mae angen ei rannu.[774]

**694.** Nid yw'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd bob amser yn hysbys i deuluoedd. Er enghraifft gwefan DEWIS, ond dywedwyd wrthym bod angen iddi gael ei hysbysebu'n ehangach, gan gynnwys mewn ysgolion, clinigau, meddygfeydd. [775] Yn ôl SNAP Cymru, pan fydd teuluoedd yn cael manylion cyswllt, efallai mai dim ond un cyfeiriad e-bost ydyw, neu rif ffôn sydd bob amser yn arwain at beiriant ateb. Dywedodd fod y rhychwant o bobl y gellir cysylltu â nhw a sut i gysylltu â nhw yn eithaf heriol mewn gwahanol ardaloedd. Roedd

[769] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 98
[770] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53 Blynyddoedd Cynnar Cymru
[771] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 96
[772] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle
[773] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
[774] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 157
[775] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

ganddo hefyd enghreifftiau lle mae rhieni wedi teimlo bod gwybodaeth wedi cael ei chadw oddi wrthynt, fel llythyrau gwaharddiad gyda chyfeiriad post arnynt ar gyfer tribiwnlys a llythyrau yn cyfeirio teuluoedd at sefydliadau partneriaethau rhieni yn Lloegr.[776] Dywedodd Blynyddoedd Cynnar Cymru hefyd fod angen mwy o ymwybyddiaeth o'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru, ble mae adroddiadau arolygu ar gael ar gyfer yr holl ddarpariaeth gofrestredig.[777]

**695.** Ym marn PACEY Cymru, mae'r her o ran ceisio cael un pwynt gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant yn ymwneud â'r ffaith bod y sector yn eithaf tameidiog, a bod ystod eang o wahanol ddarpariaethau wedi'u hariannu. (Mae hwn yn fater yr ydym yn ei drafod ym Mhennod 4.) Dywedodd ei fod yn anodd i weithwyr proffesiynol ei ddeall, sy'n golygu ei bod hi'n anoddach fyth i'r rhai heb unrhyw wybodaeth gefndir. Cyfeiriodd at enghraifft o achos diweddar:

> *"I had a call, really interestingly, yesterday evening from a parent looking desperately for childcare. She is a single-parent nurse of twins who are two and a half, and an eight-year-old, so she needs something that is going to support her needs. She didn't have awareness of CIW, didn't have awareness of childcare offer, and was saying that she didn't live in a Flying Start area but wasn't aware of the expansion, and trying to work out where she potentially would drop in and out of support and funding in one phone call for one person was extremely complex. So, I can understand it's very challenging trying to display that on a website, until we change the model of the programmes of delivery and the complexities of those, I think."*[778]

**696.** Dywedwyd wrthym hefyd y gall teuluoedd gael eu llethu gan wybodaeth sy'n dod o ystod o wahanol leoedd, ac ar ystod eang o bynciau, nid yn unig addysg a gofal plant, ond hefyd tai, budd-daliadau ac iechyd.[779] Yn ôl SNAP Cymru, mae'r systemau sy'n gysylltiedig ag addysg yn gallu bod yn wirioneddol frawychus, ac mae'n anodd gwneud synnwyr o'r holl baneli gwahanol a'r llinellau amser, y

[776] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 310-311
[777] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 99
[778] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 101
[779] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad Rhanddeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraff 25

prosesau, y gwaith papur, a gwybod beth i'w wneud os nad yw pethau bob amser yn gweithio fel yr oedd pobl wedi'i obeithio.[780]

**697.** Mae angen i wybodaeth fod ar gael mewn fformat hygyrch. Nododd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau[781] a'r Undeb Addysg Cenedlaethol[782] y gallai rhieni a gofalwyr hefyd wynebu heriau o ran cael gafael ar wybodaeth, os nad ydynt yn anabl neu os ydynt yn niwronodweddiadol eu hunain. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith nad yw dulliau o rannu gwybodaeth yn aml yn ystyried y gwahanol ffyrdd sydd orau gan bobl i dderbyn a dehongli gwybodaeth a bod gwybodaeth yn aml yn cael ei darparu'n ysgrifenedig.[783] Yn ôl y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, nid yw'r wybodaeth a ddarperir mewn gofal iechyd o reidrwydd wedi'i chynllunio ar gyfer rhieni; gallai fod yn addas ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.[784]

**698.** Dywedodd Anabledd Dysgu Cymru mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael i rieni sydd ag anableddau dysgu. Mae'n hanfodol bwysig, meddai, eu bod yn cael y wybodaeth gywir er mwyn cael y cyfle i rianta hyd eithaf eu gallu, yn hytrach na chael eu hanwybyddu. Dywedodd fod gwneud hyn yn iawn yn bwysig iawn o ran sicrhau bod y plentyn yn aros gyda'i riant.[785]

**699.** Amlygwyd hefyd bwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth yn ddiduedd ac yn annibynnol. Roedd Fforwm Cymru Gyfan yn bryderus iawn am ddiffyg gwybodaeth annibynnol, diduedd sydd ei hangen ar deuluoedd er mwyn eu grymuso i fynd i siarad ag ysgolion a datrys y problemau sydd ganddynt.[786] Dywedodd SNAP Cymru fod gwybodaeth annibynnol a diduedd yn bwysig er mwyn i deuluoedd allu bod yn hyderus bod y gefnogaeth a'r cyngor y maent yn eu cael yn dod o ffynonellau cwbl ddiduedd. Roedd yn derbyn bod hon yn dasg fawr i staff sy'n gweithio mewn ysgolion ac ALlau ei chyflawni.[787]

**700.** Clywsom fod yn rhaid i lawer ohonynt ddelio â system gymhleth ar eu pen eu hunain, gan wneud eu hymchwil eu hunain, a bod diffyg cynigion rhagweithiol o gymorth i ddod o hyd i'r wybodaeth gywir. Tynnodd y Comisiynydd Plant sylw at rôl bwysig grwpiau cymorth gwirfoddol gwych, sy'n cael eu harwain gan rieni a chyfoedion. Dywedodd eu bod yn chwarae rhan bwysig yn y broses o rannu a

[780] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 313
[781] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 250
[782] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 252
[783] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 45 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, paragraff 19
[784] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 281
[785] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 195
[786] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 243
[787] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 313

lledaenu'r wybodaeth honno ymysg rhieni.[788] Roedd hyn yn cyd-fynd â'r hyn a glywsom yn uniongyrchol gan deuluoedd.

**701.** Gall diffyg gwybodaeth, yn enwedig am hawliau, olygu nad yw teuluoedd yn sylweddoli y gwahaniaethir yn eu herbyn a gallant dderbyn mai "dyna sut mae pethau". Mae gwahaniaethu mor gyffredin yn aml fel ei fod yn dod yn "norm". Er bod llwybrau i fynd i'r afael â gwahaniaethu, gall fod yn anodd ei brofi.[789]

**702.** Dywedodd SNAP Cymru iddo ymdrin â bron i 6,000 o achosion yn 2022/23, gan gefnogi teuluoedd i ddatrys dros 8,000 o faterion. O blith y rhain, teimlai 1,200 o blant, pobl ifanc a theuluoedd eu bod wedi cael eu heffeithio gan wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol oherwydd anabledd, ADY neu niwroamrywiaeth.[790]

**703.** Clywsom fod teuluoedd yn teimlo bod diffyg cyfathrebu sylfaenol gan weithwyr proffesiynol, a'u bod am gael dealltwriaeth gliriach o'r rolau a'r cymorth sydd ar gael. Galwodd un rhiant am lwybr clir sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am ba gymorth a phwy sy'n atebol am sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu.[791] Cyfeiriodd un arall at y gwaith sy'n gysylltiedig â cheisio dod o hyd i gymorth oherwydd diffyg llwybrau clir. Dywedodd mai'r gwaith hwn yn aml yw'r peth olaf y mae rhieni eisiau ei wneud ac y gallant golli'r cyfle i fanteisio ar gymorth a allai fod yn ddefnyddiol iddynt.[792] Dywedwyd wrthym droeon am deuluoedd nad oeddent yn cael gwybodaeth gan wasanaethau statudol, a'u bod yn gorfod darganfod y wybodaeth drostynt eu hunain, neu gan deuluoedd mewn sefyllfaoedd tebyg.[793]

**704.** Roedd teuluoedd yn synnu hyd yn oed pan gawsant ddiagnosis, nad oedd hyn yn datgloi'r wybodaeth a'r cymorth yr oeddent yn eu disgwyl.

> *"Ar ôl cael diagnosis, roeddwn i'n meddwl y byddai miliwn o bethau'n dod ataf o ran cynnig help, ond yn anffodus, oherwydd ein hawdurdod lleol, dydw i ddim wedi cael cynnig rhyw lawer o gwbl."*[794]

---

[788] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 73
[789] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad i randdeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraffau 27-28
[790] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
[791] Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 52
[792] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 79 Unigolyn
[793] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[794] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023

**705.** Roedd llawer o'r teuluoedd y buom yn siarad â nhw'n bryderus ynghylch sut y gallai'r diffyg gwybodaeth neu gymorth effeithio ar y teuluoedd hynny nad oeddent yn gallu defnyddio'r system oherwydd y rhwystrau cyson, a diffyg gwybodaeth hygyrch:

> *"Mae rhieni dan anfantais os nad yw'r wybodaeth ganddyn nhw ac nad ydyn nhw'n gwybod am yr holl bethau sydd ar gael Mae'n annheg os nad ydych chi'n gwybod y system. […] Rwy'n gwybod ble i chwilio am wybodaeth, ond i rai rhieni mae'n hynod anodd."*[795]

**706.** Roedd SNAP Cymru[796] a PACEY Cymru ill dau yn pryderu ynghylch yr hyn a oedd yn digwydd i'r teuluoedd hynny nad ydynt yn cael cymorth digonol, ac sy'n derbyn yn ddi-gwestiwn nad oes cymorth ar gael, heb herio hynny. Roedd PACEY Cymru yn credu ei bod yn bwysig deall pa mor eang yw hyn a'r effaith a gaiff.[797]

**707.** Dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol y gall y gwahaniaethau rhwng gwahanol wasanaethau a chymorth fod yn ddryslyd hyd yn oed i weithwyr proffesiynol, ac y gall teuluoedd fod yn eithaf rhwystredig oherwydd y gwahaniaethau ar ffaith nad ydynt yn deall sut y mae pob gwasanaeth yn gweithio.[798]

**708.** Nododd Blynyddoedd Cynnar Cymru y gall disgwyliadau teuluoedd fod yn anodd eu rheoli os nad oes ganddynt yr holl wybodaeth gywir.[799]

**709.** Cododd teuluoedd bryderon ynghylch cyfathrebu annigonol rhyngddyn nhw a'r ysgol. Dywedodd un mai diffyg cyfathrebu oedd "y norm ym mhob ysgol" a fynychwyd gan ei blentyn. Yn benodol, roedd teuluoedd yn pryderu am y diffyg cyfathrebu gan ysgolion ar brofiadau plant dieiriau. Dywedwyd fod angen systemau mwy cadarn i rannu gwybodaeth hanfodol, gan gynnwys manylion gofal iechyd ac ysgarthu na allai plant eu cyfleu. Roedd y teuluoedd hyn hefyd yn pryderu am ddiogelwch eu plant:

[795] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[796] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 313
[797] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 72
[798] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 63
[799] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53 Blynyddoedd Cynnar Cymru

> *"Cafodd fy mab ei frathu a doedd yr ysgol ddim hyd yn oed yn gwybod am y peth. Ac mae'r math yma o beth yn digwydd drwy'r amser."*[800]

**710.** Dywedodd Estyn fod y cydweithio hwnnw rhwng yr holl bartïon yn "dechrau creu amgylchedd mwy cynhwysol a gwybodus, gan sicrhau bod rhieni plant anabl a niwrowahanol yn derbyn gwybodaeth a chymorth priodol." Fodd bynnag, nododd bod "anghysondebau" o hyd yn y wybodaeth ar wefannau ysgolion ac awdurdodau lleol.[801]

**711.** Dywedodd CCAC wrthym fod rhwymedigaethau clir ar awdurdodau lleol i gefnogi teuluoedd nad ydynt yn gwybod sut i gael cymorth neu nad oes ganddynt lais o bosibl. Dywedodd fod Swyddogion Cyswllt Teuluol ar gael i roi cyngor ac arweiniad i rieni. Mae angen sicrhau bod y berthynas gyda'r gymuned a grwpiau gwirfoddol a grwpiau rhieni yn gryf, meddai.[802]

**712.** Tynnodd CLlLC sylw hefyd at y rhwymedigaethau statudol sydd ar awdurdodau lleol i redeg y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd. Dywedodd fod gwefannau awdurdodau lleol yn llawn gwybodaeth i rieni am yr holl wasanaethau sydd ar gael gan yr awdurdod lleol. Cynghorwyd rhieni a gofalwyr i gysylltu â'r awdurdod lleol os ydynt yn cael trafferth i ddod o hyd i'r wybodaeth oherwydd:

> *"they are best placed to be able to know what provision is available and at what different stages for those families, having those conversations with the families to make the appropriate choices, because there are different services that local authorities can offer."*[803]

**713.** Pwysleisiodd CCAC a CLlLC y rhan y gall llyfrynnau gwybodaeth "Dechrau yn yr Ysgol" ei chwarae.[804]

**714.** Pan wnaethom archwilio'r gwahanol ffyrdd y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i chyflwyno, dywedodd CLlLC fod angen cysondeb o ran dull gweithredu, yn hytrach na bod angen i awdurdodau lleol ddefnyddio dull unffurf ledled Cymru. Dywedodd hefyd ei bod yn annog ac yn rhannu'r arferion gorau ond ei fod

---

[800] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[801] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 48 Estyn
[802] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 41
[803] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 114
[804] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 19 a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 125

yn mynd y tu hwnt i hynny a phan fydd awdurdod lleol yn wynebu heriau, bydd yn trafod y rheini gyda chydweithwyr proffesiynol eraill. Nododd ei fod yn ymwneud â datrys problemau.[805]

**715.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw hefyd at ganfyddiadau adolygiad thematig diweddar Estyn ar weithredu'r diwygiadau ADY, gan ddweud ei fod wedi canfod bod:

> *"... bron pob awdurdod lleol a gymerodd ran yn yr adolygiad wedi uwchlwytho gwybodaeth berthnasol am ddiwygio ADY i'w gwefannau. At hynny, mae ystod o daflenni gwybodaeth wedi'u hanelu at rieni a gofalwyr, a phlant a phobl ifanc wedi'u cynhyrchu hefyd. Mae'r rhai sydd wedi'u cynhyrchu gan glystyrau o ysgolion, neu'n rhanbarthol, yn helpu i sicrhau neges gyson ar draws rhanbarth."*[806]

Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod Estyn wedi nodi bod "ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth" ar wefannau cynghorau ac ysgolion yn "rhy amrywiol" a bod "gwybodaeth gan Dribiwnlys Addysg Cymru a rhieni yn awgrymu bod angen mwy o dryloywder wrth wneud penderfyniadau a mwy o atebolrwydd."[807]

**716.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ei bod yn hollbwysig bod gan deuluoedd wybodaeth hygyrch a'u bod yn gwybod beth sydd ar gael. Cyfeiriodd at y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ym mhob awdurdod lleol; yn ogystal â'r llyfryn Dewis Gofal Plant sydd ar wefan Dewis Cymru. Dywedodd fod y llyfryn hwn yn anelu at amlinellu'r ystyriaethau i rieni wrth ddewis gofal plant, yn amrywio o'r math o ofal plant y maent ei eisiau, a'r hyn sydd ar gael mewn gwirionedd yn eu hardal. Tynnodd sylw hefyd at waith Teuluoedd yn Gyntaf sy'n darparu cymorth i blant a theuluoedd. Dywedodd fod Teuluoedd yn Gyntaf mewn llawer o ardaloedd yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau nad oes bylchau yn y ddarpariaeth."[808]

**717.** Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, gyda'r newidiadau diweddar i'r system ADY, bod angen cyfleu'n glir beth yw'r hawliau newydd. Ar ddechrau diwygiadau o'r fath, meddai, byddai disgwyl i wybodaeth ac ymwybyddiaeth o hawliau fod yn is, ond y byddai hynny'n cynyddu dros amser.

---

[805] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 130
[806] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraff 4.6
[807] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraff 4.7
[808] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 32-33

Roedd yn derbyn bod angen ffyrdd creadigol eraill o wneud yn siŵr bod teuluoedd yn cael eu cyrraedd.[809]

## Gwrando ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

**718.** Dywedwyd wrthym fod teuluoedd yn teimlo nad oedd neb yn gwrando arnynt, a bod cyfleoedd cyfyngedig i leisiau teuluoedd gael eu clywed. Codwyd hyn gan nifer o sefydliadau gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru;[810] ac Anabledd Cymru[811]. Dywedodd rhiant plentyn â dau glefyd genetig cynyddol wrthym:

> *"Fel rhiant, rwy'n teimlo eu bod nhw (y staff addysgu) yn mynd allan o'u ffordd i'ch cadw hyd braich oherwydd maen nhw'n meddwl os ydych chi'n dweud rhywbeth wrthyn nhw y bydd hynny'n creu gwaith – mae angen iddyn nhw fod yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddeall, ond rwy'n sylweddoli bod eu hamser yn gyfyngedig."*[812]

**719.** Dywedodd SNAP Cymru:

> *"… what we do know is when children and young and their parents and carers are acknowledged and believed in what they're talking about, this is a far better way to meet needs within universal provision and beyond."*[813]

**720.** Rhannodd Anabledd Cymru ei ymchwil lle y nododd un ymatebydd bryderon mai dim ond y rhai â rhieni huawdl, gwyn fel arfer, y gwrandewir arnynt. Rhannodd hefyd brofiadau rhiant anabl na chafodd ei hysbysu'n briodol pan na wnaeth yr ysgol ddilyn gweithdrefnau AAA priodol.[814]

**721.** Dywedodd yr Athro Jonty Rix fod angen i sgyrsiau fod yn barhaus hefyd er mwyn adlewyrchu bod pethau'n newid:

> *"To make it work for this young person, what I need to be doing is having a conversation with the parents, with the teachers*

[809] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 116-117
[810] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[811] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 09 Anabledd Dysgu Cymru
[812] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[813] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 219
[814] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 09 Anabledd Dysgu Cymru

> *and with the teaching assistants, and then having an ongoing conversation with them about what it is that's working and not working with that individual. … The problem is that our assessment mechanisms for special educational needs and our systems for funding them don't allow for those kinds of conversations; they allow for once-a-year evaluations, they allow for fixed kinds of reports that then become sacrosanct. And they don't change from year to year. They're like the continuum—they trap people. A lot of educational psychologists loathe the fact that they spend their lives going around writing reports. What they'd like to do is have conversations with people."*[815]

**722.** Rhannodd llawer o rieni brofiadau gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru lle roedd eu plentyn wedi cyrraedd pwynt lle roedd yn wynebu argyfwng cyn i bryderon gael eu cymryd o ddifrif. Dywedodd fod hyn yn groes i'r Cwricwlwm i Gymru lle y dylai ysgolion wrando ar lais y dysgwr ac ymateb i anghenion, profiadau a mewnbwn dysgwyr. Teuluoedd yw'r arbenigwyr ar eu plant, meddai, a dylid ymgynghori â nhw ynglŷn ag unrhyw benderfyniad ynglŷn ag addysg eu plentyn. Ac eto, i lawer mae'n broses heriol, a rhwystredig weithiau.[816] Dywedodd y Coleg Brenhinol Pediatreg a Phlant y gall rhieni deimlo eu bod mewn brwydr oherwydd nad ydynt yn teimlo bod neb yn gwrando arnynt.[817]

**723.** Roedd y trallod y mae hyn yn ei achosi yn arbennig o amlwg yn ymateb ysgrifenedig un unigolyn i'r ymgynghoriad:

> *"I must fight to get heard in a meeting with other professionals to discuss what's best for my child. I must fight to do this?! How is that right? Shouldn't [he] be at the very centre of all decisions? Shouldn't his needs be guiding the support and direction of the provision? Shouldn't those who know best, his mother, his nursery, his speech therapist…shouldn't these people have a massive input into the planning of this? The answer is yes of course. But that isn't what's happening. Instead I'm fighting, putting in complaints, speaking to MPS, stressing, crying, praying that Early years change their decision. Knowing if they don't, that it will affect not only but myself. I will have to give up*

[815] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 161
[816] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 56 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[817] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 220

> *work to home school him as there would be no way id send my child to a place that will quite frankly torture him."*[818]

**724.** Dywedodd rhiant arall fod y diffyg gwybodaeth, a'r brwydro cyson am gymorth wedi dwysáu'r problemau:

> *"I've spent 3 years emailing school, LA and everybody in between trying to access appropriate and timely support..been bounced back and forth...had to find out about available support myself via other parents and through support groups ...had to contact agencies/departments myself begging for support. ... . 3 years in and the waiting for someone to coordinate response, fill in forms, email me back, etc. has caused more emotional damage to both me and my child. It really wasn't a massive deal in the beginning! A little bit of adjusting, listening, acting on the information I was giving. We wouldn't be in the massive mess we are in now. So a massive NO I have never received effective information or support from the LA or from school...until now that is!! ... I don't trust anyone anymore to do what they say."*[819]

**725.** Mae UCAC yn cydnabod nad yw plant, pobl ifanc a theuluoedd yn teimlo bod neb yn gwrando arnynt.[820]

**726.** Pwysleisiwyd pwysigrwydd rhoi lle canolog i leisiau plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau gan lawer. Roedd y Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol yn rhannu barn rhieni a gofalwyr ac roedd hon yn thema glir. Dywedodd un rhiant ei bod yn hanfodol bod llais y dysgwr yn ganolog i gydgynhyrchu cynllun i ddiwallu anghenion y rhai sydd angen cymorth ychwanegol a bod ysgolion yn ystyried y plentyn cyfan yn y cymorth a ddarperir ganddynt.[821]

**727.** Dywedodd rhiant arall, er y bydd rhieni'n eirioli ar ran eu plentyn, mai anaml y mae'r plentyn ei hun yn cael ei gynnwys yn y trafodaethau.[822]

**728.** Dywedodd rhanddeiliaid fod cred mai'r ysgol sy'n gwybod orau, a bod diffyg cyfathrebu â theuluoedd ynghylch sut i gefnogi dysgwyr unigol. Gall hyn fod yn

[818] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 70 Unigolyn
[819] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 66 Joining the Dots Parents and Carers
[820] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 235
[821] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 52 Tîm Niwroamrywiaeth Cenedlaethol
[822] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 79 Unigolyn

arbennig o wir ar ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol. Dywedodd rhai fod arbenigedd pawb yn cael ei werthfawrogi'n fwy nag arbenigedd rhiant.[823] Mae hon yn farn a rennir gan Anabledd Cymru, a ddywedodd nad oes llawer o enghreifftiau o gydgynhyrchu.[824] Dywedodd Fforwm Cymru Gyfan fod cydgynhyrchu yn broses wych, ond hirfaith, a'i bod yn gofyn am lawer o ymdrech. Yn aml, meddai, nid y teuluoedd sy'n cymryd rhan ac yn brwydro dros newidiadau yw'r teuluoedd sy'n elwa o unrhyw newidiadau cadarnhaol.[825] Galwodd Triniaeth Deg i Fenywod Cymru am fuddsoddi mewn ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i sicrhau bod systemau a strwythurau a all greu anfantais ac sy'n anablu pobl yn cael eu nodi'n gliriach, a pharodrwydd ac adnoddau digonol i fynd i'r afael â hynny.[826]

**729.** Roedd pryderon penodol na wrandawyd ar leisiau plant a phobl ifanc mewn ffordd ystyrlon. Dywedwyd wrthym, hyd yn oed pan fydd rhywun yn gwrando arnynt, na weithredir ar eu barn yn aml. Roedd rhwystredigaeth bod pobl yn teimlo nad oedd neb y tu allan i'r teulu agos yn malio am eu plant na beth fyddai'n digwydd iddynt.[827] Fel rhan o ymateb Platfform, roedd pobl ifanc yn galw am sicrhau bod prosesau penderfynu yn fwy cynhwysol. Gwnaethant nifer o awgrymiadau, gan gynnwys sicrhau bod dulliau amgen ar gyfer teuluoedd/rhieni sy'n siarad ieithoedd heblaw Saesneg a ffyrdd gwell o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i blant a phobl ifanc fel eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd ac yn gallu chwarae rhan fwy gweithredol mewn penderfyniadau.[828] Dywedodd Triniaeth Deg i Fenywod Cymru y dylai plant, pobl ifanc a'u teuluoedd fod yn hyderus y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â rhwystrau mewn ffordd amserol heb wneud iddynt deimlo mai nhw – a'u hamhariadau – yw'r broblem.[829]

**730.** Yn ôl Anabledd Cymru, gallai'r rhieni a'r gofalwyr hynny sydd â Saesneg cyfyngedig wynebu rhwystrau ychwanegol o ran gallu eirioli dros eu plentyn/plant.[830]

---

[823] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad Rhanddeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraff 23
[824] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 22
[825] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 234
[826] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 50 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
[827] Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn grŵp ffocws ASD Oakhill Childcare, 15 Medi 2023, paragraff 42
[828] Tystiolaeth ysgrifenedig, Platfform AEC 39
[829] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 50 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
[830] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 89

**731.** Fodd bynnag, nid pob teulu sy'n teimlo fel pe na bai'n cael ei gynnwys neu bod neb yn gwrando arno. Canfu'r arolwg a gynhaliwyd gan Heledd Fychan AS bod y "darlun yn un cymysg" gyda "llawer" o rieni yn dweud eu bod wedi cael "profiadau cadarnhaol" o gyfathrebu gyda'r ysgol.

> *"Does dim pwysau. Mae lleisiau a hawliau ein plant yn bwysig yn ei ysgol bresennol, mae wedi bod yn anhygoel gweld y cynnydd ynddo."*[831]

**732.** Dywedodd Fforwm Cymru Gyfan hefyd ei fod wedi cynnal digwyddiadau diweddar ar ran Llywodraeth Cymru, ble y dywedodd tua 67 y cant o'r rhieni a'r gofalwyr a fynychodd fod eu perthynas â'u hysgol yn 'dda' neu'n 'ardderchog'. Fodd bynnag, ychwanegodd bod rhieni a gofalwyr mewn rhai achosion wedi bod yn gyndyn i ofyn am adolygiadau o CDUau pan fyddant yn gwybod nad oes gan yr ysgol ddigon o adnoddau, oherwydd eu bod yn poeni y gallai hyn greu trafferth i'r ysgol, neu effeithio ar eu perthynas â'r ysgol.[832]

**733.** Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd fod y model cymdeithasol o anabledd yn bwysig. Fel rhan o hyn, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda SNAP Cymru ac yn gwrando'n uniongyrchol ar blant, pobl ifanc a theuluoedd.

> *"Mae'n ffordd o gyfathrebu mewn dwy ffordd. Hynny yw, mae'n gyfle inni sicrhau bod rhieni, gofalwyr a phlant yn deall beth yw eu hawliau nhw, a'r pwynt yr oeddech chi'n ei wneud yn gynharach—yn deall ble mae'r ddarpariaeth a sut y gallwch chi fynd ati i ddarganfod hynny. Mae hynny'n un elfen, ond elfen bwysig iawn yw beth rŷn ni'n clywed nôl am brofiadau disgyblion a'u teuluoedd a sut y gallwn ni, wedyn, ddefnyddio hynny i lunio ac i alinio'r holl waith rŷn ni'n ei wneud ar hyfforddi."*[833]

**734.** Amlygodd Llywodraeth Cymru fod y Ddeddf ADY yn gosod dyletswydd ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i gynnwys a chefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn, meddai, yn rhoi effaith i'r hawliau sydd yn CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Yn 2022,

---

831 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 78 Heledd Fychan AS, Brwydr Barhaus, Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru
832 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 241
833 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 86

cyhoeddodd ganllawiau i helpu awdurdodau lleol i gyflawni'r dyletswyddau hyn, sy'n cwmpasu "darparu cyngor a gwybodaeth; datrys anghytundebau; cyfeillion achos; a gwasanaethau eirioli annibynnol."[834]

## Ein barn ni

**735.** Er ein bod yn cydnabod bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn bodoli ym mhob awdurdod lleol, rydym wedi clywed yn gyson pa mor anodd yw hi i blant, pobl ifanc a theuluoedd gael gwybodaeth berthnasol, amserol a hygyrch am gymorth, opsiynau a dewisiadau. Ymddengys mai anaml iawn y mae gwybodaeth yn cael ei darparu'n rhagweithiol, ac i ormod o deuluoedd maent yn teimlo bod yn rhaid iddynt chwilio am y wybodaeth ddiweddaraf sy'n berthnasol iddyn nhw. Yn rhy aml, nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn unman.

**736.** Er bod heriau ynghylch gwybodaeth ar gyfer pob oedran, mae problem benodol gyda gwybodaeth am ofal plant, yn ôl pob tebyg oherwydd yr ystod eang o wahanol fathau o ddarpariaeth. Yn ein barn ni, mae'n amlwg bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i sut y caiff gwybodaeth am ofal plant ei rhannu â theuluoedd. Efallai y bydd heriau penodol i deuluoedd yn y cyfnodau cynnar hyn, wrth iddynt ddod i delerau ag unrhyw ddiagnosis neu anghenion, yn ogystal â'r newidiadau cyffredinol sy'n dilyn genedigaeth pob plentyn.

**737.** Clywsom am deuluoedd yn cael trafferth i gael gwybodaeth gan awdurdodau lleol yn uniongyrchol, ac yn cael eu trosglwyddo o bared i bost, ac mae hyn yn destun pryder. Rydym yn arbennig o bryderus bod rhai teuluoedd wedi disgrifio sut y cawsant eu beio am beidio â chwilio yn y lle iawn am wybodaeth. Gall hyn fod yn broblem benodol o ran ceisio dod o hyd i wybodaeth am ofal plant. Er inni glywed y gall Ymwelwyr Iechyd chwarae rhan bwysig wrth helpu teuluoedd i ddeall y systemau cymhleth, mae hyn yn aml yn dibynnu ar wybodaeth yr Ymwelydd Iechyd unigol.

**738.** Er bod gofynion ar awdurdodau lleol o ran darparu gwybodaeth, mae llawer o amrywiaeth o ran y modd y darperir y wybodaeth hon. Gall fod yn anodd iawn dod o hyd i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar wefan awdurdod lleol, a hynny os yw rhywun yn gwybod bod y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn bodoli yn y lle cyntaf. Er bod y wybodaeth ar gael yn aml, mae'n anodd dod o hyd iddi, neu mae'n anodd gwybod a yw'n gyfredol. Mae'r lefelau uchel hyn o amrywiad rhwng gwahanol awdurdodau lleol yn ei gwneud yn anodd i'r rhai sy'n cynghori teuluoedd sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r gwahanol ddulliau a

[834] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 77 Llywodraeth Cymru, paragraffau 4.1 a 4.4

ddefnyddir ledled Cymru, ac mae hynny'n effeithio ar y cymorth y gall teuluoedd ei gael.

**739.** Yn aml nid yw'r wybodaeth sydd ar gael yn hygyrch. Mae angen rhoi ystyriaeth i sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i bawb, yn enwedig o ystyried y rhwystrau ychwanegol a wynebir gan rai grwpiau penodol o rieni a gofalwyr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau eu hunain, neu'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Mae Cymru yn wlad amlieithog, ac mae angen inni sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth yn eu dewis iaith. Hefyd, weithiau efallai na fydd teuluoedd wedi cael diagnosis, felly efallai na fyddant yn gwybod gyda phwy y gallant gysylltu i gael cymorth.

**740.** Clywsom am yr angen i lwybrau cliriach fod ar gael fel y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ddeall yn well ble i fynd i gael gwybodaeth a chymorth. Gall y darlun fod yn ddryslyd iawn, ac efallai y bydd rhwystrau ychwanegol fel yr ydym wedi'u hamlinellu yn y paragraffau blaenorol. Rydym yn cefnogi galwadau am wybodaeth gliriach ynghylch pa gymorth sydd ar gael a sut y gellir cael gafael arno.

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob awdurdod lleol yn datblygu llwybrau clir sydd ar gael yn eang sy'n amlinellu pa gymorth sydd ar gael, a phwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r cymorth hwn. Dylid diweddaru llwybrau o'r fath yn rheolaidd fel bod y wybodaeth yn parhau i fod yn amserol ac yn berthnasol. Dylai'r rhain fod ar gael yn hawdd ar wefannau awdurdodau lleol a dylent hefyd fod ar gael yn rhagweithiol i deuluoedd pan fyddant yn cysylltu â'r awdurdod lleol i ofyn am gymorth.

**741.** Er ein bod yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn gyrff annibynnol, ac mai mater iddynt hwy yw sut y maent yn cyflwyno'r wybodaeth hon, er mwyn darparu gwybodaeth mewn ffordd sy'n diwallu anghenion eu cymunedau lleol, credwn fod angen gwneud mwy i wella cysondeb y ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei darparu a'i chyflwyno ledled Cymru. Credwn mai'r ffordd orau o wneud hyn fyddai pe bai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau sy'n amlinellu'r egwyddorion craidd ar gyfer cyhoeddi a rhannu gwybodaeth. Yr hyn a ddylai fod wrth galon y canllawiau hyn yw sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu'n rhagweithiol i deuluoedd lle bynnag y bo modd, bod y broses o gyflwyno gwybodaeth yn cael ei chynhyrchu ar y cyd â theuluoedd; a nodi'r lefel sylfaenol o wybodaeth y dylai pob awdurdod lleol ei darparu. Bydd y canllawiau hyn o fudd i bob teulu, nid dim ond y rhai sydd o fewn cwmpas ein hymchwiliad.

**742.** Mae angen darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau a all ddiwallu anghenion y nifer ehangaf o deuluoedd. Nid yw'n ddigonol i awdurdod lleol gredu bod rhoi gwybodaeth ar ei wefan yn ddigon.

**Argymhelliad 30.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol yn nodi egwyddorion craidd ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am ofal plant. Dylai'r canllawiau hyn nodi y dylai gwybodaeth gael ei chydgynhyrchu gyda theuluoedd, y dylai fod ar gael yn hawdd ac yn gyfleus, mewn sawl fformat, y dylid ei diweddaru, ac y dylid darparu lefel sylfaenol o gysondeb ledled Cymru. Wrth lunio'r canllawiau hyn, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys teuluoedd o bob rhan o Gymru sydd â phrofiadau perthnasol er mwyn sicrhau mai anghenion teuluoedd sydd wrth wraidd y canllawiau.

**743.** O ran plant hŷn, pobl ifanc a'u teuluoedd, ceir diffyg gwybodaeth hygyrch am eu hawliau mewn addysg. Dywedodd ein Panel Cynghori Ar-lein wrthym hefyd fod angen i deuluoedd allu ymddiried yn ffynhonnell y wybodaeth. Dywedodd fod angen annibyniaeth lwyr o ran y wybodaeth sydd ar gael.

**Argymhelliad 31.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am hawliau mewn addysg, gan sicrhau ei bod ar gael yn eang, mewn amrywiaeth o fformatau, ac yn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddeall beth yw eu hawliau, a sut i geisio unioni cam os bydd eu hawliau wedi cael eu torri.

**744.** O ran plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, clywsom lawer gormod o enghreifftiau ble nad oedd hynny'n digwydd. Yn benodol, rydym yn pryderu nad oes llwybr hawdd i rai plant, pobl ifanc a'u teuluoedd fynd i'r afael ag anghytundebau ag ysgol. Er ein bod yn gwybod bod mecanweithiau cyfryngu ffurfiol ar gael, credwn y dylai fod cyfleoedd i deuluoedd gael math arall o gymorth cyn dilyn llwybrau gwneud iawn mwy ffurfiol. Rydym yn ymwybodol o arfer da mewn rhai awdurdodau lleol, megis yng Nghaerffili, lle y gall swyddog awdurdod lleol ddarparu'r gwasanaeth cyfryngu llai ffurfiol hwn a gall weithredu fel brocer diduedd rhwng ysgol a theulu, gan ddod o hyd i ateb sy'n gweithio i bawb yn aml. Dyma'r math o swydd yr ydym am iddi gael ei hystyried fel rhan o'r adolygiad yr ydym yn ei argymell i staff nad ydynt yn staff addysgu yn argymhelliad Argymhelliad 12.

# 9. A oes gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ddewisiadau o ran eu hopsiynau gofal plant ac addysg?

Gall y dewis fod yn gyfyngedig, ac yn aml mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn teimlo nad oes ganddynt ddewis o gwbl. Gall hyn fod yn waeth mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg, neu mewn ardaloedd gwledig.

**745.** Dywedodd teuluoedd wrthym nad oedd unrhyw ddewis. Dywedwyd wrthym, oherwydd prinder ysgolion hygyrch a chynhwysol, bod yn rhaid i blant a phobl ifanc yn aml fynd i'r ysgol sy'n diwallu eu hanghenion orau, hyd yn oed os nad dyma'r ysgol y byddent wedi'i dewis.[835] Ategwyd y farn hon gan sefydliadau, gan gynnwys Estyn[836]; Blynyddoedd Cynnar Cymru[837]; yr Undeb Addysg Cenedlaethol[838]; a Choleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.[839] Dywedodd UCAC:

> *"It's quite clear, I think, in each local area, that there is one school geared to support the children, whether that is planned or not. Things such as school estates come into the question, the specialism within the school and the specialism that they can access easily, the number of pupils. … children have had to move schools in order to facilitate being part of a wider educational community. … children having to move schools and having issues getting the service they provide. Again, it affects Welsh-medium education perhaps more so, in as much as provision for those who are deaf, provision for those who have various ADHD challenges, is not available in the Welsh-medium schools, and they have had to—. In spite of the fact that we're a*

[835] Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sesiwn Grŵp Sparkle, 15 Medi 2023, paragraff 20
[836] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 48 Estyn
[837] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53 Blynyddoedd Cynnar Cymru
[838] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 296
[839] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 268

> *bilingual country, the choice has been taken away from them. … Well, there is an issue with the provision available in the individual schools. So, it is a major concern for our members that pupils, children, aren't able to access their choice of education—be that—linguistically or choice of setting."* [840]

**746.** Yn ôl Blynyddoedd Cynnar Cymru, mae dewisiadau gofal plant yn aml yn cael eu dylanwadu gan leoliad ac argaeledd a'r awdurdod y maent yn byw ynddo. Pris, hyblygrwydd a lleoedd addas ar gyfer yr amseroedd sy'n gyfleus i rieni, er enghraifft, os ydynt yn defnyddio gofal plant er mwyn mynd i'r gwaith.[841]

**747.** Roedd Anabledd Dysgu Cymru yn credu:

> *"… with the right support children should be able to attend their local school, but we recognise that this is not achievable and safe for many disabled children until there has been mass reform in how we think about and provide education for all children in Wales."*[842]

**748.** Dywedodd Anabledd Cymru fod gan blant a phobl ifanc opsiynau eithaf cyfyngedig o ran yr ysgol y gallant ei mynychu, a'r cyrsiau y gallant eu dilyn, yn seiliedig ar a oes modd diwallu eu hanghenion.[843] Gall fod yn anodd iawn i rieni gael mynediad dibynadwy, neu gael mynediad at ysgol sy'n mynd i ddiwallu anghenion y plentyn yn eu hardal nhw, meddai.[844]

**749.** Dywedodd Anabledd Dysgu Cymru y bydd rhieni'n dewis darpariaeth yn seiliedig ar y cynnig gorau sydd ar gael. Cyfeiriwyd at enghraifft o fywyd go iawn:

> *"… you could choose several primary schools and you could choose several secondary schools and most children and young people, if they want to continue with the mainstream, they're choosing one school in Merthyr Tydfil because it has a reputation amongst parents and children as being the best for supporting young people with a learning disability. But you have to do the work. … that there isn't good information out*

[840] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 291
[841] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53 Blynyddoedd Cynnar Cymru
[842] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 06 Anabledd Dysgu Cymru
[843] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 8
[844] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 82

*there. We don't have good-quality information to determine where we can go."*[845]

**750.** Dywedwyd wrthym fod llai fyth o opsiynau yn y sector arbenigol. Os cynigir lle i blentyn mewn lleoliad arbenigol, ni fydd modd mynd i'w weld cyn gwneud penderfyniad. Yn ôl un rhiant, wrth geisio gwneud dewisiadau yn y sector arbenigol, nid ydynt yn cael yr un cyfleoedd i ymweld â gwahanol leoliadau â'r rhai sy'n ystyried lleoliadau prif ffrwd:

> *"Those attending mainstream can visit a number of schools as they wish; they are not restricted access. Parents of those children can visit schools, draw comparisons between schools, make assessments on which ones best suit their childs needs and ultimately use these visits to inform their choices. Parents of disabled children have this choice removed. They are only allowed to visit facilities the panel has recommended. Parents of disabled children do not have parity."*[846]

**751.** Nododd Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant y gall ymweld â lleoliad arbenigol wneud gwahaniaeth rhwng plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n penderfynu a ydynt am fynychu ai peidio.[847]

**752.** Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrthym bod ganddynt wybodaeth anecdotaidd am deuluoedd a oedd, yn ystod y cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, yn cael eu hannog i beidio â gwneud cais, oherwydd bod yr ysgol yn canolbwyntio ar safonau, ac roedd hynny'n destun pryder mawr.[848]

**753.** Yn ogystal â diffyg dewis o ran yr ysgol y gall plentyn ddymuno ei mynychu, mae diffyg dewis hefyd o ran cyrsiau y gallant eu dilyn pan fyddant yn yr ysgol. Rhannodd Anabledd Cymru yr enghraifft o rywun yn cael gwybod ei fod ond yn gallu dilyn cyrsiau penodol oherwydd ei fod yn anabl.[849]

**754.** Yn ystod ymweliad ag ysgol, dywedodd y cyngor ysgol na all rhai o'r dysgwyr yn yr ysgol sefyll arholiadau TGAU er bod gan rai dysgwyr yn gallu i'w sefyll.[850] Clywsom farn debyg gan riant plentyn mewn ysgol wahanol, a ddywedodd ei fod

---

[845] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 155
[846] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 28 Unigolyn
[847] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 159
[848] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 98
[849] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 09 Anabledd Cymru
[850] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 18 Cyngor Ysgol

yn teimlo bod ysgol y plentyn yn darparu opsiynau TGAU i ddysgwyr mwy galluog, ond nad oedd TGAU lefel mynediad yn cael ei ystyried, a dywedodd ei fod yn teimlo bod y targedau academaidd wedi'u gosod yn rhy isel ar gyfer rhai dysgwyr.[851] Rydym eisoes wedi rhannu profiad un teulu o orfod brwydro i'w plentyn allu sefyll arholiadau TGAU yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

**755.** O ran teuluoedd yn gwybod eu holl opsiynau, clywsom am brofiad arbennig o dorcalonnus un teulu a ddaeth i wybod am ysgol arbennig ar lafar gwlad yn hytrach na thrwy'r awdurdod lleol. Roedd yr ysgol hon yn addas iawn ar gyfer ei blentyn a oedd â thiwmor ar yr ymennydd. Yn anffodus roedd yr oedi yn golygu mai dim ond am flwyddyn y gallent fynychu cyn i'r plentyn fynd yn rhy sâl. Dywedodd y rhiant wrthym am ei ofid gan ddweud y byddai cael gwybodaeth gynharach am yr opsiynau eraill a oedd ar gael wedi ei ysgogi i ymchwilio i ddewisiadau eraill a allai fod wedi bod yn well ar gyfer ei blentyn.[852]

**756.** Fel yr amlygwyd eisoes ym Mhennod 5, ceir problemau mawr mewn perthynas â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn gallu dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dywedodd UCAC fod Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn dangos nad oes "yr un lefel o ddewis" i deuluoedd sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg. Gofynnodd:

> *"Er mwyn sicrhau yr un lefel o ddewis drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, oni ddylid gosod 'dyletswydd absoliwt' i ddarparu'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar yr un lefel? Dylid cofio am Erthygl 30 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n nodi bod gan blant yr hawl i ddewis iaith."*[853]

Dywedodd Anabledd Cymru hefyd ei fod yn ymwybodol o achosion lle nad oedd addysg cyfrwng Cymraeg ar gael.[854]

**757.** Roedd y Gymdeithas Arweinwyr Colegau ac Ysgolion yn teimlo bod y cyfathrebu ynghylch dewisiadau yn dda, yn rheolaidd ac yn effeithiol.

> *"… a lot of time is spent with the young person actually ensuring that they negotiate, they make the best choices for them in*

[851] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 20 Unigolyn
[852] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a Gofal Plant? Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Mawrth 2023
[853] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 67 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
[854] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 84

> *their education, and that the barriers to those choices are minimised. I think, again, the schools do their very best to accommodate all pupils and to accommodate those pupils who have specific needs. … "*[855]

**758.** Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd:

> *"… mae'n gwbl anaddas bod rhiant neu ofalwr yn ceisio perswadio rhywun i beidio â dod i ysgol. Dyw hynny ddim yn addas. Mae angen i ni sicrhau, yn sgil y diwygiadau sydd gyda ni ar y gweill, fod pob ysgol yn hygyrch i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn sicr, pa bynnag anghenion sydd gyda nhw. Felly, dyna'r egwyddor greiddiol sydd tu cefn i'r diwygiadau yma i gyd."*[856]

## Ein barn ni

**759.** Nid yw plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael yr un dewisiadau â'u cyfoedion abl a niwronodweddiadol. Mae'r dewis yn aml wedi'i gyfyngu i'r ddarpariaeth sydd agosaf at fodloni anghenion sylfaenol, yn hytrach na'r ddarpariaeth sy'n gweddu orau i anghenion y plentyn neu'r teulu. Gall y dewis cyfyngedig hwn olygu bod plant a phobl ifanc yn cael darpariaeth nad yw'n diwallu eu holl anghenion, neu'n gorfod teithio ymhell er mwyn cael darpariaeth sy'n bodloni eu hanghenion. Rydym wedi crybwyll yr effeithiau y mae'r ddau o'r rhain yn eu cael yn yr adroddiad hwn drwyddo draw.

**760.** Mae manteision eang yn gysylltiedig â chael mynediad at ddarpariaeth yn agos i'r cartref, gan gynnwys gallu meithrin cyfeillgarwch o fewn y gymuned leol. Mae gormod o blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Cymru yn cael eu hamddifadu o hynny.

**761.** Un annhegwch amlwg iawn o ran y dewisiadau sydd ar gael i blant, pobl ifanc a theuluoedd, yw nad yw'r un opsiynau ar gael bob amser i ymweld â lleoliadau arbenigol cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â lle. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â lleoliadau prif ffrwd, lle y gall plant, pobl ifanc a theuluoedd fel arfer ymweld â nifer o leoliadau cyn gwneud penderfyniad. Mae hyn yn dangos yn glir iawn y diffyg dewis.

[855] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 185
[856] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 71

**762.** Fel yr amlinellir gennym ym Mhennod 5, mae pwysau mawr ar y sector arbenigol. Mae’r pwysau hyn yn lleihau’r dewisiadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd ymhellach. Mae’n amlwg bod angen ehangu’r ddarpariaeth i sicrhau bod mwy o ddewis ar draws y system addysg.

# 10. Pa fath o ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer gwahanol fathau o anabledd?

**763.** Yn y Bennod hon rydym yn canolbwyntio ar dystiolaeth fanwl a gawsom am gyflyrau penodol. Nid yw'r ffaith bod mathau penodol o gyflyrau wedi'u hepgor yn golygu nad ydym yn ystyried bod y rheini'n bwysig, dim ond na chawsom dystiolaeth sylweddol amdanynt fel cyflyrau unigol.

## Awtistiaeth

**764.** Gall diagnosis o awtistiaeth gael ei wneud yn ddiweddarach ym mywyd addysgol plentyn. Dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu mai'r oedran cymedrig yn y DU ar gyfer diagnosis yw 12 i fechgyn (blwyddyn 7) ac 14 i ferched (blwyddyn 9). Mae hyn yn golygu y bydd llawer o blant wedi treulio eu holl amser yn yr ysgol gynradd heb gael diagnosis.[857]

**765.** Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd

> *"With regards to Autism and Attention Deficit Hyperactivity Disorder (ADHD), in the absence of a learning disability, young people's 'behaviour' is often misunderstood and wrongly managed due to a lack of understanding of what is underlying the behaviour and how the young person is experiencing the world and their ability to communicate their experience to others. Our members report that parents may feel stigmatised and judged by other parents and teachers due to this lack of understanding."*[858]

**766.** Dywedodd y Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, yn ôl arolwg gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth y DU, fod 7 o bob 10 o blant a phobl ifanc awtistig yn teimlo nad oedd eu hathrawon yn deall digon am awtistiaeth.[859]

**767.** Dywedwyd wrthym fod angen ymwybyddiaeth ehangach o awtistiaeth, nid yn unig mewn ysgolion ond hefyd yn y gymdeithas ehangach. Dywedodd rhieni

[857] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 76 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
[858] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 45 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, paragraff 8
[859] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 76 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

fod eu plant yn cael eu heithrio o gyfleoedd cymdeithasol ehangach fel partïon a chysgu dros nos, er eu bod yn ysu am gael eu cynnwys a'u derbyn.[860]

## Anableddau synhwyraidd

**768.** Effaith diffyg cymorth i blant a phobl ifanc ag amhariad ar y synhwyrau oedd wrth wraidd ein penderfyniad i ymgymryd â'r gwaith hwn. Ar y cychwyn, roeddem yn arbennig o bryderus am yr effaith ar blant a phobl ifanc byddar a dall a rhannol ddall.

### Plant a phobl ifanc byddar

**769.** O blith y 2,239 o blant byddar yng Nghymru, mae 81% yn mynychu ysgolion prif ffrwd, mae 10% yn mynychu ysgolion arbennig; 9% yn mynychu ysgolion prif ffrwd gyda darpariaethau adnoddau, 1% yn cael eu haddysgu yn y cartref; a llai nag 1% yn mynychu ysgolion arbennig ar gyfer plant byddar (sydd y tu allan i Gymru). Mae NDCS Cymru yn pryderu am y gostyngiad yn y ddarpariaeth, gan ddweud y gwelwyd gostyngiad o 24 darpariaeth yn 2019 i 19 yn 2023. Dywedodd fod hyn yn golygu, ar gyfartaledd, bod un ddarpariaeth ar gyfer pob 122 o blant byddar.[861]

**770.** Dywedodd NDCS Cymru wrthym:

> *"The general service offer to deaf children across Wales varies and this is often related to different sizes of particular services and integration of the workforce. We would like to see a model in Wales where resourcing meets deaf children's needs, rather than need being provided for based on the resourcing available. This includes access to early years education and childcare."*[862]

**771.** Clywsom nad oes ysgol ar gyfer y byddar yng Nghymru ar hyn o bryd, a bu gostyngiad hefyd mewn unedau cymorth arbenigol[863] ac yn y niferoedd o Athrawon Plant Byddar.[864] Hefyd, roedd gan NDCS Cymru[865] a Chyngor Cymru i

[860] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymweliad ag ASD Rainbows, 9 Hydref 2023, paragraff 19
[861] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 42 Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru
[862] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 23 Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru
[863] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad Rhanddeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraff 45
[864] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 213
[865] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 23 Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru

Bobl Fyddar[866] bryderon y byddai traean o'r Athrawon Plant Byddar presennol yn ymddeol yn y 10 mlynedd nesaf.

**772.** Dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc byddar yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau prif ffrwd lle nad oes cymorth arbenigol ar eu cyfer yn aml.[867] Dywedodd NDCS Cymru nad oedd hawliau plant byddar o dan CCUHP yn cael eu bodloni, a'u bod yn cael cam. Roedd pryderon y gall lleoliadau prif ffrwd ddibynnu'n fawr ar staff cymorth cyfathrebu arbenigol, ac os bydd y staff hyn yn gadael na fyddai neb yn cymryd eu lle. Gall y ddwy sefyllfa hyn wneud i blant a phobl ifanc deimlo'n ynysig ac wedi'u hallgáu. [868]

**773.** Galwodd NDCS Cymru am gynnydd yn nifer yr Athrawon Plant Byddar. [869] Galwad a gefnogir gan Gyngor Cymru i Bobl Fyddar. [870]

**774.** Galwodd NDCS Cymru hefyd ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth gweithlu Athrawon Plant Byddar Cymru gyfan. Fel rhan o hyn roedd am weld camau eraill yn cael eu cymryd i gynyddu niferoedd, gan gynnwys cyllid bwrsariaeth, a chyllid ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Roedd am weld cynnydd yn y galw am Athrawon Plant Byddar. Mae'n pryderu oherwydd y niferoedd o blant byddar yn fach ond bod yr anghenion yn sylweddol, nad yw comisiynwyr yn deall yn iawn pa gymorth y gallai fod ei angen ar blant byddar. Roedd yn galw am gymell comisiynwyr a gwasanaethau i recriwtio Athrawon Plant Byddar. Roedd hefyd yn galw ar Estyn i gymryd diddordeb arbenigol yn y materion hyn fel ffordd o gynyddu'r galw.[871]

## Plant dall a rhannol ddall

**775.** Dywedodd Cŵn Tywys Cymru mai un o'r problemau allweddol oedd bod plant a phobl ifanc sy'n ddall neu'n rhannol ddall yn grŵp bach ond â lefel uchel o anghenion. Dywedodd fod tua 1,663 o blant yn hysbys i awdurdodau lleol yng Nghymru.[872]

**776.** Yn ôl RNIB Cymru, oherwydd hynny, yn aml nid oes dealltwriaeth dda o anghenion o fewn ysgol ac ychydig iawn o brofiad, os o gwbl, fydd gan y staff.

[866] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 16 Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
[867] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Digwyddiad Rhanddeiliaid (rhithwir), 27 Medi 2023, paragraff 49
[868] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 42 Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru
[869] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 213
[870] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 16 Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
[871] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 23 Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru
[872] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 216

Roedd yn pryderu nad oes digon o adnoddau gan awdurdodau lleol i ddarparu mewnbwn arbenigol, a heb hyn, gall plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl. Dywedodd wrthym:

> *"Whilst there is evidence demonstrating how specialist education can improve outcomes for children and young people with vision impairment, there is also consistent evidence highlighting what can go wrong when denied access to the support they need."*[873]

**777.** Pwysleisiodd RNIB Cymru[874] a Cŵn Tywys Cymru ill dau bwysigrwydd arbenigwyr galluogi. Cododd Cŵn Tywys Cymru bryderon ynghylch faint o blant a phobl ifanc sy'n gallu cael mynediad at y cymorth arbenigol hwn. Mae'r ganran yn amrywio o lai na 9 y cant i 48 y cant. Dywedodd fod hwn yn wahaniaeth enfawr a chododd bryderon hefyd am yr amseroedd aros sy'n amrywio o wythnos i 12 mis.[875] Roedd gan RNIB Cymru bryderon hefyd am yr amrywiadau mewn ymarfer ac anghydraddoldebau daearyddol eang.[876]

**778.** Rhannodd Cŵn Tywys Cymru enghraifft o'r loteri cod post, gyda phlentyn mewn un awdurdod lleol nad oedd yn cael cymorth arbenigol, ac o ganlyniad a oedd ar ei hôl hi gyda'i waith ysgol.

> *"If he lived 2 miles away, he would get support from the gold standard Sensory & Communication Support Service (SenCom) … . To quote his mum "Why should he suffer because he is vision impaired and doesn't live in the right local authority"."*[877]

Roedd yn galw am sicrhau bod y model rhanbarthol fel SenCom ar gael yn ehangach, gan y gall hyn helpu i liniaru'r prinder darparwyr arbenigol mewn rhai awdurdodau lleol.[878]

**779.** Tynnodd Cŵn Tywys Cymru sylw at fframwaith y cwricwlwm ar gyfer plant a phobl ifanc ag amhariad ar eu golwg a luniwyd ganddo ar y cyd ag ystod o randdeiliaid. Roedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymeradwyo hyn yn ogystal â chyfeirio ato mewn polisïau ADY, a'i ymgorffori mewn fframweithiau comisiynu a

[873] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 47 RNIB Cymru
[874] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 47 RNIB Cymru
[875] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 251 - 252
[876] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 47 RNIB Cymru
[877] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 62 Cŵn Tywys Cymru
[878] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 62 Cŵn Tywys Cymru

darparu gwasanaethau lleol, ac, yn olaf, i bob lleoliad addysgol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc â nam ar y golwg a'u teuluoedd ei ddilyn mewn partneriaeth ag arbenigwyr llygaid.[879] Cafwyd yr un alwad gan RNIB Cymru hefyd. Dywedodd y byddai'r Fframwaith yn galluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddatgloi a defnyddio'r cymorth a'r addysg angenrheidiol.[880]

## Diabetes

**780.** Diabetes yw un o'r mathau mwyaf cyffredin o salwch cronig ymysg plant yn y DU. Mae'n effeithio ar 1 o bob 250 o blant, a diabetes math 1 yw'r math mwyaf cyffredin ymysg plant.[881] Dywedodd Diabetes UK Cymru fod gan tua 1,400 o blant a phobl ifanc yng Nghymru ddiabetes Math 1. Dywedodd hefyd na fydd anghenion pawb sy'n byw gyda diabetes yr un fath, sy'n golygu bod yn rhaid i ysgolion ymateb i anghenion unigol pob plentyn.[882]

**781.** Tynnodd Diabetes UK Cymru sylw at faterion penodol sy'n ymwneud â diabetes a all rwystro mynediad cyfartal i addysg. Roedd y rhain yn cynnwys prydau ysgol. Yn aml nid yw teuluoedd yn cael gwybodaeth ymlaen llaw am y caloriau a'r carbohydradau sydd mewn prydau bwyd, sy'n hanfodol i reoli diabetes. Dywedodd fod hyn yn golygu bod plant a phobl ifanc yn aml yn dueddol o ddod â phecynnau bwyd gyda nhw sy'n tanseilio cynlluniau fel prydau ysgol am ddim.[883]

**782.** Rhannodd Prifysgol Caerdydd ei hymchwil sydd wedi edrych ar y cysylltiadau rhwng diabetes Math 1 a chyflawniad addysgol plant. Mae'r ymchwil hwn wedi dangos bod llawer o blant â diabetes yn dioddef achosion o wahaniaethu oherwydd eu hanabledd, sydd wedyn yn effeithio ar eu presenoldeb, eu profiad ysgol a'u rhagolygon ar gyfer y dyfodol.[884]

**783.** O ran y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n wynebu'r heriau mwyaf o ran cynnal lefel y siwgr yn y gwaed o fewn yr ystod orau, roedd hefyd yn gweld lefelau cyrhaeddiad a phresenoldeb sylweddol waeth a llawer llai o debygolrwydd o fynd ymlaen i addysg uwch.[885] Mae ei hymchwil wedi dangos rhai digwyddiadau brawychus y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu, gan gynnwys:

[879] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 263
[880] Tystiolaeth Ysgrifenedig, AEC 47 RNIB Cymru
[881] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 44 WISERD, Prifysgol Caerdydd
[882] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 68 Diabetes UK Cymru
[883] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 68 Diabetes UK Cymru
[884] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 44 WISERD, Prifysgol Caerdydd
[885] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 44 WISERD, Prifysgol Caerdydd

> *"I had a supply teacher for one lesson, and I really need the toilet. I asked them. I said it's on my medical card that I'm allowed to go to the toilet because I've got diabetes, but she didn't believe that I had diabetes. I showed them my Libre (Glucose Monitoring System), and I showed them my card and they checked the school system, and they still didn't believe me." (Person ifanc, 16 oed)*
>
> *"High blood sugars can make me thirsty sometimes, and I just finished my water bottle, and I said can I go and get a drink of water? And the teacher said, 'No you are not allowed.' So, I showed my medical card and she said that you can't use your medical card for excuses. You're just using it in the wrong way." (Person ifanc, 16 oed)*
>
> *"I had a PE teacher who shamed me for drinking full sugar coke when I was hypo. They said that's the reason I have diabetes, when I was actually treating my hypo." (Person ifanc, 16 oed)"* [886]

**784.** Tynnwyd sylw at y ffaith bod diffyg ymwybyddiaeth neu hyfforddiant athrawon yn cael effaith sylweddol ar sut y mae plant yn gallu rheoli eu hanghenion meddygol tra byddant yn yr ysgol. Er enghraifft, pan oedd angen i blant a phobl ifanc adael ystafell ddosbarth er mwyn rheoli eu diabetes, dywedodd llawer o blant fod hyn yn cael ei anwybyddu, neu eu bod wedi cael eu disgyblu am ofyn am adael y dosbarth. Gall y dull "gwrthwynebol" hwn beri i blant a phobl ifanc beidio â gofyn am help, neu deimlo cywilydd ynglŷn â gwneud hynny. O ganlyniad, mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n rhwystredig ac yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi.[887]

**785.** O ganlyniad i'w hymchwil, galwodd Prifysgol Caerdydd am nifer o newidiadau:

> *"· Schools, local authorities, and health services should work together to support both the child's health needs and their education needs, particularly for children who were already struggling with their education prior to a diagnosis of diabetes, to avoid the double disadvantage of reduced health and*

[886] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 44 WISERD, Prifysgol Caerdydd
[887] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 44 WISERD, Prifysgol Caerdydd

*education outcomes as the young person enters the transition to adulthood.*

*• Paediatric diabetes teams should be resourced to provide training and support to schools to ensure that school staff have the skills and confidence they need to support children.*

*• Local authorities should support schools which do not have a sufficient 'Medical Conditions Policy' to make this available and ensure they are updated annually.*

*• Estyn should evaluate how effectively schools and educational settings are implementing the statutory guidance as part of their inspection process.*

*• Schools need to ensure that there are sufficient numbers of fully trained staff to support children to manage their diabetes, including for periods of staff illness and school trips.*

*• Local authorities should support schools to ensure that every child with diabetes has an individual healthcare plan, which details exactly what their needs are and who will help them. • Schools must ensure that every child with diabetes is fully supported to manage their condition in public or private spaces within the school, depending on their wishes."*[888]

**786.** Roedd hefyd yn galw am roi Cynllun Cyflawni ar gyfer Diabetes Llywodraeth Cymru 2016-2020 ar waith yn llawn ar lefel leol gyda hyfforddiant a pholisïau ategol ar waith i adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc â diabetes. Mae'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys camau gweithredu penodol mewn perthynas ag addysg, gan gynnwys sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i gefnogi plant a phobl ifanc, a bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi'n briodol fel y gallant gael mynediad at bob agwedd ar addysg.[889]

**787.** Dywedodd Diabetes UK Cymru ei fod am weld cefnogaeth glir a digonol wedi'i ariannu. Roedd hefyd am sicrhau nad oedd plant a phobl ifanc â diabetes yn cael eu heithrio o unrhyw agwedd ar fywyd yr ysgol. Galwodd am sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc â diabetes yn cael cynllun gofal iechyd unigol, ond y

[888] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 44 WISERD, Prifysgol Caerdydd
[889] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 44 WISERD, Prifysgol Caerdydd

dylai holl staff yr ysgol wybod beth i'w wneud mewn argyfwng, ac y dylai rhai aelodau o staff fod wedi cael hyfforddiant penodol ar ddiabetes.[890]

## Ein barn ni

**788.** Er bod llawer o'r materion yr ydym wedi'u hystyried fel rhan o'r gwaith hwn wedi bod yn rhai cyffredinol a'r un fath waeth beth fo'r mathau gwahanol o gyflyrau neu anghenion, codwyd rhai materion penodol. Er ein bod yn credu y byddai gweithredu'r holl argymhellion a wnawn yn gwella mynediad a chanlyniadau i bob plentyn a pherson ifanc yn sylweddol, mae rhai meysydd y credwn y mae angen eu targedu. Hoffem ailbwysleisio pwysigrwydd darparu hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth i'r holl staff addysg, a darparu'r capasiti a'r adnoddau iddynt gael mynediad at hyfforddiant ychwanegol penodol yn ôl yr angen.

**789.** Rydym yn rhannu'r pryderon ynghylch prinder athrawon arbenigol a staff cymorth eraill a all gefnogi plant a phobl ifanc byddar, trwm eu clyw, dall neu'r rhai ag amhariad ar eu golwg. Mae nifer yr athrawon arbenigol yn lleihau'n gyflym a gwelwyd gostyngiad o 20% mewn Athrawon Plant Byddar dros y 10 mlynedd diwethaf, ac nid oes gan 12 awdurdod lleol unrhyw athro cymwysedig ar gyfer y rhai ag amhariad ar eu golwg. Mae'r ddarpariaeth anghyson hon yn creu loteri cod post i blant a phobl ifanc gael mynediad at addysg sy'n diwallu eu hanghenion. Rydym yn pryderu nad oes digon o ffocws ar sicrhau bod gennym ddigon o staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i lenwi'r bylchau hyn.

**Argymhelliad 32.** Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun cyflawni clir ar gyfer mynd i'r afael â bylchau mewn swyddi addysgu arbenigol, ar gyfer Athrawon Plant Byddar, ac Athrawon Plant ag Amhariad ar eu Golwg, er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at y cymorth hwn pan fydd ei angen arnynt. Dylai'r cynllun cyflawni hwn gynnwys targedau, amcanion ac amserlenni clir fel y gellir ei fonitro a chraffu arno.

[890] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 68 Diabetes UK Cymru

# Atodiad 1: Rhestr o weithgareddau ymgysylltu.

Cynhaliodd y Pwyllgor weithgareddau ymgysylltu. Gellir gweld crynodeb o ganfyddiadau'r gweithgareddau ar wefan y Pwyllgor.

## Ymweliadau ag ysgolion

| Dyddiad | |
|---|---|
| **29 Mehefin 2023** | Ysgol Heol Goffa, Llanelli<br>Ysgol Bryn Derw, Casnewydd<br>Ysgol Hafod Lon, Parc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth (Ysgol Arbennig) |
| **4 Rhagfyr 2023** | Ysgol Gyfun Trefynwy, Canolfan Adnoddau Arbenigol |

## Digwyddiadau ymgysylltu eraill

| Dyddiad | |
|---|---|
| **3 Mai 2023** | **Cyfarfod ag Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru**<br>Ella Kenny, Dwyrain Abertawe<br>Georgia Miggins, Gorllewin De Cymru<br>Ellis Peares, Canol Caerdydd<br>Fatmanur Aksoy, Dwyrain Casnewydd<br>Tegan Davies, Torfaen |
| **15 Medi 2023** | Sparkle, Canolfan Serennu – grŵp ffocws<br>Oakhill ASD Childcare - grŵp ffocws |
| **9 Hydref 2023** | Ymweliad ag ASD Rainbows, Aberpennar |
| **Mai – Medi 2023** | Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion 40 o sesiynau ymgysylltu gyda rhieni, gofalwyr ac o bryd i'w gilydd plant. |
| **Tachwedd 2023 – Hydref 2024** | Sefydlwyd grŵp cynghori ar-lein hefyd i drafod y dystiolaeth a gafwyd. Bydd yn cyfarfod bum gwaith yn ystod yr ymchwiliad i fwydo i mewn i'r ymchwiliad. |

# Atodiad 2: Rhestr o fynychwyr yn y digwyddiad rhanddeiliaid

Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad grŵp trafod i randdeiliaid. Gellir gweld crynodeb o ganfyddiadau'r digwyddiad ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Organisation |
|---|---|
| **27 Medi 2023** | Long Covid Kids<br>Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar<br>Mencap<br>BATOD<br>Cŵn Tywys Cymru<br>SNAP Cymru<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Fragile X Society<br>Sparkle<br>Wales Dyslexia |

# Atodiad 3: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 18 Mai 2023 | **Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru**<br>**Sara Jermin, Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad,** Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru<br>**Ruth Coombs, Pennaeth Cymru,** Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru |
| 7 Mehefin 2023 | **Kat Watkins, Swyddog Datblygu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau,** Anabledd Cymru<br>**Megan Thomas, Swyddog Polisi ac Ymchwil,** Anabledd Cymru<br>**Zoe Richards, Prif Swyddog Gweithredol,** Anabledd Dysgu Cymru<br>**Adele Rose Morgan, Ymgyrchydd addysg gynhwysol,** Anabledd Dysgu Cymru<br>**Georgia Miggins,** Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru<br>**Karen McFarlane, Swyddog Polisi: Tlodi a Phlant sy'n Agored i Niwed, Plant yng Nghymru a Chadeirydd Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector,** Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector<br>**Francesca Wright, Prif Swyddog Cynorthwyol,** Snap Cymru<br>**Cath Lewis, Rheolwr Polisi ac Ymgyrchoedd,** Cŵn Tywys Cymru<br>**Chris Haines, Rheolwr Materion Allanol,** Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth<br>**George Baldwin, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd Cymru,** Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar<br>**Gwen Anslow,** Fforwm Cymru Gyfan |

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **12 Hydref 2023** | **Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr,**<br>Mudiad Meithrin<br>**Claire Protheroe, Pennaeth Contractau a Phrosiectau,**<br>Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>**Sarah Coates, Rheolwr Gweithrediadau Cenedlaethol (Cymru),**<br>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd<br>**Andrea Wright, Rheolwr Arweiniol,**<br>Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>**Jane O'Toole, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Clybiau Plant Cymru<br>**Yr Athro Jonathan Rix, Athro Cyfranogiad a Chymorth Dysgu,**<br>Y Brifysgol Agored |
| **25 Hydref 2023** | **Sharon Davies, Pennaeth Addysg,**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Catherine Davies, Swyddog Polisi ADY,**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,**<br>Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br>**Liz Jones Arweinydd Cynhwysiant Cyngor Bro Morgannwg,**<br>Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br>**Catherine Falcus, Arbenigwr Polisi ac Arweinyddiaeth,**<br>Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru<br>**Mike O'Neill, Aelod o Fforwm Trefnu'r Undeb Addysg Cenedlaethol, a chynrychiolydd yr Undeb Addysg Cenedlaethol ar gyfer Merthyr,**<br>Yr Undeb Addysg Cenedlaethol<br>**Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol,**<br>Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru<br>**Urtha Felda, Swyddog Polisi a Gwaith Achos,**<br>Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau |
| **16 Tachwedd 2023** | **David Davies, Arweinydd Ymarfer Proffesiynol Cymru,**<br>Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol<br>**Pippa Cotterill, Pennaeth Swyddfa Cymru,**<br>Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith |

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| | **Leanne Evans, Nyrs Ysgol,**<br>Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru<br>**Dr Abigail Wright, Uwch-seicolegydd Addysg Blynyddoedd Cynnar Arbenigol ac Arweinydd Seicoleg Addysgol Cymru Cymdeithas Seicolegol Prydain,**<br>Cymdeithas Seicolegol Prydain<br>**Dr Nick Wilkinson,**<br>Swyddog Cymru, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant<br>**Dr Claire Campbell,**<br>Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu |

# Annex 4: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **AEC 01** | Comisiynydd Plant Cymru |
| **AEC 02** | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| **AEC 03** | Unigolyn |
| **AEC 04** | Unigolyn |
| **AEC 05** | Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector |
| **AEC 06** | Anabledd Dysgu Cymru |
| **AEC 07** | Unigolyn |
| **AEC 08** | Unigolyn |
| **AEC 09** | Anabledd Cymru |
| **AEC 10** | Unigolyn |
| **AEC 11** | Unigolyn |
| **AEC 12** | Unigolyn |
| **AEC 13** | Ddim i'w gyhoeddi |
| **AEC 14** | Unigolyn |
| **AEC 15** | Unigolyn |
| **AEC 16** | Cyngor Cymru i Bobl Fyddar |
| **AEC 17** | Darlithydd mewn Seicoleg, Prifysgol Abertawe |
| **AEC 18** | Cyngor ysgol |
| **AEC 19** | Unigolyn |
| **AEC 20** | Unigolyn |
| **AEC 21** | Unigolyn |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **AEC 22** | Unigolyn |
| **AEC 23** | Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru |
| **AEC 24** | Therapi Galwedigaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| **AEC 25** | Amy Griffiths |
| **AEC 26** | Ddim i'w gyhoeddi |
| **AEC 27** | Ddim i'w gyhoeddi |
| **AEC 28** | Unigolyn |
| **AEC 29** | Unigolyn |
| **AEC 30** | Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol |
| **AEC 31** | Unigolyn |
| **AEC 32** | Dr Rhiannon Packer, Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **AEC 33** | Unigolyn |
| **AEC 34** | Unigolyn |
| **AEC 35** | Whizz Kidz |
| **AEC 36** | Janet Kelly, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Sparkle |
| **AEC 37** | Chwarae Cymru |
| **AEC 38** | Natspec |
| **AEC 39** | Platfform |
| **AEC 40** | Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru |
| **AEC 41** | Aros am awdurdodiad i gyhoeddi |
| **AEC 42** | Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru |
| **AEC 43** | Clybiau Plant Cymru Kid's Clubs |
| **AEC 44** | Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD), Prifysgol Caerdydd |
| **AEC 45** | Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith |
| **AEC 46** | Sefydliadau cerddoriaeth a'r celfyddydau |
| **AEC 47** | RNIB Cymru |
| **AEC 48** | Estyn |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **AEC 49** | Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (Cymru) |
| **AEC 50** | Triniaeth Deg i Fenywod Cymru |
| **AEC 51** | Mudiad Meithrin |
| **AEC 52** | Y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol |
| **AEC 53** | Blynyddoedd Cynnar Cymru |
| **AEC 54** | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| **AEC 55** | Fforwm Rhieni-Ofalwyr Abertawe |
| **AEC 56** | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru |
| **AEC 57** | Oxfam Cymru |
| **AEC 58** | Cymdeithas Seicolegol Prydain |
| **AEC 59** | Auditory Verbal UK |
| **AEC 60** | Unigolyn |
| **AEC 61** | Unigolyn |
| **AEC 62** | Cŵn Tywys Cymru |
| **AEC 63** | Unigolyn |
| **AEC 64** | Ddim i'w gyhoeddi |
| **AEC 65** | Unigolyn |
| **AEC 66** | Joining the Dots Parents and Carers |
| **AEC 67** | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru |
| **AEC 68** | Diabetes UK Cymru |
| **AEC 69** | Cyd-undebau llafur |
| **AEC 70** | Unigolyn |
| **AEC 71** | Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru |
| **AEC 72** | Unigolyn |
| **AEC 73** | Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru |
| **AEC 74** | Unigolyn |
| **AEC 75** | Unigolyn |
| **AEC 76** | Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu |
| **AEC 77** | Llywodraeth Cymru |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **AEC 78** | Heledd Fychan AS "Brwydr Barhaus: Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Dysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru" |
| **AEC 79** | Unigolyn |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector | 16 Mehefin 2023 |
| Ymateb ar y cyd gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg | 19 Mehefin 2023 |
| Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru | 20 Mehefin 2023 |
| Anabledd Cymru | 27 Mehefin 2013 |
| Comisiynydd y Gymraeg | 26 Gorffennaf 2023 |
| Undeb Addysg Cenedlaethol | 25 Hydref 2023 |
| Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol a Chymdeithas Seicolegol Prydain | 24 Tachwedd 2023 |
| Cŵn Tywys Cymru | 17 Ionawr 2024 |